# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 26/11/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Ysbyty Tywysog Philip
Urgent Question: Prince Philip Hospital

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor
Motion to Elect a Member to a Committee

Datganiad: Ymateb Llawn Llywodraeth y DU i Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddiwygio Ariannol
Statement: The UK Government's Full Response to the Silk Commission's Report on Financial Reform

Datganiad: Adolygiad Hill: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol
Statement: Hill Review: Future Delivery of Education Services in Wales

Datganiad: Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd
Statement: The Marine and Fisheries Strategic Action Plan

Datganiad: Y Cynnydd o ran Cyflwyno Strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel'
Statement: Progress on Delivering 'The Right to be Safe' Strategy

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013
The Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 and the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013

Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) 2013
The Local Government (Wales) Measure 2011 (Modification of Enactments and Other Provisions) Order 2013

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Gofal a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Gofal
Legislative Consent Motion on the Care Bill and Supplementary Legislative Consent Motion on the Care Bill

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Eithriad ASBO
Supplementary Legislative Consent Motion on the Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of the ASBO Exception

Y Manteision i Gymru i'r DU Barhau i fod yn Aelod o'r Undeb Ewropeaidd
The Benefits to Wales of the UK's Continued Membership of the European Union

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Sector Treftadaeth Cymru

### The Welsh Heritage Sector

13:30

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo sector treftadaeth Cymru? OAQ(4)1365(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's commitment to promoting the Welsh heritage sector? OAQ(4)1365(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The programme for government and, in particular, our historic environment strategy outline our commitment to support and promote the Welsh heritage sector, at home and abroad.

Mae'r rhaglen ar gyfer llywodraethu ac, yn benodol, ein strategaeth amgylchedd hanesyddol yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo sector treftadaeth Cymru, gartref a thramor.

13:30 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the First Minister very much for that answer. As colleagues around the Chamber will be aware, we are once again approaching the commemoration of the assassination of Llywelyn ap Gruffydd, 'ein Llyw Olaf', in the village of Cilmeri in my region, on 11 December 1282. As you may know, the standing stone and memorial is within the stewardship of Powys County Council, which has undertaken a range of health and safety works in recent times. However, there is a need for some enhanced signage on the A483, and other interpretation works. First Minister, will you consider directing Cadw to work in partnership with Powys County Council, and with Cilmeri Community Council, to bring forward these works, befitting a memorial of national significance?

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Fel y bydd cydweithwyr o gwmpas y Siambr yn ymwybodol, rydym unwaith eto yn agosáu at ddiwrnod coffa llofruddiaeth Llywelyn ap Gruffydd, 'ein Llyw Olaf', ym mhentref Cilmeri yn fy rhanbarth i, ar 11 Rhagfyr 1282. Fel y gwyddoch efallai, mae'r maen hir a'r gofeb dan stiwardiaeth Cyngor Sir Powys, sydd wedi cyflawni amrywiaeth o waith iechyd a diogelwch yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae angen gwell arwyddion ar yr A483, a gwaith dehongli arall. Brif Weinidog, a wnewch chi ystyried cyfeirio Cadw i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, a chyda Chyngor Cymuned Cilmeri, i symud ymlaen â'r gwaith hwn, fel sy'n briodol ar gyfer cofeb o arwyddocâd cenedlaethol?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

This issue has been raised before in the Chamber. As the Member says, the memorial at Cilmeri is not in the ownership of the Welsh Government. However, it is nevertheless important that all parties, including the council and Cadw, work together to ensure that the memorial is well maintained, as we remember the events of the battle of Irfon bridge and the actions of Stephen de Frankton—if I remember rightly—who is the Norman knight who is said to have done the deed.

Mae'r mater hwn wed i'i godi yn y Siambr o'r blaen. Fel y mae'r Aelod yn ei ddweud, nid yw'r gofeb yng Nghilmeri ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig serch hynny bod yr holl bartïon, gan gynnwys y cyngor a Cadw, yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y gofeb yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, wrth i ni gofio digwyddiadau brwydr pont Irfon a gweithredoedd Stephen de Frankton—os cofiaf yn iawn—sef y marchog Normanaidd y dywedir iddo gyflawni'r weithred.

13:32 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I wonder what your views are on seeking the return to Wales of items that are important to our heritage. You may have picked up on my remarks earlier this year about the investiture regalia, and perhaps you know something about my colleague Byron Davies's campaign regarding the Red Lady of Paviland. Therefore, I was wondering what your Government will do to help museums across Wales with the conditions that are necessary to help bring back—or repatriate—items to Wales. What will you do for the conditions in those museums to make sure that those items are able to be kept here?

Brif Weinidog, rwy'n meddwl tybed beth yw eich barn ar geisio dychwelyd eitemau sy'n bwysig i'n treftadaeth i Gymru. Efallai y byddwch wedi clywed fy sylwadau'n gynharach eleni am regalia'r arwisgiad, ac efallai y byddwch yn gwybod rhywbeth am ymgyrch fy nghydweithiwr Byron Davies ynghylch Menyw Goch Pen-y Fai. Felly, roeddwn i'n meddwl tybed beth y bydd eich Llywodraeth yn ei wneud i helpu amgueddfeydd ledled Cymru gyda'r amodau sy'n angenrheidiol i helpu i ddod ag eitemau yn ôl i Gymru, neu eu dadalltudio. Beth fyddwch chi'n ei wneud am yr amodau yn yr amgueddfeydd hynny i wneud yn siŵr y gellir cadw'r eitemau hynny yma?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are more than happy, of course, to work with our museums and galleries to seek the return of items that are originally from Wales. You mentioned the Red Lady of Paviland, which is, of course, misnamed, because the red lady was in fact a man. Nevertheless, the first example of human habitation, and ritual, was found at Paviland cave in the Gower. Where there are examples of where such items can be returned to Wales, we are happy to work with all the relevant authorities to see whether that can be done.

Rydym yn fwy na hapus, wrth gwrs, i weithio gyda'n hamgueddfeydd ac orielau i geisio dychwelyd eitemau sydd yn wreiddiol o Gymru. Soniasoch am Fenyw Goch Pen-y-Fai, sydd, wrth gwrs, wedi ei henwi'n anghywir, gan mai dyn oedd y fenyw goch mewn gwirionedd. Serch hynny, canfuwyd yr enghraifft gyntaf o annedd, a defodau, dynol, yn ogof Pen-y Fai yng Ngŵyr. Pan fydd enghreifftiau lle y gellir dychwelyd eitemau o'r fath i Gymru, rydym yn hapus i weithio gyda'r holl awdurdodau perthnasol i weld a ellir gwneud hynny.

13:33 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, yn y misoedd diwethaf, rydym wedi clywed nifer cynyddol o adroddiadau ynglŷn â throseddau treftadaeth, yn enwedig gan ddatblygwyr nad ydynt efallai yn deall y cysyniad o adfer treftadaeth pan maen nhw'n gwneud datblygiadau newydd. Tybed a fydd unrhyw beth o fewn y Bil treftadaeth a fydd yn eich galluogi chi i edrych mewn i'r mater hwn, oherwydd rydym yn credu ei bod yn bwysig bod nifer o'r pethau yn ein hardaloedd lleol yn cael eu hadfer, ac yn cael eu hadfer yn iawn.

First Minister, over the past few months, we have seen an increasing number of reports in terms of heritage crimes, particularly by developers who perhaps do not understand the concept of heritage when they are undertaking new developments. I wonder if there is anything within the heritage Bill that would allow you to look into this issue, because we believe that it is important that many of the sites in our local areas are restored, and restored properly.

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Bydd. Bydd y Bil ei hun yn ystyried y broblem hon. Gwelais enghraifft o hyn am y tro cyntaf yng nghyd-destun ysbyty Dinbych, lle nad yw'r perchnogion yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei edrych ar ei ôl, ac y mae felly berygl y bydd yr adeilad yn cael ei golli i'r gymuned. Felly, fe fydd y Bil yn ystyried ym mha ffyrdd y gallwn gryfhau deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau treftadaeth yng Nghymru yn cael eu gwarchod yn y ffordd y byddem i gyd eisiau iddynt gael eu gwarchod.

Yes, the Bill will consider this problem. I saw this for the first time in relation to Denbigh hospital, where the owners have not ensured that the building is looked after, and therefore there is a danger that the building will be lost to the community. So, the Bill will consider in what ways we can strengthen legislation in order to ensure that our heritage resources in Wales are protected in the way that we would all want them to be protected.

## System Cyfiawnder Troseddol

## The Criminal Justice System

13:34 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y system cyfiawnder troseddol? OAQ(4)1368(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on any discussions he has had with the UK Government regarding the criminal justice system? OAQ(4)1368(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have had various discussions, via correspondence, with the UK Government on a number of issues regarding the criminal justice system, such as, for example, the new prison in the north, the transforming rehabilitation agenda, and a number of other criminal justice matters. The Counsel General and, of course, the Minister have also had their own correspondence.

Rwyf wedi cael trafodaethau amrywiol, trwy ohebiaeth, gyda Llywodraeth y DU ar nifer o faterion yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, fel, er enghraifft, y carchar newydd yn y gogledd, yr agenda gweddnewid adsefydlu, a nifer o faterion cyfiawnder troseddol eraill . Mae'r Cwnsler Cyffredinol ac, wrth gwrs, y Gweinidog wedi cynnal eu gohebiaeth eu hunain hefyd.

13:34 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that, First Minister. As you know, yesterday, Lord Stevens published his report on the future of policing in England and Wales, which was, of course, commissioned by the Labour Party. It recommends, among other things, the abolition of the police commissioners. Bring that on, please. I wonder if you can tell us what submission you made to the commission and whether, as a Government, you have a position on his suggestion that there be either one force for England and Wales or a national force of its own for Wales.

Diolch ichi am hynna, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, cyhoeddodd yr Arglwydd Stevens ei adroddiad ar ddyfodol plismona yng Nghymru a Lloegr ddoe, a gomisiynwyd, wrth gwrs, gan y Blaid Lafur. Mae'n argymell, ymhlith pethau eraill, diddymu comisiynwyr heddlu. Gofalwch bod hynny'n digwydd, os gwelwch yn dda. Tybed a allwch chi ddweud wrthym pa sylwadau a wnaethpwyd gennych i'r comisiwn ac a oes gennych chi, fel Llywodraeth, farn ar ei awgrym y dylid cael naill ai un heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr neu heddlu cenedlaethol ei hun i Gymru.

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

'Neither', I think is the position that we would take at this moment in time. First of all, the idea of an England and Wales force would not sit with our stated view of seeing the devolution of policing. Secondly, the idea of one single Welsh force carries its own controversies, as a number of us in this Chamber will remember from some 10 or 12 years ago when this was discussed. The Welsh Government's position can be best outlined by saying that we would want to see the devolution of policing in terms of the structure of the police forces in Wales in the future. That is something to be considered at a time that is appropriate.

'Y naill na'r llall', yw'r safbwynt y byddem ni'n ei gymryd ar hyn o bryd rwy'n credu. Yn gyntaf oll, ni fyddai'r syniad o heddlu Cymru a Lloegr yn cyd-fynd â'n safbwynt a fynegwyd o ddatganoli plismona. Yn ail, mae dadleuon yn gysylltiedig â'r syniad o un heddlu i Gymru hefyd, fel y bydd nifer ohonom yn y Siambr hon yn ei gofio o ryw 10 neu 12 mlynedd yn ôl pan drafodwyd hyn. Y ffordd orau o amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru yw trwy ddweud y byddem eisiau gweld plismona'n cael ei ddatganoli o ran strwythur heddluoedd yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth i'w ystyried ar adeg briodol.

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The First Minister will know how important restorative justice is as part of the criminal justice system. Will he join me in paying tribute to the work done by Victim Support? The charity particularly comments that victims tell them that they want to see offenders punished and that they do not want to see their offender commit another crime. Victim Support's work shows that when restorative justice is planned around the victim's wishes, it helps them to move on with their lives and can reduce crime by getting offenders to appreciate the impact of their actions. First Minister, will you join me in recognising the good work done by this charity?

Bydd y Prif Weinidog yn gwybod pa mor bwysig yw cyfiawnder adferol fel rhan o'r system cyfiawnder troseddol. A wnaiff ef ymuno â mi i dalu teyrnged i'r gwaith a wneir gan Gymorth i Ddioddefwyr? Mae'r elusen yn nodi'n benodol bod dioddefwyr yn dweud wrthynt eu bod eisiau gweld troseddwyr yn cael eu cosbi ac nad ydynt eisiau gweld eu troseddwr yn cyflawni trosedd arall. Mae gwaith Cymorth i Ddioddefwyr yn dangos, pan fydd cyfiawnder adferol yn cael ei gynllunio ar sail dymuniadau'r dioddefwr, ei fod yn eu helpu i symud ymlaen â'u bywydau ac yn gallu lleihau troseddu trwy gael troseddwyr i werthfawrogi effaith eu gweithredoedd. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i gydnabod y gwaith da a wneir gan yr elusen hon?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I would. It is important that restorative justice forms an increasing part of the criminal justice system. It can never replace the punitive measures that have to be there, particularly for serious offences, but I think that there is merit, particularly with younger offenders, in them being able to see the effect of their offending on others. Sometimes that works and sometimes it does not; that is human nature. Nevertheless, it is important that there is a better understanding among offenders of what their actions can lead to, in terms of the detrimental effect on other people.

Gwnaf wir. Mae'n bwysig fod cyfiawnder adferol yn rhan gynyddol o'r system cyfiawnder troseddol. Ni all fyth gymryd lle'r mesurau cosbedigol y mae'n rhaid eu cael, yn enwedig ar gyfer troseddau difrifol, ond rwy'n credu bod rhinwedd, yn enwedig gyda throseddwyr iau, iddyn nhw gael gweld effaith eu troseddu ar eraill. Weithiau mae hynny'n gweithio ac weithiau nid yw'n gweithio; natur ddynol yw hynny. Serch hynny, mae'n bwysig bod gwell dealltwriaeth ymhlith troseddwyr o'r hyn y gall eu gweithredoedd arwain ato, o ran yr effaith andwyol ar bobl eraill.

13:37 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth i Lywodraeth Cymru symud tuag at Fil cyfiawnder ieuenctid, beth yw barn y Llywodraeth am y syniad sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Prydain ynghylch colegau diogel, gan ystyried mai chi sy'n gyfrifol am addysg mewn sefydliadau cywirol? Hefyd, os bydd hynny'n digwydd, a wnewch chi fel Llywodraeth sicrhau bod darpariaeth yn y gogledd a'r canolbarth, lle nad oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd?

As the Welsh Government moves towards a youth justice Bill, what is the Government's view on the idea being considered by the UK Government on secure colleges, bearing in mind that you are responsible for education in correctional institutions? Also, if that does happen, will you, as a Government, ensure that there is provision in north and mid Wales, where there is currently no such provision?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn barod i ystyried unrhyw syniad da sy'n cael ei weithredu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac mewn rhannau eraill o Ewrop, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth ar gael ar draws Cymru yn y dyfodol.

We are willing to consider any good idea that is implemented in other parts of the United Kingdom, and in other parts of Europe, in order to ensure that there is a service available across Wales in the future.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:37

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, was the Wales Audit Office wrong last week when it stated that Cabinet colleagues were kept in the dark about the tuition fee policy?

Brif Weinidog, a oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn anghywir yr wythnos diwethaf pan ddywedodd na chafodd cydweithwyr yn y Cabinet eu hysbysu am y polisi ffioedd dysgu?

13:38

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, and I will be releasing the Cabinet papers and minutes that illustrate the conversations that took place at that time.

Oedd, a byddaf yn cyhoeddi papurau a chofnodion y Cabinet sy'n dangos y sgyrsiau a gynhaliwyd ar y pryd.

13:38

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That is an interesting comment for you to come back with, given that most people think that the evidence that the Wales Audit Office collates is robust and factually correct. So, I am sure that we will look forward to that statement for you to correct that.

Mae hwnnw'n sylw diddorol i chi ymateb ag ef, o gofio bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod y dystiolaeth y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ei chasglu yn gadarn ac yn ffeithiol gywir. Felly, rwy'n siŵr y byddwn yn edrych ymlaen at y datganiad hwnnw er mwyn i chi gywiro hynny.

However, if we look at your education policies, they show that there is a great difficulty in having any cohesion between your Cabinet Ministers. On 8 October this year, you said,

Fodd bynnag, os edrychwn ni ar eich polisïau addysg, maen nhw'n dangos bod anhawster mawr i gael unrhyw gydlyniad rhwng Gweinidogion eich Cabinet. Ar 8 Hydref eleni, dywedasoch,

'I expect to see an improvement in our PISA results in December; I have said that before.'

Rwy'n disgwyl gweld gwelliant yn ein canlyniadau PISA ym mis Rhagfyr; rwyf wedi dweud hynny o'r blaen

Yet, only a few weeks later, your Minister for Education and Skills said,

Eto i gyd, dim ond ychydig wythnosau yn ddiweddarach, dywedodd eich Gweinidog Addysg a Sgiliau:

'I would anticipate that any realistic person would look to the next set of PISA results with a great deal of caution.'

Rwyf yn rhagweld y byddai unrhyw berson realistig yn edrych ar y gyfres nesaf o ganlyniadau PISA yn ofalus iawn.

Who is right, First Minister, your Minister for education or you, as First Minister?

Pwy sy'n iawn, Brif Weinidog, eich Gweinidog addysg neu chi, fel Prif Weinidog?

13:39

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In fairness, he moved swiftly on from the answer that he did not expect earlier on.

A bod yn deg, symudodd ymlaen yn gyflym o'r ateb nad oedd yn ei ddisgwyl yn gynharach.

The situation is quite simply this: we all want to see an improvement in our Programme for International Student Assessment performance, but it is also right to say that it will take some time for there to be a significant improvement, because the measures that were put in place two years ago will take some time to bear fruit.

Y sefyllfa, yn eithaf syml, yw hyn: rydym ni i gyd eisiau gweld gwelliant i'n perfformiad o ran y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, ond mae hefyd yn iawn i ddweud y bydd yn cymryd cryn amser i sicrhau gwelliant sylweddol, gan y bydd y mesurau a roddwyd ar waith ddwy flynedd yn ôl, yn cymryd cryn amser i ddwyn ffrwyth.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What we are seeing coming out of the education department and your Government is complete inconsistency. We had the Wales Audit Office last week saying that your flagship higher education policy was under-thought, under-evaluated and under-resourced, and when it comes to your Government's response and the lead up to the PISA results next week, there is clearly a difference between the opinions being expressed at the top of the Government and those expressed by the Minister for education. What I would say to you is that when I heard the news last week that a famous comedy act was reuniting for one last show, I thought that you had brought Leighton Andrews back into the Cabinet with a Labour Government reshuffle. If the members of Monty Python want to find a classic comedy sketch, they need look no further than your Government's education policies and the performance of successive Labour Ministers for education.

Yr hyn yr ydym ni'n ei weld yn dod allan o'r adran addysg a'ch Llywodraeth chi yw anghysondeb llwyr. Clywsom Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud yr wythnos diwethaf nad oedd eich polisi addysg uwch blaenllaw wedi ei ystyried, ei werthuso na'i ariannu'n ddigonol, a phan ddaw i ymateb eich Llywodraeth a'r cyfnod yn arwain at y canlyniadau PISA yr wythnos nesaf, mae'n amlwg bod gwahaniaeth rhwng y safbwyntiau sy'n cael eu mynegi ar frig y Llywodraeth a'r rhai a fynegir gan y Gweinidog addysg. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud wrthych chi yw, pan glywais y newyddion yr wythnos diwethaf bod perfformwyr comedi enwog yn dod yn ôl at ei gilydd ar gyfer un sioe olaf, fy mod i'n meddwl eich bod wedi dod â Leighton Andrews yn ôl i'r Cabinet trwy ad-drefnu'r Llywodraeth Lafur. Os bydd aelodau Monty Python eisiau dod o hyd i sgetsh gomedi glasurol, ni fydd angen iddynt edrych ymhellach na pholisïau addysg eich Llywodraeth a pherfformiad Gweinidogion addysg olynol Llafur.

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Monty Python is not a double act; there are several of them. I thought that he would know that, actually. I know that he is a bit younger than me, but I just about remember them. Comedy is not his strong point; he labours it a little bit too much.

Nid dau berfformiwr sydd yn Monty Python; ceir nifer ohonynt. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n gwybod hynny, a dweud y gwir. Rwy'n gwybod ei fod ychydig yn iau na mi, ond rwyf fwy neu lai yn eu cofio. Nid comedi yw ei nodwedd gryfaf; mae'n ei gorwneud hi braidd.

The reality is this: he can see the Cabinet papers and minutes when they are published. Let us compare education policies. We know that his party wants to treble tuition fees for students. We know that. That is the one thing that they have never hidden their light under a bushel on. We take the view that education should be affordable; he does not. That is the difference between us, between a party of social justice and a party that believes entirely in the market.

Y gwirionedd amdani yw hyn: gall weld papurau a chofnodion y Cabinet pan gânt eu cyhoeddi. Gadewch i ni gymharu polisïau addysg. Rydym ni'n gwybod bod ei blaid ef eisiau treblu ffioedd dysgu i fyfyrwyr. Rydym ni'n gwybod hynny. Dyna'r un peth nad ydynt erioed wedi ei guddio. Rydym ni o'r farn y dylai addysg fod yn fforddiadwy; nid yw ef yn cytuno. Dyna'r gwahaniaeth rhyngom ni, rhwng plaid o gyfiawnder cymdeithasol a phlaid sy'n credu'n gyfan gwbl yn y farchnad.

Let us think again about the policies that he wants to put in place: a 12% cut in education funding and a fifth of teachers losing their jobs. Those are things that he does not want to trumpet. The reality is that we have invested in education; we have invested in higher education; we have invested in teachers; we are investing in children; and, they are all investments that his party would withdraw.

Gadewch i ni feddwl eto am y polisïau y mae eisiau eu rhoi ar waith: toriad o 12% i gyllid addysg ac un o bob pump o athrawon yn colli ei swydd. Dyna'r pethau nad yw eisiau eu dweud yn uchel. Y gwir amdani yw ein bod wedi buddsoddi mewn addysg; rydym ni wedi buddsoddi mewn addysg uwch; rydym ni wedi buddsoddi mewn athrawon; rydym ni'n buddsoddi mewn plant; ac, maen nhw i gyd yn fuddsoddiadau y byddai ei blaid ef yn eu tynnu'n ôl.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Actually, First Minister, whatever others might think, there is nothing comedic about Wales's PISA figures. The last set of PISA international education rankings showed that Wales had fallen behind in reading, maths and science and was lagging behind Scotland, Northern Ireland and England.

A dweud y gwir, Brif Weinidog, beth bynnag y mae eraill yn ei feddwl, nid oes unrhyw beth doniol am ffigurau PISA Cymru. Dangosodd y gyfres olaf o safleoedd addysg ryngwladol PISA bod Cymru ar ei hôl hi o ran darllen, mathemateg a gwyddoniaeth a'i bod y tu ôl i'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

The Minister for education described that as a wake-up call to a complacent system and said:

Disgrifiodd y Gweinidog addysg hynny fel rhybudd i system hunanfodlon a dywedodd:

'We will aim to improve our results in the next PISA assessment in 2012',

Ein nod fydd gwella ein canlyniadau yn asesiad nesaf PISA yn 2012

and aim to be in the top 20 by 2015. Three years on, is your Government on track to deliver?

ac yn ceisio bod yn yr 20 uchaf erbyn 2015. Tair blynedd yn ddiweddarach, a yw eich Llywodraeth ar y trywydd iawn i gyflawni?

13:42

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have not seen the PISA figures for 2012, but it is our hope as a Government to see an improvement in those figures. However, we know, realistically, that the measures we have put in place will take some time—probably a few more years—to have their maximum effect. Nevertheless, the direction of travel, I believe, is correct.

Nid wyf wedi gweld y ffigurau PISA ar gyfer 2012, ond ein gobaith fel Llywodraeth yw gweld gwelliant i'r ffigurau hynny. Fodd bynnag, gwyddom, yn realistig, y bydd y mesurau yr ydym ni wedi eu rhoi ar waith yn cymryd cryn amser—rhai blynyddoedd yn ôl pob tebyg— i gael eu heffaith lawn. Serch hynny, mae cyfeiriad y teithio, rwy'n credu, yn gywir.

13:42

**Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There certainly has been activity in the three years since PISA; your Government has introduced a number of plans and interventions and, presumably, all of that activity was aimed at making progress. The head of PISA says that improvement next week is absolutely crucial if Wales is to meet its target of being in the top 20 by 2015. Do you agree with him?

Mae'n bendant y bu gweithgarwch yn ystod y tair blynedd ers PISA; mae eich Llywodraeth wedi cyflwyno nifer o gynlluniau ac ymyraethau ac, yn ôl pob tebyg, roedd yr holl weithgarwch hwnnw wedi â'r nod o wneud cynnydd. Mae pennaeth PISA yn dweud bod gwelliant yr wythnos nesaf yn gwbl hanfodol os yw Cymru am gyrraedd ei tharged o fod yn yr 20 uchaf erbyn 2015. A ydych chi'n cytuno ag ef?

13:42

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I agree that we want to see improvement in our PISA figures. That is something that we will look to as the measures that we have put in place bear full fruit in the future.

Rwy'n cytuno ein bod ni eisiau gweld gwelliant i'n ffigurau PISA. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried wrth i'r mesurau yr ydym wedi eu rhoi ar waith ddwyn ffrwyth llawn yn y dyfodol.

13:42

**Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last May, you told me:

Fis Mai diwethaf, dywedasoch wrthyf:

'We expect to see improvement in the results'.

Rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn y canlyniadau.

You confirmed that in June, and again in October, saying:

Cadarnhawyd hynny gennych ym mis Mehefin, ac unwaith eto ym mis Hydref, gan i chi ddweud:

'I expect to see an improvement in our PISA results in December'.

Rwy'n disgwyl gweld gwelliant yn ein canlyniadau PISA ym mis Rhagfyr.

There were no caveats about being realistic. However, I do admit that your Minister for education has been busy about town playing down expectations, saying, 'We do not expect to see large improvements'. What level of improvement will you be satisfied with next week, if we are to reach your Government's stated target for 2015?

Nid oedd unrhyw gafeatau ynglŷn â bod yn realistig. Fodd bynnag, rwy'n cyfaddef bod eich Gweinidog addysg wedi bod yn brysur o gwmpas y lle yn lleihau disgwyliadau, gan ddweud: nid ydym yn disgwyl gweld gwelliannau mawr. Pa lefel o welliant fydd yn eich bodloni yr wythnos nesaf, os ydym ni'n mynd i gyrraedd y targed a nodwyd gan eich Llywodraeth ar gyfer 2015?

13:43

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would wish to see some improvements as far as next week is concerned and substantial improvements as far as 2014 is concerned.

Byddwn yn dymuno gweld rhai gwelliannau cyn belled ag y mae'r wythnos nesaf yn y cwestiwn a gwelliannau sylweddol cyn belled ag y mae 2014 yn y cwestiwn.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, the north of Wales is the most obvious and shortest transport link from Ireland to Wales and the British mainland. Yet, a decision has been made that Holyhead is not a core port in the European Commission's trans-European transport network proposals. What influence did your Government have on that decision?

Brif Weinidog, gogledd Cymru yw'r cyswllt trafnidiaeth byrraf a mwyaf amlwg o Iwerddon i Gymru a thir mawr Prydain. Eto i gyd, mae penderfyniad wedi ei wneud nad yw Caergybi yn borthladd craidd yng nghynigion rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd y Comisiwn Ewropeaidd. Pa ddylanwad gafodd eich Llywodraeth ar y penderfyniad hwnnw?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We made numerous representations, as indeed did your predecessor as Plaid Cymru leader, when he was Deputy First Minister. At least three letters were sent to the UK Government emphasising our view that we regard the TEN-T networks as extremely important. I should add that we are part of the comprehensive network—we are part of the core network—but not the corridor. However, that is a matter for the UK Government.

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau gennym, fel yn wir y gwnaethpwyd gan eich rhagflaenydd fel arweinydd Plaid Cymru, pan roedd ef yn Ddirprwy Brif Weinidog. Anfonwyd o leiaf tri llythyr i Lywodraeth y DU yn pwysleisio ein barn fod y rhwydweithiau TEN-T yn bwysig dros ben. Dylwn ychwanegu ein bod yn rhan o'r rhwydwaith cynhwysfawr—rydym yn rhan o'r rhwydwaith craidd—ond nid y coridor. Fodd bynnag , mater i Lywodraeth y DU yw hynny.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Catalan Government has succeeded in getting Catalonia included, despite initial opposition from the Spanish Government. Wales could have been included, but only if there was a Government prepared to fight our corner. Last week, the European Commission said that you could have lobbied, but you did not. You have clearly failed, therefore, to persuade the UK Government. Why have you failed to stand up for Wales on this issue?

Mae Llywodraeth Catalonia wedi llwyddo i sicrhau bod Catalonia wedi ei chynnwys, er gwaethaf gwrthwynebiad cychwynnol gan Lywodraeth Sbaen. Gallai Cymru fod wedi cael ei chynnwys, ond dim ond pe byddai gennym Lywodraeth sy'n barod i bledio'n hachos. Dywedodd y Comisiwn Ewropeaidd yr wythnos diwethaf y gallech fod wedi lobïo, ond na wnaethoch hynny. Mae'n amlwg felly eich bod wedi methu â darbwyllo Llywodraeth y DU. Pam ydych chi wedi methu â sefyll dros Gymru ar y mater hwn?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It would help me if I understood from the leader of Plaid Cymru what it is that she says that we are not part of. Is she saying that we are not part of the comprehensive network, the core network or the corridors? What I can say is that we are under no financial disadvantage at all in terms of bidding formally in future.

Byddai'n fy helpu pe gallwn ddeall gan arweinydd Plaid Cymru yr hyn y mae hi'n ei ddweud nad ydym ni'n rhan ohono. A yw hi'n dweud nad ydym yn rhan o'r rhwydwaith cynhwysfawr, y rhwydwaith craidd neu'r coridorau? Yr hyn y gallaf ei ddweud yw nad ydym dan unrhyw anfantais ariannol o gwbl o ran gwneud cais ffurfiol yn y dyfodol.

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is not just about one-off funding, is it, First Minister? This is about being an integral part of the overall strategy. In a letter from your Minister to Members last week, she says that if what Commission officials have said about the removal of Wales from the UK corridor is true, that is regrettable. Can you tell us what is regrettable about that, First Minister?

Ond nid dim ond mater o ariannu untro yw hyn, nage Brif Weinidog? Mae hyn yn ymwneud â bod yn rhan annatod o'r strategaeth gyffredinol. Mewn llythyr gan eich Gweinidog i'r Aelodau yr wythnos diwethaf, mae hi'n dweud os yw'r hyn y mae swyddogion y Comisiwn wedi ei ddweud am symud Cymru o goridor y DU yn wir, bod hynny'n anffodus. A allwch chi ddweud wrthym ni beth sy'n anffodus am hynny, Brif Weinidog?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What the Commission has confirmed is that we will still be able to access the data and advice available for a corridor, if we wish, and we will do that if that is to Wales's advantage. What we do know, however, is that we are not at any financial disadvantage, because we remain part of the comprehensive network and the core network. Admittedly, there are a number of different networks and corridors here, which does not make things easy to explain. Nevertheless, we are part of the networks that we need to be part of in order to attract funding, and that has not changed.

Yr hyn y mae'r Comisiwn wedi ei gadarnhau yw y byddwn yn dal i allu cael mynediad at y data a'r cyngor sydd ar gael i goridor, os ydym yn dymuno, a byddwn yn gwneud hynny os bydd hynny o fantais i Gymru. Yr hyn rydym ni yn ei wybod, fodd bynnag, yw nad ydym dan unrhyw anfantais ariannol, gan ein bod yn dal i fod yn rhan o'r rhwydwaith cynhwysfawr a'r rhwydwaith craidd. Rhaid cyfaddef, ceir nifer o wahanol rwydweithiau a choridorau yma, nad yw'n gwneud pethau'n hawdd i'w hesbonio. Serch hynny, rydym yn rhan o'r rhwydweithiau y mae angen i ni fod yn rhan ohonynt er mwyn denu cyllid, ac nid yw hynny wedi newid.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the agenda, and question 3 is from Antoinette Sandbach.

Symudwn yn ôl nawr at gwestiynau ar yr agenda, a daw cwestiwn 3 gan Antoinette Sandbach.

## Hybu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

## Promoting Science, Technology, Engineering and Maths

13:46 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn ei wneud i hybu pynciau STEM yng Nghymru? OAQ(4)1359(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on what the National Science Academy is doing to promote STEM subjects in Wales? OAQ(4)1359(FM)*

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The NSA runs a competitive grant scheme, whereby robustly evidenced projects that provide the best STEM-related engagement and enrichment activities are supported.

Gwnaf. Mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn rhedeg cynllun grantiau cystadleuol, lle cefnogir prosiectau â thystiolaeth gadarn sy'n darparu'r gweithgareddau ymgysylltu a chyfoethogi sy'n gysylltiedig â STEM gorau.

13:46 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we heard earlier, in the question from Kirsty Williams, about the importance of STEM subjects in Wales. Just a few months ago, in September, you were handing out the gold and silver CREST—Creativity in Science and Technology—awards, and you spoke of the value of those awards to the students who were rewarded for their study of science, technology, engineering and mathematics. The funding for those awards has been cut. In fact, you were handing them out just five days after it had been announced that the CREST awards would not be continuing. What will you do to support those CREST awards and look again at the funding issues around them? It is of particular importance because they are bilingual awards.

Brif Weinidog, clywsom yn gynharach, yn y cwestiwn gan Kirsty Williams, am bwysigrwydd pynciau STEM yng Nghymru. Dim ond ychydig fisoedd yn ôl, ym mis Medi, roeddech chi'n cyflwyno gwobrau CREST—Creadigrwydd mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg—aur ac arian, a soniasoch am werth y gwobrau hynny i'r myfyrwyr a wobrwywyd am eu hastudiaeth o wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Mae'r cyllid ar gyfer y gwobrau hynny wedi cael ei dorri. Yn wir, roeddech chi'n eu cyflwyno dim ond pum niwrnod ar ôl y cyhoeddiad na fyddai gwobrau CREST yn parhau. Beth fyddwch chi'n ei wneud i gefnogi'r gwobrau CREST hynny ac edrych eto ar y materion ariannu sy'n ymwneud â nhw? Mae'n arbennig o bwysig gan eu bod yn wobrau dwyieithog.

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member gives the impression that the reason why the CREST awards have not been funded is because of a lack of money. It is actually because the business case that was put forward was not robust. I can say to the Member that the British Science Association, which governs the CREST awards programme, submitted five grant applications to the NSA in 2013. Three of the applications were successful, including the CREST Star resources in Welsh; that was successful. However, the CREST in Wales proposal was not judged to be of sufficient quality to be awarded funding by an external evaluation panel. So, in fact, what happened is that the scheme did not meet expectations in terms of evaluation, rather than there having been a funding cut.

Mae'r Aelod yn rhoi'r argraff mai diffyg arian yw'r rheswm pam nad yw'r gwobrau CREST wedi cael eu hariannu. Y gwir reswm yw oherwydd nad oedd yr achos busnes a gyflwynwyd yn gadarn. Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain, sy'n llywodraethu rhaglen wobrau CREST, wedi cyflwyno pum cais am grant i'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn 2013. Roedd tri o'r ceisiadau yn llwyddiannus, gan gynnwys yr adnoddau Seren CREST yn y Gymraeg; roedd hynny'n llwyddiannus. Fodd bynnag, ni ddyfarnwyd bod y cynnig CREST yng Nghymru o ansawdd digonol i dderbyn cyllid gan banel gwerthuso allanol. Felly, mewn gwirionedd, yr hyn a ddigwyddodd yw nad oedd y cynllun yn bodloni disgwyliadau o ran gwerthusiad, yn hytrach na bod hyn yn achos o dorri cyllid.

13:47 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ar yr un testun, o gofio pwysigrwydd ennyn diddordeb disgyblion mewn gwyddoniaeth o ran yr economi, y cwestiwn sy'n cael ei ofyn yw: os yw gwobrau CREST wedi bod yn deilwng o gefnogaeth am y ddwy flynedd diwethaf, ac wedi cyflawni dwywaith lefel cyrhaeddiad a chyfranogiad gweddill y Deyrnas Unedig, beth arall sydd angen ei wneud i argyhoeddi'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a Llywodraeth Cymru bod hyn yn weithgaredd gwerth chweil?

On the same subject, bearing in mind the importance of encouraging pupils' interest in science for the economy, the question that is being asked is: if CREST awards have been worthy of support for the past two years, and have achieved twice the levels of achievement and participation of the rest of the UK, what else needs to be done to convince the National Science Academy and the Welsh Government that this is a worthwhile activity?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n rhai inni gofio, wrth gwrs, bod y Gymdeithas Wyddonol Brydeinig wedi bod yn llwyddiannus ynglŷn â sawl cais: hyd yn oed, fel y dywedais, 'CREST Star resources' yn y Gymraeg. Nid yw'r rhaglen CREST wedi bod yn llwyddiannus, ond panel annibynnol wnaeth benderfynu ar hynny. Mae pob corff a roddodd cais i mewn wedi cael ymateb ysgrifenedig ynglŷn â lle yr oedd wedi ffaelu o ran ei geisiadau. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw bod y gymdeithas yn ystyried yr ymateb y mae wedi'i gael er mwyn cryfhau unrhyw 'bid' yn y dyfodol.

We must bear in mind, of course, that the British Scientific Association has been successful in terms of a number of bids: even, as I said, the CREST Star resources in Welsh. The CREST programme has not been successful, but that was a decision taken by an independent panel. Every organisation that submitted a bid has been given a written response as to where it had failed in terms of its applications. What is important now is that the association considers the response that it has received in order to make any future bids more robust.

## Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru

## Welsh Government's Programme for Government

13:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran rhoi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar waith? OAQ(4)1366(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the progress of the implementation of the Welsh Government's Programme for Government? OAQ(4)1366(FM)*

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The programme for government annual report sets out in detail the progress that this Government is making on its key priorities of delivering jobs and growth, raising educational standards and tackling poverty.

Mae adroddiad blynyddol y rhaglen ar gyfer llywodraethu yn nodi'n fanwl y cynnydd y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud ar ei blaenoriaethau allweddol o ddarparu swyddi a thwf, codi safonau addysgol a threchu tlodi.

13:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that answer. One of the key goals in the programme for government is sustainable travel and access for all communities to good employment and services. Part of that provision is, obviously, the provision of local transport, that is, bus routes. Across my own electoral region of South Wales Central, particularly the Vale of Glamorgan, there has been a dramatic decline in the ability to access local transport via buses because of the change in the funding formula that your Government brought forward in April this year. Are there any actions that your Government are going to undertake in the next couple of months that might seek to redress the decline in these services and rebalance the funding formula that your Government announced last April?

Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Un o'r amcanion allweddol yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu yw teithio cynaliadwy a mynediad i bob cymuned at gyflogaeth a gwasanaethau da. Rhan o'r ddarpariaeth honno, yn amlwg, yw darparu cludiant lleol, hynny yw, llwybrau bysiau. Ar draws fy rhanbarth etholiadol fy hun yng Nghanol De Cymru, ac yn enwedig ym Mro Morgannwg, bu dirywiad enbyd i'r gallu i gael gafael ar gludiant lleol trwy fysiau oherwydd y newid i'r fformiwla ariannu a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth ym mis Ebrill eleni. A oes unrhyw gamau y mae eich Llywodraeth yn mynd i'w cymryd yn ystod y mis neu ddau nesaf a allai geisio unioni'r dirywiad i'r gwasanaethau hyn ac ail-gydbwyso'r fformiwla ariannu a gyhoeddwyd gan eich Llywodraeth fis Ebrill diwethaf?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Discussions will continue with the bus operators. We cannot allocate money, because the funds are not there at the level that they were, because of the budget settlement that we have had. Where substantial cuts are being made in bus services, such as in Ceredigion, we will, of course, take steps to work with the local authorities in order to ensure that services continue in the future.

Bydd trafodaethau yn parhau gyda'r cwmnïau bysiau. Ni allwn ddyrannu arian, gan nad yw'r arian yno ar y lefel yr oedd o'r blaen, oherwydd y setliad cyllideb rydym ni wedi ei chael. Lle mae toriadau sylweddol yn cael eu gwneud i wasanaethau bysiau, fel yng Ngheredigion, byddwn, wrth gwrs, yn cymryd camau i weithio gyda'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau yn y dyfodol.

13:50 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, while I welcome the fact that the smoking ban has seen a reduction in the number of smokers, recent reports have highlighted an increase in the number of children experiencing nicotine poisoning. This includes incidents involving children who have come into contact with nicotine replacement therapies, including gum, patches and lozenges. In the light of this, what guidance or prevention advice is the Welsh Government issuing to practitioners to inform parents, carers and those working with families and children of the dangers of nicotine products and the importance of storing them safely?

Brif Weinidog, er fy mod yn croesawu'r ffaith bod y gwaharddiad ar ysmygu wedi arwain at ostyngiad yn nifer ysmygwyr, mae adroddiadau diweddar wedi amlygu cynnydd yn y nifer o blant sy'n dioddef gwenwyn nicotin. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â phlant sydd wedi dod i gysylltiad â therapïau disodli nicotin, gan gynnwys gwm cnoi, clytiau a thabledi. Yng ngoleuni hyn, pa ganllawiau neu gyngor ar atal mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i ymarferwyr i hysbysu rhieni, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant am beryglon cynnyrch nicotin a phwysigrwydd eu storio yn ddiogel?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Children in Wales, in collaboration with Public Health Wales, has produced an information sheet for parents, carers, and those working with families and children. It is called 'Protect Children—Prevent Nicotine Poisoning: Where Do You Keep Yours?' It identifies all products that contain nicotine—it is important to identify that first—and emphasises how poisonous nicotine is to children and how children can be poisoned. It does give advice on the correct safe storage of nicotine in order that children are not put at risk.

Mae Plant yng Nghymru, mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cynhyrchu taflen wybodaeth ar gyfer rhieni, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant. 'Amddiffynnwch Blant—Ataliwch Wenwyno Nicotin: Ble Ydych Chi'n Cadw'ch Rhai Chi?' yw ei henw. Mae'n nodi pob cynnyrch sy'n cynnwys nicotin—mae'n bwysig nodi hynny'n gyntaf—ac yn pwysleisio pa mor wenwynig yw nicotin i blant a sut y gall plant gael eu gwenwyno. Mae'n rhoi cyngor hefyd ar storio nicotin yn gywir a diogel fel nad yw plant yn cael eu rhoi mewn perygl.

13:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yn ôl adroddiad diweddar gan y cyn-Weinidog Llafur Alan Milburn, mae gan Gymru'r lefel gydradd waethaf o dlodi plant yng ngwledydd Prydain—Prydain Fawr, hynny yw. O gofio hynny, ac o gofio bod dileu tlodi plant yn un o brif amcanion strategaeth y Llywodraeth, pa dri chanlyniad a ydych yn fwyaf balch ohonynt yn y maes dileu tlodi?

First Minister, according to a recent report by the former Labour Minister Alan Milburn, Wales has the joint worst level of child poverty in Britain—Great Britain, that is. Bearing that in mind, and bearing in mind that eradicating child poverty is one of the main objectives of the Government strategy, what three outcomes are you most proud of in this area?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae sicrhau bod mwy o blant yn gwneud yn well yn yr ysgol—mae 'Flying Start' yn rhan o hynny. Mae sicrhau bod mwy o deuluoedd yn gallu cael mynediad at waith—mae hynny, wrth gwrs, yn cael ei wneud drwy gynlluniau fel 'Jobs Growth Wales' ac yn y blaen—a hefyd sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael i deuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ffeindio gwaith ac yn gallu cael sgiliau. Felly, mae sicrhau bod gwaith ar gael, ond hefyd sicrhau eu bod nhw'n gallu cael mynediad at y sgiliau sydd eisiau arnynt er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael gwaith yn y dyfodol.

There is ensuring that more children are doing well in school—Flying Start is part of that. There is ensuring that more families can have access to work—that, of course, is being done through schemes such as Jobs Growth Wales, et cetera—and also ensuring that there is more support available for families in order to ensure that they can find work and can obtain skills. So, there is ensuring that work is available, and also ensuring that they have access to the skills they need in order to ensure that they have work in the future.

13:52 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the 2013 Welsh Government programme for government update stated that your aim was to make communities safer through reductions in fire and road safety incidents. There is huge concern in Radnorshire that Knighton could lose its retained fire station, thus increasing response times to fires and to road traffic accidents. Will the First Minister use the powers available to him to intervene in this matter to ensure that the aims of his programme for government with regard to reducing fire and road safety incidents are upheld and can be met?

Brif Weinidog, roedd diweddariad rhaglen llywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013 yn dweud mai eich nod oedd gwneud cymunedau'n fwy diogel trwy leihau achosion o dân a digwyddiadau diogelwch ar y ffyrdd. Ceir pryder enfawr yn Sir Faesyfed y gallai Trefyclo golli ei orsaf dân wrth gefn, gan gynyddu amseroedd ymateb i danau ac i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd. A wnaiff y Prif Weinidog ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddo i ymyrryd yn y mater hwn er mwyn sicrhau bod amcanion ei raglen ar gyfer llywodraethu o ran lleihau achosion o dân a digwyddiadau diogelwch ar y ffyrdd yn cael eu cynnal ac y gellir eu bodloni?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

These are maters, of course, for the fire authorities. They are obliged to ensure that there is proper fire cover in order that people can feel safe in their communities. Where, however, there are concerns that that might not happen, submissions can be made to the fire authority and, ultimately, of course, to the Minister.

Mae'r rhain yn faterion, wrth gwrs, ar gyfer yr awdurdodau tân. Mae'n ofynnol iddynt sicrhau bod gwasanaeth tân priodol ar gael er mwyn i bobl deimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Pan geir pryderon, fodd bynnag, na fydd hynny'n digwydd, gellir cyflwyno sylwadau i'r awdurdod tân ac, yn y pen draw, wrth gwrs, i'r Gweinidog.

## Homelessness


## Homelessness


13:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddigartrefedd? OAQ(4)1351(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy on homelessness? OAQ(4)1351(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The Housing (Wales) Bill that we introduced last week will help to achieve the objectives in our 10-year homelessness plan, which reflects our long-term strategy on homelessness. Prevention is at the heart of that Bill, and that is part of the policy that we are seeking to promote through guidance and funding as well.

Gwnaf. Bydd Bil Tai (Cymru) a gyflwynwyd gennym yr wythnos diwethaf yn helpu i fodloni'r amcanion yn ein cynllun digartrefedd 10 mlynedd, sy'n adlewyrchu ein strategaeth hirdymor ar ddigartrefedd. Mae atal yn ganolog i'r Bil hwnnw, ac mae hynny'n rhan o'r polisi yr ydym ni'n ceisio ei hyrwyddo trwy ganllawiau a chyllid hefyd.

13:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. I note that you say that prevention is at the heart of that Bill, yet one of the proposals in it is to remove the priority order status for ex-prisoners—despite the fact that a 2008 Welsh Government report specifically said that that underpinned the prevention of reoffending among that class, and that 75% of ex-prisoners who reoffended had a housing need. Would you consider revisiting this proposal in the light of your own Government's report, which seems to contradict it?

Diolch yn fawr i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Sylwaf eich bod yn dweud bod atal yn ganolog i'r Bil hwnnw, ac eto un o'r cynigion ynddo yw cael gwared ar y statws gorchymyn blaenoriaeth i gyn-garcharorion—er gwaethaf y ffaith fod adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2008 wedi dweud yn benodol bod hynny'n sail ar gyfer atal aildroseddu ymhlith y dosbarth hwnnw, a bod angen tai ar 75% o gyn-garcharorion sy'n aildroseddu. A fyddech chi'n ystyried edrych ar y cynnig hwn eto yng ngoleuni adroddiad eich Llywodraeth eich hun, y mae'n ymddangos ei fod yn ei wrth-ddweud?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is important, of course, that ex-offenders are able to find accommodation as quickly as possible—that much is true. I do not think that it is right, however, that ex-offenders should have priority over those who have not been in prison. That is a fundamental principle. There are many of us in this Chamber—I have had it because I have a prison in my constituency—who have had people come to us and ask, 'Why is it right that people come out of prison and have priority for accommodation? I have been waiting and I have not committed a crime.' I am afraid that that is the reasoning behind what we are trying to do. We want to have a fairer and more level playing field.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod cyn-droseddwyr yn gallu dod o hyd i lety cyn gynted â phosibl—mae hynny'n wir. Nid wyf yn credu ei bod yn iawn, fodd bynnag, bod cyn-droseddwyr yn cael blaenoriaeth dros y rhai nad ydynt wedi bod yn y carchar. Mae honno'n egwyddor sylfaenol. Mae llawer ohonom yn y Siambr hon—mae wedi digwydd i mi gan fod gennyf garchar yn fy etholaeth—sydd wedi cael pobl yn dod atom a gofyn, 'Pam mae hi'n iawn i bobl sy'n dod allan o'r carchar gael blaenoriaeth o ran cael llety? Rwyf i wedi bod yn aros ac nid wyf i wedi cyflawni trosedd.' Mae gen i ofn mai dyna'r rhesymeg y tu ôl i'r hyn yr ydym ni'n ceisio ei wneud. Rydym ni eisiau sicrhau mwy o chwarae teg a chyfle cyfartal.

13:54 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How will you ensure that Welsh Government proposals to prevent homelessness will not lead to an increase in hidden homelessness, as they did after 2004, when the Welsh Government responded to a 121% increase in homelessness by taking action to prevent it and the sector reported that hidden homelessness had doubled?

Sut wnewch chi sicrhau na fydd cynigion Llywodraeth Cymru i atal digartrefedd yn arwain at gynnydd mewn digartrefedd cudd, fel y gwnaethant ar ôl 2004, pan ymatebodd Llywodraeth Cymru i gynnydd o 121% mewn digartrefedd trwy gymryd camau i'w atal a'r sector yn hysbysu bod digartrefedd cudd wedi dyblu?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Bill itself, as I mentioned earlier, is based very much on prevention, and making sure that those who are threatened with homelessness are assisted at an earlier stage, rather than when they actually become homeless. Importantly, we have committed funding for the implementation of the proposals from April 2015 and that is reflected in our budget for 2015-16.

Mae'r Bil ei hun, fel y soniais yn gynharach, yn seiliedig i raddau helaeth ar atal, a gwneud yn siŵr bod y rhai sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref yn cael cymorth yn gynharach, yn hytrach na phan maen nhw'n mynd yn ddigartref mewn gwirionedd. Yn bwysig, rydym ni wedi ymrwymo cyllid ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith o fis Ebrill 2015 ac adlewyrchir hynny yn ein cyllideb ar gyfer 2015-16.

13:55 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rydych wedi sôn am bwysigrwydd ceisio atal digartrefedd. A fyddech yn cytuno mai un o'r pethau sy'n mynd i ychwanegu at ddigartrefedd yng Nghymru yw'r dreth ystafell wely? A fyddech hefyd yn cytuno bod angen inni gael llais unedig yng Nghymru yn gwrthwynebu bwrw pobl allan o'u tai os nad ydynt yn gallu cydymffurfio â pholisi'r dreth ystafell wely? Hynny yw, dylai fod polisi 'no evictions' yng Nghymru.

First Minister, you have mentioned the importance of trying to prevent homelessness. Would you agree that one of the things that will add to homelessness in Wales is the bedroom tax? Would you also agree that we need a united voice in Wales opposing the eviction of people from their homes if they cannot comply with the bedroom tax policy? That is, there should be a 'no evictions' policy in Wales.

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Heb os nac oni bai, mae'r Aelod yn iawn; mae risg mawr y bydd rhai pobl yn mynd yn ddigartref yn y dyfodol. Barn y Llywodraeth hon yw y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig newid ei pholisi. Ynglŷn â sut y gallwn leihau effaith polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae hwn yn rhywbeth rydym yn ei hystyried ar hyn o bryd.

Without doubt, the Member is right; there is a great risk that some people will become homeless in future. The view of this Government is that the United Kingdom Government should change its policy. In terms of how we can alleviate the effects of the United Kingdom Government's policy, that is something that we are considering at present.

**Troseddau Casineb**

**Hate Crime**

13:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa gamau a fydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y chwe mis nesaf i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru? OAQ(4)1355(FM)*

*6. What action will the Welsh Government take in the next six months to tackle hate crime in Wales? OAQ(4)1355(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will publish responses to the recent consultation on 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' in the early part of next year. We will then review the evidence and work with partners to develop the final framework and delivery plan by spring 2014.

Byddwn yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' yn gynnar y flwyddyn nesaf. Byddwn wedyn yn adolygu'r dystiolaeth ac yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r fframwaith a'r cynllun cyflawni terfynol erbyn gwanwyn 2014.

13:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, First Minister. According to Gwent Police, reported hate crimes are on the rise, but still remain incredibly underreported. This is particularly true of disability hate crime, where some victims, such as those with learning difficulties, may not have the capacity to come forward themselves. What is the Welsh Government doing to encourage and assist the disabled to report hate crime so that it can be tackled effectively in Wales?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog. Yn ôl Heddlu Gwent, mae nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt yn cynyddu, ond mae'r nifer nad adroddir amdanynt yn dal i fod yn anhygoel o uchel. Mae hyn yn arbennig o wir am droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, lle efallai nad yw'r gallu gan rai dioddefwyr, fel y rhai sydd ag anawsterau dysgu, i adrodd am y digwyddiad eu hunain. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog a chynorthwyo pobl anabl i adrodd am droseddau casineb fel y gellir mynd i'r afael â hwy'n effeithiol yng Nghymru?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I fear that the Member is right that hate crime against disabled people is underreported. It has been historically low in terms of recorded figures. Part of the challenge of the framework, of course, would be to work proactively to identify how we can increase the confidence that people need to report crimes across Wales. We also have an excellent relationship with the disability hate crime action group, on which there is representation from across disability organisations, and officials also sit on that group. Using the resources and expertise of that group, we hope to inform the framework and make it easier, in terms of people's confidence, to report hate crimes against disabled people in the future.

Rwy'n ofni bod yr Aelod yn iawn nad adroddir am lawer o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Mae wedi bod yn hanesyddol isel o ran ffigyrau a gofnodwyd. Rhan o her y fframwaith, wrth gwrs, fyddai gweithio'n rhagweithiol i ganfod sut y gallwn gynyddu'r hyder sydd ei angen ar bobl i adrodd am droseddau ledled Cymru. Hefyd, mae gennym berthynas ardderchog gyda'r grŵp gweithredu ar droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o lawer o sefydliadau anabledd, ac mae swyddogion yn rhan o'r grŵp hwnnw hefyd. Gan ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd y grŵp hwnnw, ein gobaith yw llywio'r fframwaith a'i gwneud yn haws, o ran hyder pobl, i adrodd am droseddau casineb yn erbyn pobl anabl yn y dyfodol.

13:58 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, putting equality at the centre of Government is important in tackling hate crime, and it is something that this Government in Cardiff bay does very well. However, a group of Conservative MPs—including the former AM, Alun Cairns—which calls itself 'the Free Enterprise Group' is now calling for the UK Government's equalities office to be abolished, calling it counter-productive and a source of unnecessary and burdensome regulation. First Minister, will you join me in calling on the UK Government to state publicly that it has no desire whatsoever to wind up the Government equalities office? Will you also give an update to the Chamber on how the Welsh Government is putting equality at the heart of all of its policies?

Brif Weinidog, mae sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd Llywodraeth yn bwysig o ran mynd i'r afael â throseddau casineb, ac mae'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth hon ym mae Caerdydd yn ei wneud yn dda iawn. Fodd bynnag, mae grŵp o ASau Ceidwadol—gan gynnwys y cyn AC, Alun Cairns—sy'n galw ei hun yn 'Grŵp Menter Rydd' bellach yn galw am i swyddfa cydraddoldeb Llywodraeth y DU gael ei diddymu, gan ei alw'n wrthgynhyrchiol ac yn ffynhonnell o reoleiddio diangen a beichus. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i alw ar Lywodraeth y DU i ddatgan yn gyhoeddus nad oes ganddo unrhyw ddymuniad o gwbl i gau swyddfa cydraddoldeb y Llywodraeth? A wnewch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd ei holl bolisïau?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I cannot see how making society less fair is an advance as far as society as a whole is concerned. I certainly would support the Member's call for the UK Government to make its position clear, and I very much regret that a group of Conservative MPs, including a former Member of this Chamber, has taken the view that equality is something that can be dispensed with. That takes us back to the days before 1970 and the Equal Pay Act. Equality and inclusion is at the heart of Welsh Government and is reflected within our founding legislation, as well as being woven throughout our programme for government.

Ni allaf weld sut mae gwneud cymdeithas yn llai teg yn gam ymlaen cyn belled ag y mae cymdeithas yn ei chyfanrwydd yn y cwestiwn. Rwy'n sicr yn cefnogi galwad yr Aelod i Lywodraeth y DU wneud ei safbwynt yn eglur, ac rwy'n gresynu'n fawr bod grŵp o ASau Ceidwadol, gan gynnwys cyn-Aelod o'r Siambr hon, wedi mabwysiadu'r safbwynt bod cydraddoldeb yn rhywbeth y gellir ei hepgor. Mae hynny'n mynd â ni yn ôl i'r dyddiau cyn 1970 a'r Ddeddf Cyflog Cyfartal. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant wrth wraidd Llywodraeth Cymru ac yn cael eu hadlewyrchu yn ein deddfwriaeth sefydlu, ac wedi'u plethu i bob rhan o'n rhaglen ar gyfer llywodraethu.

13:59 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I know from a previous occupation that many incidents of hate crime occur among tenants in social housing, where victims are bullied in their own homes. I asked you on 20 November 2012 about the extent to which the Welsh Government was engaging with social landlords to address the problem, and you replied most positively that you were doing so. Are you able to report back on any successes in the statistics, please?

Brif Weinidog, rwy'n gwybod o alwedigaeth flaenorol bod llawer o achosion o droseddau casineb yn digwydd ymhlith tenantiaid mewn tai cymdeithasol, lle mae dioddefwyr yn cael eu bwlio yn eu cartrefi eu hunain. Gofynnais i chi ar 20 Tachwedd 2012 i ba raddau roedd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol i fynd i'r afael â'r broblem, ac fe wnaethoch ateb yn gadarnhaol iawn eich bod yn gwneud hynny. A allwch chi adrodd yn ôl ar unrhyw lwyddiannau yn yr ystadegau, os gwelwch yn dda?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In terms of the statistics themselves, I will ask the Minister to write to you. We have worked very closely with those who are vulnerable, particularly social tenants, in order to reduce the amount of hate crime. However, as I said, I will ask the Minister to write to you with further detail.

O ran yr ystadegau eu hunain, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch. Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda'r rhai sy'n agored i niwed, yn enwedig tenantiaid cymdeithasol, er mwyn lleihau nifer y troseddau casineb. Fodd bynnag, fel y dywedais, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch gyda mwy o fanylion.

14:00 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, last week I was pleased to support Stonewall Cymru's campaign to stamp out the misuse of the word 'gay' as an insult. At the same time, Barnardo's Cymru showed that 60% of children have experienced bullying based on sexuality. How is the Welsh Government ensuring that schools implement robust anti-bullying policies?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf roeddwn yn falch o gefnogi ymgyrch Stonewall Cymru i gael gwared ar y camddefnydd o'r gair 'gay' fel sarhad. Ar yr un pryd, dangosodd Barnardos Cymru fod 60% o blant wedi cael eu bwlio ar sail rhywioldeb. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ysgolion yn gweithredu polisïau gwrth-fwlio cadarn?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is an exceptionally important issue. I have heard it among children—they will throw the word around almost freely without thinking about the consequences. It is important that we make sure that we reassert our view that this is totally unacceptable. I welcome Stonewall Cymru's campaign. The findings from Barnardo's also show that more than half of children in Wales have witness bullying based on disability, sexuality or cultural background. That is shocking and unacceptable. We have asked Estyn, as part of its current remit, to carry out a thematic survey looking at the effectiveness of action taken by schools to address bullying on the grounds of protected characteristics, including sexual orientation. Findings from that survey are expected to arrive in the summer of next year.

Mae hwn yn fater eithriadol o bwysig. Rwyf wedi ei glywed ymhlith plant—maen nhw'n taflu'r gair o gwmpas heb feddwl am y canlyniadau. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau ein bod yn ailddatgan ein barn bod hyn yn gwbl annerbyniol. Rwy'n croesawu ymgyrch Stonewall Cymru. Mae'r canfyddiadau gan Barnardo's hefyd yn dangos bod mwy na hanner y plant yng Nghymru wedi gweld bwlio ar sail anabledd, rhywioldeb neu gefndir diwylliannol. Mae hynny'n frawychus ac yn annerbyniol. Rydym wedi gofyn i Estyn, yn rhan o'i gylch gwaith presennol, gynnal arolwg thematig yn edrych ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol. Disgwylir canfyddiadau'r arolwg hwnnw i gyrraedd yn ystod haf y flwyddyn nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

### Systemau Trafnidiaeth a Dinas-ranbarthau

### Transport Systems and City Regions

14:01 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd systemau trafnidiaeth integredig mewn modelau dinas-ranbarthau? OAQ(4)1354(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the importance of integrated transport systems in city region models? OAQ(4)1354(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Better integrated transport connectivity can have a transformational impact upon businesses, people and communities across the city regions. The city region boards will consider transport connectivity in their priorities for the city regions.

Gall cysylltedd trafnidiaeth integredig gwell gael effaith gweddnewidiol ar fusnesau, pobl a chymunedau ar draws y rhanbarthau dinas. Bydd byrddau'r rhanbarthau dinas yn ystyried cysylltedd trafnidiaeth yn eu blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarthau dinas.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

For those with cars, the Swansea city region, including the upper Swansea valley, exists. For those relying on public transport, even relatively short journeys can be very difficult. Will the integration of rail and bus within the Swansea city region be seen as a priority?

I'r rhai sydd â cheir, mae rhanbarth dinas Abertawe, gan gynnwys rhan uchaf cwm Tawe, yn bodoli. I'r rhai sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus, gall hyd yn oed teithiau cymharol fyr fod yn anodd iawn. A fydd integreiddio rheilffyrdd a bysiau o fewn rhanbarth dinas Abertawe yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth?

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that it has to be. Rail and bus integration should be a priority across Wales. Swansea is not, as the Member knows, as well served as Cardiff in terms of its railway lines, probably because it had—depending on how you count it—four or five different railway stations at any moment in time, although now it has just the one. Its railway system was not integrated in the same way as Cardiff's was, and as a result the network was lost. However, the Member is entirely right that the Swansea valley, a substantially populated valley, does not have a railway line in it—I believe that it has not been there since about 1958, when the last passenger train ran down from Brynaman East station, because Brynaman had two stations at one time, down to Swansea St Thomas station. It is important then that buses are properly integrated with trains coming in not just to Swansea's High Street station, but to Gowerton, and also, for some parts of that valley, to Neath.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid iddo fod. Dylai integreiddio rheilffyrdd a bysiau fod yn flaenoriaeth ledled Cymru. Nid yw Abertawe, fel y mae'r Aelod yn ei wybod, yn cael ei wasanaethu cystal â Chaerdydd o ran ei rheilffyrdd, yn ôl pob tebyg oherwydd y bu yno—yn dibynnu ar sut yr ydych chi'n ei gyfrif—bedair neu bump o wahanol orsafoedd rheilffordd ar unrhyw un adeg, er mai dim ond un sydd yno erbyn hyn. Nid oedd ei system rheilffordd wedi ei hintegreiddio yn yr un ffordd ag un Caerdydd ac, o ganlyniad, collwyd y rhwydwaith. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn gwbl gywir nad oes gan gwm Tawe, cwm sydd â phoblogaeth helaeth, linell reilffordd ynddo—rwy'n credu na fu un yno ers tua 1958, pan ddaeth y trên teithwyr olaf i lawr o orsaf Dwyrain Brynaman, oherwydd roedd gan Frynaman ddwy orsaf ar un adeg, i lawr i orsaf St Thomas Abertawe . Mae'n bwysig felly bod bysiau yn cael eu hintegreiddio'n iawn gyda threnau sy'n dod i mewn nid yn unig i orsaf Stryd Fawr Abertawe, ond i Dre-gŵyr, a hefyd, i rai rhannau o'r cwm hwnnw, i Gastell-nedd.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:02 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, following on from your last answer, there is great support in south Wales for the metro project, but I want to add a note of disappointment on behalf of Swansea. The current model sees Swansea as a terminal rather than as an essential hub. However, there are ambitious plans afoot, such as the Swansea 9 Lines project, led by Amman Valley Railway Society, which plans to open old lines and create new lines throughout Swansea and the Swansea valley area. Will you commit to producing the same transport vision for the Swansea bay region, and give it the same priority that the Cardiff city region seems to get from your Government?

Brif Weinidog, yn dilyn ymlaen o'ch ateb diwethaf, ceir cefnogaeth fawr yn ne Cymru i'r prosiect metro, ond hoffwn ychwanegu nodyn o siom ar ran Abertawe. Mae'r model presennol yn gweld Abertawe fel terfynfa yn hytrach na chanolbwynt hanfodol. Fodd bynnag, mae cynlluniau uchelgeisiol ar y gweill, fel prosiect 9 Rheilffordd Abertawe 9, dan arweiniad Cymdeithas Rheilffordd Dyffryn Aman, sy'n bwriadu agor hen reilffyrdd a chreu rheilffyrdd newydd ledled Abertawe ac ardal Cwm Tawe. A wnewch chi ymrwymo i gynhyrchu'r un weledigaeth o ran trafnidiaeth ar gyfer rhanbarth Bae Abertawe a rhoi'r un flaenoriaeth iddo ag y mae'n ymddangos y mae rhanbarth dinas Caerdydd yn ei gael gan eich Llywodraeth?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The suggestion that Swansea is somehow losing out would be untrue. The reality is that the current passenger rail network is very much centred on Cardiff; Swansea does not have the same advantage. Nevertheless, I am aware of the Swansea 9 Lines project. The Amman Valley railway is used at the moment, but it is a mineral line, bringing coal down from East Pit. The society also has plans to reopen the extension that was once there to the old Abernant colliery. It will need to put forward its business plan in terms of how the railway—which I think has a 20 mph limit on it at the moment—can be upgraded for passengers in the future. Nevertheless, I am sure that any proposals will be fully considered by the city region board in order to make sure that existing rail networks can be integrated into the passenger network in the future.

Mae'r awgrym bod Abertawe yn cael cam mewn rhyw ffordd yn anwir. Y gwir amdani yw bod y rhwydwaith rheilffyrdd i deithwyr yn canolbwyntio i raddau helaeth ar Gaerdydd ar hyn o bryd; nid yw'r un fantais gan Abertawe. Serch hynny, rwy'n ymwybodol o brosiect 9 Rheilffordd Abertawe. Defnyddir rheilffordd Dyffryn Aman ar hyn o bryd, ond rheilffordd fwynau yw honno, sy'n dod â glo i lawr o Bwll y Dwyrain. Mae gan y gymdeithas gynlluniau hefyd i ailagor yr estyniad a oedd yno unwaith i hen lofa Abernant. Bydd angen iddo gyflwyno ei gynllun busnes o ran sut y gellir uwchraddio'r rheilffordd—sydd â chyfyngiad o 20 mya arni ar hyn o bryd—ar gyfer teithwyr yn y dyfodol. Serch hynny, rwy'n siŵr y bydd unrhyw gynigion yn cael eu hystyried yn llawn gan fwrdd y rhanbarth dinas, er mwyn gwneud yn siŵr y gall rhwydweithiau rheilffordd presennol gael eu hintegreiddio i mewn i'r rhwydwaith i deithwyr yn y dyfodol.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:04 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ar ei ymweliad diweddar â Chaeredin i geisio dylanwadu ar ganlyniad y refferendwm yno, a gafodd y Prif Weinidog gyfle i astudio'r system dramiau hynod o ddrudfawr yn y ddinas honno? A all roi sicrwydd i'r Siambr hon y bydd yr opsiynau fydd yn cael eu datblygu yng Nghymru yn debycach o lawer i'r rheilffyrdd ysgafn, sydd yn rhatach a phoblogaidd iawn ar draws Ewrop?

On his recent visit to Edinburgh to try to influence the result of the referendum there, did the First Minister have an opportunity to study the very expensive tram system in that city? Can he give the Chamber an assurance that the options considered and developed in Wales will be far more similar to the light railways, which are cheaper and very popular across Europe?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid yw hanes y system dramiau yng Nghaeredin wedi bod heb ei phroblemau. Ar un adeg, roedd tram o un ochr o Princes Street i'r llall, a braidd dim arall. Fodd bynnag, sylwais wrth deithio o'r maes awyr fod y system dramiau yn cael ei datblygu mewn rhai gorsafoedd. Mae'n wir i ddweud bod rhaid ystyried ym mha ffordd y gallwn integreiddio'r system rheilffyrdd trwm â system rheilffyrdd ysgafn, fel sy'n digwydd ym Manceinion, lle mae'n bosibl dod i mewn i orsaf Victoria a defnyddio'r un cerbyd i fynd o'r orsaf honno i'r ddinas ei hun. Felly, fel rhan o'r cynllun metro yn ne Cymru, bydd rhaid ystyried ym mha ffordd y gallwn sicrhau ein bod ni'n gallu ymestyn y rhwydwaith reilffyrdd sydd yno ar hyn o bryd i mewn i ganol y ddinas.

The history of the tram system in Edinburgh has not been without its problems. At one time, there was a tram from one side of Princes Street to the other, and basically nothing else. However, I noticed while travelling from the airport that the tram system was being developed in some stations. It is true to say that we have to consider how we can integrate a heavy transport system and a light transport system, which is what happens in Manchester, where it is possible to get into Victoria station and use the same vehicle to go from that station into the city itself. Therefore, as part of the metro scheme in south Wales, we will have to consider how we can ensure that we can extend the rail network that is there at the moment into the centre of the city.

## Datganoli Trethi a Phwerau Benthyg

## Devolution of Taxes and Borrowing Powers

14:05 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatganoli trethi a phwerau benthyg i Gymru? OAQ(4)1363(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the devolution of taxes and borrowing powers to Wales? OAQ(4)1363(FM)*

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the UK Government's response to the Silk commission's report. It is not all that we would have wanted, but it is a substantial package. I look forward to the publication of the draft legislation soon, to implement the reforms to boost the Welsh economy.

Rwy'n croesawu ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad comisiwn Silk. Nid yw'n cynnwys y cwbl y byddem wedi ei ddymuno, ond mae'n becyn sylweddol. Edrychaf ymlaen at gyhoeddiad y ddeddfwriaeth ddrafft cyn bo hir, i weithredu'r diwygiadau i roi hwb i economi Cymru.

14:06 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The UK Government says that income tax devolution will give Wales the opportunity of establishing an economic advantage within the UK. However, the secretary of state for Bristol—sorry, the Secretary of State for Wales [Laughter.]—says that air passenger duty cannot be devolved because it would give Wales an unfair advantage. Whose approach is correct?

Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd datganoli treth incwm yn rhoi cyfle i Gymru sefydlu mantais economaidd o fewn y DU. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd Gwladol Bryste—mae'n ddrwg gennyf, Ysgrifennydd Gwladol Cymru [Chwerthin.]—yn dweud na ellir datganoli'r dreth teithwyr awyr gan y byddai'n rhoi mantais annheg i Gymru. Ymagwedd pwy sy'n gywir?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I better be careful here. I saw the Secretary of State accusing us of being too nice in this Chamber in the 'Western Mail' this morning. Let me point out some of the inconsistencies in his recent statements. He was very robust, at one time, when he said that he believed that stamp duty set at different rates on each side of the border would distort competition, which he thought was a significant issue. He has said that the devolution of air passenger duty would be to Bristol's detriment. He is, after all, the Secretary of State for Wales, and not Bristol, so I would not have expected him to be even-handed in that debate. Nevertheless, that is what he said. He also committed his party—I do not know what consultation he had with the leader of the Welsh Conservatives, a title which I think is the right title for him, even though others in his party seem to disagree—to reduce income tax in Wales in the future. That is done, it is said on his part, to improve Wales's competitiveness. I do not understand how it is distortive in terms of stamp duty or air passenger duty, but id apparently fine in terms of income tax. There is, without doubt, an inconsistency there.

Mae'n well i mi fod yn ofalus yn y fan yma. Gwelais yr Ysgrifennydd Gwladol yn ein cyhuddo o fod yn rhy neis yn y Siambr hon yn y 'Western Mail' y bore yma. Gadewch i mi nodi rhai o'r anghysondebau yn ei ddatganiadau diweddar. Roedd yn gadarn iawn, ar un adeg, pan ddywedodd ei fod yn credu y byddai treth stamp ar wahanol gyfraddau y ddwy ochr i'r ffin yn ystumio cystadleuaeth, ac roedd o'r farn fod hynny yn fater o bwys. Mae wedi dweud y byddai datganoli treth teithwyr awyr yn rhoi Bryste dan anfantais. Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw e, wedi'r cyfan, ac nid Bryste, felly ni fyddwn wedi disgwyl iddo fod yn gytbwys yn y ddadl honno. Serch hynny, dyna'r hyn a ddywedodd. Ymrwymodd ei blaid hefyd—nid wyf yn gwybod pa ymgynghori a wnaeth gydag arweinydd Ceidwadwyr Cymru, teitl yr wyf yn credu yw'r teitl iawn iddo ef, er ei bod yn ymddangos bod eraill yn ei blaid yn anghytuno—i leihau treth incwm yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hynny'n cael ei wneud, y dywedwyd ar ei ran, i wella cystadleurwydd Cymru. Nid wyf yn deall sut y mae'n ystumio o ran y dreth stamp neu'r dreth teithwyr awyr, ond ei bod yn iawn yn ôl pob tebyg o ran treth incwm. Nid oes amheuaeth bod anghysondeb yn hynny o beth.

14:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister—[Interruption.] Okay—

Brif Weinidog—[Torri ar draws.] Iawn—

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. This is question time, not repartee time.

Trefn. Amser cwestiynau yw hwn, nid amser ffraethineb.

14:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In Gerry Holtham's review of the economy in Wales, he said that, were the Assembly for Wales to be given control over income tax rates, the one way to encourage the Welsh economy would be to reduce the upper rate by 10p in the pound. Do you agree with Gerry Holtham?

Yn adolygiad Gerry Holtham o'r economi yng Nghymru, dywedodd, pe byddai Cynulliad Cymru yn cael rheolaeth dros gyfraddau treth incwm, yr un ffordd o annog economi Cymru fyddai lleihau'r gyfradd uchaf o 10c yn y bunt. A ydych chi'n cytuno â Gerry Holtham?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

[Interruption.] The leader of Plaid Cymru has assisted me. The proposals being put forward by the UK Government would mean that you could not reduce the top rate by 10p if you did not do the same with the standard rate. That would mean a substantial reduction in Welsh funds in the future. If it is your contention that we should be able to vary the rates of income tax independently of each other, then that is something you must make clear to the Secretary of State.

[Torri ar draws.] Mae arweinydd Plaid Cymru wedi fy helpu i. Byddai'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU yn golygu na allech chi leihau'r gyfradd uchaf o 10c pe na byddech yn gwneud yr un peth gyda'r gyfradd safonol. Byddai hynny'n golygu gostyngiad sylweddol i gronfeydd Cymru yn y dyfodol. Os mai eich dadl chi yw y dylem allu amrywio cyfraddau treth incwm yn annibynnol ar ei gilydd, yna mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i chi ei wneud yn eglur i'r Ysgrifennydd Gwladol.

14:08 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf am ddychwelyd at drafnidiaeth, ond i droi at bwerau benthyg. Rydym yn sicr yn cytuno y dylai arian gael ei wario ar leddfu problemau trafnidiaeth yn y de-ddwyrain, ond rwyf am dynnu eich sylw at sylwadau gan Aelod Seneddol Llafur Alun a Glannau Dyfrdwy heddiw, a ddywedodd bod trafnidiaeth yn y gogledd yn gwegian a bod angen system trafnidiaeth fodern. Rydym yn credu y dylai pwerau benthyg gael eu rhannu ar draws Cymru o ran eu budd. Mae trydaneiddio'r rheilffordd yn un opsiwn ar draws y gogledd. Fodd bynnag, a wnewch chi hefyd gytuno a rhoi adduned yn y dyfodol i edrych ar ddefnyddio pwerau benthyg i dalu am drydedd bont ar draws y Fenai, er mwyn lleddfu traffig yn yr oriau brig, ond hefyd er mwyn cynyddu capasiti ar gyfer twf economaidd?

I want to return to transport, but in the context of borrowing powers. We certainly agree that money should be spent on alleviating traffic problems in the south-east, but I want to draw your attention to the comments by the Labour Member of Parliament for Alyn and Deeside today, who said that transport in north Wales is creaking and that we need a modern transport system. We believe that borrowing powers should be shared across Wales in terms of their benefits. Electrification of the railway across north Wales is one option. However, would you also agree and give a pledge in future to look at using borrowing powers to pay for a third crossing over the Menai in order to alleviate traffic problems at peak times, but also in order to increase capacity for economic growth?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r Aelod yn iawn i ddweud na ddylai pwerau benthyg fod o fudd i un rhan o Gymru yn unig. Rwyf wedi bod yn ofalus iawn i ddweud hynny yn fy ymateb i sylwadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Un peth a allai gael ei ystyried yn y dyfodol yw ym mha ffordd y gallwn sicrhau bod traffig yn croesi'r Fenai mewn ffordd sy'n rhwyddach nag ydyw yn awr. Un ffordd o wneud hynny, efallai, fyddai cael trydedd bont. Efallai fod opsiynau eraill ar gael ynglŷn â phont Britannia—ond nid pont Menai, byddwn i'n meddwl. Mae'n wir i ddweud fod hwn yn un o'r pethau y gallwn ei ystyried yn y dyfodol nad oeddwn yn gallu ei ystyried yn y gorffennol.

The Member is right to say that borrowing powers should not be of benefit to one part of Wales alone. I have been very careful to say that in my response to the comments of the UK Government. One thing that could be considered in the future is in what way we could ensure that traffic crosses the Menai in a way that is easier than it is now. One way of doing that, perhaps, would be to have a third bridge. There could be other options available in relation to the Britannia bridge—but not the Menai bridge, I would have thought. It is true to say that this is one of the things that we could consider in future that we would not have been able to consider in the past.

## HIV/AIDS

## HIV/AIDS

14:10 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddileu HIV/AIDS yng Nghymru? OAQ(4)1353(FM)*

*9. Will the First Minister provide an update on on-going work to eradicate HIV/Aids in Wales? OAQ(4)1353(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Welsh Government has a sexual health and wellbeing action plan and a national care pathway for people with HIV/AIDS. In addition, Public Health Wales delivers the HIV prevention programme and there are a number of local prevention initiatives undertaken by local health boards.

Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun gweithredu ar iechyd a lles rhywiol a llwybr gofal cenedlaethol ar gyfer pobl sydd â HIV/AIDS. Hefyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r rhaglen atal HIV ac mae byrddau iechyd lleol yn cynnal nifer o fentrau atal lleol.

14:10 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. This Sunday, 1 December, marks World AIDS Day, which is an opportunity for people, worldwide, to unite in the fight against HIV, to show their support for people living with HIV and to remember those who have died from HIV. Here in Wales, during the first six months of this year, 60 people contracted HIV, which will have a dramatic health consequence for them and their families for the rest of their lives. That is just the tip of the iceberg in global terms, with more than 25 million people having died from the virus in a 25-year period.

Diolch yn fawr ichi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Y Dydd Sul yma, 1 Rhagfyr, yw Diwrnod AIDS y Byd, sy'n gyfle i bobl ledled y byd uno yn y frwydr yn erbyn HIV, i ddangos eu cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda HIV ac i gofio'r rhai sydd wedi marw o HIV. Yma yng Nghymru, yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn hon, contractiwyd HIV gan 60 o bobl, a fydd yn arwain at ganlyniadau iechyd enbyd iddyn nhw a'u teuluoedd am weddill eu hoes. Ond ychydig iawn yw hyn o safbwynt byd-eang, gan fod mwy na 25 miliwn o bobl wedi marw o'r firws mewn cyfnod o 25 mlynedd.

Will you provide the Chamber with information about what your Government is doing to help fight against worldwide AIDS? Closer to home, what steps are in place to provide accessible and safe sexual health services, which are so vital for detecting HIV?

A wnewch chi roi gwybodaeth i'r Siambr am yr hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i helpu i frwydro yn erbyn AIDS ledled y byd? Yn nes at adref, pa gamau sydd ar waith i ddarparu gwasanaethau iechyd rhywiol hygyrch a diogel, sydd mor hanfodol ar gyfer canfod HIV?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

On the second part of the question, I refer the Member to the answer that I gave to a previous question. However, the Wales for Africa health links network helps to deliver the millennium development goals by harnessing the expertise and commitment that exists within the NHS in Wales to support and improve worldwide public health with funding from the Wales for Africa programme. For the past three years, a grant scheme has been available. For example, many Wales for Africa health links are working on HIV/AIDS interventions as part of what they do. One example that I can give the Member is Cardiff University's link with the University of Sierra Leone, which delivers community health projects to give people access to information and community understanding of preventable public health risks, including HIV/AIDS.

O ran ail ran y cwestiwn, cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais i gwestiwn blaenorol. Fodd bynnag, mae rhwydwaith cysylltiadau iechyd Cymru o Blaid Affrica yn helpu i fodloni amcanion datblygu'r mileniwm drwy harneisio'r arbenigedd a'r ymrwymiad sy'n bodoli yn y GIG yng Nghymru i gefnogi a gwella iechyd y cyhoedd ledled y byd gyda chyllid y rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Mae cynllun grant wedi bod ar gael ers y tair blynedd diwethaf. Er enghraifft, mae llawer o gysylltiadau iechyd Cymru o Blaid Affrica yn gweithio ar ymyraethau HIV/AIDS yn rhan o'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Un enghraifft y gallaf ei roi i'r Aelod yw cysylltiad Prifysgol Caerdydd gyda Phrifysgol Sierra Leone, sy'n darparu prosiectau iechyd cymunedol i roi mynediad i bobl at wybodaeth a dealltwriaeth gymunedol o risgiau i iechyd y cyhoedd y gellir eu hatal, gan gynnwys HIV/AIDS.

14:12 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the prevalence of HIV infections is higher in prison populations than it is in the general population, and you will be aware that the NHS in Wales is responsible for healthcare in Welsh prisons. What action is the Welsh Government taking to improve sexual health within the prison population?

Brif Weinidog, mae nifer yr achosion o heintiau HIV yn uwch mewn poblogaethau yn y carchar nag ydyw yn y boblogaeth yn gyffredinol, a byddwch yn ymwybodol bod y GIG yng Nghymru yn gyfrifol am ofal iechyd yng ngharchardai Cymru. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella iechyd rhywiol o fewn y boblogaeth yn y carchar?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As I said in the answer that I gave to the previous Member, we have published the pathway. We are looking at the prevention programme, which helps to raise awareness of HIV, and we have the sexual health and wellbeing action plan, which will be there to support all of the population, including the prison population.

Fel y dywedais yn yr ateb a roddais i'r Aelod blaenorol, rydym ni wedi cyhoeddi'r llwybr. Rydym yn edrych ar y rhaglen atal, sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth o HIV, ac mae'r cynllun gweithredu ar iechyd a lles rhywiol gennym, a fydd yno i gefnogi'r holl boblogaeth, gan gynnwys poblogaeth y carchardai.

### Polisïau a Thargedau Ynni Adnewyddadwy

### Renewable Energy Policies and Targets

14:12 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu ei pholisïau a thargedau ynni adnewyddadwy i ystyried technolegau newydd? OAQ(4)1358(FM)*

*10. Does the Welsh Government plan to review its renewable energy policies and targets to take account of emerging technologies? OAQ(4)1358(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our aim is to achieve a low-carbon economy while ensuring that, in transition, we deliver economic benefits and jobs. It is that principle, rather than a commitment to any particular technology, which drives our energy policy, although, of course, we always look to see how we can develop emerging technologies in Wales in the future.

Ein nod yw sicrhau economi carbon-isel gan sicrhau, mewn cyfnod o newid, ein bod yn darparu manteision economaidd a swyddi. Yr egwyddor honno, yn hytrach nag ymrwymiad i unrhyw dechnoleg benodol, sy'n sbarduno ein polisi ynni, er, wrth gwrs, rydym bob amser yn edrych i weld sut y gallwn ddatblygu technolegau newydd yng Nghymru yn y dyfodol.

14:13 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. As you will probably know, most of my region falls within strategic search areas E and F, on the back of your rather determined policy regarding onshore windfarms. However, one of the disadvantages of wind is its unpredictability. Energy produced at times when it is not needed cannot easily be stored, even though it is possible to convert it to water pressure, which is itself a form of energy capture for later use. Will your Government consider requiring planning applications to include a statement from developers about how they intend to prevent energy loss at times of high production and low demand?

Diolch yn fawr i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y mae'n debyg y byddwch yn gwybod, mae'r rhan fwyaf o'm rhanbarth i yn ardaloedd chwilio strategol E ac F, yn sgil eich polisi penderfynol braidd ynghylch ffermydd gwynt ar y tir. Fodd bynnag, un o anfanteision y gwynt yw natur na ellir ei ragweld. Nid yw'n hawdd storio ynni a gynhyrchir ar adegau pan nad oes ei angen, er ei fod yn bosibl ei droi'n bwysedd dŵr, sydd ei hun yn ffordd o ddal ynni i'w ddefnyddio'n ddiweddarach. A wnaiff eich Llywodraeth ystyried ei gwneud yn ofynnol i geisiadau cynllunio gynnwys datganiad gan ddatblygwyr ynghylch sut maen nhw'n bwriadu atal colli ynni ar adegau o gynhyrchu uchel a galw isel?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is a matter for the UK Government in terms of the grid, rather than for us. In terms of energy policy, we need to have large power stations and, to my mind, there is no alternative to nuclear in that regard. It is not possible to move back to the days of coal-powered stations, even if we wanted to, because there is no coal in sufficient amounts to fire those power stations, leaving aside the important and not irrelevant point of our carbon footprint. The reality is that if we want energy security in the UK, we have to harness renewable energy and wind.

Mater i Lywodraeth y DU yw hyn, o ran y grid, yn hytrach nag i ni. O ran polisi ynni, mae angen i ni gael gorsafoedd pŵer mawr ac, yn fy marn i, nid oes dewis arall yn hytrach na niwclear yn hynny o beth. Nid yw'n bosibl symud yn ôl i'r dyddiau o orsafoedd wedi eu pweru gan lo, hyd yn oed pe byddem ni eisiau gwneud hynny, gan nad oes digon o lo i danio'r gorsafoedd pŵer hynny, heb son am bwynt pwysig ac nid amherthnasol ein hôl troed carbon. Y gwir amdani yw, os ydym eisiau diogelwch ynni yn y DU, mae'n rhaid i ni harneisio ynni adnewyddadwy a gwynt.

It is with very much regret that I saw today that the Atlantic Array development will not proceed—not because of the reasons given, which are technical problems, but because the UK energy market is so shambolic at the moment. There is no direction, no-one knows what the market will look like in the future, and there is a serious danger that, unless things change between now and 2017, the lights will start to go off. It is about time that the Tory-Lib Dem coalition in London gave us some idea what the direction of travel as far as energy is concerned will be in the future. That has yet to be done, because of internal arguments within the coalition itself. The people of Britain deserve better.

Roeddwn yn gresynu'n fawr o weld heddiw na fydd y datblygiad Atlantic Array yn mynd yn ei flaen—nid oherwydd y rhesymau a roddwyd, sef problemau technegol, ond oherwydd bod marchnad ynni'r DU yn gymaint o draed moch ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gyfeiriad, does neb yn gwybod sut fydd y farchnad yn edrych yn y dyfodol, ac mae perygl difrifol, oni bai bod pethau'n newid rhwng nawr a 2017, y bydd y goleuadau'n dechrau cael eu diffodd. Mae'n hen bryd i glymblaid y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain roi rhywfaint o syniad o beth fydd y cyfeiriad teithio o ran ynni yn y dyfodol. Ni wnaed hynny eto, oherwydd dadleuon mewnol o fewn y glymblaid ei hun. Mae pobl Prydain yn haeddu gwell.

14:15 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydych chi felly'n cytuno â fi—rwy'n gwybod eich bod oherwydd gwnaethoch bleidleisio o blaid hyn yr wythnos diwethaf—ei bod yn angenrheidiol i ddatganoli cyfrifoldeb am ynni i Gymru oherwydd yr anhrefn llwyr ym mholisi ynni Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Onid yw'n biti mawr na wnaeth Aelodau Seneddol Llafur gefnogi hynny yn San Steffan pan gawson nhw'r cyfle?

You would therefore agree with me—I know that you do because you voted in favour of this last week—that it is necessary to devolve responsibility for energy to Wales because of the chaos that is the UK Government's energy policy? Is it not a great shame that Labour MPs did not support that in Westminster when they had the opportunity to do so?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Roedd hynny dipyn bach yn wahanol. Yr hyn yr ydym ni wedi ei ddweud yw ein bod yn mo'yn sicrhau ein bod yn cael pwerau ynni ar yr amser hwnnw hyd at 'limit', ond nid wyf yn gweld pam ddylai 'limit' fod yno nawr, mae'n rhaid imi ddweud. Dyna yw ein polisi fel plaid. Rydym ni'n mo'yn sicrhau bod pwerau gennym dros ynni, ond mae'n rhaid inni ystyried na fyddai'r pwerau hynny yn estyn dros y farchnad ei hun gan fod y farchnad yn farchnad Brydeinig —yn perthyn i'r ynys, sef ynys Prydain Fawr. Felly, byddai'n bosibl sicrhau ein bod yn gallu creu ffyrdd o greu ynni yn y dyfodol, ond nid yw hynny'n golygu y byddai gennym ryw fath o reolaeth dros y farchnad. Dyna pam mae'n bwysig bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dangos ffordd glir ymlaen ynglŷn â'r farchnad.

That was a little different. What we have said is that we want to ensure that we have energy powers up to a certain limit at that time, but I do not see why that limit should be there now. That is our policy as a party. We want to ensure that we have powers over energy, but we must consider that those powers would not extend to the market itself because the market is a British one—for the island of Great Britain. So, it would be possible to ensure that we could create means of generating energy in the future, but that does not mean that we would have regulatory powers over the market. That is why it is important that the UK Government shows a clear way forward in terms of the market.

14:16

## Cwestiwn Brys: Ysbyty Tywysog Philip

## Urgent Question: Prince Philip Hospital

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Simon Thomas to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Simon Thomas i ofyn y cwestiwn brys.

14:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bwriad i gael uned ddamweiniau wedi'i harwain gan feddygon yn Ysbyty Tywysog Philip Llanelli yn sgîl ei lythyr at gadeirydd Plaid Lafur Llanelli dyddiedig 21 Tachwedd 2013? EAQ(4)0363(HSS)*

*Will the Minister make a statement on the intention to establish a GP-led emergency unit at Prince Philip Hospital in Llanelli following his letter to the chair of the Llanelli Labour Party dated 21 November 2013? EAQ(4)0363(HSS)*

14:16 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

I announced my determination of service changes at Prince Philip Hospital in a statement to the Assembly on 24 September.

Cyhoeddais fy mhenderfyniad ar newidiadau i wasanaethau yn Ysbyty Tywysog Philip mewn datganiad i'r Cynulliad ar 24 Medi.

14:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that reply, Minister. It was very interesting, because your statement on 24 September said that you were determined that this form of service would be implemented, and that form of service was an emergency nurse practitioner-led and GP-supported model. Your letter to the Llanelli Labour Party, which was read out in the meeting of the Llanelli Rural Council at which all regional Members and the local Member were present, said that this service would now be clinically led by doctors. For clarity, since that was taken as being a change in the service that would be provided for the people of Llanelli, Minister, will you publish your letter of 21 November to Councillor Devichand so that everyone can understand its meaning? Will you state what the meaning of 'clinically led by doctors' is and how that is any different to an ENP-led and GP-supported model? What, therefore, is the material difference—

Diolchaf i chi am yr ateb yna, Weinidog. Roedd yn ddiddorol iawn, gan fod eich datganiad ar 24 Medi yn dweud eich bod yn benderfynol y byddai'r math hwn o wasanaeth yn cael ei roi ar waith, ac mai model a arweinir gan ymarferwyr nyrsio brys ac a gefnogir gan feddygon teulu oedd y math hwnnw o wasanaeth. Dywedodd eich llythyr i Blaid Lafur Llanelli, a ddarllenwyd yng nghyfarfod Cyngor Gwledig Llanelli yr oedd yr holl Aelodau rhanbarthol a'r Aelod lleol yn bresennol ynddo, y byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei arwain yn glinigol gan feddygon bellach. I fod yn eglur, gan yr ystyriwyd bod hynny'n newid i'r gwasanaeth a fyddai'n cael ei ddarparu i bobl Llanelli, Weinidog, a wnewch chi gyhoeddi eich llythyr o 21 Tachwedd i'r Cynghorydd Devichand fel y gall pawb ddeall ei ystyr? A wnewch chi ddatgan beth yw ystyr 'wedi ei arwain yn glinigol gan feddygon' a sut mae hynny'n wahanol i fodel a arweinir gan ymarferwyr nyrsio brys ac a gefnogir gan feddygon teulu? Beth, felly, yw'r gwahaniaeth perthnasol—

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that you have asked three questions.

Rwy'n meddwl eich bod wedi gofyn tri chwestiwn.

14:17 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

A couple of questions.

Cwpl o gwestiynau.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, come on now. I agreed an urgent question; it is not a huge discussion.

Na, dewch nawr. Cytunais ar gwestiwn brys; nid yw'n drafodaeth enfawr.

14:17 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am trying to scrutinise what I thought was a change in policy.

Rwy'n ceisio craffu ar yr hyn yr oeddwn i'n ei weld fel newid mewn polisi.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Please stick to questions.

Cadwch at gwestiynau os gwelwch yn dda.

14:17 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

May I ask what the material changes in the proposals may be and whether this means a doctor-delivered service? Finally, what discussions have you had with Hywel Dda Local Health Board and what has it undertaken to do to change the proposals since September?

A gaf fi ofyn beth allai'r newidiadau perthnasol i'r cynigion fod ac a yw hyn yn golygu gwasanaeth a ddarperir gan feddyg? Yn olaf, pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a beth y mae wedi cytuno i'w wneud i newid y cynigion ers mis Medi?

14:18 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, there are no material changes between the statement that I made in the Assembly and the letter to which the Member refers. The letter is clearly in the public domain, and I have no problem at all in making that formal. Had the Member taken the trouble to read technical documents supporting the advice and recommendations of the panel, and that was the advice to which I referred on 24 September—that technical document is in the public domain already—he would know that it sets out six tests to explain why it came to the conclusion that the future model at Prince Philip Hospital should be emergency nurse practitioner-led, supported by GPs. The sixth test says that any proposed model for care delivery must be clinically led. That is why it proposed the model that it proposed. That is why there is no change between the statement I made here and the letter to which he has referred.

Lywydd, nid oes unrhyw newidiadau perthnasol rhwng y datganiad a wneuthum yn y Cynulliad a'r llythyr y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Mae'n amlwg bod y llythyr yn eiddo i'r cyhoedd, ac nid oes gennyf broblem o gwbl mewn gwneud hynny'n ffurfiol. Pe byddai'r Aelod wedi mynd i'r drafferth i ddarllen dogfennau technegol yn cefnogi cyngor ac argymhellion y panel, a dyna'r cyngor y cyfeiriais ato ar 24 Medi—mae'r ddogfen dechnegol honno eisoes yn eiddo i'r cyhoedd—byddai'n gwybod ei fod yn nodi chwe phrawf i egluro pam y daeth i'r casgliad mai model a arweinir gan ymarferwyr nyrsio brys ac a gefnogir gan feddygon teulu y dylai'r model fod yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn y dyfodol. Mae'r chweched prawf yn dweud bod yn rhaid i unrhyw fodel arfaethedig ar gyfer darparu gofal gael ei arwain yn glinigol. Dyna pam y cynigodd y model a gynigiwyd. Dyna pam nad oes unrhyw newid rhwng y datganiad a wneuthum yma a'r llythyr y mae wedi cyfeirio ato.

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I remind Members that this is an opportunity for the Minister to clarify his position and not a long debate. I call on Keith Davies.

Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai cyfle i'r Gweinidog egluro ei safbwynt yw hwn ac nid dadl hir. Galwaf ar Keith Davies.

14:19 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Llywydd. As the local AM for Llanelli, I welcome the fact that the emergency unit at PPH will be clinically led by doctors and that responsibility for clinical leadership in such circumstances rests with GPs or consultants, as appropriate. As you have said, you have made a previous statement and responded to a letter from the Llanelli Labour Party, which I was pleased to read out at the Llanelli Rural Council meeting last Thursday. My position has not changed. I have always said that doctors should have clinical leadership in Prince Philip Hospital's emergency unit, a view expressed by myself and my constituents to Hywel Dda's consultation—

Diolch, Lywydd. Fel yr AC lleol dros Lanelli, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd yr uned achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn cael ei harwain yn glinigol gan feddygon ac mai meddygon teulu neu ymgynghorwyr, fel y bo'n briodol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth glinigol dan amgylchiadau o'r fath. Fel yr ydych chi wedi ei ddweud, rydych chi wedi gwneud datganiad blaenorol ac wedi ymateb i lythyr gan Blaid Lafur Llanelli, yr oeddwn i'n falch o'i ddarllen yng nghyfarfod Cyngor Gwledig Llanelli ddydd Iau diwethaf. Nid yw fy safbwynt i wedi newid. Rwyf wedi dweud erioed y dylai meddygon gael arweinyddiaeth glinigol yn uned achosion brys Ysbyty'r Tywysog Philip, barn a fynegwyd gennyf i a'm hetholwyr i ymgynghoriad Hywel Dda—

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Keith, I did ask you—[Inaudible.]

Keith, fe wnes i ofyn i chi— [Anghlywadwy.]

14:19 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Keeping what we have—a view that I thought was shared by Simon Thomas in this Chamber. Minister, I understand that you have held discussions with senior management at Hywel Dda Local Health Board around the implementation of your decision. Do you feel that it is important that the Hywel Dda Community Health Council plays an active role in monitoring its delivery?

Cadw'r hyn sydd gennym—safbwynt yr oeddwn dan yr argraff bod Simon Thomas yn ei rannu yn y Siambr hon. Weinidog, rwy'n deall eich bod wedi cynnal trafodaethau gydag uwch reolwyr ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda o ran rhoi eich penderfyniad ar waith. A ydych chi'n teimlo ei bod yn bwysig bod Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda yn cyflawni swyddogaeth ymarferol yn y gwaith o fonitro ei ddarpariaeth?

14:20 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is clearly an important role of CHCs that they monitor the delivery of health services in all parts of Wales, and that they do so carefully and constructively.

Mae'n amlwg yn un o swyddogaethau pwysig CICau eu bod yn monitro darpariaeth gwasanaethau iechyd ym mhob rhan o Gymru, a'u bod yn gwneud hynny'n ofalus ac yn adeiladol.

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not going to repeat my message, but please be succinct.

Nid wyf yn mynd i ailadrodd fy neges, ond byddwch yn gryno os gwelwch yn dda.

14:20 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, do you accept that there is confusion now out there around the future of the service because of the lack of clarity in your original statement to this Chamber, which suggested that the services would be led by nurses and not GPs? Led by nurses supported by GPs was what you told this Chamber. It is bad enough that you have already broken your promise to not downgrade these services at that particular hospital, but we know that other hospitals in that part of the world are also considering the future of their services, particularly Withybush hospital. Do you accept that the confusion that you have caused could lead to some people not being confident in the level of service at that hospital and that that could cause pressure on other hospitals in south Wales?

Weinidog, a ydych chi'n derbyn bod dryswch i'w weld nawr am ddyfodol y gwasanaeth oherwydd y diffyg eglurder yn eich datganiad gwreiddiol i'r Siambr hon, a oedd yn awgrymu y byddai'r gwasanaethau'n cael eu harwain gan nyrsys ac nid meddygon teulu? Wedi eu harwain gan nyrsys a'u cefnogi gan feddygon teulu oedd yr hyn a ddywedasoch yn y Siambr hon. Mae'n ddigon gwael eich bod eisoes wedi torri eich addewid i beidio ag israddio'r gwasanaethau hyn yn yr ysbyty penodol hwnnw, ond rydym ni'n gwybod bod ysbytai eraill yn y rhan honno o'r byd yn ystyried dyfodol eu gwasanaethau hefyd, yn enwedig ysbyty Llwynhelyg. A ydych chi'n derbyn y gallai'r dryswch yr ydych chi wedi ei achosi fod wedi golygu nad yw rhai pobl yn hyderus yn lefel y gwasanaeth yn yr ysbyty hwnnw ac y gallai hynny achosi pwysau ar ysbytai eraill yn ne Cymru?

14:21 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is no confusion caused by me, although I do understand the political mischief that is made by those who would seek to cause confusion. I said that this would be a unit supported by GPs because that is what the panel recommended to me. What does 'support by GPs' mean if it is not clinical leadership?

Ni achoswyd unrhyw ddryswch gennyf i, er fy mod yn deall y drygioni gwleidyddol sy'n cael ei wneud gan y rhai a fyddai'n ceisio achosi dryswch. Dywedais y byddai hon yn uned wedi ei chefnogi gan feddygon teulu gan mai dyna argymhellodd y panel i mi. Beth mae 'wedi ei gefnogi gan feddygon teulu' yn ei olygu os nad arweinyddiaeth glinigol?

14:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I was also present at the Llanelli Rural Council meeting to see the relief that greeted the letter that was read out by Keith Davies, which you had sent to the constituency chair of the Labour Party in Llanelli. However, the meeting went on to discuss a number of aspects around the Hywel Dda Local Health Board, particularly its communications, and also carried out a vote of no-confidence in the board. Minister, can you please give that council the reassurance that you are holding the health board up to the mark in its delivery of services for the people of Llanelli?

Weinidog, roeddwn innau hefyd yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor Gwledig Llanelli i weld y rhyddhad a gafwyd o'r llythyr a ddarllenwyd gan Keith Davies, yr oeddech chi wedi ei anfon at gadeirydd etholaeth y Blaid Lafur yn Llanelli. Fodd bynnag, aeth y cyfarfod ymlaen i drafod nifer o agweddau ar Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, yn enwedig ei gyfathrebu, a chynhaliwyd pleidlais o ddiffyg hyder yn y bwrdd hefyd. Weinidog, a allwch chi sicrhau'r cyngor hwnnw eich bod yn gwneud y bwrdd iechyd yn atebol o ran ei ddarpariaeth o wasanaethau i bobl Llanelli?

14:22 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not responsible for the views of the Llanelli rural district council.

Nid wyf yn gyfrifol am safbwyntiau cyngor dosbarth gwledig Llanelli.

14:22 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I was also at that meeting when that letter was read out. There was marked disappointment on the faces of the Plaid members that were there. I just want you, Minister, yet again to reiterate quite clearly what was obvious to many people from the 24 September, that it is the case that the accident and emergency department at Prince Philip Hospital will be clinically led. I just want you to say that yet again, for the umpteenth time, and that that is according to the document upon which you made that decision. [Interruption.]

Weinidog, roeddwn innau hefyd yn y cyfarfod pan ddarllenwyd y llythyr hwnnw. Roedd siom amlwg ar wynebau aelodau'r Blaid a oedd yno. Hoffwn i chi, Weinidog, ailadrodd unwaith eto yn gwbl eglur yr hyn a oedd yn amlwg i lawer o bobl o 24 Medi, sef ei bod yn wir y bydd yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn cael ei harwain yn glinigol. Hoffwn i chi ddweud hynny eto, am y canfed tro, a bod hynny yn unol â'r ddogfen a ddefnyddiwyd gennych fel sail i'r penderfyniad hwnnw. [Torri ar draws.]

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas, you had the opportunity to ask your urgent question. Will you stop interrupting? Joyce Watson, have you finished?

Simon Thomas, cawsoch gyfle i ofyn eich cwestiwn brys. A wnewch chi roi'r gorau i dorri ar draws? Joyce Watson, a ydych chi wedi gorffen?

14:23 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

14:23 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Joyce Watson, for that question. To reiterate one more time, the service at Prince Philip Hospital will be clinically led, and that was the underpinning rationale for the panel in coming to its recommendation to me that there should be GP involvement in that unit.

Diolch i chi, Joyce Watson, am y cwestiwn yna. I ailadrodd unwaith eto, bydd y gwasanaeth yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn cael ei arwain yn glinigol, a dyna oedd rhesymeg sylfaenol y panel wrth wneud ei argymhelliad i mi y dylid cynnwys meddygon teulu yn yr uned honno.

14:23 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yet that is not GP led, is it?

Ac eto nid wedi ei arwain gan feddygon teulu yw hynny nage?

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry. Order, Darren Millar. I will reiterate this afternoon what I said last week: we have a lot of people wishing to speak. Will you please be succinct and ask questions, not make long statements? Otherwise, we will be here very late this evening. We will now move on.

Mae'n ddrwg gennyf. Trefn, Darren Millar. Hoffwn ailadrodd y prynhawn yma yr hyn a ddywedais yr wythnos diwethaf: mae gennym lawer o bobl sy'n dymuno siarad. A wnewch chi fod yn gryno os gwelwch yn dda a gofyn cwestiynau, nid gwneud datganiadau hir? Fel arall, byddwn ni yma'n hwyr iawn heno. Symudwn ymlaen nawr.

14:24

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Nid oes gennyf unrhyw newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ddangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir eu gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael yn electronig i'r Aelodau.

14:24 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First, I thank the Minister for her statement. I wonder whether the Minister for health could issue a written statement, which would be quite acceptable, regarding the availability of the nasal spray vaccination for children? He kindly replied to a question last week, but there seems to be further ambiguity about what is actually happening. The immunisation co-ordinator at Aneurin Bevan Local Health Board says that they have no stocks and that they are not aware of any further doses of the vaccine being delivered. The Minister previously indicated a question of the co-ordination of existing supplies, so I would like clarification on that, if I may, because clearly the Minister will be well aware that it is a very important immunisation policy.

Yn gyntaf, diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad. Tybed a allai'r Gweinidog iechyd gyhoeddi datganiad ysgrifenedig, a fyddai'n gwbl dderbyniol, ynghylch a yw'r brechlyn chwistrell trwyn ar gael i blant? Atebodd yn garedig i gwestiwn yr wythnos diwethaf, ond mae'n ymddangos bod amwysedd pellach am yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Mae'r cydgysylltydd imiwneiddio ym Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn dweud nad oes ganddynt unrhyw stociau ac nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw ddosau pellach o'r brechlyn yn cael eu danfon. Nododd y Gweinidog gwestiwn o gydgysylltu cyflenwadau presennol o'r blaen, felly hoffwn gael eglurhad ar hynny, os caf, oherwydd mae'n amlwg y bydd y Gweinidog yn gwbl ymwybodol ei fod yn bolisi imiwneiddio pwysig iawn.

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Health and Social Services has obviously heard your question and will write to you to clarify the issue.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlwg wedi clywed eich cwestiwn a bydd yn ysgrifennu atoch i egluro'r mater.

14:24 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

14:25 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could we have a statement from the Minister for Natural Resources and Food on the extent and usage of snares in Wales? You may be aware that DEFRA published a report on snaring last year, in which it estimated that up to 260,000 snares were in use in England and Wales. The report raised questions about compliance with code of practice guidelines, it suggested that users were not properly trained and it noted that measures had not been taken to prevent the capture of non-target animals, including protected species and domestic animals. I would welcome a statement on the Welsh Government's position regarding these cruel and indiscriminate devices.

Weinidog, a allwn ni gael datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar niferoedd a defnydd o faglau yng Nghymru? Efallai eich bod yn ymwybodol bod DEFRA wedi cyhoeddi adroddiad ar ddefnyddio maglau y llynedd, pryd yr amcangyfrifodd bod hyd at 260,000 o faglau yn cael eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr adroddiad yn codi cwestiynau ynghylch cydymffurfio â chanllawiau ymarfer, gan awgrymu nad oedd defnyddwyr wedi eu hyfforddi'n iawn a nodwyd nad oedd mesurau wedi eu cymryd i atal anifeiliaid nad ydynt yn darged rhag cael eu dal, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir ac anifeiliaid domestig. Byddwn yn croesawu datganiad ar safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y teclynnau creulon hyn nad ydynt yn gwahaniaethu.

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Natural Resources and Food's officials have been considering the DEFRA report, and the outcome of that will obviously feed into the Minister's consideration of the Law Commission's review of wildlife legislation. He is going to give that his full consideration when the final report from the Law Commission is reported later this year.

Mae swyddogion y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi bod yn ystyried adroddiad DEFRA, ac yn amlwg bydd canlyniad hynny yn cyfrannu at ystyriaeth y Gweinidog o adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt. Mae'n mynd i roi ei ystyriaeth lawn i hynny pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol gan Gomisiwn y Gyfraith yn ddiweddarach eleni.

14:26 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, constituents of mine who are employed at the Unity mine tell me that the administrator, Cork Gully, has decided that, rather than looking to sell the pit, it is now seeking an investor in order to make it a going concern again. Given that many of the miners there hold the current management team responsible for Unity's current predicament—they say that there has been operational ineptitude, and unrealistic production targets are chief among the concerns—trying to get new investors in under the current regime could be detrimental to the reopening of the mine and to the long-term prospects of its former workforce. Could we have a statement from the Welsh Government on the update on the work that has been done there, particularly on the potential for receiving Welsh Government funding to help them along the way?

Weinidog, mae etholwyr i mi a gyflogir ym mhwll Unity yn dweud wrthyf fod y gweinyddwr, Cork Gully, wedi penderfynu, yn hytrach na cheisio gwerthu'r pwll, ei fod bellach yn chwilio am fuddsoddwr er mwyn ei wneud yn fusnes hyfyw unwaith eto. O gofio bod llawer o'r glowyr yno yn dal o'r farn mai'r tîm rheoli presennol sy'n gyfrifol am broblemau presennol Unity—maen nhw'n dweud y bu anallu gweithredol, ac mae targedau cynhyrchu afrealistig yn bennaf ymhlith y pryderon—gallai ceisio cael buddsoddwyr newydd i mewn dan y drefn bresennol niweidio'r posibilrwydd o ailagor y pwll ac i ragolygon hirdymor ei gyn-weithlu. A allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ar y diweddariad ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud yno, yn enwedig ar y potensial ar gyfer cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i roi help llaw iddyn nhw?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question. The Minister for Economy, Science and Transport will update Members when she has further information.

Diolch i chi am y cwestiwn. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau pan fydd ganddi fwy o wybodaeth.

14:27 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, section 22 of the Fire and Rescue Services Act 2004 allows you to intervene should you feel that actions being taken by a fire authority were putting public safety at risk. You will have heard my question to the First Minister about widespread concerns in Radnorshire about the proposals for Knighton fire station. Could you make time for a statement to the Chamber on the protocol for intervention, which was published in 2007 by the Welsh Government—but has not been refreshed or updated—to give us an opportunity to explore the expectations of the Welsh Government of the fire service in mid and west Wales with regard to the provision of fire services for rural communities?

Weinidog, mae adran 22 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn caniatáu i chi i ymyrryd pe byddech yn teimlo bod y camau sy'n cael eu cymryd gan awdurdod tân yn rhoi diogelwch y cyhoedd mewn perygl. Byddwch wedi clywed fy nghwestiwn i'r Prif Weinidog ynghylch pryderon eang yn Sir Faesyfed ynghylch y cynigion ar gyfer gorsaf dân Trefyclo. A allech chi wneud amser ar gyfer datganiad i'r Siambr ar y protocol ar gyfer ymyrryd, a gyhoeddwyd yn 2007 gan Lywodraeth Cymru—ond nad yw wedi cael ei adnewyddu na'i ddiweddaru—i roi cyfle i ni archwilio disgwyliadau Llywodraeth Cymru o'r gwasanaeth tân yng nghanolbarth a gorllewin Cymru o ran darparu gwasanaethau tân i gymunedau gwledig?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I heard your question to the First Minister. Clearly, fire and rescue services are autonomous bodies, but, as you say, we do have the powers to intervene if we are concerned about any of their decisions. I am going to have a debate in the new year about fire and rescue authorities, and I can certainly look at the guidance to which you referred to see if it needs refreshing in the meantime.

Clywais eich cwestiwn i'r Prif Weinidog. Yn amlwg, mae gwasanaethau tân ac achub yn gyrff ymreolaethol, ond, fel y dywedwch, mae'r pwerau gennym i ymyrryd os ydym yn pryderu am unrhyw rai o'u penderfyniadau. Rwy'n mynd i gael dadl yn y flwyddyn newydd am awdurdodau tân ac achub, ac yn sicr gallaf edrych ar y canllawiau y cyfeiriasoch atynt i weld a oes angen eu hadnewyddu yn y cyfamser.

14:28 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yesterday, I went up to the House of Lords with Cardiff councillors to press the case for dog control notices with members of the House of Lords who were planning to move amendments during the Committee Stage of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill. Could we have a statement by the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies, on the current state of negotiation between the Welsh Government and the Home Office on provision to be included in the Bill that would allow Wales to make its own regulation in the event of the UK Government continuing to resist dog control notices being added to the Bill?

Ddoe, es i i fyny i Dŷ'r Arglwyddi gyda chynghorwyr Caerdydd i bledio'r achos dros hysbysiadau rheoli cŵn gydag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a oedd yn bwriadu cynnig gwelliannau yn ystod Cyfnod Pwyllgor y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, ar y sefyllfa bresennol o ran y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref ar y ddarpariaeth sydd i'w chynnwys yn y Bil a fyddai'n caniatáu i Gymru wneud ei rheoliadau ei hun pe byddai Llywodraeth y DU yn parhau i wrthsefyll ychwanegu hysbysiadau rheoli cŵn at y Bil?

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Natural Resources and Food will issue a written statement on this issue by the end of this term.

Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y mater hwn erbyn diwedd y tymor hwn.

14:29 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, is it possible to have two statements? The first would be from the Minister for health in respect of the response that he expects from local health boards in dealing with members of the public who have lost relatives in hospital. I have been approached over the last couple of weeks by several members of the public who have found the response from two local health boards in particular, namely Cardiff and Vale and Abertawe Bro Morgannwg, shoddy by any description. Surely, there has to be some minimum standard that the Welsh Government expects the local health boards to respond to, especially when relatives find themselves in a very emotionally and difficult place. The least they can expect from an organisation that they put their relatives into care with is a response that satisfies their concerns, and I would be grateful if a statement could come forward from the Welsh Government that would outline clearly what the Welsh Government expects of local health boards.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael dau ddatganiad? Byddai'r cyntaf gan y Gweinidog iechyd ar yr ymateb y mae'n ei ddisgwyl gan fyrddau iechyd lleol wrth ymdrin ag aelodau o'r cyhoedd sydd wedi colli perthnasau yn yr ysbyty. Cysylltwyd â mi yn ystod yr wythnosau diwethaf gan sawl aelod o'r cyhoedd sydd o'r farn fod yr ymateb gan ddau fwrdd iechyd lleol yn arbennig, sef Caerdydd a'r Fro ac Abertawe Bro Morgannwg, yn wael a dweud y lleiaf. Does bosib bod yn rhaid cael rhyw fath o safon ofynnol y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol ymateb iddynt, yn enwedig pan fydd perthnasau yn canfod eu hunain mewn sefyllfa emosiynol ac anodd iawn. Y lleiaf y gallant ei ddisgwyl gan sefydliad y maen nhw'n rhoi eu perthnasau dan eu gofal yw ymateb sy'n bodloni eu pryderon, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad a fyddai'n amlinellu'n eglur yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan fyrddau iechyd lleol.

Secondly, I call for a statement from the Minister for Economy, Science and Transport in respect of the St Athan enterprise zone. I visited the enterprise zone recently, and the businesses that are located there had grave concerns as to the use of air traffic control, the accessibility of the runway, and the hours of operation. I am under the impression that the Welsh Government has undertaken a tendering process. If this tendering process is successful—as we all hope it will be—they will need clear direction as to when they will have access to the runway, so that their businesses can expand. Thank you very much.

Yn ail, galwaf am ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar ardal fenter Sain Tathan. Ymwelais â'r ardal fenter yn ddiweddar, ac roedd gan y busnesau sydd wedi eu lleoli yno bryderon difrifol ynglŷn â'r defnydd o reolaeth traffig awyr, hygyrchedd y rhedfa, a'r oriau gweithredu. Rwyf dan yr argraff bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal proses dendro. Os yw'r broses dendro hon yn llwyddiannus—fel yr ydym ni i gyd yn gobeithio y bydd—byddant angen cyfeiriad eglur o ran pryd y bydd ganddynt fynediad at y rhedfa, fel y gall eu busnesau ehangu. Diolch yn fawr iawn.

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. In relation to your first question, I am sure that the Minister for Health and Social Services heard your question with concern. I would think that it would be best if you wrote to him directly about the two incidents to which you refer.

Diolch yn fawr. O ran eich cwestiwn cyntaf, rwy'n siŵr bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi clywed eich cwestiwn gyda phryder. Byddwn yn meddwl mai'r peth gorau fyddai i chi ysgrifennu ato'n uniongyrchol am y ddau ddigwyddiad yr ydych chi'n cyfeirio atynt.

I think that the Minister for Economy, Science and Transport has already committed to updating Members, in due course, about enterprise zones. I am sure that she has heard your question about St Athan, and will do so.

Rwy'n credu bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth eisoes wedi ymrwymo i ddiweddaru'r Aelodau, maes o law, am ardaloedd menter. Rwy'n siŵr ei bod wedi clywed eich cwestiwn am Sain Tathan, ac y bydd yn gwneud hynny.

14:31 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I ask for a statement from the Minister with responsibility for transport on the new European transport maps? I know that it is complicated, and I know that the First Minister did not seem aware that Holyhead is now not a core port—it is a comprehensive port—even though the European Commission suggested that it should be. The reason that it is not is that the Welsh Government failed to keep a core network corridor across north Wales. Therefore, could we have a statement on what exactly the Welsh Government argued for, and then the consequences—and the Commission has said that there are consequences—as the Welsh Government sees it, of that corridor now being left off the Welsh map?

A gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth ar y mapiau trafnidiaeth Ewropeaidd newydd? Rwy'n gwybod bod hyn yn gymhleth, ac rwy'n gwybod nad oedd yn ymddangos bod y Prif Weinidog yn ymwybodol nad yw Caergybi yn borthladd craidd bellach—porthladd cynhwysfawr ydyw—er i'r Comisiwn Ewropeaidd awgrymu y dylai fod. Y rheswm nad yw'n borthladd craidd yw bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chadw coridor rhwydwaith craidd ar draws gogledd Cymru. Felly, a allem ni gael datganiad am beth yn union y dadleuodd Llywodraeth Cymru amdano, ac yna canlyniadau—ac mae'r Comisiwn wedi dweud bod yna ganlyniadau—y ffaith fod y coridor hwnnw wedi cael ei adael oddi ar fap Cymru bellach, o safbwynt Llywodraeth Cymru?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, you heard the First Minister's answer and I think that he laid out very clearly the correspondence that the Welsh Government had had around this issue. The Minister for Economy, Science and Transport will be considering the report, and will update Members in due course.

Yn amlwg, clywsoch ateb y Prif Weinidog ac rwy'n meddwl ei fod wedi nodi'n eglur iawn yr ohebiaeth a gafodd Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystyried yr adroddiad, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law.

14:32 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I also ask for a statement from the Minister with responsibility for transport regarding the revised scheme for dualling between Wrexham and Chester? I understand that the distance for dualling has been reduced from 7.5 miles to 5.5 miles, and there are also improvements at Croes Newydd that have been—. I am particularly interested in the assessment that has been undertaken with regard to the work at Wrexham north, which is needed for the capacity at the prison, and also with regard to the reduction in the numbers of trains from 12 per hour to six per hour in the revised scheme, which will impact on connectivity with Liverpool and Manchester.

A gaf i ofyn hefyd am ddatganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth am y cynllun diwygiedig ar gyfer deuoli rhwng Wrecsam a Chaer? Rwy'n deall bod y pellter ar gyfer deuoli wedi gostwng o 7.5 milltir i 5.5 milltir, a cheir gwelliannau yng Nghroes Newydd hefyd sydd wedi cael—. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn yr asesiad a gynhaliwyd o ran y gwaith yng ngogledd Wrecsam, sydd ei angen ar gyfer y capasiti yn y carchar, a hefyd o ran y gostyngiad i nifer y trenau o 12 yr awr i chwech yr awr yn y cynllun diwygiedig, a fydd yn effeithio ar gysylltedd â Lerpwl a Manceinion.

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Economy, Science and Transport will update you directly.

Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n uniongyrchol.

14:32 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following the very successful meeting of the cross-party group on neurological conditions in Carmarthen on Friday, I would like to ask for a statement updating us on access to neurotherapy. We heard how neuropsychology in particular can improve patients' quality of life, and the outcomes for people with neurological conditions, and it can also save the NHS money by avoiding more costly interventions. However, access seems to be patchy and limited at the moment.

Yn dilyn cyfarfod llwyddiannus iawn y grŵp trawsbleidiol ar gyflyrau niwrolegol yng Nghaerfyrddin ddydd Gwener, hoffwn ofyn am ddatganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am fynediad at niwrotherapi. Clywsom sut y gall niwroseicoleg yn arbennig wella ansawdd bywyd cleifion, a'r canlyniadau i bobl â chyflyrau niwrolegol, a gall hefyd arbed arian i'r GIG trwy osgoi ymyraethau mwy costus. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod mynediad yn anghyson ac yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question, Rebecca Evans. The Minister for Health and Social Services has recently published a consultation on neurological conditions, along with a delivery plan, which, obviously, recognises the very valuable part that neuropsychology and neuropsychiatry can play. We expect local health boards to include the provision of neuropsychological support as one of their specific priorities in the delivery of services to people with neurological conditions. As I say, the draft plan has been published, and I would encourage everyone to respond by 31 January next year.

Diolch i chi am y cwestiwn, Rebecca Evans. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar gyflyrau niwrolegol yn ddiweddar, ynghyd â chynllun cyflawni, sydd, yn amlwg, yn cydnabod y swyddogaeth werthfawr iawn y gall niwroseicoleg a niwroseiciatreg ei chyflawni. Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol gynnwys y ddarpariaeth o gefnogaeth niwroseicolegol fel un o'u blaenoriaethau penodol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl â chyflyrau niwrolegol. Fel rwy'n dweud, mae'r cynllun drafft wedi ei gyhoeddi, a byddwn yn annog pawb i ymateb erbyn 31 Ionawr y flwyddyn nesaf.

14:34 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to echo what Andrew R. T. Davies was requesting of the Minister for Health and Social Services. I have a constituent who is 80 years old and her son died at the Wrexham Maelor Hospital. A serious case review was apparently started on 20 June this year, and the family still has not had a proper response to that review. An independent inquest has been ordered, and that is waiting for the Betsi Cadwaladr University Local Health Board to release the conclusions of its serious case review. It appears that the clinical group only looked at it this week. That kind of delay, for a family that has lost a member of that family, is, quite frankly, unacceptable and disgusting. I would like to echo what Andrew R.T. Davies has said about the need for some guidance for the health boards in cases such as these. So, that is the first plea, and I know that the Minister for health has heard it.

Hoffwn ategu'r hyn yr oedd Andrew R.T. Davies yn gofyn amdano gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gennyf etholwr sy'n 80 mlwydd oed a bu farw ei mab yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae'n debyg y cychwynnwyd adolygiad o achos difrifol ar 20 Mehefin eleni, ac nid yw'r teulu wedi cael ymateb priodol i'r adolygiad hwnnw o hyd. Mae cwest annibynnol wedi cael ei orchymyn, ac mae hwnnw'n disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ryddhau casgliadau ei adolygiad o achos difrifol. Mae'n ymddangos mai dim ond yr wythnos hon yr edrychodd y grŵp clinigol arno. I fod yn blwmp ac yn blaen, mae'r math yna o oedi, i deulu sydd wedi colli aelod o'r teulu hwnnw, yn annerbyniol ac yn ffiaidd. Hoffwn ategu'r hyn y mae Andrew R.T. Davies wedi ei ddweud am yr angen am rywfaint o arweiniad i'r byrddau iechyd mewn achosion fel hyn. Felly, dyna'r cais cyntaf, a gwn fod y Gweinidog iechyd wedi ei glywed.

My second one is perhaps slightly premature. I know that the Minister will make a statement today on Welsh fisheries and I have looked closely at his report, however, there are concerns. A particular constituent is taking action in Europe about the inland rivers fisheries, particularly around spawning grounds. I understand that there is some six years of evidence in relation to concerns about that, and the matter is not addressed in any of the material that I have seen today. It may well be that the Minister needs to give us a further statement, specifically dealing with inland fisheries and waterways.

Mae fy ail un efallai ychydig yn gynamserol. Gwn y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad heddiw ar bysgodfeydd Cymru ac rwyf wedi edrych yn ofalus ar ei adroddiad, fodd bynnag, ceir pryderon. Mae un o'm hetholwyr yn cymryd camau yn Ewrop ynglŷn â'r pysgodfeydd afonydd mewndirol, yn enwedig o ran tiroedd silio. Rwy'n deall bod tua chwe blynedd o dystiolaeth yn ymwneud â phryderon ynghylch hynny, ac nid yw'r mater yn cael sylw mewn unrhyw ran o'r deunydd yr wyf wedi ei weld heddiw. Mae'n ddigon posibl bod angen i'r Gweinidog roi datganiad pellach i ni, yn ymdrin â physgodfeydd a dyfrffyrdd mewndirol yn benodol.

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you say, the Minister is making a statement on the marine and fisheries strategic action plan this afternoon. I am sure that you can question him, and, if you are not satisfied, you can ask for a further statement.

Fel y dywedwch, mae'r Gweinidog yn gwneud datganiad ar gynllun gweithredu strategaeth y môr a physgodfeydd y prynhawn yma. Rwy'n siŵr y cewch chi ei holi, ac, os nad ydych yn fodlon, gallwch ofyn am ddatganiad pellach.

14:36 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I call for two statements? First, I call for a statement on complaints to NHS health boards in Wales, based on the comments by the Public Services Ombudsman for Wales to the Communities, Equality and Local Government Committee recently. He said,

A gaf i alw am ddau ddatganiad? Yn gyntaf, galwaf am ddatganiad ar gwynion i fyrddau iechyd y GIG yng Nghymru, yn seiliedig ar y sylwadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ddiweddar. Dywedodd:

'The oversight of the complaints function across the public sector in Wales is very limited…I have long made the point that there needs to be proper statistical analysis of how many complaints people are receiving, at what stage they are being dealt with, and how many are being upheld… That is an important part of the business of holding public services to account. The fact that you cannot get those statistics, it seems to me, is an indictment.'

Mae'r oruchwyliaeth o'r swyddogaeth cwynion ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gyfyngedig iawn...rwyf wedi gwneud y pwynt ers cryn amser bod angen dadansoddiad ystadegol priodol o faint o gwynion y mae pobl yn eu derbyn, ar ba gam yr ymdrinnir â nhw, a faint sy'n cael eu cadarnhau...Mae hynny'n rhan bwysig o'r busnes o sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dwyn i gyfrif. Mae'r ffaith na allwch chi gael yr ystadegau hynny, mae'n ymddangos i mi, yn arwyddocaol.

Secondly, and finally, I call for a statement on carbon monoxide poisoning, recognising that last week was National Carbon Monoxide Awareness Week, when the founder of the awareness charity, Lynn Griffiths, said

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad ar wenwyno carbon monocsid, gan gydnabod ei bod yn Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid yr wythnos diwethaf, pan ddywedodd sylfaenydd yr elusen, Lynn Griffiths:

'It is shocking that despite living in the "information age" people still don't realise that carbon monoxide (CO) is a colourless, odourless highly toxic gas that can kill in under three minutes.'

Er ein bod yn byw yn yr 'oes wybodaeth' mae'n frawychus nad yw pobl eto'n sylweddoli bod carbon monocsid (CO) yn nwy di-liw, diarogl gwenwynig iawn sy'n gallu lladd mewn llai na thri munud.

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You are quite right that it is important that the complaints procedure for all our public services in Wales is robust, and it is something that several Ministers can have a look at and report back on in due course. In relation to carbon monoxide, I know that last week was Carbon Monoxide Awareness Week, and Dr Ruth Hussey, the Chief Medical Officer for Wales, did some work with the Minister for Housing and Regeneration in raising awareness of that issue.

Rydych chi yn llygad eich lle ei bod yn bwysig bod y drefn gwynion ar gyfer ein holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gadarn, ac mae'n rhywbeth y gall nifer o Weinidogion gael golwg arno ac adrodd yn ôl arno maes o law. O ran carbon monocsid, rwy'n gwybod ei bod yn Wythnos Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid yr wythnos diwethaf, a gwnaeth Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol Cymru, rhywfaint o waith gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwnnw.

## Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor

## Motion to Elect a Member to a Committee

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:38.

The Deputy Presiding Office (David Melding) took the Chair at 14:38.

Cynnig NDM5375 Rosemary Butler

Motion NDM5375 Rosemary Butler

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Lindsay Whittle (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Jocelyn Davies (Plaid Cymru) as a member of the Communities, Equality and Local Government Committee in place of Lindsay Whittle (Plaid Cymru).

14:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

*The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

14:38

# Datganiad: Ymateb Llawn Llywodraeth y DU i Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddiwygio Ariannol

# Statement: The UK Government's Full Response to the Silk Commission's Report on Financial Reform

Senedd.tv
Fideo Video

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

The UK Government’s full response to the Silk commission’s first report, following the headline announcement made by the Prime Minister and Deputy Prime Minister on 1 November, represents a major step forward for devolution and I believe that it is a good deal for Wales. It is also good that the announcement has been welcomed across this Chamber. All political parties represented in this Assembly have helped to ensure that Wales will get the financial powers that it needs and deserves. Together, we have been able to work for the greater good of Wales, and I trust that we will continue to do so as we move forward to implement these reforms. We all have a shared interest in ensuring the success of the Silk 1 agenda.

Mae ymateb llawn Llywodraeth y DU i adroddiad cyntaf comisiwn Silk, yn dilyn y prif gyhoeddiad a wnaed gan y Prif Weinidog a’r Dirprwy Brif Weinidog ar 1 Tachwedd, yn cynrychioli cam pwysig ymlaen i ddatganoli ac rwy’n credu ei fod yn gytundeb da i Gymru. Mae hefyd yn dda bod y cyhoeddiad wedi cael ei groesawu ar draws y Siambr hon. Mae pob plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad hwn wedi helpu i sicrhau y bydd Cymru’n cael y pwerau ariannol sydd eu hangen arni ac y mae’n eu haeddu. Gyda’n gilydd, rydym ni wedi gallu gweithio er lles Cymru, a hyderaf y byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni symud ymlaen i gyflawni’r diwygiadau hyn. Mae gan bob un ohonom fudd a rennir mewn sicrhau llwyddiant agenda Silk 1.

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

However, of course, this is a matter that goes beyond the Welsh Government and the National Assembly for Wales. It is about very real issues that have the potential to impact on communities and businesses throughout Wales. I have paid tribute before, and I do so again, to those business leaders and social partners who have engaged at an early stage in the debate about the Silk reforms, and whose vocal support for change has been instrumental, I am sure, in encouraging the UK Government to respond in the way that it did.

Fodd bynnag, wrth gwrs, mae hwn yn fater sy’n mynd y tu hwnt i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’n ymwneud â materion gwirioneddol iawn sydd â’r potensial i effeithio ar gymunedau a busnesau ledled Cymru. Rwyf wedi talu teyrnged o’r blaen, ac rwy’n gwneud hynny eto, i’r arweinwyr busnes a’r partneriaid cymdeithasol hynny sydd wedi cymryd rhan ar gam cynnar yn y drafodaeth ar ddiwygiadau Silk, ac y mae eu cefnogaeth lafar i newid wedi bod yn allweddol, rwy’n siŵr, i annog Llywodraeth y DU i ymateb yn y ffordd a wnaeth.

I have said that the publication of the UK Government's response almost felt like an end in itself. It certainly seems to have been a long path from the appointment of the Holtham commission by the Welsh Government in the summer of 2008 to the announcement by the Chief Secretary to the Treasury and Secretary of State for Wales, and my response, last week. However, of course, this is where the work really starts.

Rwyf wedi dweud bod cyhoeddi ymateb Llywodraeth y DU bron yn teimlo fel diben ynddo’i hun. Mae’n sicr yn ymddangos y bu’n llwybr hir o benodiad comisiwn Holtham gan Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2008 i’r cyhoeddiad gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a fy ymateb innau, yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, wrth gwrs, dyma lle mae’r gwaith yn dechrau o ddifrif.

Turning to the package that has been agreed for Wales, the Welsh Government backed the Silk recommendations in full, so I am pleased to see that the vast majority of the key proposals in Silk have been accepted by the UK Government. We learned earlier in the month from the Prime Minister and Deputy Prime Minister that Wales would be getting stamp duty land tax and landfill tax. They also announced that a referendum on varying income tax rates and early access to borrowing had been agreed. The full announcement last week provided responses to the other Silk 1 recommendations. It does not answer every question, and there are a number of specifics to be explored in further talks with the Treasury and the Wales Office over the coming weeks and months, but we know the overall package of agreed reforms and have a clear direction of travel.

Gan droi at y pecyn y cytunwyd arno ar gyfer Cymru, cefnogodd Llywodraeth Cymru argymhellion Silk yn llawn, felly rwy’n falch o weld bod mwyafrif llethol y cynigion allweddol yn Silk wedi eu derbyn gan Lywodraeth y DU. Clywsom gan y Prif Weinidog a’r Dirprwy Brif Weinidog yn gynharach yn y mis y byddai Cymru’n cael treth stamp, treth tir a threth tirlenwi. Cyhoeddwyd ganddynt hefyd bod refferendwm ar amrywio cyfraddau treth incwm a mynediad cynnar at fenthyca wedi eu cytuno. Darparodd y cyhoeddiad llawn yr wythnos diwethaf ymatebion i argymhellion eraill Silk 1. Nid yw’n ateb pob cwestiwn, ac mae nifer o fanylion i’w harchwilio mewn trafodaethau pellach gyda’r Trysorlys a Swyddfa Cymru dros yr wythnosau a’r misoedd nesaf, ond rydym yn ymwybodol o’r pecyn cyffredinol o ddiwygiadau y cytunwyd arnynt ac mae gennym gyfeiriad teithio eglur.

Devolving non-domestic rates to Wales is an important lever that we can use to help to boost jobs and the economy, and it will give us flexibilities that are already enjoyed by Scottish Ministers. I will be clarifying the details of how and when the change can be implemented in discussion with the UK Government. In future, when the UK Government plans to introduce a new tax in a devolved policy area, it will consider with the Welsh Government whether that tax should also be devolved. Once again, this is putting us in the same position as Scotland. The power for the Assembly to legislate, with the agreement of the UK Government, to introduce new taxes and associated tax credits is another important reform, although the budgetary implications would need careful consideration.

Mae datganoli ardrethi annomestig i Gymru yn ysgogydd pwysig y gallwn ei ddefnyddio i helpu i roi hwb i swyddi a'r economi, a bydd yn rhoi hyblygrwydd i ni y mae Gweinidogion yr Alban yn eu mwynhau eisoes. Byddaf yn egluro manylion sut a phryd y gall y newid gael ei weithredu mewn trafodaeth â Llywodraeth y DU. Yn y dyfodol, pan fydd Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno treth newydd mewn maes polisi datganoledig, bydd yn ystyried gyda Llywodraeth Cymru a ddylid datganoli'r dreth honno hefyd. Unwaith eto, mae hyn yn ein rhoi ni yn yr un sefyllfa â'r Alban. Mae'r pŵer i'r Cynulliad ddeddfu, gyda chytundeb Llywodraeth y DU, i gyflwyno trethi newydd a chredydau treth cysylltiedig yn ddiwygiad pwysig arall, er y byddai angen ystyried y goblygiadau cyllidebol yn ofalus.

However, we have not got everything that we have been pressing for. As the Prime Minister indicated at the start of November, direct long-haul air passenger duty will not be coming to Wales as part of this package. Strong cases in favour of devolving this tax were put forward by the Silk commission and the Welsh Government, and of course it has already been devolved to Northern Ireland, so I will be continuing to press the case. The UK Government has also agreed with the commission that there should be a referendum before income tax devolution. This will ensure that the people of Wales should have the final say on tax-varying powers.

Fodd bynnag, nid ydym wedi cael popeth yr ydym ni wedi bod yn pwyso amdano. Fel yr awgrymodd y Prif Weinidog ddechrau mis Tachwedd, ni fydd treth uniongyrchol i deithwyr ar deithiau awyr hir yn dod i Gymru yn rhan o'r pecyn hwn. Cyflwynwyd achosion cryf o blaid datganoli'r dreth hon gan gomisiwn Silk a Llywodraeth Cymru, ac wrth gwrs mae eisoes wedi ei ddatganoli i Ogledd Iwerddon, felly byddaf yn parhau i bwyso am hynny. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cytuno gyda'r comisiwn y dylid cynnal refferendwm cyn datganoli treth incwm. Bydd hyn yn sicrhau mai pobl Cymru ddylai gael y gair olaf ar bwerau amrywio trethi.

Of course, I was disappointed that the form of income tax devolution that we have been offered will not allow us to vary rates independently, as Silk had proposed. Instead, we will have the so-called lockstep approach, which means that we cannot change one rate without moving all the others to the same degree. This is a missed opportunity and I will continue to press for it to be revisited. Nevertheless, this is the same arrangement as in Scotland.

Wrth gwrs, roeddwn i'n siomedig na fydd y math o ddatganoli treth incwm a gynigiwyd i ni yn ein galluogi i amrywio cyfraddau yn annibynnol, fel yr oedd Silk wedi ei gynnig. Yn hytrach, bydd gennym y dull cam cloi fel y'i gelwir, sy'n golygu na allwn newid un gyfradd heb symud bob un arall i'r un graddau. Mae hwn yn gyfle a gollwyd a byddaf yn parhau i bwyso iddo gael ei ailystyried. Serch hynny, mae hyn yr un trefniant ag yn yr Alban.

The Silk commission recommended that the issue of fair funding should be resolved before income tax devolution. I am pleased to see the UK Government refer, in its response to Silk, to the arrangements put in place as a result of the joint statement on financial reform in October 2012. Applied for the first time in June this year, the process allows for the Welsh and UK Governments to discuss options if further convergence of Welsh relative funding is forecast to occur as a result of a spending review. This is an important step towards securing a fairer funding settlement.

Argymhellodd comisiwn Silk y dylai'r mater o ariannu teg gael ei ddatrys cyn datganoli treth incwm. Rwy'n falch o weld Llywodraeth y DU yn cyfeirio, yn ei hymateb i Silk, at y trefniadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r datganiad ar y cyd ar ddiwygio ariannol ym mis Hydref 2012. Defnyddiwyd y broses am y tro cyntaf ym mis Mehefin eleni, ac mae'n caniatáu i Lywodraethau Cymru a'r DU drafod opsiynau os rhagwelir y bydd cydgyfeirio pellach o ariannu cymharol Cymru yn digwydd o ganlyniad i adolygiad o wariant. Mae hwn yn gam pwysig tuag at sicrhau setliad ariannu tecach.

As regards the timing of a referendum on income tax, that will inevitably be a matter for a future Assembly. The elections in 2016 will give each party the opportunity to set out its stall on both the referendum and on income tax. The priority for us now must be to get the referendum, and the rest of the financial reform legislation, on the statute book.

O ran amseriad refferendwm ar dreth incwm, mae'n anochel y bydd hwnnw'n fater i Gynulliad yn y dyfodol. Bydd yr etholiadau yn 2016 yn rhoi cyfle i bob plaid gyflwyno ei barn ar y refferendwm ac ar dreth incwm. Mae'n rhaid mai'r flaenoriaeth i ni nawr yw cael y refferendwm, a gweddill y ddeddfwriaeth diwygio ariannol, ar y llyfr statud.

I am delighted by the confirmation that Wales will gain new borrowing powers alongside its devolved taxes, and that we will gain early access to borrowing to help fund an enhancement of the M4—the Confederation of British Industry's No. 1 priority for Wales. The M4 enhancement is of course currently subject to consultation, but we have been clear that borrowing powers were an essential part of the funding package for the scheme. The announcement of early access to borrowing means that, subject to the outcome of the consultation, an enhancement should now be affordable.

Rwyf wrth fy modd gyda'r cadarnhad y bydd Cymru yn ennill pwerau benthyca newydd ochr yn ochr â'i threthi datganoledig, ac y byddwn yn cael mynediad cynnar at fenthyca er mwyn helpu i ariannu'r gwaith o wella'r M4—blaenoriaeth uchaf Cydffederasiwn Diwydiant Prydain i Gymru. Mae'r gwaith o wella'r M4 yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, wrth gwrs, ond rydym ni wedi bod yn eglur bod pwerau benthyca yn rhan hanfodol o'r pecyn ariannu ar gyfer y cynllun. Mae'r cyhoeddiad o fynediad cynnar at fenthyca yn golygu, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, y dylai gwaith gwella fod yn fforddiadwy bellach.

Borrowing must not be considered as a standalone item. It gives us a new and important resource, but borrowing must be regarded as part of a package, alongside the innovative finance invest for Wales measures that I am introducing, which help to take the pressure off our reduced capital budget. Looking ahead, we are now beginning a major, and rapidly evolving, programme of work to take forward these reforms. The next big step will be the publication of the draft Wales Bill. This is due before the end of March, but I am pressing for early publication.

Rhaid peidio ag ystyried benthyca fel eitem annibynnol. Mae'n rhoi adnodd newydd a phwysig i ni, ond mae'n rhaid ystyried benthyca fel rhan o becyn, ochr yn ochr â'r mesurau buddsoddi cyllid arloesol i Gymru rwy'n eu cyflwyno, a fydd yn helpu i leddfu'r pwysau ar ein cyllideb cyfalaf lai. Gan edrych i'r dyfodol, rydym nawr yn dechrau rhaglen waith bwysig, sy'n esblygu'n gyflym, i fwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn. Y cam mawr nesaf fydd cyhoeddi'r Bil Cymru drafft. Disgwylir hyn cyn diwedd mis Mawrth, ond rwy'n pwyso am gyhoeddiad cynnar.

I will work closely with the Assembly in taking this work forward, and have already met with all finance spokespeople to give them my commitment to achieving the outcomes that we all seek. I believe that it is important that, wherever appropriate, we maintain our consensus. We have achieved much to date by working together on issues of common cause, and I know that the implementation of these reforms is something that we all want delivered for Wales.

Byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Cynulliad i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ac rwyf eisoes wedi cwrdd â'r holl lefarwyr cyllid i roi fy ymrwymiad iddynt i gyflawni'r canlyniadau y mae pob un ohonom yn dymuno eu gweld. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, pryd bynnag y bo'n briodol, i ni gynnal ein consensws. Rydym ni wedi cyflawni llawer hyd yma drwy weithio gyda'n gilydd ar faterion sydd yn gyffredin i bob un ohonom ac sydd yn ein huno, a gwn fod rhoi'r diwygiadau hyn ar waith yn rhywbeth yr ydym ni i gyd eisiau ei weld yn cael ei gyflawni dros Gymru.

I am also actively engaging with business and the wider community, across Wales, on these reforms. It is essential that our partners are given the opportunity to contribute to this process. The UK Government's response to Silk is a statement of confidence in the Welsh Government and the National Assembly for Wales, and, I believe, a response to the growing maturity of this institution.

Rwyf hefyd yn ymgysylltu'n ymarferol â busnesau a'r gymuned ehangach, ledled Cymru, ar y diwygiadau hyn. Mae'n hanfodol bod ein partneriaid yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses hon. Mae ymateb Llywodraeth y DU i Silk yn ddatganiad o hyder yn Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac, yn fy marn i, yn ymateb i aeddfedrwydd cynyddol y sefydliad hwn.

The reforms open up whole new avenues for policy development, which will strengthen us in our aim to create jobs and support the economy. These are important new powers with a purpose.

Mae'r diwygiadau yn agor llwybrau newydd sbon ar gyfer datblygu polisi, a fydd yn ein cryfhau ni yn ein nod o greu swyddi a chefnogi'r economi. Mae'r rhain yn bwerau newydd pwysig â phwrpas iddynt.

14:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have five statements to get through this afternoon. We all heard what the Presiding Officer said about succinct, focused contributions. I advise all Members who I will call on now that I will only be able to get in as many Members as possible if you are disciplined in putting your points. That is not a comment on any one individual, but please remember that. There are a lot of speakers on some of the statements who wish to be called.

Mae gennym bum datganiad i gael drwyddynt y prynhawn yma. Mae pob un ohonom ni wedi clywed yr hyn a ddywedodd y Llywydd am gyfraniadau cryno, wedi'u canolbwyntio. Rwy'n cynghori'r holl Aelodau y byddaf yn galw arnynt nawr y byddaf ond yn gallu rhoi cyfle i gymaint o Aelodau â phosibl os byddwch yn ddisgybledig wrth gyflwyno eich pwyntiau. Nid yw hynny'n sylw ar unrhyw un unigolyn, ond cofiwch hynny os gwelwch yn dda. Ceir llawer o siaradwyr ar rai o'r datganiadau sy'n dymuno cael eu galw.

14:45 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for her statement this afternoon and also thank her for our meeting last week at which we discussed the next steps in this process. We, on this side of the Chamber, want to work constructively with all parties in Wales and our colleagues at Westminster to ensure that all 33 recommendations of the Silk commission part 1 report are implemented in the future. However, I am pleased that the UK Government has accepted nearly all of the recommendations, and I look forward to seeing them being implemented over the next few years.

Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma a diolchaf iddi hefyd am ein cyfarfod yr wythnos diwethaf pryd y trafodwyd y camau nesaf yn y broses hon. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn awyddus i weithio'n adeiladol gyda phob plaid yng Nghymru a'n cydweithwyr yn San Steffan i sicrhau bod bob un o 33 argymhelliad adroddiad comisiwn Silk rhan 1 yn cael ei roi ar waith yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwy'n falch bod Llywodraeth y DU wedi derbyn bron bob un o'r argymhellion, ac edrychaf ymlaen at eu gweld yn cael eu rhoi ar waith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Turning to some of the specific recommendations and the UK Government's response, I would like, first of all, to ask a few questions regarding the smaller-yielding and local taxes. I note that the Minister in her statement today is happy with the UK Government's responses in this area. In relation to business rates, the Morgan review recommended that business rates should be localised to some extent to incentivise economic growth so that some business rates income is retained and spent by local authorities rather than centrally pooled by the Welsh Government. This view was rightly acknowledged by the Silk commission. Can the Minister, therefore, tell us whether she agrees with localising business rates in this sense, and what discussions, if any, she has had with her colleague the Minister for Economy, Science and Transport on this issue?

Gan droi at rai o'r argymhellion penodol ac ymateb Llywodraeth y DU, hoffwn, yn gyntaf oll, ofyn ychydig o gwestiynau ynghylch y trethi cynnyrch llai a lleol. Sylwaf fod y Gweinidog yn ei datganiad heddiw yn hapus ag ymatebion Llywodraeth y DU yn y maes hwn. O ran ardrethi busnes, argymhellodd adolygiad Morgan y dylai ardrethi busnes fod yn lleol i ryw raddau i gymell twf economaidd fel bod rhywfaint o incwm ardrethi busnes yn cael ei gadw a'i wario gan awdurdodau lleol yn hytrach na chael ei gasglu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru. Cydnabuwyd y farn hon yn gywir gan gomisiwn Silk. A all y Gweinidog, felly, ddweud wrthym a yw hi'n cytuno â lleoleiddio ardrethi busnes yn yr ystyr hwn, a pha drafodaethau, os o gwbl, y mae wedi eu cael gyda'i chydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y mater hwn?

I would also like to ask the Minister about recommendation 3, which refers to the devolution of stamp duty land tax. The Silk commission acknowledges that stamp duty land tax is a relatively volatile tax and notes that:

Hoffwn ofyn i'r Gweinidog hefyd am argymhelliad 3, sy'n cyfeirio at ddatganoli treth dir y dreth stamp. Mae comisiwn Silk yn cydnabod bod treth dir y dreth stamp yn dreth gymharol anwadal ac yn nodi:

'The Welsh Government might require the use of revenue borrowing powers to help manage year-on-year volatility with borrowed resources used to meet any deficit when revenues are below those forecast.'

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru angen gallu defnyddio pwerau benthyca refeniw i helpu i reoli anwadalrwydd o flwyddyn i flwyddyn gan ddefnyddio adnoddau a fenthycwyd i fodloni unrhyw ddiffyg pan fydd refeniw yn is na'r hyn a ragwelwyd.

Can the Minister tell us what assessment the Welsh Government has made of the use of revenue borrowing powers in this regard? Is this something that the Welsh Government is currently considering?

A all y Gweinidog ddweud wrthym pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o'r defnydd o bwerau benthyca refeniw yn hyn o beth? A yw hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried ar hyn o bryd?

In relation to income tax, the UK Government and the Silk commission have been very clear that there should be a referendum. Given that this is a significant change it is, of course, sensible that the devolution of varying income tax should be put to the people of Wales. However, does the Minister agree with me that the referendum on tax-varying powers should take place in line with the timetable set out in the Silk commission report, given that the Welsh Government and all other parties in this Chamber have accepted the recommendations in the part 1 report in full?

O ran treth incwm, mae Llywodraeth y DU a chomisiwn Silk wedi bod yn eglur iawn y dylid cael refferendwm. O ystyried bod hwn yn newid sylweddol mae'n synhwyrol, wrth gwrs, y dylai'r cwestiwn o ddatganoli'r gallu i amrywio treth incwm gael ei ofyn i bobl Cymru. Fodd bynnag, a yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y dylai'r refferendwm ar bwerau amrywio trethi gael ei gynnal yn unol â'r amserlen a nodir yn adroddiad comisiwn Silk, o gofio bod Llywodraeth Cymru a phob plaid arall yn y Siambr hon wedi derbyn yr argymhellion yn adroddiad rhan 1 yn llawn?

In its response, the UK Government goes on to accept the recommendation for the Welsh Government to have the ability to borrow to increase capital investment above the Welsh Government departmental expenditure limit budget. I am sure that the Minister, like me, is pleased that the UK Government has accepted this particular recommendation, given that this is an important economic lever that can make a real difference to the Welsh economy.

Yn ei hymateb, mae Llywodraeth y DU yn mynd ymlaen i dderbyn yr argymhelliad i Lywodraeth Cymru gael y gallu i fenthyca i gynyddu buddsoddiad cyfalaf yn uwch na chyllideb terfyn gwariant adrannol Llywodraeth Cymru. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog, fel minnau, yn falch bod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr argymhelliad penodol hwn, o ystyried bod hwn yn ysgogydd economaidd pwysig a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i economi Cymru.

Even though the UK Government's response states that the precise levels of capital borrowing will ultimately depend on the outcome of the income tax referendum, the UK Government has made it clear that the Welsh Government will be able to access borrowing powers in the very near future and that early access to borrowing powers is not dependent on the devolution of income tax varying powers. Perhaps the Minister can outline what discussions she has had with the UK Government on capital borrowing levels in relation to obtaining early access to borrowing powers. Perhaps she can also tell us how the level of borrowing that will be granted under early access will be decided and how the level of borrowing will be monitored and controlled.

Er bod ymateb Llywodraeth y DU yn datgan y bydd yr union lefelau o fenthyca cyfalaf yn dibynnu yn y pen draw ar ganlyniad y refferendwm treth incwm, mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn eglur y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cael mynediad at bwerau benthyca yn y dyfodol agos iawn ac nad yw mynediad cynnar at bwerau benthyca yn dibynnu ar ddatganoli pwerau i amrywio treth incwm. Efallai y gall y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ar lefelau benthyca cyfalaf o ran cael mynediad cynnar at bwerau benthyca. Efallai y gall hi hefyd ddweud wrthym sut y bydd y lefel o fenthyca a fydd yn cael ei ganiatáu dan fynediad cynnar yn cael ei benderfynu, a sut y bydd lefel y benthyca yn cael ei fonitro a'i reoli.

It is also important for us to know how the Welsh Government will use these new borrowing powers. For example, will the Government look to borrow from the national loans fund or will it look to do it on a commercial basis? Perhaps she can expand on that in her response.

Mae hefyd yn bwysig i ni wybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau benthyca newydd hyn. Er enghraifft, a fydd y Llywodraeth yn ceisio benthyca o'r gronfa benthyciadau cenedlaethol neu a fydd yn ceisio ei wneud ar sail fasnachol? Efallai y gall hi ymhelaethu ar hynny yn ei hymateb.

In relation to recommendation 11, I was pleased that the UK Government stated that the National Assembly for Wales should have the power to legislate for new taxes and associated tax credits in Wales. In light of that, can she tell us what new taxes and associated tax credits the Welsh Government is considering at this stage and what discussions have been held with the UK Government on this subject?

O ran argymhelliad 11, roeddwn yn falch bod Llywodraeth y DU wedi datgan y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael y pŵer i ddeddfu ar gyfer trethi newydd a chredydau treth cysylltiedig yng Nghymru. Yng ngoleuni hynny, a all hi ddweud wrthym pa drethi a chredydau treth cysylltiedig newydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried ar hyn o bryd a pha drafodaethau sydd wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ar y pwnc hwn?

Finally, I would like to mention briefly the implementation of the Silk commission recommendations and the timetable set out. In its response, the UK Government has made it clear that implementing the recommendations that do not require primary legislation must be done carefully, with an appropriate timetable for implementing each one. Can the Minister tell us what discussions she has had with the UK Government in relation to the timetable for implementing the Silk recommendations that do not require primary legislation?

Yn olaf, hoffwn gyfeirio'n fyr at roi argymhellion comisiwn Silk ar waith a'r amserlen a gyflwynwyd. Yn ei hymateb, mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn eglur bod yn rhaid rhoi'r argymhellion nad ydynt angen deddfwriaeth sylfaenol ar waith yn ofalus, gydag amserlen briodol ar gyfer rhoi pob un ar waith. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau y mae wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ar yr amserlen ar gyfer rhoi argymhellion Silk nad ydynt angen deddfwriaeth sylfaenol ar waith?

In closing, Deputy Presiding Officer, as I have said before, Wales faces continued challenges, particularly in raising the educational achievements and economic prosperity of its people. We, on this side of the Chamber, believe that the devolution of some taxation powers, together with the ability to borrow, will give the Welsh Government greater economic levers to make Wales a more attractive place in which to do business and enable major infrastructure projects to be funded. I am pleased that the UK Government has responded positively to the Silk commission's report, and I look forward to hearing more about the implementation of the report's recommendations in due course.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, fel rwyf wedi ei ddweud o'r blaen, mae Cymru'n wynebu heriau parhaus, yn enwedig o ran gwella llwyddiannau addysgol a ffyniant economaidd ei phobl. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn credu y bydd datganoli rhai pwerau trethu, ynghyd â'r gallu i fenthyca, yn rhoi mwy o ysgogyddion economaidd i Lywodraeth Cymru i wneud Cymru yn lle mwy deniadol i gyflawni busnes a galluogi prosiectau seilwaith mawr i gael eu hariannu. Rwy'n falch bod Llywodraeth y DU wedi ymateb yn gadarnhaol i adroddiad comisiwn Silk, ac edrychaf ymlaen at glywed mwy am roi argymhellion yr adroddiad ar waith maes o law.

14:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Paul Davies for his questions as finance spokesperson for the Welsh Conservatives. To start on the point of the timetable—there was a large number of questions, and I will answer as many as I can—we know from the announcement that draft legislation will be published before the end of the current parliamentary session; that has to be before March 2014. We then anticipate that the Wales Bill will gain Royal Assent before 2015.

Diolchaf i Paul Davies am ei gwestiynau fel llefarydd cyllid Ceidwadwyr Cymru. I ddechrau ar bwynt yr amserlen—roedd nifer fawr o gwestiynau, a byddaf yn ateb cymaint ag y gallaf—rydym yn gwybod o'r cyhoeddiad y bydd deddfwriaeth ddrafft yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd y sesiwn seneddol gyfredol; mae'n rhaid i hynny fod cyn mis Mawrth 2014. Yna, rydym yn rhagweld y bydd Bil Cymru yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn 2015.

The question about devolved fiscal powers is important, in terms of the discussions that we are having and how we can move forward with those powers that would not require a legislative base, for example, in terms of the Bill. Non-domestic rates could be the first power to be transferred fully. Also, importantly, M4 borrowing could potentially begin in 2017, which links to the conclusion of the consultation and the business plan being approved and taken forward.

Mae'r cwestiwn am bwerau ariannol datganoledig yn bwysig, o ran y trafodaethau yr ydym ni'n eu cael a sut y gallwn fwrw ymlaen â'r pwerau hynny na fyddai angen sylfaen ddeddfwriaethol, er enghraifft, o ran y Bil. Mae'n bosibl mai ardrethi annomestig fydd y pŵer cyntaf i gael ei drosglwyddo'n llawn. Hefyd, yn bwysig, gallai benthyca ar gyfer yr M4 gychwyn yn 2017 o bosibl, sy'n cysylltu â chasgliad yr ymgynghoriad a'r cynllun busnes sy'n cael ei gymeradwyo a'i symud ymlaen.

That deals with some of the questions in terms of how we would move forward in terms of the timetable that has been set. I think that we have to look to the timetable that now has to be set as a result of the UK Government's announcement, recognising that it is a year on from the Silk commission's timetable, and we have to take account of the issues that have been raised in the response to Silk by the UK Government.

Mae hynny'n ymdrin â rhai o'r cwestiynau o ran sut y byddem yn symud ymlaen o ran yr amserlen a nodwyd. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni edrych ar yr amserlen y mae'n rhaid ei threfnu bellach o ganlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth y DU, gan gydnabod ei bod flwyddyn ar ôl amserlen comisiwn Silk, ac mae'n rhaid i ni gymryd i ystyriaeth y materion a godwyd yn yr ymateb i Silk gan Lywodraeth y DU.

On your point about non-domestic rates, I have already mentioned that we hope to move swiftly as far as the full devolution of non-domestic rates is concerned. I am working with our Welsh Ministers, not only the Minister for Economy, Science and Transport, but also the Minister for Local Government and Government Business, of course, in terms of the flexibilities that we need for this as an important lever, bearing in mind that work has been done through the Brian Morgan review. Now, our task is to work out the details with the UK Government as to how the new system will operate. We can then decide, in Wales, how we would respond and deliver it in terms of policy issues that have already been considered.

O ran eich pwynt am ardrethi annomestig, rwyf eisoes wedi sôn ein bod yn gobeithio symud yn gyflym cyn belled ag y mae datganoli llawn o ardrethi annomestig yn y cwestiwn. Rwyf yn gweithio gyda'n Gweinidogion yng Nghymru, nid yn unig Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ond hefyd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes, wrth gwrs, o ran yr hyblygrwydd sydd ei angen arnom ar gyfer hyn fel ysgogydd pwysig, gan gofio bod y gwaith wedi cael ei wneud trwy adolygiad Brian Morgan. Ein tasg bellach yw penderfynu ar y manylion gyda Llywodraeth y DU o ran sut y bydd y system newydd yn gweithredu. Yna gallwn benderfynu, yng Nghymru, sut y byddem yn ymateb ac yn ei ddarparu o ran materion polisi sydd wedi eu hystyried eisoes.

It is important that we look at the economic levers that we can use as a result of all of these recommendations. I think that the point about the opportunities that we have in terms of tax devolution is important in terms of stamp duty land tax. The discussions that we have already been having with the house-building sector have really secured us a way forward in terms of reform. Of course, the reform has to come as a result of devolution of the power, which we will now be able to make progress on.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar yr ysgogyddion economaidd y gallwn eu defnyddio o ganlyniad i'r holl argymhellion hyn. Rwy'n credu bod y pwynt am y cyfleoedd sydd gennym o ran datganoli treth yn bwysig ar gyfer treth dir y dreth stamp. Mae'r trafodaethau yr ydym ni eisoes wedi bod yn eu cynnal gyda'r sector adeiladu wir wedi sicrhau ffordd ymlaen i ni o ran diwygio. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ddiwygio ddod o ganlyniad i ddatganoli pŵer, y byddwn yn gallu gwneud cynnydd arno bellach.

It is important that we look at the fact that we agreed to the Silk commission recommendations in their entirety, and that includes the fact that we supported the important recommendation from Silk, as did the UK Government, that there should be a referendum on the devolution of income tax. You will be clear, as I know that Members are, that we have to ensure that we recognise that there are potential risks associated with income tax devolution. Part of that is about looking at our fair funding base, and that was recognised by Silk. I am also very pleased that that was recognised by the UK Government. Of course, that means that we can progress ensuring that we have an overall fair funding settlement for Wales, particularly recognising that, even if income tax were devolved, roughly 75% of devolved spending in Wales would continue to come from the block grant.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y ffaith ein bod wedi cytuno ag argymhellion comisiwn Silk yn eu cyfanrwydd, ac mae hynny'n cynnwys y ffaith ein bod wedi cefnogi argymhelliad pwysig Silk, fel y gwnaeth Llywodraeth y DU, y dylid cynnal refferendwm ar ddatganoli treth incwm. Byddwch yn eglur, fel y gwn y mae'r Aelodau, bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydnabod bod risgiau posibl yn gysylltiedig â datganoli treth incwm. Mae rhan o hynny yn ymwneud ag edrych ar ein sail ariannu teg, a chydnabuwyd hynny gan Silk. Rwyf hefyd yn falch iawn y cydnabuwyd hynny gan Lywodraeth y DU. Wrth gwrs, mae hynny'n golygu y gallwn symud ymlaen i sicrhau bod gennym setliad ariannu teg cyffredinol i Gymru, gan gydnabod yn benodol, hyd yn oed pe byddai treth incwm yn cael ei datganoli, y byddai tua 75% o wariant datganoledig yng Nghymru yn parhau i ddod o'r grant bloc.

Borrowing is crucial. We have early access to borrowing powers. It is early days—I have given you a bit of the timetable—in terms of the level of borrowing that would be allowed in terms of early access, particularly for the M4 project. If we look at borrowing powers as a whole, we can progress with our early access to borrowing powers, because of our Welsh Development Agency powers, and that will help us with the enhancement of the M4. The borrowing ceilings have yet to be discussed and announced. In terms of moving forward in relation to wider borrowing powers, we need to look at the links that the UK Government has made between the size of our independent funding stream and the scale of borrowing. I have been pressing for the widest possible access to borrowing that is consistent with a sensible UK-wide formula. We have to recognise that we want our powers to be commensurate with the borrowing powers that have been afforded to Scotland.

Mae benthyca yn hanfodol. Mae gennym fynediad cynnar at bwerau benthyca. Dyddiau cynnar yw'r rhain—rwyf wedi rhoi rhywfaint o'r amserlen i chi—o ran lefel y benthyca a fyddai'n cael ei ganiatáu o ran mynediad cynnar, yn enwedig ar gyfer prosiect yr M4. Os edrychwn ni ar bwerau benthyca yn eu cyfanrwydd, gallwn symud ymlaen gyda'n mynediad cynnar at bwerau benthyca, oherwydd ein pwerau Awdurdod Datblygu Cymru, a fydd yn ein helpu i wella'r M4. Nid yw'r terfynau benthyca wedi cael eu trafod na'u cyhoeddi eto. O ran symud ymlaen yng nghyswllt pwerau benthyca ehangach, mae angen i ni edrych ar y cysylltiadau y mae Llywodraeth y DU wedi eu gwneud rhwng maint ein ffrwd arian annibynnol a'r raddfa fenthyca. Rwyf wedi bod yn pwyso am y mynediad ehangaf posibl at fenthyca sy'n gyson â fformiwla synhwyrol ledled y DU. Mae'n rhaid i ni gydnabod ein bod eisiau i'n pwerau fod yn gymesur â'r pwerau benthyca a roddwyd i'r Alban.

I think that it is important that we also recognise, in terms of your point about how we would take forward and make use of our borrowing powers, that we can progress borrowing powers in line with our priorities in the Wales infrastructure investment plan. As I have said—and I said this in my opening statement—we have to pay back everything that we borrow, and so this cannot be seen as a panacea in terms of our economic prospects, particularly with reducing capital budgets. The progress that we are making with innovative finance is key, and we are already working on that in terms of capital allocations and our investment profile.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod hefyd yn cydnabod, o ran eich pwynt am sut y byddem yn bwrw ymlaen ac yn gwneud defnydd o'n pwerau benthyca, y gallwn symud pwerau benthyca ymlaen yn unol â'n blaenoriaethau yng nghynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru. Fel yr wyf wedi dweud—a dywedais hyn yn fy natganiad agoriadol—mae'n rhaid i ni ad-dalu popeth yr ydym ni'n ei fenthyg, ac felly ni all hyn gael ei weld fel ateb i bob problem o ran ein rhagolygon economaidd, yn enwedig gyda chyllidebau cyfalaf sy'n lleihau. Mae'r cynnydd yr ydym ni'n ei wneud o ran cyllid arloesol yn allweddol, ac rydym ni eisoes yn gweithio ar hynny o ran dyraniadau cyfalaf a'n proffil buddsoddi.

You also asked where we would be accessing our borrowing, and clearly, there is the UK Government's Debt Management Office, which is responsible for the public works loan board, and, indeed, we would be looking to the national loans fund, which is used more by the UK Government, but I think that the Scottish Government has been given access to the national loans fund, so we would assume that would also apply for Wales.

Fe wnaethoch ofyn hefyd lle y byddem ni'n cael mynediad at ein benthyca, ac yn amlwg, ceir Swyddfa Rheoli Dyled Llywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am y bwrdd benthyciadau gwaith cyhoeddus, ac, yn wir, byddem yn edrych ar y gronfa benthyciadau cenedlaethol, y gwneir mwy o ddefnydd ohoni gan Lywodraeth y DU, ond rwy'n credu bod Llywodraeth yr Alban wedi cael mynediad at y gronfa benthyciadau cenedlaethol, felly byddem yn tybio y byddai hynny'n berthnasol i Gymru hefyd.

14:57 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad heddiw a hoffwn ddweud pa mor gywir yw hi i olrhain hanes y datganiad heddiw yn ôl i ddyddiau adroddiad Holtham. Mae'n gyfle, efallai, ar ddiwrnod hanesyddol iawn i'r Alban, i ddweud bod hanes bach gan Gymru hefyd wedi ei greu gan adroddiad Holtham, gan arwain o Lywodraeth Cymru'n Un i'r datganiad cyflawn a glywsom yr wythnos diwethaf gan Lywodraeth San Steffan a chan y Gweinidog ei hunan.

I thank the Minister for her statement today and I would like to say how right she is to trace back the history of today's statement to the days of the Holtham review. On this historic day for Scotland, it is, perhaps, an ideal time to say that Wales also made some history through the Holtham review, leading from the One Wales Government to the full statement that we heard last week by the Government in Westminster and by the Minister herself today.

Byddwn ni, fel Plaid Cymru, am gydweithio gyda'r Gweinidog a chyda'r pleidiau eraill ar y ddau brif beth sydd yn deillio o'r datganiad ynglŷn â Silk, sef yr angen am gyllido teg i Gymru, a'r angen i sicrhau pwerau dros dreth incwm.

We, as Plaid Cymru, would want to collaborate with the Minister and with other parties on the two main issues emerging from this statement on Silk, namely the need for fair funding for Wales, and the need to ensure powers over income tax.

I ddechrau gyda chyllido teg, mae Plaid Cymru yn bendant o'r farn nad oes rhaid aros i'r economi wella, fel y mae Ysgrifennydd Gwladol yr Alban wedi awgrymu, cyn edrych eto ar fformiwla cyllido deg ar gyfer holl wledydd Prydain. Rwyf yn gobeithio bod y Gweinidog yn cytuno gyda fi yn hyn o beth. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd modd i'r Blaid Lafur y mae'r Gweinidog yn ei chynrychioli ddod i benderfyniad yn fuan ynglŷn â rhoi adolygiad o gyllido teg yn ei maniffesto ar gyfer etholiad nesaf San Steffan. Credaf ei bod yn bwysig bod pob plaid sydd yn debygol o fod yn llywodraethu yn San Steffan—ac efallai nad yw Plaid Cymru cweit yn y sefyllfa honno—yn datgan yn glir yn ei maniffesto yr hyn y mae am ei wneud o ran cyllido teg.

To start with fair funding, Plaid Cymru is certainly of the opinion that we should not have to wait for the economy to improve, as the Secretary of State for Scotland has suggested, before we look again at a fair funding formula for all the nations of Britain. I would hope that the Minister would agree with me in that regard. I also hope that the Labour Party, which the Minister represents, could come to an early decision on placing a commitment to a review of fair funding in its manifesto for the next Westminster election. It is important that every party that is likely to be in Government in Westminster—and perhaps Plaid Cymru is not quite in that position—should state clearly in its manifesto what it wants to do in terms of fair funding.

Trof at y refferendwm. Mae'n amlwg y bydd Plaid Cymru yn brwydro'n galed i sicrhau pwerau dros amrywio'r dreth incwm yng Nghymru. Mae Plaid Cymru yn derbyn yn llwyr, wrth gwrs, argymhellion Silk a'r amserlen a oedd yno. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd argymhellion Silk, na'r amserlen, yn cynnwys y clo ar y bandiau a chyfraddau treth. Mae hynny'n rhywbeth newydd sydd, yn fy marn i, yn ei gwneud hi'n anoddach i ennill y ddadl dros refferendwm fel y mae pethau ar hyn o bryd, a gwelsom bôl piniwn ddoe a oedd yn awgrymu hynny. Rwyf yn credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod yn gosod sawl 'stage' o hyn ymlaen, ac rwyf yn gobeithio bod y Gweinidog yn cytuno â hyn. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig dros y flwyddyn nesaf ein bod yn parhau i ddadlau dros gael gwared â'r clo—y 'lockstep', fel y'i gelwir—sydd yn gwneud y fath o gwestiynau yr oedd Nick Ramsay yn eu gofyn yn gynharach yn nonsens, wrth gwrs, oherwydd nid oes unrhyw fodd i ostwng un gyfradd dreth yn sylweddol os yw pob cyfradd dreth arall yn gorfod dilyn.

I would like to turn to the referendum. Clearly, Plaid Cymru will fight hard to secure these tax-varying powers for Wales. Plaid Cymru fully accepts, of course, the Silk recommendations and the timetable set out therein. However, it is important to note that the Silk recommendations and the timetable did not include this lockstep on the tax bands and rates. That is something new, which, in my opinion, makes it more difficult to win the argument in favour of a referendum as things stand at present, and we saw an opinion poll yesterday that suggested that. I feel that it is very important that we therefore set out a number of stages from now on, and I hope that the Minister agrees with that. I think that it is important over the next year that we continue to make the case for getting rid of the lockstep, as it has been described, which makes the kinds of questions that Nick Ramsay raised earlier a complete nonsense, of course, because there is no way at all to reduce one rate of income tax significantly if all of the others then have to follow.

Rwyf o'r farn ei bod yn bosibl ailedrych ar hwn ar ôl i'r Alban benderfynu ar ei ffordd ymlaen. Mae gan yr Alban ddewis clir allan o'r cyfyng-gyngor presennol ynglŷn â chyllido teg y tu mewn i gyfundrefn y Deyrnas Gyfunol a'r tu mewn i'r sefyllfa bresennol. Gallant bleidleisio 'ie' fis Medi nesaf a phenderfynu ar annibyniaeth. Mae hynny yn ailagor y ddadl ynglŷn â refferendwm ar amrywio trethi yng Nghymru ac ar y doll teithwyr awyr hefyd. Gobeithiaf y gall y Gweinidog gytuno ar hynny a chadw'r opsiynau hyn yn fyw fel opsiynau posibl a rhoi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i'w derbyn.

I am of the opinion that it would be possible to look at this anew once Scotland has made a decision on its future. Scotland has a very clear choice out of the current restrictions on fair funding within the system in the United Kingdom and within the current situation. They can vote 'yes' next September and decide in favour of independence. That reopens the argument on a referendum on varying taxes in Wales and on the air passenger duty. I hope that the Minister can agree with me on that and keep these options open as possible options and put pressure on the Westminster Government to accept them.

Rydym, wrth gwrs, yn croesawu'r trethi newydd, dyfeisgar y mae'n bosibl eu creu o dan adroddiad Silk. Rydym wedi cynnig y syniad o drethi newydd ar ddiodydd pefriog er mwyn talu am 1,000 o feddygon, er enghraifft. Mae hynny'n enghraifft o sut y gallwn fod yn ddyfeisgar a sut y gallwn weithio o'r newydd a meddwl yn ffres yng Nghymru.

We, of course, welcome the new, innovative taxes that it is possible to create under the Silk report. We have proposed the idea of a new tax on fizzy drinks to pay for 1,000 doctors, for example. That is an example of how we can be innovative and how we can think anew in Wales.

I gloi, hoffwn sicrhau bod y Gweinidog yn hapus gyda'r capasiti sydd gan y Llywodraeth i ddatblygu'r gallu o ran trysorlys llawn, oherwydd pan fydd y trethi hyn yn dod i rym, bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn gwbl abl i ddelio gyda hwy fel trysorlys go iawn. Rwyf hefyd am atgoffa'r Gweinidog, er ein bod yn cefnogi yn llwyr yr hawl i fenthyg er mwyn buddsoddi yn isadeiledd Cymru ac yn credu bod hynny'n hynod bwysig, ac yn wir yn gweld bod trafnidiaeth yn hynod o bwysig yn y cyd-destun hwnnw, yn meddwl bod yr achos dros M4 newydd yn wahanol i'r achos o ran buddsoddi a benthyg er mwyn buddsoddi. Nid ydym eto wedi ein perswadio bod angen buddsoddi cymaint mewn M4 newydd. Fodd bynnag, o ran egwyddor buddsoddi yn gyffredinol yng Nghymru, rydym wrth gwrs yn cytuno â hynny. Gobeithiaf yn fawr, felly, y bydd modd cydweithio gyda'r Gweinidog a'r Llywodraeth, a chyda'r pleidiau eraill hefyd, i sicrhau bod Cymru, rhyw dro yn ystod y Cynulliad nesaf, yn cael yr hawliau hyn i amrywio'r dreth incwm i ddod â chyfrifoldeb i unrhyw Lywodraeth, o ba bynnag lliw, a sicrhau bod mwy o rym a mwy o arfau gennym i ddatblygu ein heconomi yng Nghymru.

In conclusion, I would like to ensure that the Minister is content with the capacity of the Government to develop the full treasury function, because when these taxes take effect, the Welsh Government will need to be entirely able to deal with them as a real treasury. I also want to remind the Minister that, although we fully support the right to borrow to invest in infrastructure in Wales and believe that that is exceptionally important, and we certainly see that transport is very important in that context, Plaid Cymru believes that the case for a new M4 is entirely separate from the case in terms of investment and borrowing to invest. We have yet to be persuaded in any sense that we need to invest as much in a new M4. However, with regard to the principle of general investment in Wales, we are agreed on that point. I very much hope, therefore, that we will be able to co-operate with the Minister and the Government, but also with other parties, to ensure that Wales, at some point during the next Assembly, does have these rights to vary income tax to bring responsibility to any Government, of whatever political hue, and ensure that we have more power and more tools to develop our economy in Wales.

15:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Simon Thomas. I am very pleased, once again, to welcome the response of the Plaid Cymru finance spokesperson, as with that of Paul Davies. This is where we have to get on with the job in terms of delivering on these important reforms. It is appropriate to take us back to the days of Gerry Holtham—although, of course, Gerry Holtham is very much with us today and is probably watching and listening to see how we are progressing—because without his pioneering work, which of course led to the Silk commission, the mark that we have in our history books could not have been made in such a way.

Diolch yn fawr, Simon Thomas. Rwy'n falch iawn, unwaith eto, o groesawu ymateb llefarydd cyllid Plaid Cymru, yn yr un modd ag ymateb Paul Davies. Dyma lle mae'n rhaid i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o ran darparu'r diwygiadau pwysig hyn. Mae'n briodol mynd â ni yn ôl i ddyddiau Gerry Holtham—er, wrth gwrs, mae Gerry Holtham yn dal i fod gyda ni heddiw ac yn gwylio a gwrando i weld sut yr ydym ni'n symud ymlaen yn ôl pob tebyg—oherwydd heb ei waith arloesol ef, a arweiniodd at gomisiwn Silk wrth gwrs, ni ellid bod wedi gwneud y marc sydd gennym yn ein llyfrau hanes yn y fath fodd.

It is important that we start with the fair funding question that Simon Thomas has put. As I said in response to earlier questions, fair funding remains our long-term aim. The Barnett formula is well past its sell-by date. The Holtham commission, the House of Lords and numerous other studies have made that quite clear. It is important, once again, that we put on record—and I am sure that this feeling is shared across the Chamber—the importance of our having an overall funding settlement that is fair to Wales and fair to the other parts of the UK. It is very clear that that requires the kind of reform that we all seek, I am sure. That reform is necessary in terms of making sure that we safeguard our position in terms of the block grant, as we look at the issue in terms of tax-varying powers.

Mae'n bwysig ein bod yn dechrau gyda'r cwestiwn ariannu teg a ofynnwyd gan Simon Thomas. Fel y dywedais wrth ymateb i gwestiynau cynharach, ariannu teg yw ein nod hirdymor o hyd. Mae fformiwla Barnett yn wir yn dangos ei hoed. Mae comisiwn Holtham, Tŷ'r Arglwyddi a nifer o astudiaethau eraill wedi gwneud hynny'n gwbl eglur. Mae'n bwysig, unwaith eto, ein bod yn nodi ar y cofnod—ac rwy'n siŵr y rhennir y teimlad hwn ar draws y Siambr—y pwysigrwydd o'n bod yn cael setliad ariannu cyffredinol sy'n deg i Gymru ac yn deg i rannau eraill o'r DU. Mae'n amlwg iawn bod hynny'n gofyn am y math o ddiwygio yr ydym i gyd eisiau ei weld, rwy'n siŵr. Mae'r diwygio hwnnw'n angenrheidiol o ran gwneud yn siŵr ein bod yn diogelu ein sefyllfa o ran y grant bloc, wrth i ni edrych ar y mater o ran pwerau amrywio trethi.

The Silk commission made it very clear that the issue of fair funding needs to be resolved for the long term before income tax devolution takes place. I have already said that it is important that we recognise that income tax devolution would involve significant budgetary risks and we need to have the block grant on a sustainable footing. However, I have not said—nor have I ever said—that a long-term solution to fair funding has to be agreed ahead of any Silk part 1 legislation. I give you that assurance. On the contrary, we need Silk to be implemented as a package, in its entirety, as soon as possible so that we begin to use what we can use—the borrowing powers and the tax levers—to boost the economy and then we can take forward those wider issues.

Gwnaeth comisiwn Silk hi'n eglur iawn bod angen datrys y mater o ariannu teg ar gyfer yr hirdymor cyn datganoli treth incwm. Rwyf eisoes wedi dweud ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod y byddai datganoli treth incwm yn golygu risgiau cyllidebol sylweddol ac mae angen i ni gael y grant bloc ar sylfaen cynaliadwy. Fodd bynnag, nid wyf wedi dweud—ac nid wyf erioed wedi dweud—bod yn rhaid cytuno ar ateb hirdymor i ariannu teg cyn unrhyw ddeddfwriaeth Silk rhan 1. Rwy'n rhoi'r sicrwydd hwnnw i chi. I'r gwrthwyneb, mae angen i Silk gael ei roi ar waith fel pecyn, yn ei gyfanrwydd, cyn gynted â phosibl er mwyn i ni ddechrau defnyddio yr hyn y gallwn ei ddefnyddio—y pwerau benthyca a'r ysgogyddion treth—i roi hwb i'r economi ac yna gallwn fwrw ymlaen â'r materion ehangach hynny.

It is important also that we look at the flaws and disappointments, particularly in relation to the lockstep. This is something that Gerry recognised in his recommendations, and we were disappointed that we cannot independently vary the different rates of income tax. It is a missed opportunity, but we can revisit it in the future, as I will do throughout the next year. There will be much reflection on the outcome of the Scottish referendum. There are real issues in terms of being able to move forward with tax-varying powers because of the way in which the cuts would fall, in terms of the lockstep model. We also recognise that Scotland has had tax-varying powers with the lockstep model for all these years, and has never used it. Mind you, Scotland has been very well funded as well. It is important that we recognise that the lockstep model is a great disappointment, and we will revisit this.

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn edrych ar y diffygion a'r siomedigaethau, yn enwedig o ran y cam cloi. Mae hyn yn rhywbeth a gydnabuwyd gan Gerry yn ei argymhellion, ac roeddem yn siomedig na allwn amrywio'r gwahanol gyfraddau treth incwm yn annibynnol. Mae'n gyfle a gollwyd, ond gallwn edrych arno eto yn y dyfodol, fel y byddaf yn ei wneud trwy gydol y flwyddyn nesaf. Bydd llawer o fyfyrio ar ganlyniad refferendwm yr Alban. Ceir materion gwirioneddol o ran gallu symud ymlaen â phwerau amrywio trethi oherwydd y ffordd y byddai'r toriadau yn disgyn, o ran y model cam cloi. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr Alban wedi cael pwerau amrywio trethi â'r model cam cloi ers yr holl flynyddoedd, ac nid yw erioed wedi eu defnyddio. Cofiwch chi, mae'r Alban wedi cael ei hariannu'n dda iawn hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod y model cam cloi yn siom fawr, a byddwn yn ailedrych ar hyn.

Your point about air passenger duty is important. It is not being devolved to Scotland, despite being recommended by the Calman commission. We made the case very strongly for this being an important tool to improve the Welsh economy.

Mae eich pwynt am dreth teithwyr awyr yn bwysig. Nid yw'n cael ei ddatganoli i'r Alban, er i hynny gael ei argymell gan gomisiwn Calman. Gwnaethom yr achos yn gryf iawn dros y ffaith bod hwn yn arf pwysig i wella economi Cymru.

In terms of new taxes, all parties in the Chamber will have their views and proposals on new taxes. I made the point in my opening statement that you will all have to think of the budgetary consequences of these proposals, but that is about power and responsibility. I also acknowledge your point about early access to borrowing powers. It is very significant that we have secured early access, and if I were standing here now and I had not secured early access to borrowing powers for infrastructure projects, such as the enhancement of the M4, I would be held to account that I had not delivered on the commitment that was made when we entered our inter-governmental talks. We have secured that early access, but that enhancement of the M4 is subject to consultation. Consultation and engagement is what all parties and external partners are engaged in; it is the No. 1 priority for the Confederation of British Industry, and most parts of the business community have come out in support of that.

O ran trethi newydd, bydd gan bob plaid yn y Siambr ei barn a'i chynigion ar drethi newydd. Fe wnes i'r pwynt yn fy natganiad agoriadol y bydd yn rhaid i bob un ohonoch chi feddwl am ganlyniadau cyllidebol y cynigion hyn, ond mae hynny'n ymwneud â phŵer a chyfrifoldeb. Rwyf hefyd yn cydnabod eich pwynt am fynediad cynnar at bwerau benthyca. Mae'n arwyddocaol iawn ein bod wedi sicrhau mynediad cynnar, a phe bawn i'n sefyll yma nawr heb sicrhau mynediad cynnar at bwerau benthyca ar gyfer prosiectau seilwaith, fel gwella'r M4, byddwn yn dal i gael fy nwyn i gyfrif am na fyddwn wedi bodloni'r ymrwymiad a wnaed pan ddechreuwyd ein trafodaethau rhynglywodraethol. Rydym ni wedi sicrhau'r mynediad cynnar hwnnw, ond mae gwella'r M4 yn ddarostyngedig i ymgynghoriad. Mae'r holl bleidiau a phartneriaid allanol yn cymryd rhan mewn ymgynghori ac ymgysylltu; dyma brif flaenoriaeth Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, ac mae'r rhan fwyaf o rannau o'r gymuned fusnes wedi cefnogi hynny'n gyhoeddus.

Your final point on treasury functions and capacity is important. The Silk commission recommended that we should establish a new Welsh treasury function to manage tax and borrowing powers for Wales. We are already building those functions. That is partly because of the work that we are doing on our non-dividend finance mechanisms, and we are taking a much more strategic approach to capital investment. We are also working very closely with the Treasury to learn the lessons from how the Scottish Government is delivering on the Scotland Act 2012 in terms of the treasury functions that it has taken on.

Mae eich pwynt olaf ar swyddogaethau a galluoedd y trysorlys yn bwysig. Argymhellodd comisiwn Silk y dylem sefydlu swyddogaeth trysorlys Cymru newydd i reoli pwerau trethu a benthyca i Gymru. Rydym yn datblygu'r swyddogaethau hynny eisoes. Mae hynny'n rhannol oherwydd y gwaith yr ydym ni'n ei wneud ar ein dulliau cyllid nad yw'n ddifidend, ac rydym yn cymryd agwedd llawer mwy strategol at fuddsoddi cyfalaf. Rydym hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda'r Trysorlys i ddysgu'r gwersi o sut y mae Llywodraeth yr Alban yn cyflawni ar Ddeddf yr Alban 2012 o ran y swyddogaethau trysorlys y mae wedi cymryd cyfrifoldeb amdanynt.

15:08

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the statement by the Minister for Finance, and I congratulate her on her achievements, which we have heard of today, regarding borrowing powers et cetera. I have three questions on borrowing powers. Have the annual and cumulative limits been indicated? Will we have the power to borrow prudentially like local authorities do? Will our borrowing powers end up with a reduction in our capital grants?

Rwy'n croesawu'r datganiad gan y Gweinidog Cyllid, ac rwy'n ei llongyfarch ar ei llwyddiannau, yr ydym ni wedi clywed amdanynt heddiw, ynghylch pwerau benthyca ac ati. Mae gennyf dri chwestiwn am bwerau benthyca. A yw'r terfynau blynyddol a chronnus wedi eu nodi? A fydd y pŵer gennym i fenthyca'n ochelgar fel y mae awdurdodau lleol yn ei wneud? A fydd ein pwerau benthyca yn arwain at ostyngiad i'n grantiau cyfalaf?

15:09

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mike Hedges for his questions. In terms of borrowing powers, they are powers not money, and we will have to repay on our borrowing. On the smaller taxes that will be devolved, such as stamp duty land tax, that could amount to up to between £150 million and £180 million a year. The other smaller taxes include the aggregates levy and landfill tax, which will possibly take us up to about £200 million. We have negotiated with the Treasury on an income stream for borrowing. It is not new money; it is a power that will enable us to borrow. Of course, it will be enabling us to borrow in terms of the best possible deal that we will get from borrowing, as I have already mentioned in terms of the UK Debt Management Office arrangements. We have to remember that this is going to be about an income stream. I am negotiating with the Treasury and I would certainly want to come back to the Assembly to clarify what level would enable us to take this forward.

Diolchaf i Mike Hedges am ei gwestiynau. O ran pwerau benthyca, pwerau ydyn nhw, nid arian, a bydd yn rhaid i ni ad-dalu'r hyn yr ydym yn ei fenthyg. O ran y trethi llai a fydd yn cael eu datganoli, fel treth dir y dreth stamp, gallai hynny fod yn gyfanswm o hyd at rhwng £150 miliwn a £180 miliwn y flwyddyn. Mae'r trethi llai eraill yn cynnwys yr ardoll agregau a threth tirlenwi, a fydd o bosibl yn mynd â ni hyd at tua £200 miliwn. Rydym ni wedi cytuno ar ffrwd incwm ar gyfer benthyca gyda'r Trysorlys. Nid yw'n arian newydd; pŵer ydyw a fydd yn ein galluogi i fenthyg. Wrth gwrs, bydd yn ein galluogi i fenthyg o ran y fargen orau bosibl y byddwn yn ei chael o fenthyca, fel yr wyf wedi ei grybwyll eisoes o ran trefniadau Swyddfa Rheoli Dyled y DU. Mae'n rhaid i ni gofio bod hyn yn mynd i ymwneud â ffrwd incwm. Rwyf mewn trafodaethau gyda'r Trysorlys a byddwn yn sicr eisiau dod yn ôl i'r Cynulliad i egluro pa lefel fyddai'n ein galluogi i fwrw ymlaen â hyn.

As regards early access to borrowing, we have that without the income stream, in terms of the devolution of the smaller taxes, before we even get to tax-varying powers, if they came about. At this stage, we have to look at this in terms of the fact that we will then have to pay for that out of our revenue resource, as a result of the debt on borrowing.

O ran mynediad cynnar at fenthyca, mae hynny gennym heb y ffrwd incwm, o ran datganoli trethi llai, cyn i ni hyd yn oed gyrraedd pwerau amrywio trethi, pe byddai hynny'n digwydd. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni ystyried hyn yn nhermau'r ffaith y bydd yn rhaid i ni dalu am hynny wedyn allan o'n hadnoddau refeniw, o ganlyniad i'r ddyled ar fenthyciadau.

15:10

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome this statement. I also welcome the Minister's role in brokering with Danny Alexander the deal that we have in front of us, which, although imperfect, is a significant step forward in terms of where we are heading as an Assembly and in terms of the Welsh Government.

Croesawaf y datganiad hwn. Rwyf hefyd yn croesawu swyddogaeth y Gweinidog wrth frocera'r cytundeb sydd gennym ger ein bron gyda Danny Alexander, sydd, er yn amherffaith, yn gam sylweddol ymlaen o ran ein cyfeiriad fel Cynulliad ac o ran Llywodraeth Cymru.

Following on from Mike Hedges's question, Minister, what is the impact on our revenue grant as a result of taking on these additional revenue streams from taxes? Will it be adjusted so that it has a neutral effect, or is this an additional revenue stream on top of the grant that we are getting as per the existing Barnett formula? It would be useful if you could clarify that particular issue.

Yn dilyn ymlaen o gwestiwn Mike Hedges, Weinidog, beth yw'r effaith ar ein grant refeniw o ganlyniad i gymryd cyfrifoldeb am y ffrydiau refeniw ychwanegol hyn o drethi? A fydd yn cael ei addasu fel ei fod yn cael effaith niwtral, neu a yw hon yn ffrwd refeniw ychwanegol ar ben y grant yr ydym ni'n ei gael yn unol â fformiwla bresennol Barnett? Byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro'r mater penodol hwnnw.

With regard to the potential referendum on income tax, as you know from a recent poll, it is clear that public opinion on income tax devolution is still developing, with a sizeable proportion unsure how they would vote. What is the Welsh Government doing to inform the public on the issue ahead of any income tax referendum? I know that that could still be some way away, but I think that it is important that we get that work under way as soon as possible.

O ran y refferendwm posibl ar dreth incwm, fel y gwyddoch o arolwg diweddar, mae'n amlwg fod y farn gyhoeddus ar ddatganoli treth incwm yn dal i ddatblygu, ac mae cyfran sylweddol yn dal i fod yn ansicr sut y byddent yn pleidleisio. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hysbysu'r cyhoedd am y pwnc cyn unrhyw refferendwm treth incwm? Rwy'n gwybod y gallai hynny fod ymhell i ffwrdd o hyd, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cychwyn y gwaith hwnnw cyn gynted â phosibl.

Several of the other taxes that are deemed devolved—business rates, landfill tax and stamp duty land tax, for example—relate to policy areas that have already been devolved. What is the Welsh Government doing to prepare the relevant departments for the upcoming changes that that devolution will bring come 2016?

Mae nifer o'r trethi eraill yr ystyrir eu bod wedi eu datganoli—ardrethi busnes, treth tirlenwi a threth dir y dreth stamp, er enghraifft—yn ymwneud â meysydd polisi sydd eisoes wedi eu datganoli. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi'r adrannau perthnasol ar gyfer y newidiadau sydd ar ddod yn sgil y datganoli hwnnw yn 2016?

In relation to the aggregates levy, the UK Government has said that it will be kept under review, with the intention of devolving the levy in the future, subject to state aid and cross-border market distortion issues having been worked through. What steps is the Welsh Government taking to resolve those particular issues around the aggregates levy?

O ran yr ardoll agregau, mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cael ei gadw dan adolygiad, gyda'r bwriad o ddatganoli'r ardoll yn y dyfodol, yn amodol ar y ffaith bod cymorth gwladwriaethol a materion ystumio'r farchnad traws-ffiniol wedi eu cytuno. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddatrys y materion penodol hynny yn ymwneud â'r ardoll agregau?

The UK Government also states that it will carefully consider the merits of devolving any new taxes on a case-by-case basis. Could the Minister say in detail what discussions are likely in the future regarding the devolution of further financial responsibilities? What are the Government's priorities in those discussions in terms of any additional taxes that it wants to be devolved to us?

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn datgan y bydd yn ystyried yn ofalus rhinweddau datganoli unrhyw drethi newydd ar sail achosion unigol. A allai'r Gweinidog nodi'n fanwl pa drafodaethau sy'n debygol yn y dyfodol ynghylch datganoli cyfrifoldebau ariannol pellach? Beth yw blaenoriaethau'r Llywodraeth yn y trafodaethau hynny o ran unrhyw drethi y mae'n dymuno iddynt gael eu datganoli i ni?

Finally, Minister, in relation to the borrowing powers, I think that we all welcome the early access to the borrowing powers, but I echo the comments of Simon Thomas that it would be a shame if we could not think of anything more imaginative to do with those borrowing powers than to build a new motorway through four sites of special scientific interest. Can you confirm that those borrowing powers will be available for any other solution to the M4 issues around Gwent, other than a new motorway, if the consultation produces an outcome that favours that particular solution?

Yn olaf, Weinidog, o ran y pwerau benthyca, credaf ein bod i gyd yn croesawu'r mynediad cynnar at y pwerau benthyca, ond rwy'n ailadrodd sylwadau Simon Thomas y byddai'n drueni pe na allem feddwl am rywbeth a fyddai'n dangos mwy o ddychymyg i'w wneud gyda'r pwerau benthyca hynny nag adeiladu traffordd newydd trwy bedwar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. A allwch chi gadarnhau y bydd y pwerau benthyca hynny ar gael ar gyfer unrhyw ateb arall i faterion yr M4 o amgylch Gwent, ac eithrio traffordd newydd, os bydd yr ymgynghoriad yn dod i ganlyniad sy'n ffafrio'r ateb penodol hwnnw?

15:13

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much thank Peter Black, the finance spokesperson for the Welsh Liberal Democrats, for his positive and constructive comments. It is very important that we look at this issue of whether Wales will get more money as a result of tax devolution, following up from Mike Hedges's point. The key point is that this is going to give us new levers to support economic recovery. It is not going to result in getting more money in the near term. In areas such as housing, where we have extensive responsibilities, the devolution of taxes like stamp duty will make it easier for us to deliver our policy objectives, but we may end up with reform that is fiscally neutral. If we end up with reform that results in a reduction of income in terms of stamp duty land tax, then that would be a reduction to our block grant as a result.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Peter Black, llefarydd cyllid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, am ei sylwadau cadarnhaol ac adeiladol. Mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar y mater hwn o ba un a fydd Cymru yn cael mwy o arian o ganlyniad i ddatganoli treth, yn dilyn o bwynt Mike Hedges. Y pwynt allweddol yw bod hyn yn mynd i roi ysgogwyr newydd i ni gefnogi adferiad economaidd. Nid yw'n mynd i arwain at gael mwy o arian yn y dyfodol agos. Mewn meysydd fel tai, lle mae gennym gyfrifoldebau helaeth, bydd datganoli trethi fel y dreth stamp yn ei gwneud yn haws i ni gyflawni ein hamcanion polisi, ond efallai y bydd y diwygio yn arwain at sefyllfa gyllidol niwtral yn y pen draw. Os byddwn yn cael diwygio sy'n arwain at ostyngiad mewn incwm o ran treth dir y dreth stamp yn y pen draw, yna byddai hynny'n lleihau ein grant bloc o ganlyniad.

These are very important issues in terms of the maturity of understanding what is meant by tax devolution. There will not be additional money for Wales as a result of tax devolution in the short term. As I said, it could be that we lose money if we decide that we want to use the tax in a particular way. Certainly, that will be the case when we come on to tax-varying powers as well, if there were cuts to our tax as a result of our tax-varying powers. That would result in, 'What do you do in terms of your budget and how do you make decisions as far as that is concerned?'

Mae'r rhain yn faterion pwysig iawn o ran aeddfedrwydd dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan ddatganoli treth. Ni fydd arian ychwanegol ar gael i Gymru o ganlyniad i ddatganoli treth yn y byr dymor. Fel y dywedais, efallai y byddwn yn colli arian os byddwn yn penderfynu ein bod eisiau defnyddio'r dreth mewn ffordd benodol. Yn sicr, dyna fydd yr achos pan fyddwn yn dod i bwerau amrywio trethi hefyd, pe byddai toriadau i'n treth o ganlyniad i'n pwerau amrywio trethi. Byddai hynny'n arwain at, 'Beth ydych chi'n ei wneud o ran eich cyllideb a sut ydych chi'n gwneud penderfyniadau cyn belled ag y mae hynny yn y cwestiwn?'

If the Welsh economy performs well, we would expect our devolved tax revenues to grow over time, and that is where we begin to see the rewards and fruits of us being able to manage and use those levers appropriately, and delivering additional resources for investment in our public services.

Os bydd economi Cymru yn perfformio'n dda, gallem ddisgwyl i'n refeniw trethi datganoledig dyfu dros amser, a dyna lle'r ydym yn dechrau gweld manteision ac enillion ein gallu i reoli a defnyddio'r ysgogyddion hynny'n briodol, a darparu adnoddau ychwanegol i'w buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus.

We have not yet resolved the issue, but it is not an issue just for Wales, in terms of aggregates levy. This is an issue that the Treasury is seeking to resolve, which impacts on the Scottish Government and on EU state aid issues. That is something that we hope will be resolved as and when the Wales Bill goes forward. We will, I am sure, be clear about that in due course. It is important that we look at how we are responding to our further extensive financial duties. Of course, this is about a transfer of function—devolving a tax to Wales. Our budget should be transferred along with the new tax powers, to cover our administrative costs, but we have to agree that budget jointly with the UK Government, the same as if we had a non-tax function transferred; we have to negotiate that to ensure that we are not disadvantaged. The UK Government is already developing that in negotiation with the Scottish Government. So, we are discussing those issues, but we have to safeguard our position.

Nid ydym wedi datrys y mater eto, ond nid yw'n fater i Gymru yn unig, o ran yr ardoll agregau. Mae hwn yn fater y mae'r Trysorlys yn ceisio ei ddatrys, sy'n effeithio ar Lywodraeth yr Alban ac ar faterion cymorth gwladwriaethol yr UE. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n gobeithio y bydd yn cael ei datrys wrth i Fil Cymru fynd rhagddo. Byddwn, rwy'n siŵr, yn eglur am hynny maes o law. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried sut yr ydym yn ymateb i'n dyletswyddau ariannol ychwanegol helaeth. Wrth gwrs, mae hyn yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaeth—datganoli treth i Gymru. Dylai ein cyllideb gael ei throsglwyddo, ynghyd â'r pwerau treth newydd, i dalu ein costau gweinyddol, ond mae'n rhaid i ni gytuno'r gyllideb honno ar y cyd â Llywodraeth y DU, yn yr un modd â phe byddem wedi cael trosglwyddo swyddogaeth nad yw'n dreth; mae'n rhaid i ni drafod hynny i sicrhau na fyddwn dan anfantais. Mae Llywodraeth y DU eisoes yn datblygu hynny mewn trafodaethau â Llywodraeth yr Alban. Felly, rydym yn trafod y materion hynny, ond mae'n rhaid i ni ddiogelu ein sefyllfa.

Finally, I acknowledge the point that has been made about early access to borrowing. A scheme has been named: the enhancement of the M4 scheme is now out for consultation. This is about early access to borrowing, because we cannot afford to do it on our own. Our capital budget funding has been cut by 30%, but even if that cut had not taken place, we clearly do not have the resource or the powers and levers that we need. We need access to borrowing and early access was going to get us ahead of legislation and enable us to start work. Of course, it is about having powers for a purpose, and I am sure that the infrastructure project will emerge and the M4 is the one that is out for consultation, and it will take us forward.

Yn olaf, rwy'n cydnabod y pwynt a wnaed am fynediad cynnar at fenthyca. Mae cynllun wedi ei enwi: mae cynllun gwella'r M4 yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae hyn yn ymwneud â mynediad cynnar at fenthyca, gan na allwn fforddio ei wneud ar ein pennau ein hunain. Mae cyllid ein cyllideb gyfalaf wedi ei dorri gan 30%, ond hyd yn oed pe na byddai'r toriad hwnnw wedi digwydd, mae'n amlwg nad oes gennym yr adnoddau na'r pwerau a'r ysgogyddion sydd eu hangen arnom. Rydym angen mynediad at fenthyca ac roedd mynediad cynnar yn mynd i'n rhoi ni ar y blaen i'r ddeddfwriaeth a'n galluogi i ddechrau gweithio. Wrth gwrs, cael pwerau i bwrpas yw'r pwynt, ac rwy'n siŵr y bydd y prosiect seilwaith yn cael ei roi ar waith a'r M4 yw'r un sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a bydd yn ein symud ymlaen.

15:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Finally, I call Mick Antoniw, but no more than one minute, please.

Yn olaf, galwaf ar Mick Antoniw, ond dim mwy na munud, os gwelwch yn dda.

15:18

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I will be brief, Deputy Presiding Officer. Minister, in the absence of a fair funding system, would you agree with me that the restrictions that are being imposed on the devolution of income tax make the proposals effectively unusable, and that the current pronouncements on borrowing powers remain unclear and confused as to precisely how much, and how, when and where we can possibly use these powers? With regard to the M4, there will be many demands on borrowing powers and it may be that, as a consequence of the consultation, there are those who consider that investing in integrated transport to keep people off the roads rather than investing in keeping people on the roads might be more attractive.

Byddaf yn gryno, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, yn absenoldeb system gyllido deg, a fyddech chi'n cytuno â mi bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gosod ar ddatganoli treth incwm yn gwneud y cynigion yn rhai na ellir eu defnyddio mewn gwirionedd, a bod y datganiadau cyfredol ar bwerau benthyca yn parhau i fod yn aneglur ac yn ddryslyd o ran yn union faint, a sut, pryd a lle y bydd hi'n bosibl i ni allu defnyddio'r pwerau hyn? O ran yr M4, bydd llawer o ofynion ar bwerau benthyca ac efallai, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, y bydd rhai sy'n ystyried y gallai buddsoddi mewn trafnidiaeth integredig i gadw pobl oddi ar y ffyrdd yn hytrach na buddsoddi mewn cadw pobl ar y ffyrdd fod yn fwy deniadol.

15:18

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Mick Antoniw for his question. It is a missed opportunity; I have made that quite clear in terms of the lockstep model. In fact, Gerry Holtham came up with the original recommendation and the Silk commission supported it, as we did. It would have given us the powers and the tools to take this forward. It is going to make it extremely difficult because that is also very clearly linked to our fair funding regime, which we have to secure.

Diolchaf i Mick Antoniw am ei gwestiwn. Mae'n gyfle a gollwyd; rwyf wedi gwneud hynny'n gwbl eglur o ran y model cam clo. Yn wir, lluniwyd yr argymhelliad gwreiddiol gan Gerry Holtham ac fe'i cefnogwyd gan gomisiwn Silk, a ninnau hefyd. Byddai wedi rhoi'r pwerau a'r dulliau i ni fwrw ymlaen â hyn. Mae'n mynd i'w gwneud yn hynod o anodd gan fod hynny wedi ei gysylltu'n amlwg iawn â'n trefn ariannu teg hefyd, y mae'n rhaid i ni ei sicrhau.

I would not say that the pronouncements on borrowing are unclear or confused at the moment, because they are all subject to negotiation. I have given you some indication of where we are likely to be going with our smaller taxes and the level of income tax that would be raised from that that could offset borrowing as an income stream and the opportunities from those powers. However, I would not say that it is unclear and confused. I think that this is something where we need to negotiate the best way forward as commensurate with what has been delivered in Scotland, with the Scotland Act, but also in terms of our opportunities, because we are less dependent as a result of the fact that we did not use PFI to such an extent.

Ni fyddwn yn dweud bod y datganiadau ar fenthyca yn aneglur nac yn ddryslyd ar hyn o bryd, gan fod pob un ohonynt yn destun trafodaethau. Rwyf wedi rhoi rhyw syniad i chi o ble yr ydym yn debygol o fod yn mynd gyda'n trethi llai a lefel y dreth incwm a fyddai'n cael ei godi o hynny a allai gydbwyso benthyca fel ffrwd incwm a'r cyfleoedd o'r pwerau hynny. Fodd bynnag, ni fyddwn yn dweud bod hyn yn aneglur ac yn ddryslyd. Rwy'n meddwl bod hyn yn rhywbeth sy'n golygu bod angen i ni drafod y ffordd orau ymlaen yn gymesur â'r hyn a ddarparwyd yn yr Alban, trwy Ddeddf yr Alban, ond hefyd o ran ein cyfleoedd, gan ein bod yn llai dibynnol o ganlyniad i'r ffaith na wnaethom ddefnyddio'r Fenter Cyllid Preifat i'r un graddau.

On the M4, it is obviously important that we recognise that we are funding integrated transport, with the metro being the key project that is being funded through our direct capital programme and, hopefully, also through some European structural funds. What is important is that people engage in the consultation.

O ran yr M4, mae'n amlwg yn bwysig ein bod yn cydnabod ein bod yn ariannu trafnidiaeth integredig, a'r metro yw'r prosiect allweddol sy'n cael ei ariannu trwy ein rhaglen cyfalaf uniongyrchol a, gobeithio, trwy rai cronfeydd strwythurol Ewropeaidd hefyd. Yr hyn sy'n bwysig yw bod pobl yn ymgysylltu â'r ymgynghoriad.

15:20

# Datganiad: Adolygiad Hill: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol

# Statement: Hill Review: Future Delivery of Education Services in Wales

Senedd.tv
Fideo Video

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Robert Hill submitted his review in April 2013 and, in June, we commenced a 12-week public consultation, which concluded on 13 September this year. We received over 80 responses to the consultation. The review addressed five main areas and presented 85 delivery options to improve the education system in Wales through: improving teaching and learning; strengthening school leadership; increasing school partnership within a context of greater autonomy; improving accountability; and organising school improvement services.

Cyflwynodd Robert Hill ei adolygiad ym mis Ebrill 2013, ac, ym mis Mehefin, dechreuasom ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, a ddaeth i ben ar 13 Medi eleni. Cawsom dros 80 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â phum prif faes ac yn cyflwyno 85 o opsiynau cyflenwi i wella'r system addysg yng Nghymru drwy: wella dysgu ac addysgu; cryfhau arweinyddiaeth ysgolion; cynyddu partneriaethau ysgolion o fewn cyd-destun mwy o ymreolaeth; gwella atebolrwydd; a threfnu gwasanaethau gwella ysgolion.

In relation to improving teaching and learning, I intend to accept 20 of the 21 options proposed. A number of the options relate to our current work embedded within the literacy and numeracy framework. However, the review strengthens our policies in areas such as school-to-school support and improving the teaching of the Welsh language. Improving teaching and learning must be at the heart of our reform agenda, and the review provides clarity and direction of travel. I do not, however, intend to accept the option that proposes the delegation of resources from local authorities to federations and hard clusters of schools for educational welfare and the provision of additional learning needs. I believe that this would be best left at the local authority level or consortium level in order to avoid the dilution of expertise and risk of fragmentation of these services.

O ran gwella dysgu ac addysgu, rwyf yn bwriadu derbyn 20 o'r 21 opsiwn a gynigiwyd. Mae nifer o'r opsiynau'n ymwneud â'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd wedi'i ymgorffori yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn cryfhau ein polisïau mewn meysydd megis cymorth ysgol i ysgol a gwella addysgu'r Gymraeg. Rhaid i wella dysgu ac addysgu fod wrth wraidd ein hagenda ddiwygio, ac mae'r adolygiad yn darparu eglurder a chyfeiriad. Nid wyf, fodd bynnag, yn bwriadu derbyn yr opsiwn sy'n cynnig dirprwyo adnoddau o awdurdodau lleol i ffederasiynau a chlystyrau caled o ysgolion o ran lles addysgol a darparu anghenion dysgu ychwanegol. Rwyf o'r farn mai gwell fyddai gadael hynny ar lefel awdurdodau lleol neu ar lefel consortia er mwyn osgoi glastwreiddio arbenigedd a pherygl darnio'r gwasanaethau hyn.

In relation to strengthening school leadership, I intend to accept all of the options. The majority of options put forward in this chapter already form part of our improving schools plan, and the review provided further validation and impetus for their implementation.

O ran cryfhau arweinyddiaeth ysgolion, rwyf yn bwriadu derbyn pob un o'r opsiynau. Mae'r rhan fwyaf o'r opsiynau a gyflwynir yn y bennod hon eisoes yn rhan o'n cynllun gwella ysgolion, ac roedd yr adolygiad yn eu cadarnhau ymhellach ac yn rhoi ysgogiad i'w rhoi ar waith.

In relation to increasing school partnership, I intend to accept 15 of the 18 options. The concept of schools working together has been widely accepted throughout the public consultation responses received, though there are some issues that need further discussion with stakeholders. I am rejecting the proposal to move to a two-tier governance model, as a smaller upper tier governing body with almost total responsibility for all governance matters would, I feel, be too onerous for a small group of volunteers, particularly for a large federation. I am awaiting the outcome of a task and finish group that is looking at the role of school governors, and I understand that its initial findings do not support a two-tier model for those same reasons. I also do not think that we need to make any changes to our accountability and inspection system as I believe that the existing Estyn common inspection framework allows us sufficient flexibility. The final rejection in this section relates to allowing schools in a federation that includes a special school the right to provide education welfare and additional learning needs services. As I have just stated, this provision would be best left at local authority or consortium level.

O ran cynyddu partneriaethau ysgolion, rwyf yn bwriadu derbyn 15 o'r 18 opsiwn. Mae cysyniad cydweithio rhwng ysgolion yn cael ei dderbyn yn eang drwyddi draw yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, er bod angen trafod rhai materion ymhellach â rhanddeiliaid. Rwyf yn gwrthod y cynnig i symud at fodel llywodraethu dwy haen, oherwydd rwyf o'r farn y byddai corff llywodraethu llai haen uwch, â chyfrifoldeb llwyr bron am yr holl faterion llywodraethu, yn ormod o faich ar grŵp bach o wirfoddolwyr, yn enwedig i ffederasiwn mawr. Rwyf yn disgwyl am ganlyniad grŵp gorchwyl a gorffen sy'n edrych ar swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion, ac rwyf ar ddeall nad yw ei ganfyddiadau cychwynnol yn cefnogi model dwy haen, a hynny am yr un rhesymau. Nid wyf yn credu ychwaith bod angen inni wneud newidiadau i'n system atebolrwydd ac arolygu gan fy mod o'r farn fod fframwaith arolygu cyffredin presennol Estyn yn caniatáu digon o hyblygrwydd inni. Mae'r opsiwn olaf yr wyf yn ei wrthod yn yr adran hon yn ymwneud â rhoi hawl i ysgolion mewn ffederasiwn sy'n cynnwys ysgol arbennig i ddarparu gwasanaethau lles addysgol ac anghenion dysgu ychwanegol. Fel yr wyf newydd ei ddweud, byddai'n well gadael y ddarpariaeth hon ar lefel awdurdodau lleol neu gonsortia.

In relation to improving accountability, I accept all of the options. The majority of options put forward in this chapter are either already reflected in the improving schools plan or form part of our current policy development in relation to the Estyn inspection process, teacher assessment and capability procedures.

O ran gwella atebolrwydd, rwyf yn derbyn yr holl opsiynau. Mae'r rhan fwyaf o'r opsiynau a gynigir yn y bennod hon naill ai eisoes yn rhan o'r cynllun gwella ysgolion neu'n rhan o'n gwaith datblygu polisi cyfredol o safbwynt proses arolygu Estyn, asesiadau athrawon a gweithdrefnau galluogrwydd.

The review suggested eight options to improve the delivery of school improvement services. A number of these options cannot be considered in full until the Commission on Public Service Governance and Delivery reports back to the First Minister. The review has been submitted to the commission as part of its evidence gathering. However, there are two options that I considered sufficiently important to take immediate action upon following the end of the consultation on 13 September. I made an oral statement on 1 October to take forward the following two options. The first was for local authorities to stop providing school improvement services, and, secondly, to fund regional consortia directly by top-slicing the revenue support grant.

Awgrymodd yr adolygiad wyth opsiwn i wella'r modd y caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu darparu. Ni ellir ystyried nifer o'r opsiynau hyn yn llawn hyd nes y bydd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn adrodd yn ôl i'r Prif Weinidog. Mae'r adolygiad wedi'i gyflwyno i'r comisiwn fel rhan o'i waith casglu tystiolaeth. Fodd bynnag, mae dau ddewis a oedd, yn fy marn i, yn ddigon pwysig i weithredu arnynt ar unwaith wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 13 Medi. Rhoddais ddatganiad llafar ar 1 Hydref i fwrw ymlaen â'r ddau opsiwn canlynol. Y cyntaf oedd bod awdurdodau lleol yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion, a'r ail oedd ariannu consortia rhanbarthol yn uniongyrchol drwy frigdorri'r grant cynnal refeniw.

Work is under way to develop a national model for regional school improvement, led by an expert task and finish group working with headteachers, directors of education, chief executives, Estyn and officials from my department. The national model has seven interrelated themes. Theme 1 sets out a standard definition and consistency in the delivery of school improvement services; theme 2 outlines swift and efficient transfer of funding to consortia to establish regional school improvement budgets; theme 3 proposes a dedicated, credible managing director to lead each consortium; theme 4 outlines the establishment of good governance within the consortia; theme 5 examines how local authorities will commission work from the consortium; theme 6 looks at priorities and the mode of operation; and theme 7 explores the funding arrangements.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion yn rhanbarthol, dan arweiniad grŵp gorchwyl a gorffen arbenigol sy'n cydweithio â phenaethiaid, cyfarwyddwyr addysg, prif weithredwyr, Estyn a swyddogion o'm hadran i. Mae saith thema gydberthnasol i'r model cenedlaethol. Mae thema 1 yn nodi diffiniad safonol a chysondeb o ran cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion; mae thema 2 yn amlinellu trosglwyddo cyllid yn gyflym ac yn effeithlon i gonsortia i sefydlu cyllidebau rhanbarthol gwella ysgolion; mae thema 3 yn cynnig y dylid penodi rheolwr gyfarwyddwr penodedig, credadwy i arwain pob consortiwm; mae thema 4 yn amlinellu sefydlu trefn lywodraethu dda o fewn y consortia; mae thema 5 yn edrych ar sut y bydd awdurdodau lleol yn comisiynu gwaith gan y consortiwm; mae thema 6 yn edrych ar flaenoriaethau a'r dull gweithredu; ac mae thema 7 yn edrych ar y trefniadau ariannu.

Following negotiations with the Welsh Local Government Association and local government, I have decided to not pursue the option of a top-slice for 2014-15. Local government has given a commitment to adopt the national model and its implementation on 1 April 2014 along with a protection on the current level of spend to support regional school services. I have a commitment from it that if it fails to deliver, there will be a voluntary top-slice from 2015.

Yn sgil trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a llywodraeth leol, rwyf wedi penderfynu peidio â dilyn yr opsiwn i frigdorri ar gyfer 2014–15. Mae llywodraeth leol wedi ymrwymo i fabwysiadu'r model cenedlaethol a'i roi ar waith ar 1 Ebrill 2014, yn ogystal â diogelu'r lefel bresennol o wariant i gefnogi gwasanaethau rhanbarthol i ysgolion. Mae wedi ymrwymo i frigdorri'n wirfoddol o 2015 ymlaen, pe bai'n methu â chyflawni.

Work has started on developing a new improving schools plan within a wider and more comprehensive educational strategy and incorporating the accepted options within the Hill review. I intend to launch this in spring 2014. This will ensure that Wales continues on its education improvement journey and that the direction of travel is based on evidence and best practice. It is about developing a distinct Welsh education system based upon a comprehensive school system firmly grounded in public services and local government.

Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu cynllun gwella ysgolion newydd o fewn strategaeth addysgol ehangach a mwy cynhwysfawr gan gynnwys yr opsiynau sydd wedi'u derbyn o fewn adolygiad Hill. Bwriadaf ei lansio yng ngwanwyn 2014. Bydd hyn yn sicrhau bod Cymru'n parhau ar ei thaith i wella addysg a bod y cyfeiriad teithio'n seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau. Mae'n fater o ddatblygu system addysg neilltuol Gymreig yn seiliedig ar system ysgolion cyfun sydd â'i gwreiddiau mewn gwasanaethau cyhoeddus a llywodraeth leol.

15:27

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I thank you for bringing forward your statement today. It has been some time in coming, but it was good because it actually gave me the opportunity to refresh in my mind the Hill review. I want to say again how much I appreciate it. I thought that it was a thoughtful and detailed report. I would like to formally record my thanks again to Robert Hill and for his 85 options, which give us quite a mixture of ways of going forward.

Weinidog, diolch ichi am gyflwyno eich datganiad heddiw. Bu cryn aros amdano, ond roedd yn dda oherwydd roedd yn gyfle gwirioneddol imi f'atgoffa fy hun o adolygiad Hill. Hoffwn ddweud eto cymaint yr wyf yn ei werthfawrogi. Roedd yn adroddiad meddylgar a manwl yn fy marn i. Hoffwn gofnodi fy niolch yn ffurfiol unwaith eto i Robert Hill ac am ei 85 o opsiynau, sy'n rhoi cryn gymysgedd o ffyrdd o symud ymlaen inni.

With regard to your specific statement, I would like to ask you to expand on a couple of points. Could you please expand on the rejection of special educational needs being delegated from local authorities to federations and hard clusters? I ask this because, in his report, Hill was very clear about the variable performance in the development of regional consortia. I am not entirely convinced that I or my colleagues have heard anything yet to support the idea that those regional consortia are really as under way as we would like them to be in some areas of Wales.

O ran eich datganiad penodol, hoffwn ofyn ichi ymhelaethu ar un neu ddau o bwyntiau. A wnewch chi os gwelwch yn dda ymhelaethu ar wrthod dirprwyo anghenion addysgol arbennig o awdurdodau lleol i ffederasiynau a chlystyrau caled? Gofynnaf hyn oherwydd, yn ei adroddiad, roedd Hill yn glir iawn am y perfformiad amrywiol wrth ddatblygu consortia rhanbarthol. Nid wyf wedi fy argyhoeddi'n llwyr fy mod i na fy nghyd-Aelodau wedi clywed dim eto i ategu'r syniad fod y consortia rhanbarthol hynny ar waith mewn gwirionedd i'r graddau yr hoffem iddynt fod mewn rhai ardaloedd yng Nghymru.

In relation to the strengthening of school leadership, business management expertise has been picked up by Hill as a reason as to why some of the things do not happen in schools, in some of the options for driving schools forward. I wonder, Minister, if you might be able to expand on what we might be able to do to ensure that our leaders of the future really do have that element of business management expertise that they will need going forward. I would also ask that you really encourage local authorities to go out there to get the cross-referencing, looking at best practice throughout the UK, particularly in academy schools because there are some academy schools in England—and this is not political; academies were started by Tony Blair—that have achieved amazing turn-around results in extremely disadvantaged areas. I would not like us to miss out on being able to look at all of those examples of best practice.

O ran cryfhau arweinyddiaeth ysgolion, mae Hill yn sôn am arbenigedd rheoli busnes fel rheswm pam nad yw rhai o'r pethau'n digwydd mewn ysgolion, yn rhai o'r opsiynau ar gyfer gwella ysgolion. Tybed, Weinidog, a allech efallai ymhelaethu ar yr hyn y gallem ei wneud i sicrhau bod gan ein harweinwyr yn y dyfodol yr elfen honno o arbenigedd rheoli busnes y bydd ei hangen arnynt yn y dyfodol? Gofynnaf hefyd ichi roi anogaeth wirioneddol i awdurdodau lleol i fynd ati i groesgyfeirio, gan edrych ar yr arfer gorau ledled y DU, yn enwedig mewn ysgolion academi oherwydd mae rhai ysgolion academi yn Lloegr—ac nid yw hyn yn wleidyddol; Tony Blair ddechreuodd yr academïau—sydd wedi gweddnewid eu canlyniadau'n rhyfeddol mewn ardaloedd difreintiedig iawn. Ni hoffwn ein gweld ar ein colled o fethu ag edrych ar yr holl enghreifftiau hynny o arfer gorau.

In terms of increasing school partnerships within the context of greater autonomy, you reject the proposal to move to a two-tier governance model. In fact, I am with you on that, because I think that that could be too onerous, going forward, and I am not convinced of the role of that. However, when we talk about clusters and hard clusters, Minister, I wonder whether you will give consideration to whether the clusters should always be encouraged to try to be primary and secondary clusters, in order to minimise the loss at transition, and to ensure that transition from one to the other is as smooth as it possibly can be.

O ran cynyddu partneriaethau ysgolion yng nghyd-destun mwy o ymreolaeth, rydych yn gwrthod y cynnig i symud tuag at fodel llywodraethu dwy haen. A dweud y gwir, rwyf yn cytuno â chi ar hynny, oherwydd credaf y gallai hynny fod yn rhy feichus, yn y dyfodol, ac nid wyf yn argyhoeddedig ynghylch swyddogaeth hynny. Fodd bynnag, pan fyddwn yn sôn am glystyrau a chlystyrau caled, Weinidog, tybed a wnewch chi ystyried a ddylid annog y clystyrau bob amser i geisio bod yn glystyrau cynradd ac uwchradd, er mwyn lleihau'r golled wrth drosglwyddo, ac er mwyn sicrhau bod trosglwyddo o'r naill i'r llall yn digwydd mor rhwydd ag y bo modd?

I notice in that particular section that you again reject the federations being allowed to provide educational welfare and additional learning needs services. Again, Minister, I would like to raise a real flag of warning over this, because the evidence that we have seen to date attests that some of the provision has just not been adequate, and I would like your views on that.

Sylwaf eich bod, yn yr adran benodol honno, unwaith eto'n gwrthod caniatâd i'r ffederasiynau i ddarparu gwasanaethau lles addysgol ac anghenion dysgu ychwanegol. Unwaith eto, Weinidog, hoffwn godi baner rybuddio wirioneddol ynglŷn â hyn, oherwydd mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i gweld hyd yma'n tystio bod rhywfaint o'r ddarpariaeth, yn y bôn, wedi bod yn annigonol, a hoffwn glywed eich barn ar hynny.

On organising school improvement functions, I appreciate that there is going to be massive documentation going forward to the First Minister on the public service governance and delivery report; however, I would not like to see that stopping any of the rightful changes that we should be making in education here. I would not like to see this as a reason for allowing poor performance to continue, and I would like to know what you might be able to do in the short term, notwithstanding the fact that you want to wait for this larger piece of work. Hill himself, in his report, recognises that, whatever happens in the long term, some of the local education authority standards and responsibilities could be reviewed now.

O ran trefnu swyddogaethau gwella ysgolion, rwyf yn deall y caiff llawer iawn o ddogfennau eu rhoi i Brif Weinidog Cymru ar yr adroddiad llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus; fodd bynnag, ni hoffwn weld hynny'n atal dim o'r newidiadau dilys y dylem fod yn eu gwneud i addysg yma. Ni hoffwn weld hyn yn cael ei ddefnyddio'n rheswm dros ganiatáu i berfformiad gwael barhau, a hoffwn wybod beth y gallech ei wneud yn y tymor byr, er eich bod yn awyddus i aros am y gwaith mwy hwn. Mae Hill ei hun, yn ei adroddiad, yn cydnabod, beth bynnag a ddigwydd yn y tymor hir, y gellid adolygu rhai o safonau a chyfrifoldebau awdurdodau addysg lleol yn awr.

I welcome the work that is under way to develop a national model for school regional improvement. I would just like to confirm one thing with you: you mentioned that you have negotiated with the WLGA, and that you are not going to pursue the option of a top-slice, because it is going to be rolling this out on 1 April 2014. May I clarify that? May I clarify whether it is going to start the recruitment and the putting in place within the authorities, or will it be ready to go, out of the blocks, in 2014? I think that we are delaying so many times and local authorities need to really get out and deliver this. Again, on this particular section and on the funding element—and you are not top-slicing it—are you convinced that the local authorities will be able to translate this and will be able to protect funding for, for example, Welsh, welfare services, special educational needs, and all those very clear key services within the provision of education?

Rwyf yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion yn rhanbarthol. Hoffwn gadarnhau un peth â chi: soniasoch eich bod wedi trafod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac nad ydych yn mynd i ddilyn yr opsiwn o frigdorri, oherwydd y bydd yn cyflwyno hyn ar 1 Ebrill 2014. A gaf i ofyn am eglurhad ynglŷn â hynny? A gaf i ofyn am eglurhad ai dechrau recriwtio a rhoi pethau ar waith o fewn yr awdurdodau fydd yn digwydd bryd hynny, neu a fyddant yn barod i gychwyn arni go iawn yn 2014? Credaf ein bod yn gohirio hyn gynifer o weithiau a bod angen i awdurdodau lleol fynd ati i roi hyn ar waith. Unwaith eto, ar yr adran benodol hon ac ar yr elfen ariannu—ac nid ydych yn ei brigdorri—a ydych yn argyhoeddedig y bydd yr awdurdodau lleol yn gallu trosi hyn ac yn gallu diogelu arian ar gyfer, er enghraifft, y Gymraeg, gwasanaethau lles, anghenion addysgol arbennig, a'r holl wasanaethau allweddol clir iawn hynny o fewn darpariaeth addysg?

I was interested to read your comment on the work that has started on developing the new improving schools plan, with a wider and more comprehensive educational strategy. I would like to ask you, Minister, to reassure us that there will be real read-across across the piece on this, because we have quite a lot of areas where one policy does not quite fit with another, and it would be good to have a very cohesive strategy put in place.

Roedd eich sylwadau am y gwaith sydd wedi dechrau i ddatblygu'r cynllun newydd i wella ysgolion, gyda strategaeth addysgol ehangach a mwy cynhwysfawr, yn ddiddorol. Hoffwn ofyn ichi, Weinidog, roi sicrwydd inni y bydd hyn i gyd wedi'i gydlynu drwyddi draw, oherwydd mae gennym lawer o feysydd lle nad yw un polisi'n cyd-fynd yn union ag un arall, a byddai'n braf gallu rhoi strategaeth gydlynol iawn ar waith.

Finally, we talk of best practice, and not losing focus on literacy and numeracy, but I would just like your view on the fact that some of those best practice leaders are currently the heads of schools in bands 4 and 5. What are we going to do about that, because there seems to be a real disconnect in that particular situation? What can we do about the sharing of data and taking on board the views of teachers who are on the front line?

Yn olaf, rydym yn sôn am arfer gorau, ac am beidio â cholli'r pwyslais ar lythrennedd a rhifedd, ond hoffwn glywed eich barn am y ffaith fod rhai o'r arweinwyr arfer gorau hynny'n benaethiaid ysgolion ym mandiau 4 a 5 ar hyn o bryd. Beth ydym ni'n mynd i'w wneud am hynny, oherwydd mae'n ymddangos bod diffyg cydlyniad gwirioneddol yn hynny o beth? Beth allwn ni ei wneud o ran rhannu data ac ystyried barn athrawon sydd ar y rheng flaen?

I would like to thank you very much for your statement today.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn ichi am eich datganiad heddiw.

15:33 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Conservative spokesperson for her thoughtful and insightful comments about today's statement.

Diolch i lefarydd y Ceidwadwyr am ei sylwadau meddylgar a chraff am y datganiad heddiw.

I was asked to expand on the rejection of the proposal around ALN. I think that it is fair to say that the Member's comments regarding the consortia not being entirely consistent, or up and running in the way that we would hope, are absolutely true, hence my sense of urgency in terms of taking forward those two proposals from Hill that I spoke about in my statement, to ensure that we have focused minds, particularly within local government, but also in the school communities within those consortium areas, to ensure that we stop talking about school improvement being undertaken through this mechanism and get on with it.

Gofynnwyd imi ymhelaethu ar y ffaith fod y cynnig ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i wrthod. Rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud bod sylwadau'r Aelod nad yw'r consortia'n gwbl gyson, ac nad ydynt wedi dechrau ar eu gwaith yn y ffordd y byddem yn ei obeithio, yn hollol wir, a dyna pam yr wyf am fwrw ymlaen ar fyrder â'r ddau o gynigion Hill y soniais amdanynt yn fy natganiad, i sicrhau ein bod yn canolbwyntio, yn enwedig o fewn llywodraeth leol, ond hefyd yng nghymunedau'r ysgolion o fewn ardaloedd y consortia hynny, i sicrhau ein bod yn rhoi'r gorau i siarad am wella ysgolion drwy'r mecanwaith hwn ac yn bwrw ymlaen â'r gwaith o wneud hynny.

I think that those conversations with local government have been very fruitful. I have every confidence—and I expect—that we will see operational consortia by 1 April next year that are based on the national model. Everyone understands what a consortium should look like now, everyone agrees what it should do, and everyone grasps how it should be funded and who, exactly, is responsible for what aspect of its activity. There is no excuse for not moving forward with the construction of the consortia, and, of course, that recommendation around ALN is, I think, the safe way forward in that context.

Rwyf yn credu bod y sgyrsiau hynny â llywodraeth leol wedi bod yn fuddiol iawn. Rwyf yn ffyddiog—ac yn disgwyl—y gwelwn gonsortia gweithredol erbyn 1 Ebrill y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar y model cenedlaethol. Mae pawb yn deall sut y dylai consortiwm edrych erbyn hyn, mae pawb yn cytuno ynglŷn â'r hyn y dylai ei wneud, ac mae pawb yn deall sut y dylid ei ariannu a phwy, yn union, sy'n gyfrifol am ba agwedd ar ei weithgareddau. Nid oes esgus dros beidio â symud ymlaen â'r gwaith o adeiladu'r consortia, ac, wrth gwrs, yr argymhelliad hwnnw ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol, yn fy marn i, yw'r ffordd ddiogel ymlaen yn y cyd-destun hwnnw.

In terms of business management expertise and the relationship with school leadership, of course, there is an accepted option in my response to Hill that relates to that, but I would also expect to see, in terms of the curriculum, the inclusion of consideration of our curriculum review as we move towards a curriculum for Wales and away from the old 1988 national curriculum as time goes by.

O ran arbenigedd rheoli busnes a'r berthynas ag arweinyddiaeth ysgolion, wrth gwrs, mae opsiwn wedi'i dderbyn yn fy ymateb i Hill sy'n ymwneud â hynny, ond byddwn hefyd yn disgwyl gweld, o ran y cwricwlwm, ystyriaeth yn cael ei rhoi i'n hadolygiad o'r cwricwlwm wrth inni symud tuag at gwricwlwm i Gymru ac oddi wrth hen gwricwlwm cenedlaethol 1988 wrth i amser fynd yn ei flaen.

In terms of cross-referencing across the United Kingdom, of course, I am always willing to look at best practice. Although I completely reject, from whichever UK Government happened to introduce it, the idea of academies or free schools, as I think that we are beginning to see the kind of chaotic outcome that can arise from that kind of fragmentation of community schooling across the border in England, I do accept that there are lessons to be learned whenever we turn. The London Challenge, for instance, is one set of lessons that I am looking at very closely in terms of how we can accelerate school improvement in Wales, particularly for those schools that are finding it tough at the moment, that are not delivering, particularly for their more deprived pupils, or that are up against it in terms of the social and economic situations that many of their children's families find themselves in. I think that the London Challenge particularly has a great deal to tell us. I shall be travelling to Scotland in the new year to take a look at university-school linkages there, among other things, to try to learn some best practice from what is going on in Scotland, too. So, I am quite willing to cross-reference across the UK with best practice.

O ran croesgyfeirio ar draws y Deyrnas Unedig, wrth gwrs, rwyf bob amser yn barod i edrych ar arfer gorau. Er fy mod yn gwrthod yn llwyr, pa bynnag Lywodraeth y DU a ddigwyddodd ei gyflwyno, y syniad o academïau neu ysgolion rhydd, gan fy mod yn credu ein bod yn dechrau gweld y math o draed moch a all ddeillio o'r math hwnnw o ddarnio ar addysg gymunedol dros y ffin yn Lloegr, derbyniaf fod gwersi i'w dysgu ble bynnag y trown. Mae Her Llundain, er enghraifft, yn un set o wersi yr wyf yn edrych yn ofalus iawn arni o ran sut y gallwn wella ysgolion yn gynt yng Nghymru, yn enwedig o ran yr ysgolion hynny sy'n ei chael yn anodd ar hyn o bryd, y rhai nad ydynt yn cyflawni, yn enwedig dros eu disgyblion mwyaf difreintiedig, neu'r rhai y mae'n anodd arnynt oherwydd sefyllfaoedd cymdeithasol ac economaidd teuluoedd llawer o'u plant. Credaf fod gan Her Llundain yn arbennig lawer iawn i'w ddweud wrthym. Byddaf yn teithio i'r Alban yn y flwyddyn newydd i edrych ar gysylltiadau rhwng prifysgolion ac ysgolion yno, ymhlith pethau eraill, er mwyn ceisio dysgu rhywfaint o arfer gorau o'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban, hefyd. Felly, rwyf yn ddigon parod i groesgyfeirio ar draws y DU o ran arfer gorau.

I welcome the Member's points on governance; I think that there is an issue around it being too onerous a burden in that two-tier governance proposal. I think that it would be reckless, really, to push ahead with that, particularly as we are waiting for a report from the review of governance that was previously set up. We need to consider that carefully.

Rwyf yn croesawu pwyntiau'r Aelod am lywodraethu; credaf y gallai'r cynnig hwnnw o drefn lywodraethu ddwy haen fod yn ormod o faich. Credaf mai byrbwyll, mewn gwirionedd, fyddai gwthio ymlaen â hynny, yn enwedig gan ein bod yn aros am adroddiad yr adolygiad o'r drefn lywodraethu a sefydlwyd eisoes. Mae angen inni ystyried hynny'n ofalus.

Regarding clusters, there are of course advantages to primary-secondary clusters, or even to clusters for those aged three through to 19. Clusters could be constructed in a number of different ways. There are constraints here—or there will be—because of Wales's geography, which can be difficult in making sure that proper communication takes place between clusters of schools. I hesitate to put too exacting a blueprint on the make-up of clusters, as regards whether they should be families that must contain primary and secondary elements. I can see that there are advantages to that in terms of transition discussions, but it may not always be possible, and there are advantages to other types of cluster that may be constructed across the country. What we need is good communication between the schools that is regularised, and that people treat sincerely, with professionals within those clusters genuinely giving the time and effort to making sure that best practice is disseminated within the clusters, so that we do not have a situation where lip service is paid to the operation of school clusters.

O ran clystyrau, wrth gwrs mae manteision i glystyrau cynradd-uwchradd, neu hyd yn oed i glystyrau i ddisgyblion o dair oed hyd at 19. Gellir llunio clystyrau mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae cyfyngiadau yma—neu bydd rhai—oherwydd daearyddiaeth Cymru, a all fod yn anodd o ran gwneud yn siŵr bod cyfathrebu priodol yn digwydd rhwng clystyrau o ysgolion. Rwyf yn gyndyn o roi glasbrint rhy fanwl ar gyfansoddiad clystyrau, o ran a ddylai fod yn rhaid iddynt fod yn deuluoedd sy'n cynnwys elfennau cynradd ac uwchradd. Gallaf weld bod manteision i hynny o ran trafodaethau pontio, ond efallai na fydd hynny bob amser yn bosibl, ac mae manteision i fathau eraill o glystyrau a allai gael eu llunio ledled y wlad. Yr hyn sydd ei angen arnom yw cyfathrebu da, rheolaidd rhwng yr ysgolion y mae pobl yn ei drin yn ddidwyll, ac i weithwyr proffesiynol o fewn y clystyrau hynny roi o'u hamser ac ymdrechu i sicrhau bod arfer gorau'n cael ei ledaenu o fewn y clystyrau, fel na fydd gennym sefyllfa lle mae gweithredu clystyrau ysgolion yn fater o ddweud yn hytrach na gwneud.

In terms of the national model, Angela Burns was appropriately concerned about the coming into being of an operational cross-Wales structure for school improvement consortia. I would expect that, by 1 April, we would have operational consortia across the country, within reason. I do not expect every dot and comma to have been completed by that point, but I expect there to be a school improvement consortium covering every square mile of Wales, with everyone clear within the consortium about what the lines of responsibility are, with management in place, with money flowing in the correct way, and with action being taken to improve teaching and learning in our schools.

O ran y model cenedlaethol, roedd Angela Burns, yn ddigon priodol, yn pryderu am ddyfodiad strwythur gweithredol ledled Cymru i gonsortia gwella ysgolion. Byddwn yn disgwyl, erbyn 1 Ebrill, y bydd gennym gonsortia gweithredol ledled y wlad, o fewn rheswm. Nid wyf yn disgwyl i bob manylyn fod wedi ei gwblhau erbyn hynny, ond rwyf yn disgwyl y bydd consortiwm gwella ysgolion ar gyfer pob milltir sgwâr yng Nghymru, ac y bydd pawb yn glir o fewn y consortiwm ynghylch beth yw eu cyfrifoldebau, ac y bydd rheolwyr wrth eu gwaith, gydag arian yn llifo yn y ffordd gywir, a chamau'n cael eu cymryd i wella dysgu ac addysgu yn ein hysgolion.

In terms of the improving schools plan, I think that Angela Burns put the words into my mouth: that read-across in terms of the complex agenda that we are dealing with here, and across policy areas and initiatives, that is what the improving schools plan is for. It is there to make sure that we have the consistent blueprint, if you like, to make sure that we can get on with this job. I see that, combined with Hill, as really the agenda on school improvement for me, and for my department, for the next three years. This is a job of work that will involve a great deal of effort as regards delivery, and acknowledging the report is just the first step. The improving schools plan and the Hill review really are the map for my activity, and the emphasis for my department, over the next three years or so.

O ran y cynllun gwella ysgolion, credaf fod Angela Burns wedi rhoi'r geiriau yn fy ngheg: y cydlyniad hwnnw o ran yr agenda gymhleth yr ydym yn ymdrin â hi yma, ac ar draws meysydd a mentrau polisi, dyna yw diben y cynllun gwella ysgolion. Mae yno i wneud yn siŵr bod gennym lasbrint cyson, os mynnwch, i wneud yn siŵr y gallwn fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Dyna, ynghyd â Hill, yw'r agenda gwella ysgolion mewn gwirionedd i mi, ac i'm hadran, dros y tair blynedd nesaf. Mae hwn yn waith a fydd yn gofyn llawer iawn o ymdrech o ran darpariaeth, a dim ond y cam cyntaf yw cydnabod yr adroddiad. Y cynllun gwella ysgolion ac adolygiad Hill, mewn gwirionedd, yw'r map ar gyfer fy ngweithgareddau, a dyna fydd pwyslais fy adran, dros y tair blynedd nesaf.

15:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I like the thorough responses, Minister, but I will gently point out that that answer took you longer than your initial statement.

Rwyf yn hoff o'r ymatebion trylwyr, Weinidog, ond nodaf yn garedig fod yr ateb hwnnw wedi cymryd mwy o amser na'ch datganiad cychwynnol.

15:41

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will start by also paying tribute to the work of Robert Hill, who I think produced a report that will be transformative in terms of Welsh education, and did so in a remarkably short period of time. I will focus my remarks on the national model, and urge the Minister to keep his foot on the accelerator in terms of the implementation of that national model. The pace must be fast. I also urge him to keep his other foot on the windpipe of the WLGA, and to keep pressing down, because at the end of the day it is going to be the co-operation from local government that makes this deliver, and I regard local government, I am afraid, in Wales as a whole—not in every part of Wales, but across Wales—as having failed to hold schools to account and having failed to intervene when there has been poor performance, with certain exceptions. If it is to play a real role in education delivery in the future, it needs to demonstrate that it can make the consortia work.

Rwyf innau am ddechrau drwy dalu teyrnged i waith Robert Hill; credaf ei fod wedi llunio adroddiad a fydd yn trawsnewid addysg yng Nghymru, ac wedi gwneud hynny mewn cyfnod hynod o fyr. Rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau ar y model cenedlaethol, ac annog y Gweinidog i gadw ei droed ar y sbardun o ran rhoi'r model cenedlaethol hwnnw ar waith. Rhaid i hyn ddigwydd yn gyflym. Rwyf hefyd yn ei annog i gadw ei droed arall ar bibell wynt Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac i ddal i bwyso i lawr, oherwydd yn y pen draw cydweithrediad llywodraeth leol fydd yn gwneud i hyn weithio, ac mae arnaf ofn fy mod o'r farn fod llywodraeth leol, yng Nghymru gyfan—nid ym mhob rhan o Gymru, ond ar draws Cymru—wedi methu â dwyn ysgolion i gyfrif ac wedi methu ag ymyrryd pan fu perfformiad gwael, gyda rhai eithriadau. Os yw am chwarae rhan wirioneddol mewn darparu addysg yn y dyfodol, mae angen iddi ddangos y gall wneud i'r consortia weithio.

15:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Member for the Rhondda always provides us with valuable insight into these matters. Robert Hill's review is a remarkable document, and I think that it will be seen as historically important in terms of the development of Welsh education. The national model will be a central priority of mine, moving through to next spring and beyond. The WLGA agrees that it is essentially the blueprint for action. There is consensus around that. I also made the point when meeting recently with the WLGA that, whatever the Williams commission might come up with in terms of implications for local government, it is important that our consortium model is worked through and worked forward, because it is essentially a futureproofed mechanism by which we can get to grips with the school improvement agenda. Although we may have to look at rearrangements in the future, at least for the next few years, the school improvement consortium model is without doubt something that can take us forward in terms of school improvement. The Member is quite right that what has been lacking to a great extent—and Hill echoes this over and over again within his review—is that we do need more grit and challenge within the Welsh educational system. I cannot remember which commentator once described Wales as the 'land of the pulled punch'; it is a rather poetic description, but I think that there is much truth in it.

Mae Aelod y Rhondda bob amser yn rhoi golwg werthfawr ar y materion hyn inni. Mae adolygiad Robert Hill yn ddogfen hynod, ac rwyf yn credu y caiff ei hystyried yn hanesyddol bwysig o ran datblygiad addysg yng Nghymru. Bydd y model cenedlaethol yn un o'm prif flaenoriaethau, wrth symud tuag at y gwanwyn nesaf a thu hwnt. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cytuno mai dyna, yn y bôn, yw'r glasbrint ar gyfer gweithredu. Ceir consensws ynghylch hynny. Dywedais hefyd, wrth gyfarfod yn ddiweddar â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ei bod yn bwysig, beth bynnag y gallai comisiwn Williams dynnu sylw ato o ran y goblygiadau i lywodraeth leol, ein bod yn rhoi trefn ar ein model consortiwm ac yn bwrw ymlaen ag ef, oherwydd i bob diben mae'n fecanwaith sydd wedi'i ddiogelu at y dyfodol ac y gallwn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r agenda gwella ysgolion. Er efallai y bydd yn rhaid inni edrych ar aildrefnu yn y dyfodol, o leiaf am yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae model y consortia gwella ysgolion yn ddi-os yn rhywbeth a all ein symud ymlaen o ran gwella ysgolion. Mae'r Aelod yn llygad ei le wrth ddweud mai'r hyn sydd wedi bod yn ddiffygiol i raddau—ac mae Hill yn adleisio hyn drosodd a thro yn ei adolygiad—yw bod angen mwy o blwc a her arnom o fewn system addysg Cymru. Ni allaf gofio pa sylwebydd a ddisgrifiodd Gymru unwaith fel 'gwlad yr ymatal'; mae'n ddisgrifiad eithaf barddonol, ond rwyf yn meddwl bod llawer o wirionedd ynddo.

15:44 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for his statement today, most of which I agree with. I am glad that progress is being made, albeit that there might be frustration at the pace of progress in this regard. The Minister said in reply to Angela Burns that everyone now knows what a consortium is and what it does, but they were all supposed to know that a year ago. It was a year and a month ago that questions were raised about the ability of consortia to do their task, when the previous Minister for education commissioned Robert Hill to do his job of work. I agree that his report was very thorough and I would also remind the Minister, given his previous comments, that Robert Hill was very much involved with some of the developments in England that he finds somewhat unpalatable. Nevertheless, he did not recommend them for Wales.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw; rwyf yn cytuno â'r rhan fwyaf ohono. Rwyf yn falch bod cynnydd yn digwydd, er y gall fod rhwystredigaeth ynglŷn â chyflymder y cynnydd yn hyn o beth. Dywedodd y Gweinidog wrth ymateb i Angela Burns fod pawb bellach yn gwybod beth yw consortiwm a beth y mae'n ei wneud, ond dylent i gyd fod wedi gwybod hynny flwyddyn yn ôl. Mae blwyddyn a mis ers i gwestiynau gael eu codi ynghylch gallu consortia i gyflawni eu tasg, pan gomisiynodd y Gweinidog addysg blaenorol Robert Hill i wneud ei waith. Rwyf yn cytuno bod ei adroddiad yn drylwyr iawn a byddwn hefyd yn atgoffa'r Gweinidog, ac ystyried ei sylwadau blaenorol, y cymerodd Robert Hill ran fawr yn rhai o'r datblygiadau yn Lloegr y mae'n eu cael braidd yn annymunol. Serch hynny, nid yw'n eu hargymell i Gymru.

What he did find, as an underlying theme in his report, was a lack of leadership and lack of consistency across Wales, something that was reflected in the comments we heard from the previous Minister today. These are the things I want to focus on with the Minister with regard to his statement today. I do not want to ask him too much about the detail, because I accept that, and it is all set out concisely and properly in the Hill report.

Yr hyn a welodd, ac mae'n thema sylfaenol yn ei adroddiad, oedd diffyg arweinyddiaeth a diffyg cysondeb ledled Cymru, rhywbeth a adlewyrchwyd yn y sylwadau a glywsom gan y Gweinidog blaenorol heddiw. Dyma'r pethau yr hoffwn ganolbwyntio arnynt gyda'r Gweinidog o ran ei ddatganiad heddiw. Nid wyf am ofyn gormod iddo am y manylion, oherwydd rwyf yn derbyn hynny, ac mae'r cyfan wedi'i nodi'n gryno ac yn briodol yn adroddiad Hill.

We start with what may be now seen as a lack of overall governance and accountability in the system. Putting together today's statement with the earlier oral statement from the Minister, we are now seeing the establishment of regional school improvement boards, to all intents and purposes, under the guise of local government. These school improvement consortia will have entrusted to them the resources to deliver the changes set out in the Hill report. However, it is not clear now how we are going to hold these consortia to account.

Rydym yn dechrau â'r hyn y gellid ei ystyried erbyn hyn yn ddiffyg llywodraethu ac atebolrwydd cyffredinol yn y system. O ystyried y datganiad heddiw ynghyd â'r datganiad llafar cynharach gan y Gweinidog, rydym bellach yn gweld sefydlu byrddau rhanbarthol gwella ysgolion, i bob pwrpas, o dan gochl llywodraeth leol. Rhoddir i'r consortia gwella ysgolion hyn yr adnoddau i gyflawni'r newidiadau a nodir yn adroddiad Hill. Fodd bynnag, nid yw'n glir yn awr sut yr ydym yn mynd i ddwyn y consortia hyn i gyfrif.

The part of the Hill report that dealt with some of the elements of governance around this has been, in effect, kicked into the long grass. It has been passed over to the Williams commission on local government, and we have two opposing views here. We have the thrust of what Hill was trying to say, which, to remind Members, was a reduction of a third in the number of local education authorities in Wales, and we have the commission looking at public services in Wales, in the context of which the Welsh Government has said consistently that it does not want to reform local government. It is true that that message has not been so loudly put over the last few months, but, without those two being reconciled, there will be an ongoing lack of accountability and clarity around this.

Mae'r rhan o adroddiad Hill sy'n ymdrin â rhai o'r elfennau llywodraethu sy'n gysylltiedig â hyn, i bob pwrpas, wedi cael ei thaflu o'r neilltu. Mae wedi ei throsglwyddo i gomisiwn Williams ar lywodraeth leol, ac mae gennym ddwy farn wahanol yma. Mae gennym fyrdwn yr hyn yr oedd Hill yn ceisio ei ddweud, sef, i atgoffa'r Aelodau, traean yn llai o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru, ac mae gennym y comisiwn sy'n edrych ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yn y cyd-destun hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyson nad yw'n awyddus i ddiwygio llywodraeth leol. Mae'n wir nad yw'r neges wedi ei chyfleu mor amlwg yn ystod y misoedd diwethaf, ond, heb gysoni'r ddau beth hynny, bydd diffyg atebolrwydd ac eglurder yn parhau ynglŷn â hyn.

So, the question for the Minister must be: is there now a change of heart or thought in the Welsh Government regarding the eventual reduction in the number of local education authorities in Wales? I can see no other way forward than that, from what the Minister has said today, unless he is going to somehow muddle on with a number of consortia, which he still has to threaten, even now, with some sort of compulsory top slicing, so I sense that he is not completely convinced that this is going to work. That is the first issue.

Felly, y cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn i'r Gweinidog yw hyn: a yw Llywodraeth Cymru bellach wedi newid ei meddwl ynghylch y gostyngiad yn y pen draw yn nifer yr awdurdodau addysg lleol yng Nghymru? Ni allaf weld unrhyw ffordd arall ymlaen ond hynny, ar sail yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud heddiw, oni bai ei fod rywsut yn mynd i rygnu ymlaen â nifer o gonsortia, er ei fod yn dal i orfod eu bygwth, hyd yn oed yn awr, â rhyw fath o frigdorri gorfodol, felly rwyf yn synhwyro nad yw'n gwbl argyhoeddedig bod hyn yn mynd i weithio. Dyna'r mater cyntaf.

The second issue I want to raise with him about his statement today is that I am disappointed with regard to one thing he did not accept from the Hill review, which was some changes to Estyn's inspection framework. I thought that Robert Hill was suggesting something a bit more flexible and responsive and that had the grit and challenge that the Minister just mentioned. I would like him to explain a little more about why he has rejected that element and whether he feels that he can achieve Hill's objectives in a different way.

Yr ail fater yr hoffwn ei godi gydag ef ynglŷn â'i ddatganiad heddiw yw fy mod yn siomedig o ran un peth na wnaeth ei dderbyn o adolygiad Hill, sef rhai newidiadau i fframwaith arolygu Estyn. Roeddwn yn meddwl bod Robert Hill yn awgrymu rhywbeth ychydig yn fwy hyblyg ac ymatebol a fyddai'n rhoi'r plwc a'r her y soniodd y Gweinidog amdanynt. Hoffwn iddo egluro ychydig yn fwy ynghylch pam mae wedi gwrthod yr elfen honno ac a yw'n teimlo y gall gyflawni amcanion Hill mewn ffordd wahanol.

The third question I want to ask him is again around the school improvement consortia and the work that they are doing now. We must ensure that we get clarity around the protection of school budgets. I support what he and the First Minister have said about the 1% increase above the block grant for schools. However, there are some worrying concerns being voiced by local authorities working through their budgets that seem to be having difficulties, shall we say, protecting that 1% completely and maybe even covering a little bit of their backsides with the pupil deprivation grant. It is not clear, because the formal budgets have not yet come to a conclusion, and they are not huge sums of money on every occasion—we are talking tens of thousands of pounds rather than millions—but, nevertheless, there could be a gap emerging there. How do we ensure that that 1% protection is visible when a lot of the spending is now put at the level of the consortia?

Mae'r trydydd cwestiwn yr wyf am ei ofyn iddo unwaith eto'n ymwneud â'r consortia gwella ysgolion a'r gwaith y maent yn ei wneud yn awr. Rhaid inni sicrhau eglurder ynghylch diogelu cyllidebau ysgolion. Rwyf yn cefnogi'r hyn y mae ef a'r Prif Weinidog wedi'i ddweud am y cynnydd 1% yn uwch na'r grant bloc i ysgolion. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi codi pryderon sy'n peri gofid wrth edrych ar eu cyllidebau ac mae'n ymddangos eu bod yn cael anawsterau, gadewch inni ddweud, o ran diogelu'r 1% hwnnw'n gyfan gwbl ac efallai hyd yn oed yn ceisio eu hyswirio eu hunain i raddau o ran y grant amddifadedd disgyblion. Nid yw'n glir, gan nad yw'r cyllidebau ffurfiol wedi eu llunio'n derfynol eto, ac nid ydynt bob amser yn symiau enfawr o arian—rydym yn sôn am ddegau o filoedd o bunnoedd yn hytrach na miliynau—ond, serch hynny, gallai fod bwlch yn dod i'r amlwg yno. Sut y gallwn ni sicrhau bod yr amddiffyniad 1% hwnnw'n weladwy, a llawer o'r gwariant hwn bellach wedi'i roi ar lefel y consortia?

I turn to my final question to the Minister, having accepted the vast majority of what he has said today, that this is all for a purpose. He describes it as an educational improvement journey, but surely we must be able to measure that journey and know what results to expect. We know that the PISA results are coming next week. The Minister has told us to be realistic about them. I assume that that means not to expect any great shakes. Nevertheless, the previous Minister set a very clear objective of being in the top 20 nations for PISA by the 2015 results. Does the current Minister still agree with that objective and does he have faith that what he has said today is the structure and improvement journey that will take us to be in that top 20?

Trof at fy nghwestiwn olaf i'r Gweinidog, wedi derbyn y mwyafrif helaeth o'r hyn y mae wedi'i ddweud heddiw, sef bod diben i hyn i gyd. Mae'n ei disgrifio fel taith i wella addysg, ond onid oes yn rhaid inni allu mesur y daith honno a gwybod pa ganlyniadau i'w disgwyl? Rydym yn gwybod bod canlyniadau PISA yn dod yr wythnos nesaf. Mae'r Gweinidog wedi dweud wrthym am fod yn realistig amdanynt. Rwyf yn cymryd bod hynny'n golygu peidio â disgwyl iddynt fod yn dda iawn. Serch hynny, gosododd y Gweinidog blaenorol amcan clir iawn o fod ymysg yr 20 gwlad uchaf yn PISA erbyn canlyniadau 2015. A yw'r Gweinidog presennol yn dal i gytuno â'r amcan hwnnw ac a oes ganddo ffydd y bydd yr hyn y mae wedi'i ddweud heddiw yn darparu'r strwythur a'r daith a fydd yn ein rhoi yn yr 20 uchaf hwnnw?

15:49

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Everyone shares Simon Thomas's frustration at the pace of change here. I make no secret of the fact that I share that frustration too. It is a difficult thing. It takes time to turn around a large and complex system such as this. My predecessor fired the starting pistol in that regard and we will pursue that agenda with energy and urgency and with the proper priority placed upon it.

Mae pawb yn rhannu rhwystredigaeth Simon Thomas am gyflymder y newid yma. Nid wyf yn celu'r ffaith fy mod innau'n rhannu'r rhwystredigaeth honno. Mae'n beth anodd. Mae'n rhaid wrth amser i wrthdroi system fawr a chymhleth fel hon. Taniodd fy rhagflaenydd y dryll cychwyn yn hynny o beth, a byddwn yn mynd ar drywydd yr agenda honno'n egnïol ac ar fyrder, ac yn rhoi'r flaenoriaeth briodol iddi.

With that in mind, I think that it is sensible, first of all, to ensure that we do not do anything silly as regards what might be the outcome of Williams. So, I think that it would be irresponsible of me, for instance, to stand here this afternoon and say, 'Oh yes, definitely, we must cut local education authorities by precisely one third, because that is what the Hill review has told us should be done'. There is a wider context here that we are waiting on.

Ac ystyried hynny, rwyf yn meddwl ei bod yn synhwyrol, yn gyntaf oll, sicrhau nad ydym yn gwneud dim byd gwirion o ran canlyniad posibl Williams. Felly, rwyf yn meddwl y byddai'n anghyfrifol imi, er enghraifft, sefyll yma y prynhawn yma a dweud, 'O oes, yn bendant, rhaid inni dorri traean union o awdurdodau addysg lleol, oherwydd dyna'r hyn y mae adolygiad Hill wedi dweud wrthym y dylid ei wneud'. Rydym yn aros i weld y cyd-destun ehangach yma.

What I have made sure of, though, is that, within that context of a time of transition, we have a school improvement mechanism that will work no matter what Williams says and no matter how many local authorities there are in Wales or how many local education authorities we happen to have in Wales. There is no need to wait for Williams in that regard if we can ensure that we sincerely deliver on the school improvement consortia.

Yr hyn yr wyf wedi ei sicrhau, fodd bynnag, yw bod gennym, o fewn y cyd-destun hwnnw o gyfnod pontio, fecanwaith gwella ysgolion a fydd yn gweithio waeth beth a ddywed Williams a waeth faint o awdurdodau lleol sydd yng Nghymru neu faint o awdurdodau addysg lleol sy'n digwydd bod yma yng Nghymru. Nid oes angen aros am Williams yn hynny o beth os gallwn sicrhau ein bod yn cyflawni mewn gwirionedd o ran y consortia gwella ysgolion.

The lesson of the south-east consortium has shown us that, imperfect as it was, rapid improvement is possible. If we can get that kind of way of working translated across mid, west and north Wales, we will have done a good job of work over the next year, 18 months or two years, without having had to wait for the wider context of Williams, as fascinating as that will be for all of us.

Mae gwers consortiwm y de-ddwyrain wedi dangos inni, er ei fod yn amherffaith, ei bod yn bosibl gwella'n gyflym. Os gallwn ledaenu'r math hwnnw o ffordd o weithio ar draws y canolbarth, y gorllewin a'r gogledd, byddwn wedi gwneud gwaith da dros y flwyddyn, y 18 mis neu'r ddwy flynedd nesaf, heb orfod aros am gyd-destun ehangach Williams, er mor ddiddorol y bydd hwnnw inni i gyd.

In terms of inspection, I would say, very simply, this: I think that the common inspection framework is something that we need to preserve. I think that it does what it says on the tin, and I cannot see any reason at the moment for opening that up as an issue and delving into it. I think that we are getting exactly what we need and exactly what we expected to receive from that framework.

O ran arolygu, yn syml iawn, dywedaf hyn: rwyf yn credu bod y fframwaith arolygu cyffredin yn rhywbeth y mae angen inni ei gadw. Rwyf yn meddwl ei fod yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun, ac ni allaf weld rheswm ar hyn o bryd i ymhél â hynny nac ymchwilio ymhellach iddo. Rwyf yn meddwl ein bod yn cael yn union yr hyn sydd ei angen arnom ac yn union yr hyn yr oeddem yn disgwyl ei gael gan y fframwaith hwnnw.

In terms of the 1% uplift, of course it will be transparent; I will make sure that it is, because I need to see transparently local government's undertaking and commitment to that and that that 1% uplift, which the Welsh public voted for, is demonstrably delivered. I will make sure, for my own purposes, that we can see that. Of course, that will be shared with Members and the public.

O ran y cynnydd 1%, wrth gwrs bydd yn dryloyw; byddaf yn gwneud yn siŵr ei fod, oherwydd mae angen imi weld ymrwymiad tryloyw gan lywodraeth leol i hynny a gweld bod y cynnydd 1% hwnnw, y pleidleisiodd y cyhoedd yng Nghymru o'i blaid, yn amlwg yn cael ei ddarparu. Byddaf yn sicrhau, at fy nibenion fy hun, y gallwn weld hynny. Wrth gwrs, caiff hynny ei rannu â'r Aelodau ac â'r cyhoedd.

In terms of measures, we have PISA, of course, although let us remember, before we enter the sound and fury of the PISA results next week, that PISA is not the be-all and end-all of measures, and that there are many ways of gaining insight into how our schools are delivering and improving. PISA is just one measure, but it does give us that very valuable international comparison, which is a fascinating one. We also have our GCSEs and A-levels, and our reading and numeracy tests now, too, which will build a bank of knowledge for us, as policy makers, in terms of understanding exactly what is being delivered well in our schools system and where we are lacking. Drilling down into things such as English or maths results, and understanding within mathematics, for instance, exactly which elements of teaching are going well and which are not, and ensuring that we get to grips with that agenda, will be the work of the next two, three or four years in terms of my efforts.

O ran dulliau mesur, mae gennym PISA, wrth gwrs, ond gadewch inni gofio, cyn inni fynd i mewn i sain a llid canlyniadau PISA yr wythnos nesaf, nad PISA yw'r unig ffon fesur sy'n bwysig, a bod llawer o ffyrdd o gael gwybod sut y mae ein hysgolion yn darparu ac yn gwella. Un ffon fesur yw PISA, ond mae'n rhoi'r gymhariaeth ryngwladol werthfawr iawn honno inni, sy'n ddiddorol iawn. Mae gennym hefyd ein TGAU a'n Safon Uwch, a'n profion darllen a rhifedd nawr, hefyd, a fydd yn creu cronfa o wybodaeth inni, fel llunwyr polisi, o ran deall yn union beth sy'n cael ei ddarparu'n dda yn ein system ysgolion a ble yr ydym yn ddiffygiol. Byddaf yn ymdrechu dros y ddwy, tair neu bedair blynedd nesaf i ddadansoddi pethau fel canlyniadau Saesneg neu fathemateg, a deall o fewn mathemateg, er enghraifft, yn union pa elfennau addysgu sy'n gweithio'n dda a pha rai sydd ddim, a sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r agenda honno.

A top 20 result is possible. Looking back at the PISA results over the years, there has been considerable volatility within those results. It is a bit of a statistical nightmare to try to prove, for instance, that you really are better off as a nation if you are No. 20 rather than No. 21. However, what is very clear is that there is a group of PISA countries in the top third, which is roughly the top 20, although you could not always describe it in that way, where there is obviously and credibly something better going on in terms of teaching and learning, and, of course, we aspire to be in that club.

Mae canlyniad yn yr 20 uchaf yn bosibl. Wrth edrych yn ôl ar ganlyniadau PISA dros y blynyddoedd, bu anwadalwch sylweddol o fewn y canlyniadau hynny. Mae'n dipyn o hunllef ystadegol ceisio profi, er enghraifft, eich bod mewn gwirionedd yn well eich byd fel cenedl os ydych yn Rhif 20 yn hytrach nag yn Rhif 21. Fodd bynnag, yr hyn sy'n glir iawn yw bod grŵp o wledydd PISA yn y traean uchaf, sef yr 20 uchaf fwy neu lai, er na allech bob amser ei ddisgrifio felly, lle mae'n amlwg ac yn gredadwy fod rhywbeth gwell yn digwydd o ran dysgu ac addysgu, ac, wrth gwrs, rydym yn gobeithio bod yn y clwb hwnnw.

15:54

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I thank you for the statement, but I also want to tease out some of the practical workings-out of the timetable that is set out before us. Many of us, having expressed concern that we should not have continuous churn, are now concerned that the churn that was agreed upon, or the course that was set out by your predecessor, is not becoming a reality as quickly as it needs to if we are to see the improvements to which you have referred. I note that the national model is being worked on by the task and finish group. There is no political representation on the task and finish group, either from local government or the Government side. On that basis, have you agreed with the Welsh Local Government Association a timeline with regard to when any agreed model would have to go through its democratic structures? I am aware that it took us about nine or 12 months under the previous arrangement to get the consortia model agreed.

Weinidog, diolch ichi am y datganiad, ond rwyf hefyd yn awyddus i dynnu sylw at rai o fanylion ymarferol yr amserlen sydd wedi'i gosod ger ein bron. Mae llawer ohonom, ar ôl mynegi pryder na ddylid corddi'n barhaus, bellach yn pryderu nad yw'r corddi y cytunwyd arno, na'r llwybr a nodwyd gan eich rhagflaenydd, yn cael eu gwireddu mor gyflym ag y mae angen iddynt ei wneud os ydym am weld y gwelliannau yr ydych wedi cyfeirio atynt. Nodaf fod y grŵp gorchwyl a gorffen yn gweithio ar y model cenedlaethol. Nid oes cynrychiolaeth wleidyddol ar y grŵp gorchwyl a gorffen, o ochr llywodraeth leol nac o ochr y Llywodraeth. Ar sail hynny, a ydych wedi cytuno â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar linell amser o ran pryd y byddai'n rhaid i unrhyw fodel y cytunir arno fynd drwy ei strwythurau democrataidd? Rwyf yn ymwybodol ei bod wedi cymryd rhyw naw neu 12 mis inni i gytuno ar y model consortia dan y trefniant blaenorol.

Also, turning to the point that Simon Thomas made on the protection as far as school budgets are concerned, there are authorities where it is not tens of thousands of pounds, as Simon Thomas alluded to. Wrexham, for instance, is out to consultation at the moment on cuts of £1.5 million to its school budgets. I am not quite clear what a voluntary top-slice is, but, if you were to proceed to a top-slice as far as the budgets were concerned, is that purely with regard to the school improvement services that are being transferred into the consortia, or is the Welsh Local Government Association being told that any breach of the Government's expectations as far as the 1% protection is concerned would also lead to reconsideration?

Hefyd, a throi at y pwynt a wnaeth Simon Thomas am ddiogelu cyllidebau ysgolion, nid degau o filoedd o bunnoedd sydd dan sylw mewn rhai awdurdodau, fel y soniodd Simon Thomas. Mae Wrecsam, er enghraifft, yn ymgynghori ar hyn o bryd am doriadau o £1.5 miliwn i'w gyllidebau ysgolion. Nid wyf yn gwbl glir beth yw brigdorri gwirfoddol, ond, pe baech yn bwrw ymlaen â brigdorri o ran y cyllidebau, a yw hynny'n ymwneud yn unig â'r gwasanaethau gwella ysgolion sy'n cael eu trosglwyddo i'r consortia, ynteu a ydych yn dweud wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai mynd yn groes i ddisgwyliadau'r Llywodraeth o ran yr amddiffyniad 1% hefyd yn arwain at ailystyried?

Some of us who are still school governors feel that, until the issue of school governance is addressed as well, we are going to face difficulties in reforming the system. When do you expect, given that there has been an understandable delay in the task and finish group, that you will be able to come to some conclusion with regard to reforms to school governance models?

Mae rhai ohonom sy'n dal i fod yn llywodraethwyr ysgolion o'r farn y byddwn yn wynebu anawsterau o ran diwygio'r system, hyd nes y caiff mater llywodraethu ysgolion sylw hefyd. Pryd ydych chi'n disgwyl, ac ystyried y bu oedi dealladwy yng ngwaith y grŵp gorchwyl a gorffen, y byddwch yn gallu dod i ryw gasgliad o ran diwygio modelau llywodraethu ysgolion?

You have accepted two of the eight options as far as organising school improvement functions are concerned. I accept what you say regarding the public service commission needing to report, but how long will you take, following the publication of that report, to consider the remaining six options that still need addressing?

Rydych wedi derbyn dau o'r wyth opsiwn o ran trefnu swyddogaethau gwella ysgolion. Rwyf yn derbyn yr hyn a ddywedwch ynglŷn â bod angen i'r comisiwn gwasanaethau cyhoeddus lunio adroddiad, ond faint o amser y byddwch yn ei gymryd, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, i ystyried y chwe opsiwn arall y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd?

Finally, on the decision as to whether educational welfare and provision for additional learning needs should be at local authority level or consortium level, is that a matter for the local authorities themselves, or will there be some Welsh Government input into that decision?

Yn olaf, o ran y penderfyniad ynghylch a ddylai lles addysgol a darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol fod ar lefel awdurdodau lleol ynteu ar lefel consortia, ai mater i'r awdurdodau lleol eu hunain yw hynny, ynteu a fydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu rhywfaint at y penderfyniad hwnnw?

15:57

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My thanks to Aled Roberts. I will reiterate, once again, that I share the frustration at the pace of change. It is not as quick as we might have hoped, but this is a complex matter and these are large organisations that we are dealing with here. In terms of the agreement to a timeline, I have the WLGA agreement to the timeline, and that is good enough for me. I hope that it is good enough for every member of the WLGA, and I will hold it to it.

Diolch i Aled Roberts. Rwyf am ddweud, unwaith eto, fy mod yn rhannu'r rhwystredigaeth ynghylch cyflymder y newid. Nid yw mor gyflym ag y byddem wedi'i obeithio, ond mae hwn yn fater cymhleth ac rydym yn ymdrin â sefydliadau mawr yma. O ran cytuno ar linell amser, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno ar y llinell amser, ac mae hynny'n ddigon da i mi. Rwyf yn gobeithio ei fod yn ddigon da i bob aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a byddaf yn sicrhau eu bod yn cadw at hynny.

In terms of the top-slice, yes, Aled, it is a voluntary top-slice that we are talking about. It is the voluntary offer that has come from local government that, if this does not pan out within the timescale, it will offer up the top-slice itself. That is purely for the school improvement cash; it is not to be muddled with the 1% overall uplift for school budgets.

O ran y brigdorri, ydym, Aled, rydym yn sôn am frigdorri gwirfoddol. Mae llywodraeth leol wedi cynnig o'i gwirfodd, os nad yw hyn yn digwydd o fewn yr amserlen, y bydd yn cynnig y brigdorri ei hunan. Dim ond ar gyfer yr arian gwella ysgolion y mae hynny; ni ddylid ei ddrysu â'r cynnydd cyffredinol o 1% i gyllidebau ysgolion.

In terms of school governance, I am expecting that report later this month, and I would hope to come back with responses to that by next spring. Of course, there will be a great deal for us to absorb and digest in terms of school governance, I know, as an agenda of concern.

O ran llywodraethu ysgolion, rwyf yn disgwyl yr adroddiad hwnnw'n nes ymlaen y mis hwn, a byddwn yn gobeithio dod yn ôl ag atebion i hynny erbyn y gwanwyn nesaf. Wrth gwrs, bydd llawer iawn inni ei ystyried a chnoi cil arno o ran llywodraethu ysgolion, rwyf yn gwybod, fel agenda sy'n peri pryder.

With regard to your point on the public service review and Williams and how long it would take me, I am not going to go into that. We really have no idea what Williams's review will present us with. That is going to be a very wide-ranging discussion and it would be silly of me to offer up some hostages to fortune to Aled in terms of exactly what my timetable would be post Williams. There will be a very great deal to think about at that point.

O ran eich pwynt am yr adolygiad o wasanaethau cyhoeddus a Williams a pha mor hir y byddai'n ei gymryd imi, nid wyf am sôn am hynny. Mewn gwirionedd, nid oes syniad gennym beth y bydd adolygiad Williams yn ei gyflwyno inni. Bydd honno'n drafodaeth eang iawn a byddai'n wirion imi gynnig gwystlon ffawd i Aled o ran beth yn union fyddai fy amserlen ar ôl Williams. Bydd llawer iawn i feddwl amdano bryd hynny.

15:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

16:00

## Datganiad: Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd

## Statement: The Marine and Fisheries Strategic Action Plan

Senedd.tv Fideo Video

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

On 18 June, I gave my first oral statement on our new approach to integrated marine and fisheries policy in Wales. I was pleased and encouraged by the positive welcome that Members gave to that initiative. I undertook then to update Members every six months on progress. Today, I am pleased to do that and to publish, for the first time, a Wales marine and fisheries strategic action plan.

Ar 18 Mehefin, rhoddais fy natganiad llafar cyntaf am ein hymagwedd newydd at bolisïau integredig y môr a physgodfeydd yng Nghymru. Roeddwn yn falch ac wedi fy nghalonogi gan y croeso cadarnhaol a roddodd yr Aelodau i'r fenter honno. Dywedais bryd hynny y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i'r Aelodau bob chwe mis. Heddiw, rwyf yn falch o wneud hynny ac o gyhoeddi, am y tro cyntaf, gynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd i Gymru.

This plan is the beginning of the next phase of the effective Welsh management of Welsh seas. It begins to give effect to the positive and dynamic vision that I set out in June. It describes how we can maximise the devolved responsibilities and powers available to us to manage and use our seas sustainably and in the interests of the people of Wales. I am indebted to the Environment and Sustainability Committee for its marine policy report published in January, which contained some very helpful recommendations. I made it clear to the committee in April that I accepted all of those recommendations, in whole or in principle.

Y cynllun hwn yw dechrau'r cam nesaf o ran rheoli moroedd Cymru'n effeithiol yng Nghymru. Mae'n dechrau gwireddu'r weledigaeth gadarnhaol a deinamig a amlinellais ym mis Mehefin. Mae'n disgrifio sut y gallwn wneud y gorau o'r cyfrifoldebau a'r pwerau datganoledig sydd ar gael inni i reoli a defnyddio ein moroedd mewn modd cynaliadwy ac er budd pobl Cymru. Rwyf yn ddyledus i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am ei adroddiad ar bolisi morol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, a oedd yn cynnwys rhai argymhellion defnyddiol iawn. Dywedais yn glir wrth y pwyllgor ym mis Ebrill fy mod yn derbyn yr holl argymhellion hynny, yn gyfan gwbl neu mewn egwyddor.

The publication of the plan underlines that marine and fisheries issues continue to be a priority issue for this Government. I am tasking my officials to take forward a number of actions and I am setting out a clear time frame within which we will achieve and deliver on our undertakings. We will also ensure that we fully implement our EU marine environmental and fisheries obligations and will be well-placed to maximise the potential economic benefits for Wales.

Mae cyhoeddi'r cynllun yn pwysleisio bod materion y môr a physgodfeydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Rwyf yn gofyn i'm swyddogion fwrw ymlaen â nifer o gamau gweithredu ac yn nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni a gwireddu ein hymrwymiadau. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n llwyr rwymedigaethau'r UE sydd arnom o ran amgylchedd y môr a physgodfeydd, a byddwn mewn sefyllfa gref i hybu'r manteision economaidd posibl i Gymru i'r eithaf.

Members may recall from my June statement that Blue Growth should be a key driver of informing our marine policy making. Blue Growth recognises that steps to protect and preserve environmental resources can be a driver for economic development. It will enable us to connect many of our aspirations as a nation, making our economy more resource efficient, low carbon and resilient.

Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio o'm datganiad ym mis Mehefin y dylai Twf Glas fod yn sbardun allweddol i'n gwaith o lunio polisïau morol. Mae Twf Glas yn cydnabod y gall camau i ddiogelu a gwarchod adnoddau amgylcheddol fod yn sbardun ar gyfer datblygu economaidd. Bydd yn ein galluogi i gysylltu llawer o'n dyheadau fel cenedl, a gwneud ein heconomi'n fwy effeithlon o ran adnoddau, yn fwy carbon isel ac yn fwy cydnerth.

I remain committed to developing a Welsh national marine planning process by 2015. This will provide an evidence-based system for the sustainable use of marine resources, across all sectors for the first time. It is a necessary and essential component for a proper governance regime for our seas and will contribute significantly to that Blue Growth agenda. I want to establish a system that says to the world that Wales is open for business in the sustainable use of our seas. The process of engaging stakeholders on defining that system will begin in the coming weeks. This marine planning process will touch upon important economic activity outside my specific responsibilities in sectors such as energy, transport and tourism, and this demonstrates the cross-departmental and cross-governmental nature of this marine function.

Rwyf yn dal i fod wedi ymrwymo i ddatblygu proses cynllunio morol genedlaethol i Gymru erbyn 2015. Bydd hyn yn darparu system seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer defnyddio adnoddau'r môr yn gynaliadwy, ar draws pob sector, am y tro cyntaf. Mae'n elfen angenrheidiol a hanfodol o drefn lywodraethu briodol i'n moroedd a bydd yn cyfrannu'n helaeth at yr agenda Twf Glas. Rwyf am sefydlu system sy'n dweud wrth y byd fod Cymru ar agor ar gyfer busnes o ran defnyddio ein moroedd mewn modd cynaliadwy. Bydd y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddiffinio'r system honno'n dechrau yn yr wythnosau nesaf. Bydd y broses cynllunio morol yn cyffwrdd â gweithgarwch economaidd pwysig y tu allan i'm cyfrifoldebau penodol i mewn sectorau megis ynni, trafnidiaeth a thwristiaeth, ac mae hynny'n dangos natur drawsadrannol a thrawslywodraethol y swyddogaeth forol hon.

As I said in my statement in June, it is clear to me that the Welsh Government needs to develop a wider system of integrated marine governance and policy making. This will make marine planning fully effective and will secure the best economic and social outcomes for our coastal communities. I will continue discussions with Cabinet colleagues and report back next year on how this initiative is leading to demonstrable benefits.

Fel y dywedais yn fy natganiad ym mis Mehefin, mae'n amlwg i mi fod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu system ehangach o lywodraethu morol a llunio polisïau'n integredig. Bydd hyn yn gwneud cynllunio morol yn gwbl effeithiol ac yn sicrhau'r canlyniadau economaidd a chymdeithasol gorau i'n cymunedau arfordirol. Byddaf yn parhau i gynnal trafodaethau â chydweithwyr yn y Cabinet ac yn adrodd yn ôl y flwyddyn nesaf am sut y mae'r fenter hon yn esgor ar fanteision y gellir eu dangos.

Underpinning that work will be our drive to ensure that our seas are a healthy marine ecosystem; indeed, they will need to be for much of our economic activity, particularly fisheries, to be fully successful. I want to use our obligations to achieve good environmental status for our seas, under the marine strategy framework directive, to enable our fishing industry to maximise its economic potential. We will work with the industry to collect and understand the vital information and data on our marine environment, which will help us to take advantage of additional fishing opportunities and marketable benefits that flow from it.

Yn sail i'r gwaith hwnnw bydd ein hymgyrch i sicrhau bod ein moroedd yn ecosystem forol iach; yn wir, bydd angen iddynt fod er mwyn i lawer o'n gweithgarwch economaidd, yn enwedig o ran pysgodfeydd, fod yn gwbl lwyddiannus. Rwyf am ddefnyddio ein rhwymedigaethau i sicrhau statws amgylcheddol da i'n moroedd, dan gyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol, er mwyn galluogi ein diwydiant pysgota i wneud y gorau o'i botensial economaidd. Byddwn yn cydweithio â'r diwydiant i gasglu a deall y wybodaeth a'r data hanfodol am ein hamgylchedd morol, a fydd yn ein helpu i fanteisio ar gyfleoedd pysgota ychwanegol a'r buddion gwerthadwy a fydd yn deillio o hynny.

For fishermen and fisheries managers, implementing the new European common fisheries policy will be the immediate challenge. That new CFP begins to come into force in January 2014. This plan commits us to doing the necessary work to meet our obligations, in particular on the elimination of the discarding of unwanted caught fish.

I bysgotwyr a rheolwyr pysgodfeydd, yr her gyntaf fydd gweithredu'r polisi pysgodfeydd cyffredin Ewropeaidd newydd. Mae'r PPC newydd hwnnw'n dechrau dod i rym ym mis Ionawr 2014. Mae'r cynllun hwn yn ein rhwymo i wneud y gwaith sydd ei angen i gyflawni ein rhwymedigaethau, yn enwedig o ran dileu'r arfer o daflu pysgod a ddaliwyd nad oes eu heisiau.

As usual, next month, I plan to attend the EU fisheries council, which will set the fishing levels for the following year. I will aim to ensure that the interests of our fleet are fully taken into account in the difficult and sometimes complex negotiations that will inevitably need to take place. Whatever the outcome of those negotiations, I recognise that our fishing industry has concerns about fishing quota levels.

Fel arfer, y mis nesaf, rwyf yn bwriadu bod yn bresennol yng nghyngor pysgodfeydd yr UE, a fydd yn pennu'r lefelau pysgota ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Fy nod fydd sicrhau bod buddiannau ein fflyd yn cael eu hystyried yn llawn yn y trafodaethau anodd, a chymhleth ar adegau, y mae'n anochel y bydd angen eu cynnal. Beth bynnag fydd canlyniad y trafodaethau hynny, rwyf yn cydnabod bod ein diwydiant pysgota'n pryderu am lefelau cwotâu pysgota.

The new CFP also recognises aquaculture as a vital component of fishery production. We will work to make sure that the potential of Welsh aquaculture is fully reflected in the UK multi-annual national plan that will be submitted to the European Union. That work will also provide a sound basis for us to promote new aquaculture developments in Wales, including through prioritised funding under the new European maritime and fisheries fund.

Mae'r PPC newydd hefyd yn cydnabod bod dyframaeth yn elfen hanfodol o gynhyrchu pysgodfeydd. Byddwn yn gweithio i wneud yn siŵr bod potensial dyframaeth Cymru'n cael ei adlewyrchu'n llawn yng nghynllun cenedlaethol amlflwydd y DU a gaiff ei gyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y gwaith hwnnw hefyd yn rhoi sail gadarn inni i hyrwyddo datblygiadau dyframaeth newydd yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyllid wedi'i flaenoriaethu dan gronfa'r môr a physgodfeydd newydd Ewrop.

Delivering on all of this ambition requires sound evidence. We cannot take the right decisions for the future without good knowledge and analysis of our current marine ecosystems, and how they may evolve. The plan commits the Government to procuring and analysing data in a comprehensive and coherent way to support our ambitions.

Mae angen tystiolaeth gadarn er mwyn gwireddu'r cyfan o'r uchelgais hwn. Ni allwn wneud y penderfyniadau cywir at y dyfodol heb wybodaeth dda a heb ddadansoddi ein hecosystemau morol ar hyn o bryd, a sut y gallent esblygu. Mae'r cynllun yn rhwymo'r Llywodraeth i gaffael a dadansoddi data mewn ffordd gynhwysfawr a chydlynol i gefnogi ein huchelgeisiau.

Our plan also needs to be shaped further by our conversations and dialogues with stakeholders. I am grateful to the fishermen and other marine users who have engaged with us thus far. I know that they will continue to do so as we adjust our consultative structures to fit this new, ambitious agenda. I urge everyone in Wales with an interest in our seas to come with us and to comment on the course that we have set. I will report back to you again in June on progress.

Mae angen i'n sgyrsiau a'n deialogau â rhanddeiliaid lywio ein cynllun ymhellach hefyd. Rwyf yn ddiolchgar i'r pysgotwyr a defnyddwyr eraill y môr sydd wedi ymgysylltu â ni hyd yma. Gwn y byddant yn parhau i wneud hynny wrth inni addasu ein strwythurau ymgynghorol i gyd-fynd â'r agenda newydd, uchelgeisiol hon. Rwyf yn annog pawb yng Nghymru sydd â diddordeb yn ein moroedd i ddod gyda ni a rhoi sylwadau am y trywydd a osodwyd gennym. Byddaf yn rhoi adroddiad arall ichi ar ein hynt ym mis Mehefin.

This is not a short-term project. Our seas are some of our most precious assets and environments. Our dependence on them for food and transport goes back to the beginnings of human history. The sea's constant and unrelenting nature is well known to all who live near it, who make their living from it, or use it for leisure. So, effecting change in that timeless environment will take a number of years.

Nid prosiect tymor byr mo hwn. Mae ein moroedd ymysg ein hasedau a'n hamgylcheddau mwyaf gwerthfawr. Mae ein dibyniaeth arnynt o ran bwyd a thrafnidiaeth yn mynd yn ôl at ddechrau hanes dyn. Mae pawb sy'n byw'n agos ato, yn gwneud eu bywoliaeth ohono, neu'n ei ddefnyddio ar gyfer hamdden yn gwybod am natur gyson a di-ildio'r môr. Felly, bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i beri newid yn yr amgylchedd bythol hwnnw.

I trust that Members will support the plan and its objectives, and engage with us on it to deliver a new and effective approach to marine and fisheries management in Wales.

Hyderaf y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r cynllun a'i amcanion, ac yn ymgysylltu â ni yn hyn o beth i gyflwyno dull newydd ac effeithiol o reoli'r môr a physgodfeydd yng Nghymru.

16:06

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If kind words were an illustrator of action, then you have done very well, Minister, but the reality is that it was a very hard-hitting report from the Environment and Sustainability Committee. Recommendation 2 of that report wanted you to clarify an action plan that set out expected outcomes and specific actions required to achieve them, the timescale for delivery—I accept that your plan puts it into quarters for the year—the cost of delivery and the details of where your funding will be sourced from.

Pe bai geiriau caredig yn arwydd o weithredu, yna rydych wedi gwneud yn dda iawn, Weinidog, ond y gwir amdani yw bod adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn un didostur iawn. Roedd argymhelliad 2 yr adroddiad hwnnw am ichi egluro cynllun gweithredu i nodi'r canlyniadau disgwyliedig a'r camau gweithredu penodol sydd eu hangen i'w cyflawni, yr amserlen ar gyfer eu cyflenwi—rwyf yn derbyn bod eich cynllun yn rhoi hynny mewn chwarteri ar gyfer y flwyddyn—cost eu cyflenwi a manylion ynglŷn ag o ble y daw eich cyllid.

In the document that accompanies this plan, there is no indication of where the resources will come from to undertake these actions, and the expected outcomes are very limited in the outline that has been given. In fact, many of the committee's recommendations have been effectively ignored or pushed back. We set some very tight timetables for you to publish your plans, and they have just completely been ignored. The reason for that, Minister, is that you do not seem to be clear about where the funding is going to come from. I specifically refer to your statement where you talk about the evidence that you need in relation to the marine environment. It was quite clear to the committee that we had considerable evidence in the hands of third parties. We made a recommendation that the Welsh Government go to third parties like Bangor University and the Crown Estate that had a considerable amount of information in their possession that could have informed your strategy. You say in your action plan that you will only carry out a strategic level evidence audit to inform marine planning and fisheries management activities in the third quarter of 2014, but it is then going to be very difficult to use that evidence to inform what then has to be implemented in relation to the new fisheries policy that is coming in. It is very regrettable, Minister, that you did not act before to gather that evidence. Maybe you can explain to us why you did not act before to gather that evidence, given its importance in terms of the approach that your department will need to take to this hugely important sector, which brings in £2.5 billion-worth of value to the Welsh economy. So, it is incredibly important.

Yn y ddogfen sy'n mynd law yn llaw â'r cynllun hwn, nid oes dim awgrym o ble y daw'r adnoddau i gymryd y camau hyn, ac mae'r canlyniadau disgwyliedig yn gyfyngedig iawn yn yr amlinelliad a roddwyd. Yn wir, mae llawer o argymhellion y pwyllgor wedi cael eu hanwybyddu neu eu gwthio'n ôl i bob pwrpas. Gosodwyd amserlenni tynn iawn ichi i gyhoeddi eich cynlluniau, ac maent wedi cael eu hanwybyddu'n llwyr. Y rheswm am hynny, Weinidog, yw nad yw'n ymddangos eich bod yn glir ynghylch o ble y daw'r arian. Cyfeiriaf yn benodol at eich datganiad lle'r ydych yn sôn am y dystiolaeth sydd ei hangen arnoch o ran yr amgylchedd morol. Roedd yn eithaf amlwg i'r pwyllgor fod gennym gryn dipyn o dystiolaeth yn nwylo trydydd partïon. Gwnaethom argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru fynd at drydydd partïon fel Prifysgol Bangor ac Ystâd y Goron a oedd â chryn dipyn o wybodaeth yn eu meddiant a allai fod wedi llywio eich strategaeth. Rydych yn dweud yn eich cynllun gweithredu na fyddwch yn cynnal archwiliad o dystiolaeth ar lefel strategol i lywio gweithgareddau rheoli pysgodfeydd a chynllunio morol tan drydydd chwarter 2014, ond yna bydd yn anodd iawn defnyddio'r dystiolaeth honno i lywio'r hyn y bydd yn rhaid ei roi ar waith wedyn o ran y polisi pysgodfeydd newydd a gyflwynir. Mae'n anffodus iawn, Weinidog, na fu ichi weithredu'n gynt i gasglu'r dystiolaeth honno. Efallai y gallwch egluro wrthym pam na wnaethoch weithredu'n gynt i gasglu'r dystiolaeth honno, ac ystyried ei phwysigrwydd o ran yr ymagwedd y bydd yn rhaid i'ch adran ei chymryd tuag at y sector hynod bwysig hwn, sy'n werth £2.5 biliwn i economi Cymru. Felly, mae'n hynod bwysig.

In terms of creating a consistent set of regulations on things like the Welsh crustacean fisheries, I am sure that it will be welcome, as it will be for supporting Welsh seafood companies attending the seafood exposition. However, you spoke about a fast-track procedure to identify new Welsh fisheries. That has not been implemented and put into place yet, and there is no way for stakeholders to engage on that. The online capability that you spoke about in your earlier statement is not yet available. In relation to integrated coastal zone management, that strategy was due to be implemented by April 2014. The need for that review had originally been identified in 2010—that is over three years ago, Minister. Your only action in your lovely little diagram here is to do strategic scoping. That is a basic measure. So, perhaps you can update us on that. Where will you be going after the strategic scoping, what do you expect that to deliver and when will you implement it?

O ran creu set gyson o reoliadau ar bethau fel pysgodfeydd cramenogion Cymru, rwyf yn siŵr y caiff hynny ei groesawu, ac y caiff ei groesawu hefyd o ran cefnogi cwmnïau bwyd môr Cymru sy'n bresennol yn yr arddangosfa bwyd môr. Fodd bynnag, soniasoch am weithdrefn garlam i nodi pysgodfeydd newydd yng Nghymru. Nid yw hynny wedi ei sefydlu na'i roi ar waith eto, ac nid oes modd i randdeiliaid ymgysylltu ar hynny. Nid yw'r gallu ar-lein y soniasoch amdano yn eich datganiad cynharach ar gael eto. O ran rheoli parthau arfordirol mewn modd integredig, roedd y strategaeth honno i fod i gael ei gweithredu erbyn mis Ebrill 2014. Nodwyd yn wreiddiol bod angen yr adolygiad hwnnw yn 2010—mae hynny dros dair blynedd yn ôl, Weinidog. Yr unig gamau yr ydych wedi'u cymryd yn eich diagram bach hyfryd yma yw gwneud gwaith cwmpasu strategol. Mae hwnnw'n gam sylfaenol. Felly, efallai y gallwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny. Ble y byddwch yn mynd ar ôl y gwaith cwmpasu strategol, beth ydych chi'n disgwyl i'r gwaith hwnnw ei gyflawni a phryd y byddwch yn ei roi ar waith?

Finally, perhaps you could tell me what you are doing about the cross-border issues. In the written evidence to the committee's meeting on 28 November 2012, either you or your predecessor said but it was that you will

Yn olaf, efallai y gallech ddweud wrthyf beth yr ydych yn ei wneud am y materion trawsffiniol. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig i gyfarfod y pwyllgor ar 28 Tachwedd, 2012, dywedasoch chi neu eich rhagflaenydd y byddwch yn

'continue to work in partnership with the UKGovernment and its agencies, in particular the Marine Management Organisation'

parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i hasiantaethau, yn enwedig y Sefydliad Rheoli Morol

and that you were going to

a'ch bod yn mynd i

'look at formalising existing working arrangements through concordats or memorandums of understanding as required.'

edrych ar ffurfioli'r trefniadau gweithio cyfredol drwy gyfrwng concordatau neu femoranda cyd-ddealltwriaeth yn ôl yr angen.

You rowed back from that in your June statement, Minister, when you said that you were not going to be taking forward memoranda of understanding. So, perhaps you can tell us where you are on the cross-border issues. Having said one thing and now another, perhaps you could clarify how you are going to take forward the cross-border issues.

Yn eich datganiad ym mis Mehefin, Weinidog, bu ichi ymbellhau oddi wrth hynny pan ddywedasoch nad oeddech yn mynd i fwrw ymlaen â memoranda cyd-ddealltwriaeth. Felly, efallai y gallwch ddweud wrthym ble'r ydych yn sefyll o ran y materion trawsffiniol. Ar ôl dweud un peth ac yna rywbeth arall, efallai y gallech egluro sut yr ydych yn mynd i fwrw ymlaen â'r materion trawsffiniol.

16:12

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Answer—

Ateb—

16:12

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the answer was given on 1 May last year.

Wel, rhoddwyd yr ateb ar 1 Mai y llynedd.

That was a rather peculiar response from the Conservative party. The conversation that took place in Downing Street yesterday, where 25 MPs went to Cameron and said to him, 'If you continue to move away from the green agenda, then there's going to be a division or split in this party', is being laid bare this afternoon in the Chamber. That was a rather peculiar contribution. The memorandum of understanding that I referred to at the time was signed in early May 2012 and we have been delivering on it and implementing it ever since. I find it rather curious that anybody would seek to question that.

Roedd hwnnw'n ymateb braidd yn rhyfedd gan y blaid Geidwadol. Mae'r sgwrs a ddigwyddodd yn Stryd Downing ddoe, pan aeth 25 o Aelodau Seneddol at Cameron a dweud wrtho, 'Os daliwch i symud oddi wrth yr agenda werdd, bydd rhaniad neu hollt yn y blaid hon', yn cael ei datgelu y prynhawn yma yn y Siambr. Roedd hwnnw'n gyfraniad braidd yn rhyfedd. Cafodd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth y cyfeiriais ato ar y pryd ei lofnodi ddechrau mis Mai 2012 ac rydym wedi bod yn ei wireddu ac yn ei weithredu byth ers hynny. Rwyf yn ei chael yn rhyfedd braidd y byddai unrhyw un yn ceisio cwestiynu hynny.

I will respond to some of the points. One of the issues raised by the Conservatives is that we have not been delivering on the recommendations of the Environment and Sustainability Committee's marine policy inquiry. Well, I have the recommendations in front of me, as it happens. Recommendation 1 is that the Welsh Government should afford a higher priority to marine policy in Wales; we have done it, as we have created a marine division for the very first time. Recommendation 2 is that the Welsh Government should publish an action plan; we have done that and it is in front of people today. You might not like it, but it is there. Recommendation 3 is that, as part of the process of developing an action plan, resources are carefully considered; we are doing that and that was the point that I made to the committee less than a month ago. Recommendation 4 is that the Welsh Government should review its integrated coastal zone management strategy as soon as possible; that was done, a statement was made in the summer and we are taking that forward. Recommendation 5 is that the Welsh Government should work with partners to identify existing data sources; we have already done that and we have made statements on that last year—not this year, but last year. Clearly, the Member needs to catch up. Recommendation 6 is that, in preparing marine plans for 2015, the Welsh Government should ensure that it is ready to take forward a joint planning approach in cross-border areas; we have already done that. I could carry on. I will not test the patience of the Deputy Presiding Officer by doing so, but I have just read through the first five or six recommendations of the committee and demonstrated, I hope, to all Members here that, not only did we accept the recommendations at the time, but we have been delivering on them ever since.

Ymatebaf i rai o'r sylwadau. Un o'r materion a godwyd gan y Ceidwadwyr yw nad ydym wedi bod yn cyflawni argymhellion ymchwiliad morol Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol. Wel, mae'r argymhellion o fy mlaen, fel y mae'n digwydd. Argymhelliad 1 yw y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth uwch i bolisi morol yng Nghymru; rydym wedi gwneud hynny, drwy greu is-adran forol am y tro cyntaf erioed. Argymhelliad 2 yw y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu; rydym wedi gwneud hynny ac mae gerbron pobl heddiw. Efallai nad ydych yn hoff ohono, ond mae yno. Argymhelliad 3 yw bod adnoddau'n cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses o ddatblygu cynllun gweithredu; rydym yn gwneud hynny a dyna oedd y pwynt a wnaed gennyf i'r pwyllgor lai na mis yn ôl. Argymhelliad 4 yw y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei strategaeth integredig i reoli parthau arfordirol cyn gynted ag y bo modd; cafodd hynny ei wneud, gwnaethpwyd datganiad yn yr haf ac rydym yn bwrw ymlaen â hynny. Argymhelliad 5 yw y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â phartneriaid i ganfod ffynonellau data sy'n bodoli eisoes; rydym eisoes wedi gwneud hynny ac wedi gwneud datganiadau am hynny y llynedd—nid eleni, ond y llynedd. Yn amlwg, mae'r Aelod ar ei hôl hi. Argymhelliad 6 yw y dylai Llywodraeth Cymru, wrth baratoi cynlluniau morol ar gyfer 2015, sicrhau ei bod yn barod i fwrw ymlaen ag ymagwedd cynllunio ar y cyd mewn ardaloedd trawsffiniol; rydym eisoes wedi gwneud hynny. Gallwn barhau. Nid wyf am brofi amynedd y Dirprwy Lywydd drwy wneud hynny, ond rwyf newydd ddarllen pump neu chwech o argymhellion cyntaf y pwyllgor ac wedi dangos, rwyf yn gobeithio, i'r holl Aelodau yma, nid yn unig ein bod wedi derbyn yr argymhellion ar y pryd, ond ein bod wedi bod yn eu gwireddu byth ers hynny.

When we talk about the evidence and data, there are a number of different evidence and data points available. The Member mentioned Bangor University; that is certainly one. Not this year, but last year, we introduced an entirely new system for recording data from catches, because we did not have the data that we required. We recognised this some years ago. We moved to implement an entirely new system, which has been in place over the last 18 months or so, and that is already providing us with new and richer data that we did not have in the past.

Pan fyddwn yn sôn am y dystiolaeth a'r data, mae nifer o wahanol bwyntiau tystiolaeth a data ar gael. Soniodd yr Aelod am Brifysgol Bangor; mae hi'n sicr yn un ohonynt. Nid eleni, ond y llynedd, cyflwynwyd system hollol newydd gennym ar gyfer cofnodi data o ddalfeydd, gan nad oedd gennym y data yr oedd ei angen arnom. Cydnabuom hynny rai blynyddoedd yn ôl. Aethom ati i weithredu system gwbl newydd, sydd wedi bod ar waith dros y 18 mis diwethaf, ac sydd eisoes yn darparu data newydd a chyfoethocach inni, nad oedd gennym yn y gorffennol.

The legislation review that the Member referred to is something that we announced, when it began, was going to take around five years for something like 200 different pieces of legislation that we need to review. We are reviewing all of those and we are doing so in the context of the new common fisheries policy. We are delivering that new legislative framework at the moment. We have consulted on certain parts of it and will continue to consult and report back as we go through that process.

O ran yr adolygiad o ddeddfwriaeth y cyfeiriodd yr Aelod ato, cyhoeddasom pan ddechreuodd yr adolygiad y byddai'n cymryd tua phum mlynedd i adolygu'r tua 200 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth y mae angen inni eu hadolygu. Rydym yn adolygu pob un o'r rheini ac rydym yn gwneud hynny yng nghyd-destun y polisi pysgodfeydd cyffredin newydd. Rydym yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol newydd hwnnw ar hyn o bryd. Rydym wedi ymgynghori ar rai rhannau ohono a byddwn yn parhau i ymgynghori ac i adrodd yn ôl wrth inni fynd drwy'r broses honno.

In terms of integrated coastal zone management, a critical part of the marine planning process, which I have outlined in this statement on this action plan, will be to ensure that coastal communities are able to deliver on marine planning. There are a number of different areas there that are already contained in the action plan, and all have already been acted upon, not in the last six months, but in the last 18 months, as far as the issues that the Member raised are concerned.

O ran rheoli parthau arfordirol mewn modd integredig, bydd sicrhau bod cymunedau arfordirol yn gallu cyflawni o ran cynllunio morol yn rhan hanfodol o'r broses cynllunio morol, yr wyf wedi'i hamlinellu yn y datganiad hwn am y cynllun gweithredu. Mae nifer o wahanol feysydd yno sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu, ac mae pob un eisoes wedi cael sylw, nid yn y chwe mis diwethaf, ond yn y 18 mis diwethaf, o ran y materion a gododd yr Aelod.

So, I would advise the Conservative spokesperson on this matter, perhaps, to read in more detail the action plan that has been prepared, and also to pay more attention when I am giving evidence in committee.

Felly, byddwn yn cynghori llefarydd y Ceidwadwyr ar y mater hwn, efallai, i ddarllen yn fwy manwl y cynllun gweithredu a baratowyd, a hefyd i gymryd mwy o sylw pan fyddaf yn rhoi tystiolaeth yn y pwyllgor.

16:16

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n croesawu'r datganiad sydd wedi cael ei wneud y prynhawn yma. Roedd adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cael ei ddisgrifio fel rhyw fath o 'wake-up call' i'r Llywodraeth, ac rwy'n meddwl bod hwn heddiw yn dangos bod y Llywodraeth wedi dechrau deffro beth bynnag i'r angen i symud i gyfeiriad penodol. Rwy'n gweld hwn fel datganiad clir o gyfeiriad. Mae egwyddorion y mae ymrwymiad iddynt, ac mae cyfeiriad strategol. Rwy'n croesawu hynny, wrth gwrs. Mae manylion i ddilyn, ac mae'r Ceidwadwyr yn iawn, efallai, i dynnu sylw at hynny. Mae lle wastad am fwy o fanylion ond, ar y cyfan, fel man cychwyn, mae hwn i'w groesawu'n fawr y prynhawn yma.

I welcome the statement that has been made this afternoon. The Environment and Sustainability Committee's report has been described as a wake-up call for Government, and I think that today's statement shows that the Government has at least started to wake up to the need to move in a particular direction. I see this as a clear statement of future direction. There are principles that have been committed to, and there is strategic direction, which I welcome, of course. The details will follow, and the Conservatives are right, perhaps, to draw attention to that. There is always room for more details but, on the whole, as a starting point, this is to be warmly welcomed this afternoon.

Ni chodwyd y pwynt, serch hynny, ynglŷn ag adnoddau a lefel yr adnoddau, a buaswn yn awyddus i'r Gweinidog ymateb i hynny. A ydych chi'n hyderus fod gennych chi, o fewn eich cyllideb, er enghraifft, ddigon o adnoddau i wireddu'r hyn sy'n cael ei amlinellu yn y cynllun hwn? Rwy'n nodi mai rhyw £1.24 miliwn sydd wedi'i nodi yn eich cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn eich tystiolaeth i ni fel pwyllgor ar eich cyllideb, fe ddywedoch y byddech chi'n edrych i gyfeiriad y cynllun datblygu gwledig, er enghraifft, ar gyfer ffynhonnell ariannol bosibl a fydd yn ategu cyllideb y Llywodraeth. A allwch chi ymhelaethu ar ba mor ddibynnol rydych chi'n teimlo y byddwch chi ar gyllidebau o'r fath? Mae'r amgylchedd morol yn cyfrannu, fel rydym yn gwybod, £2.5 biliwn i GDP yng Nghymru, wrth gefnogi mwy na 92,000 o swyddi ac, felly, mae'n amlwg yn haeddu mwy o flaenoriaeth nag y mae wedi ei chael yn y gorffennol.

The point about resources and the level of resources has not been raised, however, and I would be eager for the Minister to respond to this point. Are you confident that you have, within your budget, sufficient resources to achieve what is outlined in this plan? I note that some £1.24 million is allocated within your budget for next year. In your evidence to us as a committee on your budget, you said that you would look towards the rural development plan, for example, as a possible source of funding that would supplement the Government's budget. Can you expand on how reliant you will be on such funding? The marine environment, as we know, contributes £2.5 billion to Wales's GDP, supporting more than 92,000 jobs, and, therefore, it clearly deserves greater priority than it has had in the past.

Rydych chi'n sôn am greu proses gynllunio morol cenedlaethol i Gymru. Mae hynny i'w groesawu'n fawr iawn ac rydym yn edrych ymlaen at chwarae ein rhan yn y drafodaeth honno. Byddwn i'n falch, efallai, petai chi'n ymhelaethu ychydig ar sut rydych chi'n gweld y broses bolisi honno'n integreiddio gyda phrosesau cynllunio ar y tir, sydd yn bwynt pwysig sydd wedi ei godi gan nifer o randdeiliaid yn y gorffennol.

You mention creating a national marine planning process for Wales. That is to be warmly welcomed, and we look forward to playing our part in that particular discussion. I would be grateful if you could perhaps expand upon how you see that planning process integrating with terrestrial planning policy, which is an important point that has been raised by a number of stakeholders in the past.

Derbyniodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd dystiolaeth a oedd yn dangos bod tipyn o wrthgyferbyniad o safbwynt yr adnoddau oedd ar gael i gyflawni'r math hwn o waith. Yn nwyrain Lloegr, dywedwyd wrthym fod 20 o staff wedi'u clustnodi i weithio ar ddatblygu cynlluniau gofodol morol, er taw dim ond un person oedd gennym yng Nghymru, a'r person hwnnw wedi cael y dasg o weithio ar yr ymgynghoriad ar barthau cadwraeth forol. Felly, byddwn i'n awyddus i chi ymhelaethu ar sut rydych chi'n bwriadu cyflawni llawer o'r ymrwymiadau hyn.

The Environment and Sustainability Committee also took evidence that demonstrated that there was some contrast in terms of the resources available to achieve this sort of work. In the east of England, we were told that 20 members of staff had been delegated to work on marine issues there, while we had only one individual in Wales, and that individual had also been tasked to work on the marine conservation zone consultation. Therefore, I would be eager for you to expand upon how you intend to achieve many of the commitments contained therein.

Rydym yn falch eich bod yn dweud yr hoffech adolygu strwythurau ymgynghori rhanddeiliaid. Buaswn yn tybio, felly, y byddech chi'n cytuno bod gwersi i'w dysgu o brofiad y parthau cadwraeth forol—term, os rwyf wedi gweld yn iawn, nad yw hyd yn oed yn ymddangos yn y cynllun gweithredu strategol, er, efallai, ei fod yno mewn ffurf wahanol. Mae lot o ymgynghori ac ymwneud â rhanddeiliaid wedi bod yn y gorffennol, ac un consýrn oedd bod diffyg gweithredu wedi bod yn sgîl hynny, a bod hynny, yn ei dro, yn tanseilio ychydig ar ymddiriedaeth rhanddeiliaid a'u hawydd i gydweithio yn y dyfodol. Felly, byddwn yn awyddus i chi ymrwymo i sicrhau bod y prosesau hyn yn ystyrlon ac yn arwain at ganlyniadau penodol.

We are pleased that you have said that you want to review the consultation structures for stakeholders. I assume, therefore, that you would agree that there are lessons to be learned from the experience of marine conservation zones—a term, if I am correct, which does not actually appear in the strategic action plan, although, of course, it may be there in an alternative form of wording. There has been a great deal of stakeholder consultation and engagement in the past, and one concern was that there has been a lack of action as a result of those consultations and that that, in turn, could undermine the trust of stakeholders and their desire to collaborate in future. Therefore, I would be eager for you to commit to ensuring that these processes are meaningful and lead to specific outcomes.

O safbwynt adolygiad deddfwriaethol, fel sy'n cael ei amlinellu, mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ar faterion morol a physgodfeydd wedi newid yn sylweddol iawn yn y blynyddoedd diwethaf hyn, ac rwy'n gweld eich bod yn nodi bod rhyw 200 o eitemau o ddeddfwriaeth ddomestig yn bodoli yn y maes hwn a bod angen eu hadolygu. Efallai y gallwch ymhelaethu ychydig, os gwnewch chi, ar eich bwriad. A ydych yn sôn yn y fan hon am eu hadolygu yn unigol neu yn eu tro, neu a ydych yn sôn am ddod â rhai neu nifer ohonynt at ei gilydd mewn un darn o ddeddfwriaeth fwy cynhwysfawr? Os ydych yn rhagweld 'approach' o'r fath, a ydych yn rhagweld y bydd hynny yn cael ei gyflawni yn ystod y Cynulliad hwn, neu ba mor hir ydych chi'n rhagweld y cymrith hi, yn enwedig o gofio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni hynny?

In terms of a legislative review, as is outlined, the responsibilities of the Welsh Government on marine and fisheries issues has changed significantly over the past few years, and I see that you note that there are some 200 items of domestic legislation currently in existence in this area and that they need to be reviewed. Perhaps you could just expand, if you would, on your intention in that regard. Are you talking about reviewing them individually and in order, or are you thinking of consolidating many of these in a single piece of more comprehensive legislation? If you do anticipate such an approach, do you believe that that could be achieved during this Assembly, or, if not, how long do you think it will take, particularly bearing in mind the resources available to achieve that?

16:21 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am eich ymateb. Roedd gennych chi lot o gwestiynau, felly rwy'n mawr obeithio na fyddaf i'n gadael un mas. Gwnaf i ddechrau gyda'r adolygiad deddfwriaethol. Mae elfen o hyn yn y Papur Gwyn y gwnaethom ei gyhoeddi dair wythnos yn ôl i gefnogi'r gwaith ar y Bil amgylcheddol. Felly, mae rhywfaint ohono yno. Mae lot o'r eitemau o ddeddfwriaeth rwy'n sôn amdanynt yn is-ddeddfwriaeth, felly ni fydd angen creu Bil arbennig ar eu cyfer. Bydd lot ohonynt yn mynd drwy systemau'r Cynulliad fel is-ddeddfwriaeth. Rwy'n hapus iawn i ysgrifennu at y pwyllgor amgylcheddol os ydych chi eisiau craffu ar hynny ac, efallai, ysgrifennu atoch gydag amserlen yn dangos pryd y bydd yr is-ddeddfwriaeth yn barod er mwyn i chi gael cyfle i gynllunio amserlen ar gyfer craffu ar hynny. Rwy'n hapus iawn i wneud hynny, os yw hynny'n helpu. Fodd bynnag, bydd elfennau gwahanol yn cael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod nesaf. Ni fyddwn yn eu cyhoeddi i gyd ar un adeg, ond mewn rhannau wrth i ni symud ymlaen.

Thank you for your response. You raised many questions, and I very much hope that I will not miss any. I will start with the legislative review. There is an element of this in the White Paper that we published three weeks ago to support the work on the environment Bill. Therefore, some of that is contained there. Much of the legislation that I am talking about is subordinate legislation, and so there will be no need to create a special Bill for this legislation. A great deal of it will be going through the Assembly system as subordinate legislation. I would be very happy to write to the environment committee should you wish to scrutinise that, and, perhaps, to write to you with a timetable of when this subordinate legislation will be ready, so that you have the opportunity to timetable your scrutiny. I would be very happy to do that, if that would be helpful. However, different elements will be published during the ensuing period. We will not publish them all at once, but in separate sections as we move forward.

Gwnaf ddod yn ôl at eich pwynt cyntaf, a'r pwynt pwysicaf efallai, sef y pwynt am adnoddau. Mae'r cwestiwn am adnoddau yn bwysig, ac rwy'n falch eich bod wedi ei godi achos mae'n rhoi cyfle i mi i roi un peth ar y record gyhoeddus. Mae'r EFF i fod i ddod i ben ar ddiwedd y mis nesaf. Ers i mi gael y cyfle i drafod hyn gydag Aelodau, mae wedi dod yn amlwg na fydd yr EMFF yn barod ym mis Ionawr ac na fydd yn barod tan tua'r amser hyn y flwyddyn nesaf, Mae'r EFF, felly, wedi cael ei estyn tan fis Mehefin y flwyddyn nesaf, ac mae posibilrwydd y bydd elfennau o waith yr EMFF ar gael cyn bod y gronfa yn agor yn llawn. Felly, ar hyn o bryd, rydym yn ystyried beth mae hynny yn ei olygu i'r diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru. Rwy'n mawr obeithio y bydd cyfle, os bydd arian neu gronfeydd ar gael yn ystod y flwyddyn nesaf, i'r diwydiant yng Nghymru gael cyfle i fachu rhywfaint o hynny. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei drafod ar hyn o bryd gyda'r 'managing agency', sef yr MMO, o ran yr EMFF ac EFF, ac mae'n cael ei reoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, nid gennym ni yng Nghymru. Felly, mae hynny'n broses y mae'n rhaid i ni fynd drwyddi.

I will return to your first point, and possibly the most important point, which was on resources. The question of resources is important, and I am pleased that you have raised it as it gives me an opportunity to put something on the public record. The EFF is due to come to an end at the end of next month. Since having the opportunity to discuss this with Members, it has become evident that the EMFF will not be ready in January and may not be ready until this time next year. The EFF, therefore, has been extended until June of next year, and there is a possibility that elements of the EMFF work will be available before the fund is fully open. Therefore, at present, we are considering the implications of this for the fisheries industry in Wales. I very much hope that there will be an opportunity, should there be money or funds available during next year, for the industry to have an opportunity to take some of that funding. This is something that we are discussing at present with the managing agency, namely the MMO, in terms of the EMFF and the EFF. This is managed by the United Kingdom Government and not by us in Wales. So, this is a process that we have to go through.

Pan mae'n dod i adnoddau yn y gyllideb, dywedais wrth y pwyllgor fis diwethaf fy mod yn mynd i ystyried y sefyllfa y tu fewn i gyllideb yr adran. Nid wyf yn credu bod modd dod ag arian i mewn i'r adran, ond mae modd ystyried lle'r ydym ni yn yr adran. Byddaf yn gwneud hynny dros y misoedd nesaf, ac os oes cyfle i ni wneud unrhyw newidiadau, byddaf yn gwneud hynny yn gyhoeddus ac yn ysgrifennu at y pwyllgor i ddatgan yn glir faint o arian yr ydym yn ei glustnodi ar gyfer gwaith morol ac o le mae'n dod. Byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd y pwyllgor i ddweud hynny yn glir cyn iddo ddigwydd. Felly, rwy'n gobeithio bod hynny yn ateb eich cwestiynau am adnoddau.

When it comes to resources in the budget, I said to the committee last month that I was going to consider the position within the departmental budget. I do not believe that it is possible to bring any more funding into the department, but it is possible to consider how money is allocated within the department. I will be doing so over the next few months, and if there is an opportunity for us to make any changes, I will make that public and will write to the committee to state clearly how much funding will be allocated to the marine element and where it has come from. I will be writing to the committee Chair in order to state that clearly before any action is taken. So, I hope that that answers your question on resources.

Yn olaf, o ran y rhanddeiliaid mae'n bwysig inni siarad a thrafod â phobl. Rwy'n cydnabod eich pwynt am MCZs, ac fe dderbyniais y pwynt hwnnw wrth wneud datganiad amdanynt yn yr haf. Rydym wedi gwneud lot fawr o waith i sicrhau ein bod yn creu fforymau positif ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio gyda'r WFA i sicrhau bod gan bysgotwyr yng Nghymru lais proffesiynol, cryf ac annibynnol er mwyn cynrychioli'r diwydiant a chymryd rhan mewn trafodaethau ar ran y diwydiant. Byddwn yn parhau i wneud hynny, gan, rwy'n gobeithio, gryfhau sut yr ydym yn gwneud hynny.

Finally, in terms of the stakeholders, it is important that we have discussions with people. I acknowledge the point that you have made about MCZs, and I accepted that point when I made a statement on them in the summer. We have carried out a great deal of work to ensure that we are creating positive fora for the future. We have also been working with the WFA to ensure that fishermen and women in Wales have a strong, professional and independent voice to represent the industry and to participate in discussions on behalf of the industry. We will continue to do so, and hopefully, we will strengthen the way in which we do that.

16:25

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Dirprwy Lywydd. I welcome the statement by the Minister today and I applaud his update on the main strategy for Wales. It is clear to me that the Government for Wales has taken a lead in establishing a strategy that puts environmental issues and the health of the seas and its producers at the heart of our policies. In Wales, we have many people whose livelihoods, and that of their families, depend on the shores around our beautiful coastline. I represent an area where most of that exists. Therefore, I want assurances, Minister, that you could give today to the cockle-pickers of Carmarthen bay—you have to be careful how you say that—that their interests and their inherited know-how will be respected and protected by the policies and strategies adopted by the Welsh Assembly Government not only now, but in the years ahead.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog heddiw a chymeradwyaf y newyddion diweddaraf ganddo am y brif strategaeth i Gymru. Mae'n amlwg i mi fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd yr awenau o ran sefydlu strategaeth sy'n rhoi materion amgylcheddol ac iechyd y moroedd a'u cynhyrchwyr wrth wraidd ein polisïau. Yng Nghymru, mae gennym lawer o bobl y mae eu bywoliaeth, a bywoliaeth eu teuluoedd, yn dibynnu ar y glannau o gwmpas ein harfordir hardd. Rwyf yn cynrychioli ardal lle mae'r rhan fwyaf o hynny'n bodoli. Felly, hoffwn gael sicrwydd, Weinidog, y gallech ei roi heddiw i gasglwyr cocos bae Caerfyrddin—rhaid ichi fod yn ofalus wrth ddweud hynny—y caiff eu buddion a'r crebwyll y maent wedi'i etifeddu eu parchu a'u diogelu yn y polisïau a'r strategaethau a fabwysiadir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, nid yn unig yn awr, ond yn y blynyddoedd i ddod.

Also, in June of last year, Colin Evans, a fisherman from Bardsey island visited the Welsh Assembly. He was here on behalf of the Welsh Fishermen's Association, a voluntary organisation arguing for an ecosystem-based approach. Again, he fishes in and around Bardsey island and makes a living from it. He is one of a list of many generations of his family to do that. We all want to see a local economy that flourishes. My question to you, Minister, is this: can you give assurances to the cockle-pickers of Carmarthen bay and the small fishermen from around the coast of Wales that they can seek some encouragement and hope from your statement today?

Hefyd, ym mis Mehefin y llynedd, daeth Colin Evans, pysgotwr o ynys Enlli, i ymweld â'r Cynulliad. Roedd yma ar ran Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, mudiad gwirfoddol sy'n dadlau dros ymagwedd sy'n seiliedig ar ecosystemau. Unwaith eto, mae'n pysgota ar Ynys Enlli ac o'i chwmpas ac yn gwneud bywoliaeth o hynny. Mae'n un o restr o sawl cenhedlaeth o'i deulu i wneud hynny. Rydym i gyd am weld economi leol sy'n ffynnu. Fy nghwestiwn ichi, Weinidog, yw hyn: a allwch roi sicrwydd i gasglwyr cocos bae Caerfyrddin a'r pysgotwyr bach o amgylch arfordir Cymru y gallant gymryd rhywfaint o anogaeth a gobaith o'ch datganiad heddiw?

16:27 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I hope that I can assure my good friend that the cockle-pickers of Carmarthen bay are never far from my thoughts. I have, with different Members in the Chamber, visited the cockle beds around Carmarthenshire and worked on those beds with the cockle-pickers. It is an important economic activity, but for all of us who are from south Wales, we know that it is also a cultural activity. It is an important part of the economy and the culture of south-west Wales. I remember, as a young man in Tredegar, that cockles from Carmarthen bay would be sold in and around the town. It is an important part of our food and culture. So, yes, I can give you that assurance. The work that was done around Ynys Enlli and elsewhere, of course, was a key part of our considerations on the future of marine conservation zones. The document that you refer to, I think, was the 'Striking the Balance' document, which was launched at that time last summer. It was a key part of our thinking; it remains a key part of our thinking and it will continue to guide our thinking.

Rwyf yn gobeithio y gallaf sicrhau fy nghyfaill da nad yw casglwyr cocos bae Caerfyrddin byth yn bell o fy meddyliau. Rwyf wedi ymweld â'r gwelyau cocos o gwmpas Sir Gaerfyrddin, gyda gwahanol Aelodau yn y Siambr, ac wedi gweithio ar y gwelyau hynny gyda'r casglwyr cocos. Mae'n weithgaredd economaidd pwysig, ond i bob un ohonom sy'n dod o'r de, rydym yn gwybod ei fod hefyd yn weithgaredd diwylliannol. Mae'n rhan bwysig o economi a diwylliant y de-orllewin. Cofiaf, a minnau'n llanc ifanc yn Nhredegar, y byddai cocos o fae Caerfyrddin yn cael eu gwerthu yn y dref ac o'i hamgylch. Mae'n rhan bwysig o'n bwyd a'n diwylliant. Felly, gallaf, gallaf roi'r sicrwydd hwnnw ichi. Roedd y gwaith a wnaethpwyd o gwmpas Ynys Enlli ac mewn mannau eraill, wrth gwrs, yn rhan allweddol o'n hystyriaethau o ran dyfodol parthau cadwraeth morol. Rydych yn cyfeirio, rwyf yn meddwl, at y ddogfen 'Striking the Blance', a lansiwyd ar yr adeg honno'r haf diwethaf. Roedd yn rhan allweddol o'n ffordd o feddwl; mae'n parhau i fod yn rhan allweddol o'n ffordd o feddwl a bydd yn parhau i lywio ein ffordd o feddwl.

16:29 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yr wyf innau'n croesawu'r datganiad hwn.

I also welcome this statement.

I am also particularly grateful to the Minister for having advance sight of the associated action plan, which he made available. Indeed, there are many things to commend in a plan, as has already been said by other colleagues in the Chamber. A plan, which itself feels like the natural progression from the work undertaken by the Minister in his previous role, but also from the recommendations that flow from the Environment and Sustainability Committee's work over these past 18 months. When conducting that work, I think that it became apparent to all members of the committee that the marine environment was both an abundant resource in need of extensive sustainable management, and that our present policies were woefully inadequate for delivering that management. I am grateful that that is being addressed in a number of important respects by this statement and by the action plan. Gaps in spatial planning and protected areas were quickly identified, as were severe shortcomings in the Welsh Government's stakeholder engagement process, most notably, as has been said repeatedly today, over the MCZ question. On that note, I was pleased to see that steps have been laid out to review the Government's stakeholder engagement arrangements, and that these will be published in the coming months. Linked to this, of course, is the planned establishment of a marine protected areas management steering group, which is due to have its initial meeting by the end of March 2014. I am reassured by the Minister's comments regarding fisherfolk representation on that important body.

Rwyf hefyd yn arbennig o ddiolchgar i'r Gweinidog am gael gweld ymlaen llaw y cynllun gweithredu cysylltiedig y mae wedi ei gyflwyno. Yn wir, mae llawer o bethau i'w canmol mewn cynllun, fel y mae cyd-Aelodau eraill yn y Siambr eisoes wedi'i ddweud. Dyma gynllun, sydd ynddo'i hun yn teimlo fel dilyniant naturiol i'r gwaith a wnaeth y Gweinidog yn ei swyddogaeth flaenorol, ond hefyd i'r argymhellion sy'n deillio o waith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd dros y 18 mis diwethaf. Wrth wneud y gwaith hwnnw, rwyf yn meddwl iddi ddod yn amlwg i holl aelodau'r pwyllgor fod yr amgylchedd morol yn adnodd helaeth y mae angen ei reoli'n gynaliadwy, a bod ein polisïau presennol yn gwbl annigonol o ran darparu'r rheolaeth honno. Rwyf yn ddiolchgar fod hynny'n cael sylw mewn nifer o ffyrdd pwysig yn y datganiad hwn ac yn y cynllun gweithredu. Nodwyd yn gyflym fylchau mewn cynllunio gofodol ac ardaloedd gwarchodedig, ynghyd â diffygion difrifol ym mhroses Llywodraeth Cymru o ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fwyaf nodedig, fel y dywedwyd dro ar ôl tro heddiw, ynglŷn â pharthau cadwraeth morol. Ar y nodyn hwnnw, roeddwn yn falch o weld bod camau wedi eu hamlinellu i adolygu trefniadau'r Llywodraeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac y caiff y rhain eu cyhoeddi yn y misoedd nesaf. Yn gysylltiedig â hyn, wrth gwrs, mae'r cynllun i sefydlu grŵp llywio rheoli ardaloedd gwarchodedig morol, sydd i fod i gael ei gyfarfod cyntaf erbyn diwedd mis Mawrth 2014. Cefais fy nghalonogi gan sylwadau'r Gweinidog ynghylch cynrychiolaeth pysgotwyr ar y corff pwysig hwnnw.

Sticking with MPAs, I think that most people who work in the marine environment will agree that it does not matter what name we call these areas by; the important thing is that they are indeed fit for the purpose for which they were established, and that they do not unfairly jeopardise any single group in the area in which they operate. Finally on the MPA issue, it is very positive to see that the strategy recognises the key importance of good management. To that end, I would be grateful if the Minister would outline whether he agrees with me that good management requires effective and credible enforcement. Could he also outline briefly by what means he sees that going forward?

I gadw at ardaloedd morol gwarchodedig, rwyf yn credu y bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio yn yr amgylchedd morol yn cytuno nad oes ots pa enw yr ydym yn ei roi i'r ardaloedd hyn; y peth pwysig yw eu bod yn addas at y diben y cawsant eu sefydlu ar ei gyfer, ac nad ydynt yn peryglu'n annheg unrhyw grŵp unigol yn yr ardal lle maent yn gweithredu. Yn olaf, o ran ardaloedd morol gwarchodedig, mae'n gadarnhaol iawn gweld bod y strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd allweddol rheolaeth dda. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn amlinellu a yw'n cytuno â mi bod yn rhaid wrth orfodaeth effeithiol a chredadwy er mwyn rheoli'n dda. A wnaiff hefyd amlinellu'n fras sut y mae'n gweld hynny'n symud ymlaen?

On the marine strategy framework directive—the MSFD—and the Welsh national marine planning process, I would also be very pleased if he could outline his timetable for delivery by 2015. Finally, Minister, on the need to expand on in-sea aquaculture sites, could you please outline how you see the spatial planning process underscoring and helping to roll out the development of that important area?

O ran cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol—yr MSFD—a phroses cynllunio morol genedlaethol Cymru, byddwn hefyd yn falch iawn pe gallai amlinellu ei amserlen ar gyfer cyflawni erbyn 2015. Yn olaf, Weinidog, o ran yr angen i ehangu safleoedd dyframaeth yn y môr, a fyddech cystal ag amlinellu sut yr ydych yn gweld y broses cynllunio gofodol yn ategu ac yn helpu i ddatblygu'r maes pwysig hwnnw?

16:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your welcome for the statement and the plan; I do appreciate it. In terms of the final question on in-sea aquaculture, aquaculture of course has the potential to be a far more significant economic activity in Wales than it currently is. At the moment, we are seeing some significant developments in aquaculture, and I hope that the fact of the MFF will enable us, together with other funds, to invest in the future in developing the industry. It will be industry-led, of course, and what the Welsh Government will do is to support and sustain that, and create the structures by which industry can make the investments that it requires.

Diolch yn fawr iawn am eich croeso i'r datganiad ac i'r cynllun; rwyf yn gwerthfawrogi hynny. O ran y cwestiwn olaf am ddyframaeth yn y môr, mae potensial, wrth gwrs, i ddyframaeth fod yn weithgaredd economaidd mwy arwyddocaol o lawer yng Nghymru nag ydyw yn awr. Ar hyn o bryd, rydym yn gweld rhai datblygiadau arwyddocaol ym maes dyframaeth, ac rwyf yn gobeithio y bydd cronfa'r môr a physgodfeydd, ynghyd â chronfeydd eraill, yn ein galluogi i fuddsoddi yn y dyfodol i ddatblygu'r diwydiant. Caiff hyn ei arwain gan y diwydiant, wrth gwrs, a bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi ac yn cynnal hynny, ac yn creu'r strwythurau i'r diwydiant allu gwneud y buddsoddiadau sydd eu hangen.

On enforcement, we do currently have an enforcement regime in place to enforce the law and to enforce all the different regulations concerning fisheries. It is my intention that that enforcement regime remains fit for purpose and that we use the means and technologies available to us to do that. That is a very general response, of course, to your questions; if there are specific issues that you wish to follow up in terms of how enforcement takes place in Welsh waters, I would be happy to deal with that by correspondence.

O ran gorfodaeth, mae gennym gyfundrefn orfodi ar waith ar hyn o bryd i orfodi'r gyfraith ac i orfodi'r holl wahanol reoliadau sy'n ymwneud â physgodfeydd. Fy mwriad yw y bydd y drefn orfodi honno'n parhau i fod yn addas at ei diben ac y byddwn yn defnyddio'r dulliau a'r technolegau sydd ar gael inni i wneud hynny. Mae hwnnw'n ymateb cyffredinol iawn, wrth gwrs, i'ch cwestiynau; os oes materion penodol yr hoffech fynd ar eu trywydd o ran sut y mae gorfodaeth yn digwydd yn nyfroedd Cymru, byddwn yn hapus i ymdrin â hynny drwy ohebiaeth.

In terms of the broad points made by the Liberal Democrat spokesperson, he is absolutely right to make the point about the balance that is required between conservation and economic activity. On many occasions, many different groups believe that that balance is out of kilter, whether it is too much towards the fishing interests or too much towards the conservation interests. I understand those concerns and that they are sincerely held; I understand that they create significant worry for the people concerned. Let me say this: a fishery that is sustainable is successful in the long term; a fishery that is not sustainable is not successful in the short term. Sustainability has to be hardwired into any successful fishery, and we will do that, working alongside people. I want to strike a real balance between the need for sustainability and the development of economic activity—I see them working hand-in-hand. Like you, I will not get hung up on the names of protected areas, perhaps for different reasons. Also, like you, I believe that they have to be fit for purpose, and it is my intention that they will be.

O ran y pwyntiau cyffredinol a wnaeth llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'n hollol iawn i wneud y pwynt am y cydbwysedd sydd ei angen rhwng cadwraeth a gweithgarwch economaidd. Ar sawl achlysur, mae llawer o wahanol grwpiau'n credu bod y cydbwysedd yn anghywir, p'un a yw gormod o blaid buddiannau pysgota neu ormod o blaid buddiannau cadwraeth. Rwyf yn deall y pryderon hynny a'u bod yn ddiffuant; rwyf yn deall eu bod yn creu pryder sylweddol i'r bobl dan sylw. Gadewch imi ddweud hyn: mae pysgodfa sy'n gynaliadwy yn llwyddiannus yn y tymor hir; nid yw pysgodfa sy'n anghynaladwy yn llwyddiannus yn y tymor byr. Rhaid i gynaliadwyedd fod yn rhan annatod o unrhyw bysgodfa lwyddiannus, a byddwn yn sicrhau bod hynny'n wir, drwy weithio ochr yn ochr â phobl. Rwyf am gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen am gynaliadwyedd a datblygu gweithgarwch economaidd —rwyf yn eu gweld yn gweithio law yn llaw. Fel chithau, ni roddaf ormod o sylw i enwau ardaloedd gwarchodedig, efallai am resymau gwahanol. Hefyd, fel chithau, rwyf yn credu bod yn rhaid iddynt fod yn addas at eu diben, a dyna yw fy mwriad.

16:34 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel Cadeirydd y pwyllgor a chynrychiolydd etholwyr o bysgotwyr o Aberdesach i Aberdyfi, mae hwn yn ddiwrnod mawr i mi. Mae'r gair 'glas' yn y Gymraeg yn cynnwys y lliw gwyrdd, ac felly, o'r diwedd, mae gennym foroedd glas yng Nghymru sydd yn mynd i gael eu gweinyddu a'u gofalu amdanynt yn wyrdd. Mae'r Gweinidog yn y ddogfen hon wedi adfer hyder pysgotwyr Cymru, preswylwyr glannau'r moroedd, holl ddefnyddwyr glannau'r moroedd, a bwytawyr posibl y cynnyrch ym mhob rhan o'r byd yn nyfodol pysgodfeydd yng Nghymru. Rwy'n maddau iddo ambell i beth arall y mae wedi eu gwneud i mi yn ddiweddar oherwydd yr hyn y mae wedi ei wneud heddiw, oherwydd diben pwyllgor Cynulliad—gan ddefnyddio idiom anffodus sydd wedi ei defnyddio yn barod heddiw, Weinidog—yw gwasgu ar wynt y Gweinidog ar bob achlysur. Rwy'n dod i ben yn awr, Ddirprwy Lywydd.

As Chair of the committee and a representative of fishermen from Aberdesach to Aberdyfi, this is a big day for me. The word 'glas', or blue, in Welsh includes the colour green, so at last we have blue seas in Wales that will be administered and cared for in a green way. The Minister, in this document, has revived the confidence of Welsh fishermen, those living along our coastline, all the users of our coast and those who may potentially eat the produce in all parts of the world in the future of Welsh fisheries. I forgive him for some of the other things that he has done to me recently because of what he has done today, because the purpose of an Assembly committee—to use an unfortunate idiom already used today, Minister—is to press on the Minister's windpipe on all occasions. I will draw my comments to a close now, Deputy Presiding Officer.

Cyn i ni gael datganoli, nid oedd gan Gymru môr; nawr, mae gennym reolaeth gan Lywodraeth Cymru yn ein môr. Un cwestiwn terfynol: Weinidog, rwy'n gwybod y byddi di'n driw i dy addewid i fod yn fodlon cael dy graffu gan y pwyllgor, ac rwy'n croesawu hynny yn fawr iawn, ond yr hyn sy'n bwysig i ni bob amser, os alli di gytuno i hynny, yw ein bod yn cael y wybodaeth mor fuan ag sy'n bosibl a gwybodaeth sydd mor fanwl ag sy'n bosibl. Rwy'n gweld bod, o fewn y ddogfen hon, rhaglen waith blynyddoedd. Mi fuaswn am weld blaenoriaeth, os alli di gytuno i hynny, i raglen o ddeddfwriaeth, oherwydd bod yn rhaid i ni gael hyn yn iawn a defnyddio ein pwerau deddfwriaethol. A yw hynny'n bosibl?

Prior to devolution, Wales did not have a sea; now we have Welsh Government control of our seas. One final question: Minister, I know that you will be true to your pledge to be scrutinised by the committee, and I welcome that very warmly, but what is important for us on all occasions, if you can agree to this, is that we are given the information as soon as is possible and in as much detail as is possible. I see that, within this document, there is a work programme covering a number of years. I would want to see priority given, if you can agree to this, to a programme of legislation, because we need to get this right and use our legislative powers. Is that possible?

16:36 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ydy. Diolch yn fawr am eich geiriau caredig. Mae'ch diolchiadau, wrth gwrs, yn mynd i'r swyddogion sydd wedi gwneud y gwaith, nid jyst y Gweinidogion sy'n cael sefyll yn y fan hon a thrafod y gwaith. Rydym wedi bod yn lwcus iawn, rwy'n meddwl, yn Llywodraeth Cymru bod gennym swyddogion sy'n fodlon gwneud y gwaith hwn a gwneud lot fawr o waith o greu'r polisi yr ydym yn ei drafod heddiw. Fel chithau, liciwn i gofrestru fy niolchiadau i'r swyddogion sydd wedi gwneud y gwaith hwn dros y blynyddoedd.

Yes. Thank you for your kind words. Your gratitude, of course, goes to the officials who have done the work, not just the Ministers who stand here to talk about it. We have been very fortunate, I believe, in the Welsh Government in that we have officials who are willing to do this work and do a great deal of work in creating the policy that we are discussing today. Like you, I would like to record my gratitude to the officials who have been doing this work over the years.

Rwyf wedi gwneud 'commitments' y prynhawn yma i ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y pwyllgor i sicrhau bod gennych yr amser a'r wybodaeth i graffu ar y broses o ddeddfu fel ei bod yn mynd ymlaen. Ar hyn o bryd, rydym yn trafod y sefyllfa adnoddau, a byddaf yn ysgrifennu atoch pan fydd yr ystyriaethau hynny yn dod i ben ac y bydd gennym gynigion i'w gwneud. Nid wyf yn gwybod pryd fydd hynny, ond mi fyddwn yn ysgrifennu atoch chi mor fuan ag sy'n bosibl. Hoffwn ddod â'm sylwadau i ben drwy gytuno â chi bod gennym foroedd o dan ein rheolaeth ni yn y fan hon yn awr, a gyda hynny fe ddaw cyfrifoldeb. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym jyst yn derbyn y pŵer, ond ein bod hefyd yn derbyn y cyfrifoldeb i weithredu'r pwerau sydd gennym gyda'r math o weledigaeth yr wyf yn gobeithio ein bod i gyd yn ei rhannu.

I have made commitments this afternoon to write to you as Chair of the committee to ensure that you have the time and the information to scrutinise the legislative process as it proceeds. At present, we are discussing the question of resources, and I will write to you when those considerations are complete and when we have proposals to make. I do not know when that will be, but we will write to you as soon as possible. I would like to conclude my comments by agreeing with you that we do have seas under our control now, and with that comes responsibility. We must ensure that we not only accept the powers but also accept the responsibility to implement the powers that we have with the kind of vision that I hope we all share.

16:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And for one minute only, I call Russell George.

Ac am un funud yn unig, rwyf yn galw Russell George.

16:38

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Point 16 of the action plan is regarding the evidence base and, in fairness, you have been very honest about your assessment of the current knowledge gaps that exist. Point 16 says that the Welsh Government is establishing efficient procurement arrangements for the necessary research to be undertaken on its behalf. I am just interested in that detail. How do you intend to do that? Which stakeholders do you intend to work with?

Mae pwynt 16 y cynllun gweithredu'n ymwneud â'r sail dystiolaeth ac, a bod yn deg, rydych wedi bod yn onest iawn am eich asesiad o'r bylchau sy'n bodoli yn y wybodaeth ar hyn o bryd. Mae pwynt 16 yn dweud bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu trefniadau caffael effeithlon er mwyn i'r ymchwil angenrheidiol gael ei gynnal ar ei rhan. Mae gennyf ddiddordeb yn y manylion hynny. Sut ydych chi'n bwriadu gwneud hynny? Pa randdeiliaid ydych chi'n bwriadu cydweithio â hwy?

16:39

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of presenting this information, I have tried to be as honest, clear and transparent as possible. There have been significant gaps in our knowledge. When I have attended fisheries councils in the past, I have had to sometimes negotiate and sometimes argue with the Commission about what we call data-poor species, because we do not have the data available to us upon which to take decisions on quotas and all the rest of it. So, we do have significant gaps in our knowledge, and this is not unique to Wales; it is something that is common across many administrations. We are going to be working with different administrations, with NRW, the Crown Estates and others, to ensure that we are able to fill those gaps. I expect, as I have outlined in this report, in the action plan, that work to conclude in the second quarter of next year, and if we are unable to do so I will report that back here.

O ran cyflwyno'r wybodaeth hon, rwyf wedi ceisio bod mor onest, mor glir ac mor dryloyw â phosibl. Bu bylchau sylweddol yn ein gwybodaeth. Pan wyf wedi bod yn bresennol mewn cynghorau pysgodfeydd yn y gorffennol, rwyf weithiau wedi gorfod trafod ac weithiau wedi gorfod dadlau â'r Comisiwn am yr hyn yr ydym yn eu galw'n rhywogaethau data-dlawd, oherwydd nid yw'r data ar gael inni i wneud penderfyniadau am gwotâu a phopeth arall. Felly, mae gennym fylchau sylweddol yn ein gwybodaeth, ac nid yw hyn yn unigryw i Gymru; mae'n rhywbeth sy'n gyffredin ar draws llawer o weinyddiaethau. Byddwn yn cydweithio â gwahanol weinyddiaethau, â Chyfoeth Naturiol Cymru, ag Ystadau'r Goron ac eraill, i sicrhau ein bod yn gallu llenwi'r bylchau hynny. Rwyf yn disgwyl, fel yr wyf wedi'i amlinellu yn yr adroddiad hwn, yn y cynllun gweithredu, y caiff y gwaith hwnnw ei gwblhau yn ail chwarter y flwyddyn nesaf, ac os na allwn wneud hynny byddaf yn adrodd yn ôl yma.

16:40

# Datganiad: Y Cynnydd o ran Cyflwyno Strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel'

# Statement: Progress on Delivering 'The Right to be Safe' Strategy

Senedd.tv
Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

This statement is to update Members on the progress that we have made in delivering 'The Right to be Safe' strategy, further to the written statement published in August. 'The Right to be Safe' strategy, launched in 2010, is a six-year integrated strategy for tackling all forms of violence against women and domestic abuse. It is supported by a three-year implementation plan aimed at driving priorities forward.

Bydd y datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yc hyn a gyflawnwyd wrth gyflwyno'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', yn dilyn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Awst. Mae 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', a lansiwyd yn 2010, yn strategaeth integredig chwe blynedd ar gyfer mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Mae wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu tair blynedd gyda'r nod o ddatblygu'r gwaith ar y blaenoriaethau.

A key theme identified in the strategy is prevention and raising awareness. These actions intend to change attitudes and behaviour. The Government's aim is to build a society where violence against women is never acceptable and where people are prepared to challenge the abusive behaviour of others.

Un thema allweddol a nodwyd yn y strategaeth yw atal a chodi ymwybyddiaeth. Bwriad y camau hyn yw newid agweddau ac ymddygiad. Nod y Llywodraeth yw adeiladu cymdeithas lle nad yw trais yn erbyn menywod byth yn dderbyniol a lle mae pobl yn barod i herio ymddygiad camdriniol pobl eraill.

On providing support for victims and children, our objective is to provide effective advice and support services to women and children affected by violence, including refuges and safe accommodation. It is every child's right to live free from abuse or exploitation, as set out in the United Nations Convention on the Rights of the Child, which enshrines the right of children to be protected and listened to. Protecting children from physical or psychological harm, as a result of violence within the family setting, is central to this.

O ran darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant, ein nod yw darparu gwasanaethau cyngor a chymorth effeithiol i fenywod a phlant yr effeithir arnynt gan drais, gan gynnwys llochesi a llety diogel. Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw heb gael ei gam-drin na dioddef camfanteisio, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n ymgorffori hawl plant i gael eu hamddiffyn ac i bobl wrando arnynt. Mae amddiffyn plant rhag niwed corfforol neu seicolegol, o ganlyniad i drais o fewn y teulu, yn ganolog i hyn.

Another theme is to improve the response of criminal justice agencies. This aims to improve the response to both victims and perpetrators once abuse has been disclosed, working with the UK Government and partners here in Wales.

Thema arall yw gwella ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol. Nod hon yw gwella'r ymateb i ddioddefwyr a throseddwyr pan fydd camdriniaeth wedi'i datgelu, gan weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid yma yng Nghymru.

On improving the response of health services and other agencies, we will ensure that the health service and other agencies continue to minimise the risk to victims through the early identification of problems and by supporting early intervention.

O ran gwella ymateb y gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill, byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth iechyd ac asiantaethau eraill yn parhau i leihau'r risg i ddioddefwyr trwy nodi problemau'n gynnar a thrwy gefnogi ymyriad cynnar.

On supporting and monitoring the delivery of the strategy, this section sets out how the Welsh Government supports the delivery of the strategy at a national and local level. It also describes the mechanisms that are in place to monitor its impact and to measure changes in the demand for services.

O ran cefnogi a monitro'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, mae'r adran hon yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses o gyflawni'r strategaeth ar lefel genedlaethol a lleol. Mae hefyd yn disgrifio'r mecanweithiau sydd ar waith i fonitro ei heffaith ac i fesur newidiadau yn y galw am wasanaethau.

The third annual report, published in August 2013, provided an update on delivery against the strategy's priority areas and detailed progress against each action in the implementation plan. Those included supporting effective violence against women and domestic abuse services across Wales for those who need them most; raising awareness of these issues through a range of successful publicity campaigns; starting work on a national approach to training in Wales and funding training for independent domestic violence advisers; and, paving the way for the regional delivery of services, funding a pathfinder in Gwent to understand how public services supporting victims of domestic abuse can be delivered on a regional basis. The report sets out our plans to introduce legislation and strengthen policy aimed at ending violence against women, domestic abuse and sexual violence.

Roedd y trydydd adroddiad blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2013, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnwyd ym meysydd blaenoriaeth y strategaeth a'r camau manwl a gymerwyd ar gyfer pob cam yn y cynllun gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogi gwasanaethau effeithiol ym maes trais yn erbyn menywod a chamdriniaeth ddomestig ledled Cymru ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf; codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn trwy ystod o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd llwyddiannus; dechrau gweithio ar ymdriniaeth genedlaethol ym maes hyfforddiant yng Nghymru a chyllido hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr trais domestig annibynnol; a, chan baratoi'r ffordd ar gyfer darparu gwasanaethau'n rhanbarthol, ariannu cynllun braenaru yng Ngwent i ddeall sut y gellir cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi dioddefwyr camdriniaeth ddomestig ar sail ranbarthol. Mae'r adroddiad yn nodi ein cynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth a chryfhau polisïau gyda'r nod o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

The White Paper consultation on legislation aimed at ending violence against women, domestic abuse and sexual violence was published on 26 November 2012. The proposals focused on three specific areas: improving leadership and accountability; improving education and awareness; and, strengthening services. The proposals did not seek to address criminal justice issues, but focused on the social issues within the elements of prevention, protection and support.

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn i ymgynghori ar ddeddfwriaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar 26 Tachwedd 2012. Roedd y cynigion yn canolbwyntio ar dri maes penodol: gwella arweinyddiaeth ac atebolrwydd, gwella addysg ac ymwybyddiaeth; a chryfhau gwasanaethau. Yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â materion cyfiawnder troseddol, roedd y cynigion yn canolbwyntio ar y materion cymdeithasol o fewn yr elfennau atal, diogelu a chefnogi.

I published a summary of responses to the White Paper on 1 October. Overall, our proposals were well received and respondents agreed they would have a positive impact on the lives of those experiencing these crimes. The responses are now being used to inform the legislation to be introduced into the Assembly in June 2014.

Cyhoeddais grynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar 1 Hydref. At ei gilydd, cafwyd croeso i'n cynigion ac roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r rhai sy'n dioddef y troseddau hyn. Mae'r ymatebion yn awr yn cael eu wrth baratoi'r ddeddfwriaeth sydd i'w chyflwyno i'r Cynulliad ym mis Mehefin 2014.

The annual report also highlights progress made on the 10000 Safer Lives project. In December 2012, the public service leadership group identified three minimum standards to be taken forward immediately. These are: establishing regional service user groups; sharing personal information; and, implementing workplace policies. Good progress has been made in delivering these.

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn amlygu'r hyn a gyflawnwyd ar y prosiect 10000 o Fywydau Diogelach. Ym mis Rhagfyr 2012, nododd y grŵp arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus dair safon ofynnol i'w datblygu ar unwaith. Y rhain yw: sefydlu grwpiau defnyddwyr gwasanaeth rhanbarthol; rhannu gwybodaeth bersonol; a gweithredu polisïau yn y gweithle. Mae gwaith da wedi'i wneud wrth gyflawni'r rhain.

On service user groups, I wrote to local authority chief executives on 27 September to ask that regional service user groups be established by March 2014. I also issued good practice guidance and have offered one-off funding to support the establishment of these groups, which will enable service users to contribute to policy development and the design and delivery of services.

O ran grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, ysgrifennais at brif weithredwyr awdurdodau lleol ar 27 Medi i ofyn i'r grwpiau defnyddwyr gwasanaeth rhanbarthol gael eu sefydlu erbyn mis Mawrth 2014. Cyhoeddais ganllawiau arfer da hefyd ac rwyf wedi cynnig arian i gynorthwyo i sefydlu'r grwpiau hyn, a fydd yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau, a chynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

On sharing personal information, this aims to ensure practitioners share personal information legally, safely and with confidence. An information-sharing protocol will be developed to support an earlier response to people experiencing domestic abuse.

O ran rhannu gwybodaeth bersonol, nod hyn yw sicrhau bod ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon, yn ddiogel a chyda hyder. Bydd protocol rhannu gwybodaeth yn cael ei ddatblygu i gefnogi ymateb cynharach i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig.

Turning to workplace policies, following our seminars for public-sector employers in July, I wrote to public service leaders to request that workplace policies on violence against women, domestic abuse and sexual violence be implemented, or reviewed, by 30 September. The majority of them have confirmed that they have now done so. My officials are evaluating these policies to ensure that they comply with best practice and will monitor how they are promoted within organisations. The Welsh Government's revised and improved workplace policy is now in place, and has been promoted to all employees.

Gan droi at bolisïau yn y gweithle, yn dilyn ein seminarau ar gyfer cyflogwyr y sector cyhoeddus ym mis Gorffennaf, ysgrifennais at arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i ofyn i bolisïau'r gweithle ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael eu rhoi ar waith, neu eu hadolygu, erbyn 30 Medi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cadarnhau eu bod bellach wedi gwneud hynny. Mae fy swyddogion yn gwerthuso'r polisïau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau a byddant yn monitro sut y cânt eu hyrwyddo o fewn sefydliadau. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi diwygio a gwella ei pholisiau yn y gweithle, ac wedi eu hyrwyddo ymhlith y gweithwyr i gyd.

On the 89 actions in 'The Right to be Safe' implementation plan, good progress has been made, with over two thirds of the actions completed by the end of 2012-13. I firmly believe that implementation of these actions has helped to improve the lives of many in Wales affected by violence against women, domestic abuse and sexual violence.

Mae gwaith da wedi ei wneud ar yr 89 o gamau yng nghynllun gweithredu 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', gyda dros ddwy ran o dair o'r camau gweithredu wedi eu cwblhau erbyn diwedd 2012-13. Rwy'n credu'n gryf bod gweithredu'r camau hyn wedi helpu i wella bywydau llawer o bobl yng Nghymru yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

The remaining actions now form a one-year action plan. My officials are continuing to make progress in delivering these, and proposals for doing so were discussed earlier this month at the first meeting of 'The Right to be Safe' implementation board. The board is responsible for monitoring and overseeing delivery of the strategy and holding the Welsh Government and partners to account in this respect. Its expert input will help to inform us as we further develop policy in this key area.

Mae'r camau gweithredu sy'n weddill bellach yn ffurfio cynllun gweithredu un flwyddyn. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio tuag at gyflawni'r rhain, a thrafodwyd cynigion ar gyfer gwneud hynny yn gynharach y mis hwn yng nghyfarfod cyntaf bwrdd gweithredu 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'. Mae'r bwrdd yn gyfrifol am fonitro a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth a dwyn Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gyfrif. Bydd ei gyfraniad arbenigol yn helpu i roi gwybodaeth wrth inni ddatblygu polisïau ymhellach yn y maes allweddol hwn.

Given that we are at the mid-way point of the six-year strategy, I believe that the third annual report provides clear evidence that this Government is delivering on its commitment to tackle violence against women, domestic abuse and sexual violence. We will build on this strong foundation as we move forward into a further challenging period, which will see new legislation and the alignment of resources and services to support our priorities.

O gofio ein bod hanner ffordd trwy'r strategaeth chwe blynedd, rwyf yn credu bod y trydydd adroddiad blynyddol yn rhoi tystiolaeth eglur bod y Llywodraeth hon yn cyflawni ei hymrwymiad i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Byddwn yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon wrth inni symud ymlaen i gyfnod heriol arall, a fydd yn gweld deddfwriaeth newydd ac ad-drefnu adnoddau a gwasanaethau i gefnogi ein blaenoriaethau.

I was pleased to note the Home Secretary's decision yesterday to roll out Clare's law across England and Wales from March 2014. Access to the right information is key to ensuring that individuals are able to make informed choices. Any mechanism for empowering people in this regard must surely be welcomed. I am also pleased that the scheme was piloted in Gwent; we will be looking to learn from that experience so that other forces in Wales can make the best use of this law.

Roeddwn yn falch o nodi penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref ddoe i gyflwyno cyfraith Clare ledled Cymru a Lloegr o fis Mawrth 2014. Mae'r gallu i weld y wybodaeth gywir yn allweddol o ran sicrhau bod unigolion yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus. Siawns na fydd croeso i unrhyw fecanwaith ar gyfer grymuso pobl yn hyn o beth. Rwy'n falch hefyd bod y cynllun wedi ei dreialu yng Ngwent; rydym yn bwriadu dysgu o'r profiad hwnnw er mwyn i heddluoedd eraill yng Nghymru allu gwneud y defnydd gorau o'r gyfraith hon.

What we are doing in Wales, including by delivering the actions set out in 'The Right to be Safe' strategy, and through the forthcoming legislation, will further improve the response and support provided to victims. I will update the Chamber on this in due course.

Bydd yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru, gan gynnwys cymryd y camau gweithredu a nodir yn strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', a thrwy'r ddeddfwriaeth sydd ar ddod, yn gwella ymhellach yr ymateb a'r cymorth a ddarperir i ddioddefwyr. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am hyn maes o law.

16:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have eight Members who wish to take part in this statement, which reflects its great public importance and the interest that Members have in this policy area. However, please help me by keeping your contributions as succinct as possible.

Mae gennyf wyth o Aelodau sy’n dymuno cymryd rhan yn y datganiad hwn, sy’n adlewyrchu ei bwysigrwydd mawr i’r cyhoedd a’r diddordeb sydd gan Aelodau yn y maes polisi hwn. Fodd bynnag, helpwch fi, os gwelwch yn dda, trwy gadw eich cyfraniadau mor gryno â phosibl.

16:48

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for your statement, Minister, and we join you in welcoming the Home Secretary’s decision to roll out Clare’s law across England and Wales from next March. I also welcome your recognition of the importance of enabling service users in the design and delivery of services.

Diolch yn fawr iawn am eich datganiad, Weinidog, ac rydym yn ymuno â chi i groesawu penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref i gyflwyno cyfraith Clare ledled Cymru a Lloegr o fis Mawrth nesaf. Rwyf hefyd yn croesawu’r ffaith eich bod yn cydnabod pwysigrwydd galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

You referred to criminal justice agencies. Could you provide us with an update on the current situation, where there is joint or partnership provision of statutory services delivered by statutory sector bodies and third sector bodies, such as the sexual assault referral centres, the independent domestic violence advisers and the independent sexual violence advisers? They receive Home Office funding in a three-year block, I believe, and they are all delivered with, or by, third sector bodies. However, all of them are also dependent on support from the Welsh Government, both financially and with parallel devolved services.

Cyfeiriwyd at asiantaethau cyfiawnder troseddol. A allech chi roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y sefyllfa bresennol, lle y darperir gwasanaethau statudol ar y cyd neu trwy bartneriaeth gan gyrff sector statudol a chyrff y trydydd sector, megis y canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, y cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a’r cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol? Maent yn derbyn cyllid gan y Swyddfa Gartref mewn bloc o dair blynedd, rwy’n credu, ac maent i gyd yn cael eu darparu gyda chyrff y trydydd sector neu ganddynt. Fodd bynnag, mae pob un ohonynt hefyd yn ddibynnol ar gymorth gan Lywodraeth Cymru, yn ariannol a chyda gwasanaethau cyfochrog sydd wedi’u datganoli.

When the all-Wales domestic abuse and sexual violence helpline was relaunched last year, Welsh Women’s Aid said that it was vital that general practitioners were made aware that there was a 24-hour service available providing information to support men and women in Wales who have experienced domestic abuse and sexual violence. How did or will the Welsh Government respond to that call to ensure that GPs encountering patients who have experienced, or may be experiencing, such violence or abuse can signpost people on appropriately?

Pan ail-lansiwyd llinell gymorth camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol Cymru gyfan y llynedd, dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru ei bod yn hanfodol i feddygon teulu gael gwybod bod gwasanaeth 24 awr y dydd ar gael sy’n darparu gwybodaeth i gefnogi dynion a menywod yng Nghymru sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Sut gwnaeth neu sut bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i’r alwad i sicrhau y gall meddygon teulu gyfeirio pobl at wasanaethau priodol pan fyddant yn ymdrin â chleifion sydd wedi dioddef, neu a allai fod yn dioddef, trais neu gamdriniaeth o’r fath?

When the Welsh Government previously adopted a gender-neutral approach in a previous Assembly, I noted research highlighted by Welsh Women’s Aid showing that male and female victims of domestic abuse and violence have different levels of need, often requiring different kinds of services where gender-neutral responses were not helpful. It told me that, in order to provide the best possible service and protection to all victims, we need to take into account context, consequence and different gender needs. So, as well as developing and delivering a gender-specific approach for females, how does the Welsh Government propose to develop and deliver a gender-specific approach for males? Will it note, for example, the evidence presented—your colleague Carl Sargeant heard it as well—at the annual general meeting of the Deeside domestic abuse safety unit in September in relation to the support that it is now providing for men, as well as women, on a gender-specific basis? There is also the evidence presented to the cross-party group on looked-after children some months ago by third sector providers that, although the greatest source of referral was still young girls and women, the biggest growth rate had been in relation to boys and young men.

Pan fabwysiadodd Llywodraeth Cymru ddull gweithredu niwtral o ran rhyw mewn Cynulliad blaenorol, nodais fod ymchwil a amlygwyd gan Cymorth i Fenywod Cymru yn dangos bod gan ddynion a menywod sy’n dioddef camdriniaeth a thrais domestig lefelau angen gwahanol, ac yn aml roeddynt angen gwahanol fathau o wasanaethau lle nad oedd ymatebion niwtral o ran rhyw yn ddefnyddiol. Dangosodd imi fod angen ystyried y cyd-destun, y canlyniadau a gwahanol anghenion y ddau ryw er mwyn darparu’r gwasanaeth a’r mesurau diogelwch gorau posibl i bob dioddefwr. Felly, yn ogystal â datblygu a chyflwyno dull penodol ar gyfer menywod, sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig datblygu a chyflwyno dull penodol ar gyfer dynion? A fydd yn nodi, er enghraifft, y dystiolaeth a gyflwynwyd—ac a glywyd gan eich cydweithiwr Carl Sargeant hefyd—yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol uned ddiogelwch cam-drin domestig Glannau Dyfrdwy ym mis Medi ynglŷn â’r cymorth penodol y mae bellach yn ei ddarparu i ddynion, yn ogystal â menywod? Hefyd, cyflwynodd darparwyr y trydydd sector dystiolaeth i’r grŵp trawsbleidiol ar blant sy’n derbyn gofal rai misoedd yn ôl, yn nodi mai merched ifanc a menywod yw mwyafrif yr atgyfeiriadau o hyd, ond bod y twf mwyaf i’w weld mewn achosion sy’n ymwneud â bechgyn a dynion ifanc.

I have pretty much got to where I wanted to in terms of my speech. However, I also want to clarify what dialogue you are having with Women's Aid, and with people who need support services, regarding both emergency housing and move-on housing, which is clearly key to dealing with the problems that arise, and also, of course, with regard to refuge provision, not only in terms of meeting need, but also in terms of boys when they hit the age of 16 and also where you have people perhaps exhibiting disruptive behaviour.

Rwyf wedi dweud yr hyn yr oeddwn am ei ddweud o ran fy araith. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn awyddus i chi egluro pa ddeialog yr ydych yn ei gael gyda Chymorth i Fenywod, a chyda phobl sydd angen gwasanaethau cymorth, ynghylch tai mewn argyfwng a thai symud ymlaen, sydd yn amlwg yn allweddol wrth ymdrin â phroblemau sy'n codi, a hefyd, wrth gwrs, o ran darparu lloches, nid yn unig o ran diwallu angen, ond hefyd o ran bechgyn pan fyddant yn cyrraedd 16 oed, a hefyd lle mae gennych bobl sydd efallai'n arddangos ymddygiad aflonyddgar.

16:51 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Mark Isherwood for his words of welcome for the statement and for his questions. I think that it is absolutely right that service users have input into assisting us in the development of services. You will be aware that yesterday was White Ribbon Day; I did several visits and events yesterday morning to raise awareness around that. One of the visits that I did was to a one-stop-shop in Newport. I think that these one-stop-shops are great places for people to go to in order to access several services. I certainly discussed with the people there the issues around gender-specific services that you raised. I have also visited the Dyn project, which I know that you are aware of, and I am having discussions with a great number of organisations. You asked me about Welsh Women's Aid, and I am having discussions with it, along with other third sector organisations.

Diolch i Mark Isherwood am groesawu'r datganiad ac am ei gwestiynau. Rwyf yn meddwl ei bod yn hollol iawn bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfrannu er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau. Byddwch yn ymwybodol ei bod yn Ddiwrnod Rhuban Gwyn ddoe; bûm mewn amryw o ymweliadau a digwyddiadau bore ddoe i godi ymwybyddiaeth o hynny. Roedd un o'r ymweliadau â siop un stop yng Nghasnewydd. Rwyf o'r farn bod y siopau un stop hyn yn lleoedd gwych i bobl fynd iddynt er mwyn cael mwy nag un gwasanaeth. Trafodais gyda'r bobl yno y problemau a godwyd gennych yn ymwneud â gwasanaethau penodol ar gyfer y ddau ryw. Rwyf hefyd wedi ymweld â'r prosiect Dyn, y gwn eich bod yn ymwybodol ohono, ac rwyf yn trafod gyda nifer fawr o sefydliadau. Roeddech yn gofyn am Gymorth i Fenywod Cymru, ac rwyf yn trafod â nhw, ynghyd â sefydliadau eraill yn y trydydd sector.

Independent domestic violence advisers are funded by the Home Office, as well as by us. I think that they have a huge role to play. I was talking to one yesterday in Newport, who told me how much her caseload had increased. I think that it is really important that we continue to fund these very important roles, as we look at the services.

Mae cynghorwyr annibynnol ar drais domestig yn cael eu hariannu gan y Swyddfa Gartref, yn ogystal â chanddom ni. Rwyf yn meddwl bod ganddynt swyddogaeth enfawr. Roeddwn yn siarad ag un ddoe yng Nghasnewydd, a dywedodd wrthyf cymaint yr oedd ei llwyth achosion wedi cynyddu. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn inni barhau i ariannu'r swyddogaethau pwysig iawn hyn, wrth edrych ar y gwasanaethau.

One thing that I have done is to have an independent review of services. That is so that I can see where the gaps are, if there are any. I think that that will really assist me in ensuring that the services that we provide across Wales are of consistent quality—that is very important. I also think that it is important that they are delivered in the right geographical areas, and also that there is sufficient demand. I have had the draft report, and my officials are working through that now. I will publish the report on the Welsh Government website in the new year.

Un peth yr wyf wedi'i wneud yw cynnal adolygiad annibynnol o wasanaethau er mwyn gallu gweld ble mae'r bylchau, os oes rhai. Rwyf yn meddwl y bydd hynny'n yn fy helpu'n fawr i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn ledled Cymru yn gyson o ran ansawdd—mae hynny'n bwysig iawn. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig iddynt gael eu darparu yn yr ardaloedd daearyddol cywir, a hefyd bod digon o alw. Rwyf wedi cael yr adroddiad drafft, ac mae fy swyddogion yn gweithio trwyddo yn awr. Byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn newydd.

You mentioned the all-Wales domestic abuse helpline, which we fund—the 24 hour one. That provides help, advice and emergency support. It received 16,118 calls last year, which was an increase of 20% on the previous year.

Soniwyd am linell gymorth camdriniaeth ddomestig Cymru gyfan, yr ydym yn ei hariannu—yr un 24 awr y dydd. Mae'n rhoi cymorth, cyngor a chefnogaeth mewn argyfwng. Cafodd 16,118 o alwadau y llynedd, sef 20% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

In my previous role, I worked alongside my predecessor, Carl Sargeant, and we attended the IRIS—identification and referral to improve safety—project in Bristol, in which general practitioners are involved, and that is something that I am keen to continue to look at as we go forward.

Roeddwn yn gweithio ochr yn ochr â'm rhagflaenydd, Carl Sargeant, yn fy swydd flaenorol ac aethom i'r prosiect IRIS—nodi ac atgyfeirio er mwyn gwella diogelwch—ym Mryste. Mae meddygon teulu yn rhan o'r prosiect, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn awyddus i barhau i'w ystyried wrth inni symud ymlaen.

16:54 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Deputy Children's Commissioner for England has produced a pretty harrowing report today on the sexual abuse of girls in gangs. Obviously, it is about England, but I am sure that, sadly, this is going on in Wales too. I wondered whether you could define for us how young the sexual abuse and violence against women initiative goes. What is your definition of how young the group of people is that we want to try to protect?

Mae Dirprwy Gomisiynydd Plant Lloegr wedi cyhoeddi adroddiad eithaf brawychus heddiw ar gam-drin merched yn rhywiol mewn gangiau. Yn amlwg, mae'n ymwneud â Lloegr, ond yn anffodus rwyf yn siŵr bod hyn yn digwydd yng Nghymru hefyd. Tybed a allech chi ddiffinio i ni pa mor ifanc yw'r merched yn y fenter cam-drin rhywiol a thrais yn erbyn menywod. Beth yw eich diffiniad o ba mor ifanc yw'r grŵp o bobl yr ydym am geisio eu hamddiffyn?

Prevention is always better than treatment. We have heard from the anti-human trafficking co-ordinator for Wales in the Communities, Equality and Local Government Committee about the awareness-raising that needs to go on among all people who work in Wales, from the carpenter who goes to the house where something has been boarded up, to any other person who might have contact with individuals who are at risk.

Mae atal bob amser yn well na thrin. Rydym wedi clywed gan y cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl ar gyfer Cymru yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ynglŷn â'r ffaith bod angen codi ymwybyddiaeth ymhlith pawb sy'n gweithio yng Nghymru, o'r saer sy'n mynd i'r tŷ lle y mae rhywbeth wedi cael ei fordio, i unrhyw un arall a allai ddod i gysylltiad ag unigolion sydd mewn perygl.

My specific question is on the work that is being done to prevent female genital mutilation. In the 2010 report, there was a commitment to produce a leaflet, which I do not feel I have seen, so I wonder how widely that has been disseminated. My biggest concern would be to ensure that all people who work with children in their daily lives—that is, people who work in schools—are fully aware of when children might be at risk of female genital mutilation. In the light of the NSPCC report, which you mentioned in your statement in the summer, about 70 women and girls were looking for treatment following this appalling act. So, I wondered whether you could just update us on that.

Mae fy nghwestiwn penodol yn ymwneud â'r gwaith sy'n cael ei wneud i atal enwaedu benywod. Cafwyd ymrwymiad yn adroddiad 2010 i baratoi taflen, ac nid wyf yn credu fy mod wedi ei gweld, felly tybed pa mor eang y dosbarthwyd y daflen. Fy mhryder mwyaf fyddai sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn eu bywydau bob dydd—hynny yw, pobl sy'n gweithio mewn ysgolion—yn gwbl ymwybodol o bryd y gallai merched fod mewn perygl o gael eu henwaedu. Yng ngoleuni adroddiad yr NSPCC, a grybwyllwyd gennych yn eich datganiad yn yr haf, roedd tua 70 o fenywod a merched yn chwilio am driniaeth yn dilyn y weithred warthus hon. Felly, tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny.

16:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to female genital mutilation, which is a horrific form of abuse and is very often hidden from view and shrouded in secrecy, but which we know has devastating physical and psychological consequences for both girls and women, we are continuing to establish mechanisms to encourage appropriate information-sharing with the police and with other agencies. I think that is a very important focus. Our forthcoming legislation will cover all forms of violence against women. You mentioned the age, and that is something that we are considering as we take the policy forward, and it will include FGM.

O safbwynt enwaedu benywod, sy'n ffurf erchyll o gam-drin ac yn aml iawn wedi'i guddio o'r golwg a than len o gyfrinachedd, ond sydd â chanlyniadau corfforol a seicolegol ddinistriol i ferched a menywod, rydym yn parhau i sefydlu mecanweithiau i annog prosesau rhannu gwybodaeth priodol gyda'r heddlu a chydag asiantaethau eraill. Credaf fod hwn yn bwyslais pwysig iawn. Bydd y ddeddfwriaeth sydd ar ddod yn cwmpasu pob math o drais yn erbyn menywod. Gofynnwyd am yr oedran, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried wrth inni ddatblygu'r polisi, a bydd yn cynnwys enwaedu benywod.

I do not know whether you are aware of this, but the International Day of Zero Tolerance to Female Genital Mutilation falls on Thursday 6 February next year. We will have a conference at the SWALEC Stadium in Cardiff, at which I will make the keynote speech. My officials also work very closely with other departments in the Welsh Government and with key stakeholders. We have recently reconvened the all-Wales FGM health and safeguarding forum, because I do think that we need to drive this agenda forward.

Nid wyf yn gwybod a ydych yn ymwybodol o hyn, ond bydd dydd Iau 6 Chwefror y flwyddyn nesaf yn Ddiwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch i Enwaedu Benywod. Cynhelir cynhadledd yn Stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd, lle byddaf yn siaradwr gwadd. Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio'n agos iawn gydag adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid allweddol. Yn ddiweddar, rydym wedi ailymgynnull Fforwm iechyd a diogelu Cymru gyfan ym maes enwaedu benywod, oherwydd fy mod o'r farn bod angen bwrw ymlaen â'r agenda hon.

There is very limited information on incidents of FGM in Wales. You mentioned human trafficking, which is another area where I do not think that we are seeing the true figures. You will be aware, and I have mentioned this before in the Chamber, that I attended an extraordinary inter-departmental ministerial meeting chaired by the Prime Minister at No. 10 last month. At that meeting, there was a lot of discussion about the way in which the police report human trafficking. Quite often, it is not reported as human trafficking, as another crime has been committed. Therefore, we are not getting the true number. I think that is an area where we need to do work to make sure that we are getting those numbers.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd am achosion o enwaedu benywod yng Nghymru. Soniwyd am y fasnach mewn pobl, sy'n faes arall lle nad wyf yn credu ein bod yn gweld y ffigurau cywir. Byddwch yn ymwybodol, ac rwyf wedi crybwyll hyn o'r blaen yn y Siambr, fy mod wedi mynd i gyfarfod gweinidogol rhyng-adrannol eithriadol a gadeiriwyd gan y Prif Weinidog yn Rhif 10 y mis diwethaf. Yn y cyfarfod hwnnw, bu llawer o drafodaeth am y ffordd y mae'r heddlu yn cyflwyno adroddiadau am fasnachu mewn pobl. Yn aml iawn, nid yw'n cael ei nodi'n achos o fasnachu mewn pobl, gan fod trosedd arall wedi'i chyflawni. Felly, nid ydym yn cael y niferoedd cywir. Credaf fod hwn yn faes lle y mae angen gwaith i wneud yn siŵr ein bod yn cael y niferoedd cywir hynny.

16:58

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for her statement. I would also like to thank her for attending a recent meeting of the cross-party group on violence against women and children. I hope that she found it worthwhile, as we certainly did.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Hoffwn hefyd ddiolch iddi am fynychu cyfarfod diweddar y grŵp trawsbleidiol ar drais yn erbyn menywod a phlant. Gobeithio ei bod yn ei ystyried yn werth chweil, fel y gwnaethom ni yn sicr.

When 'The Right to be Safe' strategy was introduced, it was very welcome and it is especially pleasing that many aspects of the strategy are progressing, and I obviously wish it every success. However, I would like the Minister to clarify some concerns. There is often a tendency to see violence against women in the context of partner-on-partner domestic violence only. I know that there is concern that public policy here should not be focused on only one aspect of violence against women. For example, do you have any statistics to share with us on the number of parents who may be subject to attacks from their own children? I know that the University of Oxford has done its first academic study on this area, which I believe was published this month. It is probably worth noting that son-to-mother violence was the most common form, and I wonder whether the Minister was aware of that research.

Cafwyd llawer o groeso i'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' pan gafodd ei chyflwyno, ac mae'n arbennig o braf bod llawer o agweddau ar y strategaeth yn mynd rhagddynt, ac rwyf yn amlwg yn dymuno pob llwyddiant iddi. Fodd bynnag, hoffwn i'r Gweinidog egluro rhai materion sy'n destun pryder. Yn aml mae tuedd i weld trais yn erbyn menywod yng nhyd-destun trais domestig gan bartner yn unig. Gwn fod pryder na ddylai polisi cyhoeddus ganolbwyntio ar un agwedd ar drais yn erbyn menywod yn unig. Er enghraifft, a oes gennych unrhyw ystadegau i'w rhannu gyda ni ar nifer y rhieni a all fod yn dioddef ymosodiadau gan eu plant eu hunain? Gwn fod Prifysgol Rhydychen wedi gwneud ei hastudiaeth academaidd gyntaf ar y maes hwn, a chredaf iddi gael ei chyhoeddi y mis hwn. Mae'n debyg ei bod yn werth nodi mai trais gan fab ar fam oedd y math mwyaf cyffredin, tybed a oedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r ymchwil honno?

Can the Minister also enlighten me on the improved working with the UK Government, especially the Home Office and the Ministry of Justice, because so many aspects of this area are not devolved? As you said in your statement, for the Welsh Government's intentions to be fulfilled, co-operation with Whitehall is vital.

A all y Gweinidog hefyd roi mwy o fanylion i mi am y trefniadau gwell gyda Llywodraeth y DU, yn enwedig y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, oherwydd nad yw llawer o agweddau ar y maes hwn wedi eu datganoli? Fel y nodwyd yn eich datganiad, mae'n hanfodol cydweithredu â Whitehall er mwyn gallu cyflawni bwriadau Llywodraeth Cymru.

Are there any implications for devolved agencies and services in relation to the roll-out of Clare's law that you mentioned earlier? That potentially gives women access to information about a partner's violent past. Will any members of the expert panels consider applications, and will any of those members be drawn from devolved agencies that you are aware of?

A oes unrhyw oblygiadau i asiantaethau a gwasanaethau sydd wedi'u datganoli o ran cyflwyno cyfraith Clare, a grybwyllwyd gennych yn gynharach? Bydd hon o bosibl yn rhoi hawl i fenywod weld gwybodaeth am orffennol treisgar partner. A fydd unrhyw aelodau o'r paneli arbenigol yn ystyried ceisiadau, ac a ydych yn ymwybodol pa un a fydd unrhyw un o'r aelodau hynny yn cael ei ddewis o blith asiantaethau datganoledig?

As we are also operating in the context of dwindling public spending, can the Minister give assurances that programmes that have proven to be successful are not slashed? There has been previously been concerns about examples of the inadequacies of perpetrator programmes in this country. Such programmes are important if we want to see long-term improvement. I would be very interested in your views on early intervention, so that young children especially do not develop a sense that domestic abuse is normal.

Gan ein bod hefyd yn gweithredu yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus, a all y Gweinidog roi sicrwydd na fydd rhaglenni sydd wedi profi'n llwyddiannus yn cael eu cwtogi? Mynegwyd pryderon yn flaenorol am enghreifftiau o ddiffygion y rhaglenni tramgwyddwyr yn y wlad hon. Mae rhaglenni o'r fath yn bwysig os ydym am weld gwelliant yn y tymor hir. Byddai gennyf ddiddordeb mawr i glywed eich barn ar ymyriadau cynnar, er mwyn sicrhau nad yw plant ifanc yn arbennig yn datblygu teimlad bod cam-drin domestig yn rhywbeth arferol.

Could you update us on the concerns of those running domestic abuse refuges in relation to the introduction of the universal credit and benefit cap, and the uncertainty that some of the refuge services will not be covered by the definition of 'supported exempt accommodation'? Could you tell us whether the UK Government has shifted its position on this specific matter?

A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am bryderon y rhai sy'n rhedeg llochesau camdriniaeth ddomestig o safbwynt cyflwyno'r cap ar fudd-daliadau a'r credyd cynhwysol, a'r ansicrwydd na fydd rhai o'r gwasanaethau lloches yn cael eu cynnwys gan y diffiniad o 'lety â chymorth eithriedig'? A allech ddweud wrthym a yw Llywodraeth y DU wedi newid ei safbwynt ar y mater penodol hwn?

Lastly, on women without recourse to public funds due to their uncertain immigration status, I am sure that you would, like me, acknowledge their terrible plight, trapped in violence without access even to emergency accommodation. Does your strategy offer this specific victim group any hope? Will you press the UK Government to end this desperate situation, as it has pledged to do so, but as yet has failed?

Yn olaf, o ran menywod nad yw arian cyhoeddus ar gael iddynt oherwydd eu statws mewnfudo ansicr, rwyf yn siŵr y byddech, fel fi, yn cydnabod eu hamgylchiadau erchyll, yn gaeth mewn sefyllfa dreisgar heb allu defnyddio llety brys hyd yn oed. A yw eich strategaeth yn cynnig unrhyw obaith i'r grŵp penodol hwn o ddioddefwr? A wnewch chi bwyso ar Lywodraeth y DU i roi terfyn ar y sefyllfa anobeithiol hon, fel y mae wedi addo gwneud, ond hyd yn hyn wedi methu?

17:02

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jocelyn Davies for those questions, and I certainly did enjoy attending the cross-party group. It was very good to have a discussion with so many people from this sector who are the experts in this area.

Diolch i Jocelyn Davies am y cwestiynau hynny, ac yn sicr fe wnes fwynhau mynd i'r grŵp trawsbleidiol. Roedd yn dda iawn cael trafodaeth gyda chymaint o bobl o'r sector hwn sy'n arbenigwyr yn y maes.

I was aware of the Oxford research but I do not have the statistics to hand. You are quite right—it is another form of violence that we do not hear much about. I think that we need to have a look at that.

Rwy'n ymwybodol o waith ymchwil Rhydychen, ond nid oes gennyf yr ystadegau wrth law. Rydych yn llygad eich lle—mae'n fath arall o drais nad ydym yn clywed llawer amdano. Credaf fod angen i ni edrych ar hynny.

In relation to Clare's law, as I said, I welcomed the Home Secretary's decision yesterday. My officials work very closely with the Home Office and the Ministry of Justice, because so many areas are not devolved to the Assembly.

Ynglŷn â chyfraith Clare, fel y dywedais, rwy'n croesawu penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref ddoe. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, oherwydd bod cymaint o feysydd nad ydynt wedi'u datganoli i'r Cynulliad.

You mentioned the difficult financial climate that we are in, and it sends out a very strong message that, as Minister, I and the whole of the Welsh Government are very committed to this agenda. This year, the budget was protected; it remained at £3.6 million. Next year, I have increased it to £4 million. It is one of the very small areas in my portfolio for which I have increased funding, because I thought that if we are bringing legislation forward, it was only right that I increased the budget.

Fe wnaethoch grybwyll yr hinsawdd ariannol anodd, ac mae'n anfon neges gref iawn fy mod i, fel Gweinidog, a Llywodraeth Cymru gyfan yn ymroddedig iawn i'r agenda hon. Cafodd y gyllideb ei diogelu eleni; arhosodd ar £3.6 miliwn. Y flwyddyn nesaf, rwyf wedi ei chynyddu i £ 4 miliwn. Mae'n un o'r meysydd bach iawn yn fy mhortffolio lle'r wyf wedi cynyddu'r arian, oherwydd fy mod o'r farn ei bod yn briodol cynyddu'r gyllideb os ydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth.

You spoke about perpetrators, and, funnily enough, I had a conversation yesterday with officials about this. I think that this is an area where we need to do a little bit more. There are some very good perpetrator programmes out there; interestingly, there are some in prison because when someone comes out of prison, they may not have anywhere else to go. It is important that work that started in prison is continued in the community. So, that is an area that I want to look at.

Fe wnaethoch sôn am y troseddwyr, ac, yn rhyfedd ddigon, cefais sgwrs ddoe gyda swyddogion ynglŷn â hyn. Credaf fod hwn yn faes lle y mae angen i ni wneud ychydig yn fwy. Ceir rhai rhaglenni da iawn ar gyfer troseddwyr; yn ddiddorol, ceir rhai ohonynt yn y carchar oherwydd pan ddaw rhywun allan o'r carchar, efallai na fydd ganddynt unrhyw le arall i fynd. Mae'n bwysig bod y gwaith a ddechreuodd yn y carchar yn cael ei barhau yn y gymuned. Felly, mae hwnnw'n faes yr wyf am edrych arno.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:00.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17:00.*

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

In relation to children, one of the themes in the White Paper consultation on the Bill was about education in our schools of healthy relationships. It is something that I am taking forward in discussions with my colleague Huw Lewis, the Minister for Education and Skills.

O ran plant, un o'r themâu yn ymgynghoriad y Papur Gwyn ar y Bil oedd addysg yn ein hysgolion am berthynas iach ag eraill. Mae'n rhywbeth yr wyf yn bwrw ymlaen ag ef mewn trafodaethau gyda'm cydweithiwr, Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

In relation to refuge and the universal credit cap, I am not aware that the UK Government has changed its position, but it is a conversation that we can continue to have.

O safbwynt lloches a'r cap ar gredyd cynhwysol, nid wyf yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi newid ei safbwynt, ond mae'n sgwrs y gallwn barhau â hi.

It is incredibly difficult for women without recourse to public funds, as you say. I met some at Llandaff Cathedral yesterday, where we had a service for White Ribbon Day. You will be aware that we fund the Black Association of Women Step Out to take forward this work, but it is an area that we need to keep a focus on to ensure that we do all that we can to help women who find themselves in that position.

Mae'n hynod o anodd i fenywod nad yw arian cyhoeddus ar gael iddynt, fel y dywedwch. Cyfarfûm â rhai yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ddoe, lle cawsom wasanaeth ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn. Byddwch yn ymwybodol ein bod yn ariannu Black Association of Women Step Out i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ond mae'n faes y mae angen inni barhau i ganolbwyntio arno er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu menywod sy'n eu cael eu hunain yn y sefyllfa honno.

17:04

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement and the progress that has been made so far. I am pleased that the Welsh Government has repeatedly reaffirmed its commitment to delivering 'The Right to be Safe' strategy. The commitment to a domestic abuse Bill and to taking that forward is also to be welcomed.

Croesawaf y datganiad a'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad dro ar ôl tro i gyflawni 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'. Mae'r ymrwymiad i Fil cam-drin domestig ac i fwrw ymlaen â hynny hefyd i'w groesawu.

I have a few questions, Minister, arising from your statement and from the third annual report. In that report, you propose a delivery plan for the continuing 10,000 Safer Lives project. When will that delivery plan be published and how will it improve the response of the public service to victims of domestic abuse in Wales? You also state that, of the 89 actions, 66 have been achieved, which I think is good, though not all of them were achieved within the timescales set. In respect of the remaining 23, do you envisage that the one-year plan that you are now proposing to publish will cover all those 23 within that timescale? If so, will you then be refreshing the actions or are you looking to set a new set of targets coming out of the consultation on the White Paper and the Bill?

Mae gennyf ychydig o gwestiynau, Weinidog, yn deillio o'ch datganiad ac o'r trydydd adroddiad blynyddol. Yn yr adroddiad, rydych yn cynnig cynllun cyflawni ar gyfer y prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach, sy'n parhau. Pryd y bydd y cynllun cyflawni yn cael ei gyhoeddi a sut y bydd yn gwella ymateb y gwasanaeth cyhoeddus i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig yng Nghymru? Rydych hefyd yn datgan bod 66 o'r 89 o gamau gweithredu wedi cael eu cyflawni, sy'n dda, er na chyflawnwyd pob un ohonynt o fewn y terfynau amser a osodwyd. O ran y 23 sy'n weddill, a ydych yn rhagweld y bydd y cynllun blwyddyn yr ydych yn awr yn bwriadu ei gyhoeddi yn cyflawni pob un o'r 23 o fewn yr amserlen honno? Os felly, a fyddwch wedyn yn adnewyddu'r camau gweithredu neu a ydych yn bwriadu gosod cyfres newydd o dargedau yn deillio o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a'r Bil?

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Finally, Minister, in relation to the human trafficking issue, we had a presentation in the Communities, Equality and Local Government Committee last week, which was very useful. I understand that the UK Government is bringing forward a Bill on that; could you update us on what discussions you have had with the UK Government about how it can learn from the work that we have done on this issue and how that Bill can reinforce that work, particularly in terms of identifying victims of human trafficking?

Yn olaf, Weinidog, o ran masnachu mewn pobl, cawsom gyflwyniad defnyddiol iawn yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yr wythnos diwethaf. Deallaf fod Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil ar hynny; a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sut y gall ddysgu o'r gwaith yr ydym ni wedi'i wneud ar y mater hwn a sut y gall y Bil atgyfnerthu'r gwaith hwnnw, yn enwedig o ran canfod pobl sydd wedi cael eu masnachu?

I thank Peter Black for his words and for his questions. In relation to the 10,000 Safer Lives project, what is really important is that we can demonstrate that we have made 10,000 lives safer. In fact, when we have the evaluation and when we see how this project has worked, it will actually be more. For example, if a woman has children, you can incorporate those into the figures as well.

Diolch i Peter Black am ei eiriau ac am ei gwestiynau. O ran y prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach, yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw y gallwn ddangos ein bod wedi gwneud 10,000 o fywydau'n fwy diogel. Yn wir, pan fydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau a phan fyddwn yn gweld sut y mae'r prosiect hwn wedi gweithio, bydd mewn gwirionedd yn fwy. Er enghraifft, os bydd gan fenyw blant, gallwch gynnwys y rheini yn y ffigurau hefyd.

I have mentioned workplace policies before; that is an area that I have been really keen to get policies in place. We held two seminars, one in north Wales and one in south Wales, for public sector organisations. I am very pleased that nearly all public sector organisations now, including the Welsh Government, have workplace policies in place. Yesterday, I went to the University Hospital of Wales in Cardiff to see its workplace policy. It had a stall set up, and just yesterday morning, two people had disclosed. They had gone and spoken to people who were manning the stall. One was a member of staff and one was a patient. So, you can see that people do really understand the workplace policies and feel comfortable to come forward to disclose. As somebody—I think that it was the head of nursing—said to me, normally they would have just given them a leaflet, but now they know how they can passport them and help them.

Rwyf wedi crybwyll polisïau yn y gweithle o'r blaen, mae hwnnw'n faes lle'r wyf wedi bod yn awyddus iawn i sefydlu polisïau. Rydym wedi cynnal dau seminar, un yng ngogledd Cymru ac un yn y de, ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Rwyf yn falch iawn bod bron pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn awr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi sefydlu polisïau yn y gweithle. Roeddwn yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd ddoe, yn gweld ei bolisi yn y gweithle. Roedd stondin yno, a dim ond bore ddoe, roedd dau o bobl wedi datgelu. Roeddynt wedi mynd i siarad â phobl a oedd wrth y stondin. Roedd un yn aelod o staff ac un yn glaf. Felly, gallwch weld bod pobl yn deall y polisïau yn y gweithle ac yn teimlo'n gyfforddus i ddod ymlaen i ddatgelu. Fel y dyweddodd rhywun wrthyf—credaf mai'r pennaeth nyrsio—fel arfer byddent wedi rhoi taflen iddynt, ond erbyn hyn maent yn gwybod sut y gallant eu cyfeirio a'u helpu.

In relation to the one-year action plan, yes, I do expect all the outstanding actions to be implemented in the one year. It then depends whether we have a new target or whether we refresh it. We have the Bill going through and I mentioned the independent review of services. All these things together will help us with our direction as we take this agenda forward.

O ran y cynllun gweithredu blwyddyn, ydw, rwy'n disgwyl i'r holl gamau gweithredu gael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn. Yna mae'n dibynnu a oes angen targed newydd ynteu a fyddwn yn ei adnewyddu. Mae'r Bil ar waith a chrybwyllais yr adolygiad annibynnol o wasanaethau. Bydd yr holl bethau hyn gyda'i gilydd yn ein helpu â'n cyfeiriad wrth i ni fwrw ymlaen â'r agenda hon.

In relation to human trafficking, it is absolutely the aim of this Government to make Wales as hostile as possible to human trafficking and to ensure that, when we have people who have been trafficked, we give them the very best support. It is something that is very much in the news at the moment and, as horrendous as it is, I think that it is good that people are much more aware now that human trafficking goes on in Wales and in the UK in 2013. We are having discussions with the UK Government. It has its modern slavery Bill. I mentioned the meeting that I attended, which the Prime Minister chaired, and I had the opportunity to say what we were doing in Wales. Wales was the first country to have an anti-human-trafficking co-ordinator in Stephen Chapman, who is doing some great work and has very good contacts. One of the things that I want to see is that, when we have cases of human trafficking, they are reported, and that they are not just reported as a rape case or a burglary or whatever. If it is human trafficking, I want to see those figures. We are doing work with the police to ensure that that happens.

O ran masnachu mewn pobl, yn sicr nod y Llywodraeth hon yw gwneud Cymru mor elyniaethus â phosibl i fasnachu mewn pobl, ac i sicrhau ein bod yn rhoi'r cymorth gorau i unrhyw un sydd wedi cael ei fasnachu. Mae'n rhywbeth sydd yn y newyddion yn aml ar hyn o bryd ac, er mor erchyll ydyw, rwyf yn meddwl ei bod yn beth da bod pobl yn llawer mwy ymwybodol bellach bod masnachu mewn pobl yn digwydd yng Nghymru ac yn y DU yn 2013. Rydym wrthi'n trafod gyda Llywodraeth y DU. Mae ganddi ei Bil Caethwasiaeth Modern. Soniais am y cyfarfod y bûm ynddo, a gadeiriwyd gan y Prif Weinidog, a chefais y cyfle i sôn am yr hyn yr ydym ni yng Nghymru yn ei wneud. Cymru oedd y wlad gyntaf i gael cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl, sef Stephen Chapman. Mae'n gwneud gwaith gwych ac mae ganddo gysylltiadau da iawn. Un o'r pethau yr wyf am ei weld yw hysbysu am achosion o fasnachu mewn pobl, ac nid hysbysu amdanynt fel achos o dreisio neu ladrad neu beth bynnag. Os yw'n achos o fasnachu mewn pobl, rwyf am weld y ffigurau hynny. Rydym yn gwneud gwaith gyda'r heddlu i sicrhau bod hynny'n digwydd.

17:09

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We have had a speaker from each of the parties, so I request that Members try to stick to questions. I call on Joyce Watson.

Rydym wedi cael siaradwr o bob un o'r partïon, felly gofynnaf i'r Aelodau geisio cadw at gwestiynau. Galwaf ar Joyce Watson.

17:09

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very pleased to take part here today in response to your statement. As you say, Minister, over two-thirds of the 89 actions have been completed, so we are well on the way to realising the plan. Every successful implemented action means more help, better support and stronger protection for those affected by violence and abuse. I want to take this opportunity to thank you, Minister, for supporting the White Ribbon campaign this year. It has been a huge success and I think that every Member in the Chamber has engaged in that campaign. So far, it has collected thousands of signatures of people across Wales pledging their support never to commit, condone, or remain silent about violence against women.

Rwyf yn falch iawn i gymryd rhan yma heddiw mewn ymateb i'ch datganiad. Fel y dywedwch, Weinidog, mae dros ddwy ran o dair o'r 89 o gamau wedi'u cwblhau, felly rydym yn sicr ar y ffordd i wireddu'r cynllun. Mae pob cam a weithredir yn llwyddiannus yn golygu mwy o help, gwell cefnogaeth ac amddiffyniad cryfach i'r rhai hynny yr effeithir arnynt gan drais a chamdriniaeth. Rwyf am achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi, Weinidog, am gefnogi'r ymgyrch Rhuban Gwyn eleni. Mae wedi bod yn llwyddiant mawr a chredaf fod pob Aelod yn y Siambr wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch honno. Hyd yn hyn, mae miloedd o lofnodion wedi eu casglu gan bobl ledled Cymru yn addo eu cefnogaeth i beidio byth â chyflawni, goddef, nac aros yn dawel am drais yn erbyn menywod.

I want to pick up on the fact that a campaign is great and the awareness is fantastic, but it has to be translated into better-funded services and changed attitudes. So, I hope that that will be the case. I was also pleased with the Home Secretary's decision yesterday to roll out Clare's law nationwide from March 2014. However, there has been an important change since the launch of this strategy in 2010, which is the establishment of police and crime commissioners. May I ask whether you are satisfied that the Welsh commissioners are engaging with this strategy? If I give an example of the commissioner for Greater Manchester—

Rwyf am gyfeirio at y ffaith fod ymgyrch yn wych a bod yr ymwybyddiaeth yn ardderchog, ond mae'n rhaid trosi hynny'n wasanaethau wedi'u hariannu'n well ac agweddau wedi'u newid. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n digwydd. Roeddwn hefyd yn falch o benderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref ddoe i gyflwyno cyfraith Clare yn genedlaethol o fis Mawrth 2014. Fodd bynnag, mae newid pwysig wedi bod ers lansio'r strategaeth hon yn 2010, sef sefydlu comisiynwyr heddlu a throseddu. A gaf fi ofyn a ydych yn fodlon bod y comisiynwyr yng Nghymru yn ymgysylltu â'r strategaeth hon? Er enghraifft, mae'r comisiynydd ar gyfer Manceinion Fwyaf-

17:11

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. Could you try to stick to questions, please, because we are way out of time?

Trefn. A allech chi geisio cadw at gwestiynau, os gwelwch yn dda? Rydym ymhell ar ei hôl hi.

17:11 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. This is my question: given that the commissioner for Greater Manchester has funded specialist domestic violence victim support staff in accident and emergency departments, would you look at promoting a similar initiative here?

Iawn. Dyma fy nghwestiwn: o gofio bod y comisiynydd ar gyfer Manceinion Fwyaf wedi ariannu staff cymorth arbenigol ar gyfer dioddefwyr trais domestig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, a fyddech yn ystyried hyrwyddo menter debyg yma?

17:11 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Joyce Watson for sponsoring the event last week in the Senedd—the Not in My Name campaign, which was very well attended. Such events raise awareness and change people's attitudes, so it was very good that you organised that last week.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am noddi'r digwyddiad yr wythnos diwethaf yn y Senedd—yr ymgyrch Nid yn Fy Enw I, ac roedd llawer o bobl yn bresennol. Mae digwyddiadau o'r fath yn codi ymwybyddiaeth ac yn newid agweddau pobl, felly roedd yn dda iawn eich bod wedi trefnu hynny yr wythnos diwethaf.

You mentioned specifically PCCs, whom I meet with regularly, and I know that Alun Michael, the south Wales PCC, and Sophie Howe, the deputy commissioner, are looking at this. They are looking into what work can be done around A&E departments; it certainly needs to be looked at. Again, we go back to 'ask and act', and A&E departments are now taking that on board. Certainly, Betsi Cadwaladr University Health Board has led the way in relation to 'ask and act'.

Yr oeddech yn sôn yn benodol am Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, a byddaf yn cyfarfod â nhw yn rheolaidd, a gwn fod Alun Michael, Comisiynydd de Cymru, a Sophie Howe, y dirprwy gomisiynydd, yn edrych ar hyn. Maent yn ystyried pa waith y gellir ei wneud mewn adrannau damweiniau ac achosion brys; mae'n sicr yn rhywbeth y mae angen ei ystyried. Unwaith eto, rydym yn mynd yn ôl at 'ofyn a gweithredu', ac mae adrannau damweiniau ac achosion brys yn derbyn hynny bellach. Yn sicr, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi arwain y ffordd o ran 'gofyn a gweithredu'.

17:12 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I welcome your statement and I fully support it. My questions are: what specific action have you taken to encourage victims to report violence incidents, and what discussions have you had with the police and crime commissioners to raise awareness of this problem to ensure that it is dealt with as a priority in Wales? Also, one other problem that has been highlighted is the inconsistency in standards and availability of support services for victims of sexual violence in Wales. Will the Minister confirm that providing support services that are consistent and available across Wales is a priority in her policies?

Weinidog, rwyf yn croesawu eich datganiad ac yn ei gefnogi'n llwyr. Dyma fy nghwestiynau: pa gamau penodol yr ydych wedi'u cymryd i annog dioddefwyr i hysbysu am ddigwyddiadau o drais, a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu i godi ymwybyddiaeth o'r broblem hon er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth iddi yng Nghymru? Hefyd, un broblem arall sydd wedi cael ei hamlygu yw'r anghysondeb o ran safonau'r gwasanaethau cymorth a faint ohonynt sydd ar gael i ddioddefwyr trais rhywiol yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod gwasanaethau cymorth cyson sydd ar gael ledled Cymru yn flaenoriaeth yn ei pholisïau?

Finally, I am sure that you are doing a wonderful job and all of my colleagues have mentioned that you are facing problems. In Wales, there are all of these rules and regulations. In my region, more than 30 languages are spoken, so your message on domestic violence and abuse is going across a wide range of communities and they understand the culture. Especially, eastern Europeans are coming in, and they are not bringing their children and ladies. However, seriously, arms are coming into this country. You have to think very differently about the future and violence. It is not only women and child violence; there will be violence with ammunition, or guns, in other cultures also.

Yn olaf, rwyf yn siŵr eich bod yn gwneud gwaith gwych ac mae fy nghydweithwyr i gyd wedi sôn eich bod yn wynebu problemau. Mae gennym yr holl reolau hyn yng Nghymru. Yn fy rhanbarth i, mae mwy na 30 o ieithoedd yn cael eu siarad, felly mae eich neges ar drais a chamdriniaeth ddomestig yn mynd i ystod eang o gymunedau ac maent yn deall y diwylliant. Mae dynion o ddwyrain Ewrop yn benodol yn dod yma, ac nid ydynt yn dod â'u plant a'u merched. Fodd bynnag, o ddifrif, mae arfau yn dod i mewn i'r wlad. Mae'n rhaid i chi feddwl yn wahanol iawn am y dyfodol a thrais. Nid trais yn erbyn menywod a phlant yn unig sy'n bodoli; bydd trais gyda ffrwydron, neu ddrylliau, mewn diwylliannau eraill hefyd.

17:14 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mohammad Asghar for those questions. I mentioned in my answer to Joyce Watson that I meet regularly with the police and crime commissioners. There was a great deal of work going on before their elections by the chief constables and the police forces and I think that that work has carried on. Certainly, I am convinced that it is a priority for them, as much as it is for me.

Diolch i Mohammad Asghar am y cwestiynau hynny. Soniais yn fy ateb i Joyce Watson fy mod yn cyfarfod yn rheolaidd â chomisiynwyr heddlu a throseddu. Roedd llawer iawn o waith ar y gweill cyn iddynt gael eu hethol, gan y prif gwnstabliaid a'r heddluoedd a chredaf fod y gwaith hwnnw wedi parhau. Yn sicr, rwyf yn argyhoeddedig ei fod yn flaenoriaeth iddynt hwy, gymaint ag y mae i mi.

I mentioned the independent review being undertaken of all violence against women—domestic abuse and sexual violence—services in Wales. I have the draft report and I am looking at the findings, because one of the things that I want to do is to ensure that we have that consistency of services right across Wales. I do not want to see patchy services. I want to know where those gaps are, so that we can direct the funding. I mentioned that I have not just protected the budget, but increased it for next year, because I place so much importance on this area.

Soniais am yr adolygiad annibynnol a gynhelir o'r holl wasanaethau ym maes trais yn erbyn menywod—camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol—yng Nghymru. Mae'r adroddiad drafft gennyf, ac rwyf yn edrych ar y canfyddiadau, oherwydd mai un o'r pethau yr wyf am ei wneud yw sicrhau bod ein gwasanaethau'n gyson ledled Cymru. Nid wyf am weld gwasanaethau anghyson. Rwyf eisiau gwybod lle mae'r bylchau hynny, er mwyn gallu cyfeirio'r cyllid. Soniais fy mod wedi cynyddu'r gyllideb, nid dim ond ei gwarchod, ar gyfer y flwyddyn nesaf, oherwydd fy mod yn rhoi cymaint o bwys ar y maes hwn.

17:15 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I want to thank you for your statement, Minister. There is just one question that I wanted to focus on, even though there are lots that I could have focused on. According to the charity DeafHope, which is the only support service for women who are deaf or hard of hearing and which supports them and their children after domestic violence, deaf women are twice as likely as hearing women to experience domestic abuse. Any disability, we know, makes people vulnerable, but if you have a hidden disability such as deafness, you are more vulnerable, to my mind. Also, that disability precludes you from leaving an abusive situation. It is reckoned that some 22 deaf or hard of hearing people are every day at additional risk of domestic violence. What are you doing to make sure that there are support services for those with a disability, but particularly those who are deaf and would need some additional support services?

Rwyf am ddiolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Dim ond un cwestiwn yr oeddwn yn dymuno canolbwyntio arno, er y gallwn fod wedi canolbwyntio ar lawer. Yn ôl yr elusen DeafHope, sef yr unig wasanaeth cymorth i fenywod sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, ac sy'n eu cefnogi nhw a'u plant ar ôl trais domestig, mae menywod byddar ddwywaith yn fwy tebygol na merched sy'n gallu clywed o ddioddef camdriniaeth ddomestig. Rydym yn gwybod bod unrhyw anabledd yn gwneud pobl yn agored i niwed, ond os oes gennych anabledd cudd fel byddardod, rydych yn fwy agored i niwed, yn fy marn i. Hefyd, mae'r anabledd hwnnw'n eich atal rhag gadael sefyllfa dreisiol. Bernir bod tua 22 o bobl fyddar neu drwm eu clyw mewn perygl ychwanegol o drais domestig bob dydd. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gael ar gyfer pobl ag anabledd, ond yn enwedig pobl sy'n fyddar ac y byddai angen rhai gwasanaethau cymorth ychwanegol arnynt?

17:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that question. I had heard that figure in relation to deaf women, so I think that you raise a very important point, and I will go back to the independent review of services. That is why I had the review—if we identify that there is a gap, for instance, in the services that we provide for deaf women, I need to know about that so that we can direct those services to make sure that everyone feels safe and is safe, because that is everyone's right.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn wedi clywed y ffigur hwnnw ynglŷn â menywod byddar, felly rwyf yn meddwl eich bod yn codi pwynt pwysig iawn, a byddaf yn mynd yn ôl at yr adolygiad annibynnol o wasanaethau. Dyna pam yr wyf wedi cynnal yr adolygiad—os ydym yn nodi bod bwlch, er enghraifft, yn y gwasanaethau a ddarparwn i fenywod byddar, mae angen imi wybod am hynny er mwyn gallu cyfeirio'r gwasanaethau hynny i wneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn ddiogel, oherwydd mae gan bawb hawl i hynny.

17:16 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have just one issue to raise with you, Minister. A while back in this Chamber, I spoke about how it was important that people experiencing domestic violence in same-sex relationships were not in any way disadvantaged when it came to accessing services and support, and you told me that you had agreed to fund some further research to identify the scale of the issue within the lesbian, gay, bisexual and transgender communities and to assess whether there were specific barriers preventing individuals from accessing support or services. I was wondering whether you could give an update on that research or perhaps some timelines as to when some findings might be available.

Mae gennyf un mater i'w godi gyda chi, Weinidog. Beth amser yn ôl yn y Siambr hon, soniais ei bod yn bwysig nad yw pobl sy'n dioddef trais domestig mewn perthynas gyda rhywun o'r un rhyw o dan anfantais mewn unrhyw ffordd o ran cael gafael ar wasanaethau a chymorth. Fe wnaethoch chi ddweud eich bod wedi cytuno i ariannu peth ymchwil ychwanegol i nodi maint y broblem o fewn y cymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ac i asesu a oedd rhwystrau penodol yn atal unigolion rhag mantesio ar gymorth neu wasanaethau. Tybed a allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ymchwil hwnnw neu efallai ddweud pryd y bydd canfyddiadau ar gael.

17:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I can certainly give you a timeline. The study will report to me in the spring of next year. It is currently under way. I think that it is really important that we identify the scale of the issue within LGBT communities and any barriers that LGBT people have in accessing services for domestic abuse. It was an issue that was raised with me when I visited the Dyn project in Cardiff earlier this year.

Gallaf yn sicr roi syniad o'r amserlen i chi. Bydd yr astudiaeth yn cyflwyno adroddiad imi yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Mae'r ymchwil ar waith ar hyn o bryd. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn nodi maint y broblem o fewn cymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac unrhyw rwystrau y mae'r bobl hynny yn eu profi wrth geisio cael gafael ar wasanaethau camdriniaeth ddomestig. Roedd hwn yn fater a godwyd gyda mi ar fy ymweliad â'r prosiect Dyn yng Nghaerdydd yn gynharach eleni.

17:17

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013

## The Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 and the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

It is proposed that the next two motions be grouped for debate, unless any Member objects. There are no objections. I call on the Minister for Local Government and Government Business to move the motions; Lesley Griffiths.

Cynigir bod y ddau gynnig nesaf yn cael ei grwpio ar gyfer y drafodaeth, oni bai fod Aelod yn gwrthwynebu. Nid oes gwrthwynebiadau. Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynigion; Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5364 Lesley Griffiths

Motion NDM5364 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2013.

Approves that the draft The Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 4 November 2013.

Cynnig NDM5365 Lesley Griffiths

Motion NDM5365 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2013.

Approves that the draft The Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 4 November 2013.

17:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Thank you, Presiding Officer. I move the motions.

Diolch, Lywydd. Cynigiaf y cynigion.

The Constitutional and Legislative Affairs Committee scrutinised these regulations ahead of today's debate. I have already written to the Chair of the committee, responding in full to the committee's findings, and a copy of my response was laid as a supporting document for Members' information. There are a number of areas where I reject the points raised in the committee's report. I was also surprised that a technical evaluation was expressed in such atypical language. However, where the technical reporting points are accepted, they will be addressed as part of the amending regulations to uprate financial figures following the Chancellor's autumn statement. These are minor technical points, such as cross-referencing errors, and these do not affect the operation of the regulations.

Craffodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y rheoliadau hyn, cyn y ddadl heddiw. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at Gadeirydd y pwyllgor, gan ymateb yn llawn i ganfyddiadau'r pwyllgor, a gosodwyd copi o'm hymateb fel dogfen ategol er gwybodaeth i'r Aelodau. Mae nifer o feysydd lle'r wyf yn gwrthod y pwyntiau a godwyd yn adroddiad y pwyllgor. Roeddwn yn synnu hefyd bod gwerthusiad technegol wedi ei fynegi mewn iaith mor annodweddiadol. Fodd bynnag, pan dderbynnir y pwyntiau technegol, byddant yn cael sylw fel rhan o'r rheoliadau diwygio i uwchraddio ffigurau ariannol yn dilyn datganiad y Canghellor yn yr hydref. Pwyntiau technegol bach yw'r rhain, megis gwallau croesgyfeirio, ac nid ydynt yn effeithio ar weithrediad y rheoliadau.

Members will remember that, as a result of the UK Government's decision to abolish council tax benefit and to reduce the funding for providing council tax support, the Welsh Government had to develop new arrangements to assist households in financial need in meeting their council tax liability. These arrangements are set out in the council tax reduction scheme regulations agreed by the Assembly in December 2012 and amended in January 2013. After these regulations were made, all local authorities in Wales successfully implemented schemes, and over 300,000 households were transferred from the old council tax benefit system. However, the 2012 regulations are limited to the 2013-14 financial year by virtue of the sunset clause, so new regulations must be brought forward to continue this financial assistance. Therefore, I have laid two sets of regulations that, subject to the approval of this Assembly, will govern the operation of council tax reduction schemes from 1 April 2014. As with last year, these are the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 and the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013.

Bydd yr Aelodau'n cofio y bu raid i Lywodraeth Cymru ddatblygu trefniadau newydd i gynorthwyo aelwydydd mewn angen ariannol i fodloni eu rhwymedigaeth treth gyngor, o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu budd-dal treth gyngor ac i leihau'r cyllid er mwyn darparu cymorth ar gyfer y dreth gyngor. Mae'r trefniadau hyn wedi'u nodi yn rheoliadau cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a gytunwyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2012 ac ym mis Ionawr 2013. Ar ôl i'r rheoliadau hyn gael eu creu, llwyddodd pob awdurdod lleol yng Nghymru i gweithredu cynlluniau, a throsglwyddwyd dros 300,000 o aelwydydd o'r hen system budd-dal treth gyngor. Fodd bynnag, mae rheoliadau 2012 yn gyfyngedig i'r flwyddyn ariannol 2013-14 yn rhinwedd y cymal machlud, felly rhaid cyflwyno rheoliadau newydd er mwyn parhau â'r cymorth ariannol hwn. Felly, rwyf wedi gosod dwy gyfres o reoliadau a fydd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad hwn, yn llywodraethu gweithrediad cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor o 1 Ebrill 2014. Fel y llynedd, y rhain yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

These regulations are designed to ensure that all local authorities introduce some form of council tax support. If any local authority does not adopt its own scheme by 31 January 2014 the default scheme will be imposed upon them.

Mae'r rheoliadau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno rhyw fath o gymorth ar gyfer y dreth gyngor. Os bydd unrhyw awdurdod lleol heb fabwysiadu ei gynllun ei hun erbyn 31 Ionawr 2014, bydd y cynllun diofyn yn cael ei orfodi arnynt.

The 2013 regulations are closely based on the 2012 regulations, which reflected the approach taken to calculating entitlement to council tax benefit, albeit with numerous simplifications, as Members can see—and I have brought these documents with me, Presiding Officer—by comparing the size of the previous council tax benefit rules, which were 529 pages, with the size of the 2013 regulations, which are 119 pages. Importantly, the regulations maintain entitlements at their current levels for a further year, ensuring that vulnerable households are protected from any reduction in support. The costs of the funding shortfall will be shared between the Welsh Government and local government. The provisional local government settlement includes £244 million for council tax reduction schemes. This matches the level of funding that we provided for 2013-14. Local authorities will meet the costs of any remaining shortfall as increases in the cost of CTRS are directly linked to local decisions about council tax.

Mae rheoliadau 2013 wedi eu seilio'n agos ar reoliadau 2012, a oedd yn adlewyrchu'r dull o gyfrifo hawl i fudd-dal y dreth gyngor, ond yn llawer mwy syml, fel y gall yr Aelodau weld—ac rwyf wedi dod â'r dogfennau hyn gyda mi, Lywydd—drwy gymharu maint rheolau'r budd-dal treth gyngor blaenorol, a oedd yn 529 o dudalennau, â maint rheoliadau 2013, sy'n 119 o dudalennau. Yn bwysig, mae'r rheoliadau yn cynnal hawliau ar eu lefelau presennol am flwyddyn arall, gan sicrhau bod aelwydydd sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ostyngiad mewn cymorth. Bydd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn rhannu costau'r diffyg mewn cyllid. Mae'r setliad llywodraeth leol dros dro yn cynnwys £244 miliwn ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae hyn yn cyfateb i lefel y cyllid a ddarparwyd gennym ar gyfer 2013-14. Bydd awdurdodau lleol yn talu costau unrhyw ddiffyg sy'n weddill gan fod cynnydd yng nghost cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn uniongyrchol gysylltiedig â phenderfyniadau lleol am y dreth gyngor.

In drafting the 2013 regulations, my officials have worked closely with local government and the third sector to make amendments for welfare reforms, incorporate further simplifications, and make technical improvements based on local authorities' experiences of operating the new schemes. It has been a priority for me to start this work early to ensure that sufficient time would be available for scrutiny.

Wrth ddrafftio rheoliadau 2013, mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda llywodraeth leol a'r trydydd sector i wneud newidiadau oherwydd y diwygiadau i'r gyfundrefn les, eu symleiddio ymhellach, a gwneud gwelliannau technegol yn seiliedig ar brofiadau awdurdodau lleol o weithredu'r cynlluniau newydd. Rwyf wedi rhoi blaenoriaeth i ddechrau ar y gwaith hwn yn gynnar i sicrhau y byddai digon o amser ar gael ar gyfer craffu.

The draft regulations were issued for consultation over three months ago. To assist with timely and effective scrutiny, the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Communities, Equality and Local Government Committee, and opposition spokespeople were notified when the consultation was published and were offered technical briefings. Given the ongoing funding shortfall, the continuing pressure on budgets and the impact of welfare reforms, I have also commissioned a review for the longer term solution. To inform this review I will issue a public consultation before Christmas and I will update Members as this work progresses. I ask Members to support these regulations today.

Cyhoeddwyd y rheoliadau drafft ar gyfer ymgynghori dros dri mis yn ôl. I gynorthwyo gyda chraffu amserol ac effeithiol, hysbyswyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a llefarwyr y gwrthbleidiau pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad a chynigiwyd sesiynau briffio technegol iddynt. O ystyried y diffyg parhaus mewn cyllid, y pwysau parhaus ar gyllidebau ac effaith y diwygiadau i'r gyfundrefn les, rwyf wedi comisiynu adolygiad er mwyn canfod ateb tymor hwy hefyd. Er mwyn cyfrannu at yr adolygiad hwn, byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus cyn y Nadolig ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r rheoliadau hyn heddiw.

17:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

17:22

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. In my speech, I will first comment on the committee's scrutiny of these regulations, reported to the Assembly on 20 November. I will then raise some more general points, which relate to the general relationship between the legislature and executive in this complicated but important area of scrutiny.

Diolch, Lywydd. Yn fy araith, soniaf yn gyntaf am waith y pwyllgor i graffu ar y rheoliadau hyn, y cyflwynwyd adroddiad i'r Cynulliad arno ar 20 Tachwedd. Yna, byddaf yn codi rhai pwyntiau mwy cyffredinol, sy'n ymwneud â'r berthynas gyffredinol rhwng y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth yn y maes cymhleth ond pwysig hwn.

The two sets of council tax reduction scheme regulations that we are considering today stem from the insertion of a sunset clause into regulations approved by the Assembly on 19 December 2012, as the Minister has referred. The sunset clause required new regulations to be brought forward by 1 January 2014. As Members will be aware, we reported in May this year on the making of the 2012 council tax regulations by the Welsh Government. It took a lot of effort to work to the timescale imposed upon us by the Welsh Government at that stage.

Mae'r ddwy gyfres o reoliadau ar gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yr ydym yn eu hystyried heddiw yn deillio o'r ffaith y gosodwyd cymal machlud yn y rheoliadau a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 19 Rhagfyr, 2012, fel y nododd y Gweinidog. Roedd y cymal machlud yn golygu ei bod yn ofynnol cyflwyno rheoliadau newydd erbyn 1 Ionawr 2014. Fel y gŵyr yr Aelodau, cyflwynwyd adroddiad ym mis Mai eleni ar y broses o lunio rheoliadau treth gyngor 2012 gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn ymdrech fawr i gadw at yr amserlen a osodwyd arnom gan Lywodraeth Cymru ar yr adeg honno.

We note, and are pleased, that the Welsh Government has produced bilingual regulations, with both languages being available for scrutiny simultaneously. That is good practice. These regulations are substantial and complex in nature, running to over 500 pages.

Rydym yn nodi, ac rydym yn falch, bod Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu rheoliadau dwyieithog, gyda'r ddwy iaith ar gael i graffu arnynt ar yr un pryd. Mae hynny'n arfer da. Mae'r rheoliadau hyn yn sylweddol a chymhleth eu natur, gan gynnwys dros 500 o dudalennau.

As our reports identify, in both sets of regulations we came across a number of technical reporting points, perhaps not surprising given their length and complexity. We note that the Welsh Government has accepted many of them but has not accepted others. This is not that unusual in the context of the committee's reports.

Mae ein hadroddiadau yn nodi ein bod wedi canfod nifer o bwyntiau adrodd technegol, yn y ddwy gyfres o reoliadau, ac efallai nad yw'n syndod o ystyried eu hyd a'u cymhlethdod. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn llawer ohonynt, ond nad yw wedi derbyn rhai eraill. Nid yw hyn yn anarferol yng nghyd-destun adroddiadau'r pwyllgor.

We also reported on a number of merits issues, to which I will now turn. We noted that the provisions in the regulations relating to the calculation of tariff income from capital for pensioners assumed a return on capital of over 10% and 20% respectively. In our view, these appeared to be unrealistic assumptions. I have noted the Minister's comments in her letter of 19 November and I welcome the clarification that they have provided. It is for Assembly Members to judge whether historical practice justifies such treatment of capital.

Roedd ein hadroddiadau hefyd yn crybwyll nifer o faterion rhagoriaeth, a throf at y rhain yn awr. Nodwyd gennym fod y darpariaethau yn y rheoliadau sy'n ymwneud â chyfrifo incwm tariff o gyfalaf i bensiynwyr yn tybio elw ar gyfalaf o dros 10% a 20% yn y drefn honno. Yn ein barn ni, roedd y rhain yn ymddangos yn rhagdybiaethau afrealistig. Rwyf wedi nodi sylwadau'r Gweinidog yn ei llythyr ar 19 Tachwedd ac rwy'n croesawu'r eglurhad a ddarparwyd. Mater i Aelodau'r Cynulliad yw barnu a yw arferion hanesyddol cyfiawnhau ymdriniaeth o'r fath o ran cyfalaf.

Our report also found the regulations to be impenetrable and to lack clarity—a position that we believe to be at odds with the Welsh Government's aim to make Welsh law more accessible. This was reported as a merits point because we were unclear as to what extent this lack of clarity is due to the policy or the drafting style adopted. The Minister feels that our concerns would have carried more force if made last year or earlier in the autumn term, yet, as the Minister says in her letter of 19 November, the purpose of the sunset clause was to allow the regulations to be revisited and scrutinised. We have done so and have come to the views that we have in accordance with our Standing Orders, I would politely point out to the Executive. As a committee, we are perfectly entitled to raise new issues that were not previously covered and to challenge the approach adopted, particularly when last year's debate was carried forth in such a hectic fashion because of the actions of the Welsh Government in bringing forward the regulations when it did.

Canfu ein hadroddiad hefyd fod y rheoliadau'n astrus a bod diffyg eglurder—sefyllfa sydd, yn ein barn ni, yn groes i nod Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Amlygwyd hyn fel pwynt rhagoriaeth oherwydd nad oeddem yn sicr i ba raddau y mae'r diffyg eglurder hwn yn deillio o'r polisi neu'r arddull drafftio a fabwysiadwyd. Mae'r Gweinidog o'r farn y byddai mwy o rym i'n pryderon pe byddem wedi'u nodi y llynedd neu'n gynharach yn nhymor yr hydref, ac eto, fel y dywed y Gweinidog yn ei llythyr dyddiedig 19 Tachwedd, pwrpas y cymal machlud oedd caniatáu inni ailystyried a chraffu ar y rheoliadau. Rydym wedi gwneud hynny ac wedi dod i'r farn sydd gennym yn unol â'n Rheolau Sefydlog, byddwn yn awgrymu'n gwrtais i'r Weithrediaeth. Fel pwyllgor, mae gennym bob hawl i godi materion newydd nad ymdriniwyd â hwy yn flaenorol ac i herio'r dull a fabwysiadwyd, yn enwedig pan gynhaliwyd dadl y llynedd mewn modd mor frysiog oherwydd camau Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen y rheoliadau ar yr adeg honno.

At first sight, it appears that the Welsh Government has missed the opportunity provided by the sunset clause to deliver a clear legislative solution involving regulations that are simpler for the Government and for everyone to understand. There may of course be entirely reasonable reasons for this approach, but the Government has not, in my view, expressed them clearly. As it is, while I recognise that the Welsh Government has inherited a complex set of regulations, very little thought seems to have been invested in addressing this complexity. In my view, the Government should be much further forward in creating a simpler Welsh solution that more clearly fits with its stated aim of creating more accessible law—though I do welcome the comments that the Minister has made about the revision of this area of policy. I must stress that, despite our concerns, I realise that it is now in the public interest that these regulations be made because, otherwise, key benefits may be disrupted.

Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi colli cyfle a gynigir gan y cymal machlud i ddarparu ateb deddfwriaethol clir â rheoliadau sy'n symlach i'r Llywodraeth ac i bawb eu deall. Efallai, wrth gwrs, bod rhesymau cwbl resymol dros yr ymdriniaeth hon, ond nid yw'r Llywodraeth, yn fy marn i, wedi eu mynegi'n glir wrthym. Fel y mae, er fy mod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi etifeddu cyfres gymhleth o reoliadau, ymddengys mai ychydig iawn o ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i fynd i'r afael â'r cymhlethdod hwn. Yn fy marn i, dylai'r Llywodraeth fod yn llawer pellach ymlaen o ran creu ateb symlach yng Nghymru sy'n cyd-fynd yn fwy clir â'i nod datganedig o greu cyfraith fwy hygyrch—er fy mod yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ynglŷn ag adolygu'r maes polisi hwn. Rhaid imi bwysleisio fy mod yn sylweddoli, er gwaethaf ein pryderon, ei bod bellach er budd y cyhoedd i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud oherwydd y gellid tarfu, fel arall, ar fudd-daliadau allweddol.

May I just briefly turn to some more general points? It is the committee's duty to report on legislation that is formally laid before the Assembly. Let me make this absolutely clear to the Welsh Government: as a legislature, under no circumstances will we be dictated to about how we undertake our scrutiny function. The rights and roles of this institution, as regards its legislative function, must be protected. I am adamant in that view and believe that it is one of my key functions as Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

A gaf i droi yn fyr at rai pwyntiau mwy cyffredinol? Mae'n ddyletswydd ar y pwyllgor i gyflwyno adroddiad ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei osod yn ffurfiol gerbron y Cynulliad. Gadewch imi wneud hyn yn hollol glir i Lywodraeth Cymru: fel deddfwrfa, nid oes unrhyw amgylchiadau lle y byddwn yn fodlon i unrhyw un arall bennu'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaeth graffu. Rhaid diogelu hawliau a swyddogaethau'r sefydliad hwn, o safbwynt deddfwriaethol. Rwyf yn benderfynol ynglŷn â hynny ac yn credu ei fod yn un o'm swyddogaethau allweddol fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

I would also say very plainly that, as a committee, we would receive our technical briefings from our legal advisers. In challenging this principle, the Government is, in my view, risking infringing the rights of the legislature, and that cannot in any way be acceptable. I take the view that law should not be drafted in ways that only Government legal draughters can understand. Indeed, if the Government believes that experienced lawyers advising our committee need a technical briefing in order to understand these regulations, what does that say about the position of practitioners throughout Wales who will find themselves completely bamboozled, potentially, by not receiving the sort of technical advice that is then offered to our committee. In fact, the Government's emphasis and overreliance on technical briefings for our committee would seem to contradict its stated aim of making legislation accessible to a wider audience in the first place. For our part, we will, where appropriate, offer an opinion when we believe that regulations are capable of being simplified, and we will recommend that the Welsh Government, in those cases, takes the earliest practical opportunity to do so. That now may be sometime in the future in this case.

Byddwn hefyd yn dweud yn blaen iawn y byddem, fel pwyllgor, yn derbyn ein briffiau technegol gan ein cynghorwyr cyfreithiol. Wrth herio'r egwyddor hon, mae'r Llywodraeth, yn fy marn i, mewn perygl o dresmasu ar hawliau'r ddeddfwrfa, ac ni all hynny fod yn dderbyniol o gwbl. Rwyf o'r farn na ddylid drafftio cyfraith mewn ffyrdd sy'n golygu mai dim ond drafftwyr cyfreithiol y Llywodraeth sy'n eu deall. Yn wir, os yw'r Llywodraeth yn credu bod ar gyfreithwyr profiadol sy'n cynghori ein pwyllgor angen sesiwn briffio technegol er mwyn deall y rheoliadau hyn, beth mae hynny'n ei ddweud am sefyllfa ymarferwyr ledled Cymru a allai gael eu drysu'n gyfan gwbl, o bosibl, gan nad ydynt wedi derbyn y math o gyngor technegol a gynnigir i'n pwyllgor ni? Yn wir, mae'n ymddangos bod pwyslais a gorddibyniaeth y Llywodraeth ar sesiynau briffio technegol ar gyfer ein pwyllgor yn gwrth-ddweud ei nod datganedig o wneud deddfwriaeth yn hygyrch i gynulleidfa ehangach yn y lle cyntaf. O'n rhan ni, byddwn, lle y bo'n briodol, yn cynnig barn pan fyddwn yn credu bod modd symleiddio'r rheoliadau, a byddwn yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn yr achosion hynny, yn cymryd y cyfle ymarferol cyntaf i wneud hynny. Gallai hynny bellach fod rywbryd yn y dyfodol, yn yr achos hwn.

17:28

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You are out of time, so can you come to a conclusion?

Mae eich amser wedi dod i ben, felly a allwch chi orffen?

17:29

## David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I will conclude with this, Presiding Officer: the Minister's letter of 19 November raises many other issues that I wish to refer to and firmly rebut, but we do not have time to go into that now. However, I will ensure that all Members of the Assembly receive a copy of that letter.

Rwyf am orffen gyda hyn, Lywydd: mae llythyr y Gweinidog ar 19 Tachwedd yn codi llawer o faterion eraill yr wyf am gyfeirio atynt a'u gwrthbrofi'n gadarn, ond nid oes gennym amser i drafod hynny'n awr. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau bod holl Aelodau'r Cynulliad yn derbyn copi o'r llythyr.

17:29

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I, too, would like to thank the Minister for her statement today, and for laying these regulations before the Assembly. It is fair to say that this process of providing much-needed support for our ratepayers across Wales is a lot more structured than the previous one last year, when we did see what can only be described as a fiasco. I welcome the plans that have been put in place by the Welsh Government to extend council tax reduction schemes to those most in need of support, and I am also pleased to see that the regulations include provisions now to cut down on the bureaucratic and administrative burden, which thereby achieves greater efficiency. Notwithstanding that, I totally respect, 100%, the concerns that the Chairman of our Constitutional and Legislative Affairs Committee has raised.

Rwyf innau, hefyd, yn dymuno diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw, ac am osod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad. Mae'n deg dweud bod y broses hon o ddarparu cymorth mawr ei angen ar gyfer ein trethdalwyr ledled Cymru yn llawer mwy strwythuredig na'r un blaenorol y llynedd, pan welsom yr hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel ffiasgo. Croesawaf y cynlluniau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ymestyn cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am gymorth, ac rwyf hefyd yn falch o weld bod y rheoliadau yn cynnwys darpariaethau i leihau'r baich biwrocrataidd a gweinyddol, a thrwy hynny weithredu'n fwy effeithlon. Er gwaethaf hynny, rwy'n llwyr barchu, 100%, y pryderon a godwyd gan Gadeirydd ein Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

I do have a question relating to the funding of the scheme. As a group, we welcome the £222 million provided by the UK Government to fund the council tax reduction scheme in Wales. I am aware that the Welsh Government is putting £22 million towards it. How can we be assured that you will remain as committed in the future? Can we have some guarantees, really, that you will continue to fund this for those who are entitled to this support?

Mae gennyf gwestiwn yn ymwneud ag ariannu'r cynllun. Fel grŵp, rydym yn croesawu'r £222 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU i ariannu'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru. Rwyf yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi £22 miliwn tuag ato. Sut y gallwn fod yn sicr y byddwch yn parhau i fod mor ymrwymedig yn y dyfodol? A allwch warantu, mewn gwirionedd, y byddwch yn parhau i ariannu hyn ar gyfer y rhai sydd â hawl i'r cymorth hwn?

17:30

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddweud yn y lle cyntaf bod y sefyllfa yr ydym yn ein cael ein hunain ynddi heddiw yn cyfiawnhau yn llwyr y safiad a gymerwyd mis Rhagfyr diwethaf, pan gawsom ein gosod mewn sefyllfa lle gosodwyd rheoliadau ger ein bron nad oeddem wedi cael cyfle i'w darllen, ac yr oedd cais i ni i'w cymeradwyo yn y fan a'r lle. Mae'r hyn sydd wedi digwydd gyda'r rheoliadau hyn yn dangos yn glir iawn bod angen 'scrutiny' manwl yn y math hwn o sefyllfa.

I would like to say in the first place that the situation that we find ourselves in today fully justifies the stance taken in December last year, when we were placed in a position where regulations were laid that we had not had an opportunity to read, and we were asked to approve them on the spot. What has happened with these regulations clearly demonstrates that we need detailed scrutiny in this kind of scenario.

Yn y lle cyntaf, rwy'n llongyfarch y Gweinidog am y ffordd y mae wedi ymdrin yn gyffredinol â'r mater hwn. Mae hi wedi bod yn gynhwysol ac yn adeiladol. Rwy'n gwerthfawrogi yn fawr iawn y trafodaethau yr wyf wedi eu cael gyda hi ar y mater hwn, ac rwy'n falch ei bod wedi edrych ar y sefyllfa a wynebodd hi pan wnaeth hi dderbyn y cyfrifoldeb am y portffolio hwn. Mae hi wedi ateb yn y tymor byr gyda chyfraniad sylweddol iawn tuag at y diffyg y mae'n rhaid i ni nodi a osodwyd gan y glymblaid yn San Steffan arnom. Fe wnaethom, yn y flwyddyn newydd, sicrhau bod y flwyddyn gyntaf yn cael ei chydnabod yn llawn gan Lywodraeth Cymru ac, ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae cyfraniad sylweddol iawn wedi ei wneud. Nid ydym yn gwybod eto beth yn union fydd y diffyg, ond bydd y rhan fwyaf ohono yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru gyda chyfraniad gan lywodraeth leol.

First of all, I congratulate the Minister for the way in which she has dealt with this issue in general. She has been inclusive and constructive. I very much appreciate the discussions that I have had with her on this issue, and I am pleased that she has looked at the situation that she faced when she took on responsibility for this portfolio. She has provided a short-term solution with a significant contribution to make up the deficit that we must note was placed upon us by the coalition in Westminster. In the new year, we ensured that the first year was fully covered by the Welsh Government and that, for the ensuring year, a significant contribution would be made. We do not know yet exactly what the deficit will be, but most of it will be made up by the Welsh Government with a contribution from local government.

Hefyd, hoffwn groesawu yn fawr iawn y ffaith bod y Gweinidog wedi sefydlu'r bwrdd hwn i adolygu'r sefyllfa ac i greu fformiwla ar gyfer y dyfodol, oherwydd bod y sicrwydd hynny yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol a hefyd ar gyfer y bobl fregus yn ein cymdeithas sy'n dibynnu ar y budd-daliadau hynny.

Also, I warmly welcome the fact that the Minister has established this board to review the situation and to create a formula for the future, because that assurance is crucially important for local government and also for those vulnerable people in our communities who are dependent upon those benefits.

Dyna'r ganmoliaeth o'r Gweinidog. Dyna'r newyddion da, Weinidog. Y newyddion drwg yw yr wyf yn credu bod adroddiad y pwyllgor, fel sydd wedi ei amlinellu gan y Cadeirydd, yn codi cwestiynau sylfaenol iawn. Fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor, mewn gwirionedd, nid oes gennym ddewis y prynhawn yma; mae'n rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwodd oherwydd, heblaw am hynny, ni fyddai modd i lywodraeth leol symud ymlaen gyda'i chyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rwy'n credu bod y Gweinidog wedi bod yn adeiladol, ond, wrth gwrs, mae'n amlwg bod gwersi i'w dysgu eto gan Lywodraeth. Mae beirniadaeth bod y rheoliadau hyn yn annarllenadwy ac yn annealladwy—yn 'impenetrable'—hynny yw, nid oes modd i unrhyw un fynd at graidd y rheoliadau hyn a deall beth yn union y maent yn ei gynrychioli. Nid ydynt yn dryloyw er mwyn i bobl eu deall. Nid yn unig fel yr oedd Cadeirydd y pwyllgor yn codi, ond mae cwestiwn yn y fan hon ynglŷn â sut y mae cyfreithwyr llywodraeth leol yn mynd i ddehongli'r rheoliadau hyn. Beth sy'n digwydd os oes cwestiwn o rywun yn herio penderfyniad ar y mater hwn, ac yn cyfeirio yn ôl at y rheoliadau, ac mae mwy nag un dehongliad yno, ac nid oes neb yn gallu dehongli yn iawn beth yw sail y ddadl yn y rheoliadau?

That is the praise for the Minister. That is the good news, Minister. The bad news is that I do believe that the committee report, as has already been outlined by the Chair, does raise some very fundamental questions. As the committee Chair said, in reality, we have no option this afternoon; these regulations have to go through because, if they do not, it will be impossible for local government to proceed with its budgets for next year. I do believe that the Minister has been constructive, but, of course, it is clear that there are lessons to be learnt for Government. There is criticism that these regulations are unreadable and impenetrable, that is, that it is impossible for anyone to get to the core of these regulations and to understand exactly what they represent. They are not transparent so that people can understand them. Not only as the committee Chair raised, but there is a question here as to how local government lawyers are to interpret these regulations. What happens if someone challenges a decision on this matter and refers back to the regulations and there is more than one interpretation there, and no-one can clearly interpret what the basis for the regulations is?

Rwy'n croesawu'r hyn yr ydych wedi ei wneud mewn ffordd adeiladol, Weinidog. Rwy'n falch iawn ein bod yn symud ymlaen i fynd i'r afael â'r problemau ariannol, ond yng nghyd-destun y rheoliadau, o dderbyn yr hyn yr wyf wedi ei glywed gan Gadeirydd y pwyllgor y prynhawn yma, a'r hyn rwyf wedi ei weld yn y trafodaethau yr wyf wedi eu darllen yng nghyd-destun eich astudiaeth yn y pwyllgorau hyn, nid oes modd i ni gefnogi'r rheoliadau. Ni fyddwn yn eu hatal; mi fyddwn yn ymatal ein pleidlais arnynt. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld y llythyr a dderbyniodd y Cadeirydd ac rwy'n gobeithio hefyd gweld y trafodaethau'n datblygu rhwng y Gweinidog a'r pwyllgor yn y dyfodol, fel y gallwn sicrhau bod y rheoliadau hyn yn gwasanaethu angen pawb yn gyflawn yng Nghymru.

I welcome what you have done in a constructive way, Minister. I am pleased that we are progressing to tackle the financial problems, but in the context of the regulations, and accepting what I have heard from the committee Chair this afternoon, and what I have seen in the proceedings that I have read of your scrutiny in these committees, we cannot support these regulations. We will not prevent them from going through, but we will abstain on the regulations. I look forward to seeing the letter that the Chair received and I also hope to see the negotiations developing between the Minister and the committee in the future, so that we can ensure that these regulations do serve the needs of all people fully in Wales.

17:35

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First of all, I thank the Minister for the technical briefings that she has provided on these regulations, both to me, personally, and also to the committee, and also for the courtesy that she has shown in consulting with us at all times throughout this process of bringing these regulations forward as a result of the sunset clause that was introduced last time.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y sesiynau briffio technegol a ddarparodd ar y rheoliadau hyn, i mi, yn bersonol, a hefyd i'r pwyllgor, a hefyd am y cwrteisi y mae wedi'i ddangos wrth ymgynghori â ni bob amser, trwy gydol y broses o ddod â'r rheoliadau hyn yn eu blaen, o ganlyniad i'r cymal machlud a gyflwynwyd y tro diwethaf.

As Rhodri Glyn Thomas has said, introducing a sunset clause has been justified by the fact that we have now revisited this issue. The Minister is demonstrating the slimmed-down volume that she has in front of her. That has had an impact just in terms of the amount of paper that has been produced as part of this. Certainly, I think that the way in which the Minister has handled this has been far more deft and professional than what happened last year, when we had the little crisis that led to these regulations being deferred and us being recalled to consider them.

Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, mae'r ffaith ein bod yn awr yn ailystyried y mater hwn yn cyfiawnhau cyflwyno'r cymal machlud. Mae'r Gweinidog yn dangos y gyfrol ysgafnach sydd ganddi o'i blaen. Mae hynny wedi cael effaith o ran faint o bapur sydd wedi cael ei gynhyrchu fel rhan o hyn. Yn sicr, rwy'n meddwl bod y ffordd y mae'r Gweinidog wedi ymdrin â hyn wedi bod yn llawer mwy deheuig a phroffesiynol na'r hyn a ddigwyddodd y llynedd, pan gawsom yr argyfwng bach a arweiniodd at ohirio'r rheoliadau hyn a ninnau'n cael ein galw yn ôl i'w hystyried.

Having said that, I take on board the comments that have been made about the complexity of the regulations. I know that they are very technical regulations and very difficult to deal with. In actual fact, I spent an hour or so last week dealing with a constituent of mine who had contacted me about a query he had on these regulations. I worked with the Members' Research Service—the very good members of staff in MRS—local council officers and a copy of the regulations to try to work out exactly what he was entitled to. I think that we got to the bottom of it, and it was clear from the discussions that I had that the council officer had a very good grasp of what the existing regulations said in this regard, as did the member of MRS who we dealt with. So, it is not impossible to understand what is in these regulations. They are drafted in a technical way, presumably to enable them to be dealt with. The plea that I would add after that experience is that the Minister might perhaps produce an idiot's guide for politicians like me who get queries like this, so that we can better understand and know where to look in particular instances to see what exceptions apply and what does not apply et cetera. That would be quite helpful in understanding these and it may compensate for the angst that the Constitutional and Legislative Affairs Committee had to go through in trying to scrutinise these in some detail.

Wedi dweud hynny, rwy'n derbyn y sylwadau sydd wedi'u nodi am gymhlethdod y rheoliadau. Rwy'n gwybod eu bod yn rheoliadau technegol iawn ac yn anodd iawn ymdrin â nhw. Mewn gwirionedd, treuliais awr neu ddwy yr wythnos diwethaf yn ymdrin ag un o'm hetholwyr a oedd wedi cysylltu â mi ag ymholiad ynglŷn â'r rheoliadau hyn. Bûm yn gweithio gyda Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau—yr aelodau o staff da iawn yn y gwasanaeth hwnnw—swyddogion cyngor lleol a chopi o'r rheoliadau i geisio deall beth yn union yr oedd ganddo hawl iddo. Rwy'n meddwl ein bod wedi dod i ddeall y sefyllfa, ac roedd yn amlwg o'r trafodaethau a gefais bod gan swyddog y cyngor ddealltwriaeth dda iawn o'r hyn yr oedd y rheoliadau presennol yn ei ddweud, fel ag yr oedd gan yr aelod o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yr oeddym yn ymdrin ag ef. Felly, nid yw'n amhosibl deall cynnwys y rheoliadau hyn. Maent yn cael eu drafftio mewn modd technegol, yn ôl pob tebyg er mwyn gallu ymdrin â nhw. Y ple yr hoffwn ei ychwanegu ar ôl y profiad hwnnw yw y gallai'r Gweinidog o bosibl baratoi canllaw symlach i wleidyddion fel fi sy'n cael ymholiadau fel hyn, er mwyn i ni allu deall a gwybod ble i edrych mewn achosion penodol i weld pa eithriadau sy'n gymwys a beth nad yw'n gymwys ac ati. Byddai'n eithaf defnyddiol i ddeall hyn, a gall wneud iawn am yr ing y dioddefodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wrth geisio craffu ar y rhain yn eithaf manwl.

The other issue that I wanted to mention, Minister, was the current settlement that is effectively attached to these regulations—the extra money that you put into the budget. Evidence that has come before the Communities, Equality and Local Government Committee indicates that the money that has been provided to local government effectively predisposes a zero council tax increase, and any increase in the council tax, and any money coming from that, will have to be offset against additional costs in terms of the council tax reduction scheme. That is well understood in local government, but it very much constrains it in terms of how it raises money and sets budgets. If local government puts council tax up by £3, then £1 of that might have to go towards benefits, so it will not have the full advantage of using all that money for front-line services.

Y mater arall yr oeddwn am sôn amdano, Weinidog, oedd y setliad presennol sydd ynghlwm â'r rheoliadau hyn i bob pwrpas—yr arian ychwanegol yr ydych yn ei roi yn y gyllideb. Mae tystiolaeth sydd wedi dod gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn awgrymu bod yr arian sydd a ddarparwyd i lywodraeth leol i bob pwrpas yn rhagdybio cynnydd o sero yn y dreth gyngor, ac y bydd yn rhaid gosod unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor, ac unrhyw arian a ddaw o hynny, yn erbyn costau ychwanegol yn sgil cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae llywodraeth leol yn deall hyn yn dda ond mae'n cyfyngu'n sylweddol arni o ran sut y mae'n codi arian ac yn gosod cyllidebau. Os yw llywodraeth leol yn cynyddu'r dreth gyngor £3, yna mae'n bosibl y byddai'n rhaid i £1 o hwnnw fynd tuag at fudd-daliadau, felly ni fydd yn cael y fantais lawn o ddefnyddio holl arian hwnnw ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.

I understand that we are in a very difficult financial position, both here and in Westminster, as are local councils, particularly after the local council settlement, but we need to find a long-term solution to this situation. Minister, the task, now that you have the regulations out of the way, is to think forward over the next three to five years as to what the long-term solution is, so that everybody understands where they stand on this and where they are going to stand for that period of time in terms of their own budgets and in terms of how the scheme is applied as part of that.

Rwy'n deall ein bod mewn sefyllfa ariannol anodd iawn, yma ac yn San Steffan, a bod yr un peth yn wir am gynghorau lleol, yn enwedig ar ôl y setliad ar gyfer cynghorau lleol, ond mae angen inni ddod o hyd i ateb tymor hir i'r sefyllfa hon. Weinidog, y dasg, nawr yw eich bod wedi cael y rheoliadau allan o'r ffordd, yw meddwl ymlaen dros y tair i bum mlynedd nesaf ynglŷn â'r ateb tymor hir, fel bod pawb yn deall ble maent yn sefyll, a ble y byddant yn sefyll am y cyfnod hwnnw o ran eu cyllidebau eu hunain ac o ran sut y mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith fel rhan o hynny.

17:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

Senedd.tv Fideo Video

I thank Members for their contributions. As is recognised by everyone, these regulations maintain entitlements at their current levels for a further year, which protects households from a reduction in support. As Rhodri Glyn Thomas said, some of these people are the most vulnerable in our society. They also retain the national framework scheme, which was introduced last year, to ensure that we have that consistent level of support right across Wales.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Fel y mae pawb yn ei gydnabod, mae'r rheoliadau hyn yn cynnal hawliau ar eu lefelau presennol am flwyddyn arall, gan amddiffyn aelwydydd rhag gostyngiad mewn cymorth. Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, mae rhai o'r bobl hyn y bobl mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Maent hefyd yn cadw'r cynllun fframwaith cenedlaethol a gyflwynwyd y llynedd, er mwyn sicrhau bod gennym lefel gyson o gymorth ledled Cymru.

As I said in my opening remarks, an amending set of regulations will be laid after the Chancellor's autumn statement, although it is nearly a Christmas statement, to uprate the financial figures in line with the cost of living increases. Members have been previously informed about that.

Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, bydd cyfres o reoliadau diwygio yn cael eu gosod ar ôl datganiad y Canghellor yn yr hydref, er ei bod bron yn ddatganiad y Nadolig, i uwchraddio'r ffigurau ariannol yn unol â'r cynnydd mewn costau byw. Mae'r Aelodau wedi cael gwybod am hynny yn flaenorol.

The technical sets of regulations made last year for the effective operation of the CTRS, for example, fraud investigation and data sharing, will need to be amended to update references to the 2012 regulations, and I will bring those forward between January and March. Again, I have informed Members of this.

Bydd angen diwygio'r cyfresi technegol o reoliadau a wnaed y llynedd ar gyfer gweithredu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn effeithiol, er enghraifft ymchwilio i dwyll a rhannu data, er mwyn diweddaru cyfeiriadau at reoliadau 2012, a byddaf yn dod â'r rhai hynny ymlaen rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Unwaith eto, rwyf wedi hysbysu Aelodau'r am hyn.

I will come back later to the review that I have commissioned. First, I turn to Members' contributions, and I heard very clearly the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. I think that the point that I was trying to get over was that you are saying that these regulations are impenetrable, but they have been implemented by local authorities and by practitioners this year. I think that some of them are, perhaps, a bit slighted that you felt that they would feel that they were impenetrable.

Byddaf yn dod yn ôl yn hwyrach at yr adolygiad yr wyf wedi'i gomisiynu. Trof yn gyntaf at gyfraniadau'r Aelodau, a chlywais Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn glir iawn. Rwy'n credu mai'r pwynt yr oeddwn yn ceisio'i gyfleu oedd eich bod yn dweud bod y rheoliadau hyn yn astrus, ond maent wedi cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol a chan ymarferwyr eleni. Credaf fod rhai ohonynt, efallai, yn teimlo eich bod yn dangos diffyg parch braidd trwy ddweud y byddent yn astrus iddynt.

I agree that the regulations are very complex, but I think that we have done very well to get them down to 119 pages—that is the bilingual document. Clearly, it is very difficult to make them shorter or to simplify them. I think that the only way that they could be simplified even more would be by reducing the financial means test, which currently provides differentiated support based on financial and personal circumstances—for example, households with children, disability allowances and higher living allowances for pensioners. I think that it would result in a much blunter system of support that treated all households as the same, irrespective of vulnerability or need.

Rwy'n cytuno bod y rheoliadau'n gymhleth iawn, ond rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud yn dda iawn i'w cael i lawr i 119 o dudalennau—a dyna'r ddogfen ddwyieithog. Yn amlwg, mae'n anodd iawn eu gwneud yn fyrrach neu eu symleiddio. Rwy'n meddwl mai'r unig ffordd y gellid eu symleiddio'n fwy fyth yw trwy leihau'r prawf modd ariannol, sydd ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth wahanol ar sail amgylchiadau ariannol a phersonol—er enghraifft aelwydydd gyda phlant, lwfansau anabledd a lwfansau byw uwch ar gyfer pensiynwyr. Rwy'n meddwl y byddai'n arwain at system o gefnogaeth lawer llai ymatebol a fyddai'n trin pob aelwyd yr un fath, er gwaethaf eu hanghenion neu ba mor agored i niwed ydynt.

Obviously, that is something that we can look at if we think that the regulations are too complex. They are very much interrelated with the social security benefits system; they contain detailed financial means tests. As such, they are technically complex. Certainly, as a Government, we have made that very clear to the UK Government and to others on several occasions. However, I have worked very closely with local government to ensure that we have been able to make them as simple as possible, but I agree that they are, obviously, very complex.

Yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth y gallwn ei ystyried os ydym yn credu bod y rheoliadau'n rhy gymhleth. Mae llawer o gydberthynas rhyngddynt â'r system budd-daliadau nawdd cymdeithasol; maent yn cynnwys profion modd ariannol manwl. Fel y cyfryw, maent yn dechnegol gymhleth. Yn sicr, fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud hynny'n glir iawn i Lywodraeth y DU ac i eraill ar sawl achlysur. Fodd bynnag, rwyf wedi gweithio'n agos iawn gyda llywodraeth leol i sicrhau ein bod wedi gallu eu gwneud mor syml ag y bo modd, ond rwy'n cytuno eu bod, yn amlwg, yn gymhleth iawn.

Janet Finch-Saunders raised a point about finance. She mentioned the £222 million that we have had again from the UK Government, but that is flat cash: that has not been raised. We have managed to put £22 million into the revenue support grant because we thought that that was the best way of ensuring that the money went to where it needed to go. The reason that I have brought forward this review to look into how we take this scheme forward is because I do not know whether we can assure everybody that we will have that 100% entitlement as we go forward. I think that arrangements for 2015-16 onwards will be informed by the longer term review that I have commissioned. I mentioned a public consultation; I will issue it before Christmas, and I will certainly keep Members informed.

Cododd Janet Finch-Saunders bwynt am gyllid. Soniodd am y £222 miliwn a gawsom eto gan Lywodraeth y DU, ond arian gwastad yw hwnnw: nid yw wedi cael ei godi. Rydym wedi llwyddo i roi £22 miliwn i mewn i'r grant cynnal refeniw oherwydd ein bod yn credu mai dyna'r ffordd orau o sicrhau bod yr arian yn mynd i'r lle yr oedd angen iddo fynd. Y rheswm pam yr wyf wedi cyflwyno'r adolygiad hwn i ystyried sut y byddwn yn symud ymlaen â'r cynllun hwn yw oherwydd nad wyf yn gwybod a allwn sicrhau pawb y bydd gennym yr hawl 100% hwnnw wrth inni symud ymlaen. Rwy'n meddwl y bydd trefniadau ar gyfer 2015-16 ymlaen yn cael eu llywio gan yr adolygiad tymor hwy yr wyf wedi'i gomisiynu. Soniais am ymgynghoriad cyhoeddus; byddaf yn ei gyhoeddi cyn y Nadolig, a byddaf yn sicr yn rhoi gwybod i'r Aelodau.

Rhodri Glyn Thomas, I will just take your kind words, I think, and, again, I thank you for your help in going forward. However, you are right: we have to have that long-term solution, and that is why I have commissioned the review. I understand, again, that you are concerned about issues with the report, and we will see what comes back to me in letter form from the Chair and how we take that forward. However, I have certainly tried to address the merits points that you have raised; I have responded in my letter to you about that.

Rhodri Glyn Thomas, rwyf am dderbyn eich geiriau caredig, rwy'n meddwl, ac, unwaith eto, diolch ichi am eich cymorth wrth fynd ymlaen. Fodd bynnag, rydych yn iawn: rhaid inni gael ateb tymor hir, a dyna pam yr wyf wedi comisiynu'r adolygiad. Rwy'n deall, unwaith eto, eich bod yn pryderu am rai materion o ran yr adroddiad, a chawn weld beth a ddaw yn ôl ataf ar ffurf llythyr gan y Cadeirydd a sut yr ydym yn bwrw ymlaen â hynny. Fodd bynnag, rwyf yn sicr wedi ceisio mynd i'r afael â'r pwyntiau rhagoriaeth yr ydych wedi'u codi; rwyf wedi ymateb ynglŷn â hynny yn fy llythyr atoch.

Peter Black, I would like to thank you, too, for your help as we have gone forward. I do not know about an idiot's guide—I do not think that you need an idiot's guide—but I think that we need to make the regulations as simple as we can. Certainly, that is something that we will to continue to look at. I am grateful for Members' support.

Peter Black, hoffwn ddiolch i chi, hefyd, am eich help wrth i ni fynd yn ein blaenau. Nid wyf yn sicr ynglŷn â chanllaw syml—nid wyf yn meddwl bod angen canllaw syml arnoch—ond credaf fod angen i ni wneud y rheoliadau mor syml ag y gallwn. Yn sicr, mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn parhau i'w ystyried. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelodau.

17:43

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The point that I was making was that if you deal with benefits, you get manuals outlining where to look in the legislation. I think that something along those lines would be very helpful for those of us who deal with constituents who are struggling with the complexities of these regulations.

Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud oedd, os ydych yn ymdrin â budd-daliadau, bydd gennych lawlyfrau yn amlinellu ble i edrych yn y ddeddfwriaeth. Rwy'n meddwl y byddai rhywbeth tebyg i hynny'n ddefnyddiol iawn ar gyfer y rhai ohonom sy'n ymdrin ag etholwyr sy'n cael trafferth â chymhlethdodau'r rheoliadau hyn.

17:44

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, that is certainly something that we can take forward as we have the review. Thank you, Presiding Officer.

Ydy, mae hynny'n sicr yn rhywbeth y gallwn fwrw ymlaen ag ef wrth i ni gynnal yr adolygiad. Diolch, Lywydd.

17:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The proposal is to agree motion NDM5364. Does any Member object? Are you objecting? There is objection. I will defer voting on that until voting time.

Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn cynnig NDM5364. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? A ydych chi'n gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais ar hynny tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree motion NDM5365. Does any Member object? There is no objection. The motion is, therefore, agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn cynnig NDM5365. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) 2013

## The Local Government (Wales) Measure 2011 (Modification of Enactments and Other Provisions) Order 2013

Cynnig NDM5366 Lesley Griffiths

Motion NDM5366 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau eraill) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2013.

Approves that the draft The Local Government (Wales) Measure 2011 (Modification of Enactments and other Provisions) Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 4 November 2013.

17:44

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The Local Government (Wales) Measure 2011 (Modification of Enactments and other Provisions) Order 2013 was laid for the consideration of the National Assembly for Wales on 4 November 2013. I will refer to it from now on as the modifications Order. This Order is made under the provisions of the Local Government (Wales) Measure 2011 and its purpose is to modify legislation made before the 2011 Measure to ensure that it is consistent with the provisions of the Measure. This Order does not introduce any new policy, but is required under the 2011 Measure to modify other legislation as appropriate.

Gosodwyd Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau eraill) 2013 i'w ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 Tachwedd 2013. Byddaf yn cyfeirio ato o hyn ymlaen fel y Gorchymyn addasu. Gwneir y Gorchymyn hwn o dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'i bwrpas yw addasu deddfwriaeth a wnaed cyn Mesur 2011 er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â darpariaethau'r Mesur. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno unrhyw bolisi newydd, ond mae ei angen, o dan Fesur 2011, er mwyn addasu deddfwriaeth arall fel y bo'n briodol.

Section 177 of Part 10 of the 2011 Measure provides for the power to make supplementary provisions, which includes, but is not limited to, modifications of any enactment. Section 177 also provides that the Welsh Ministers may, by Order

Mae Adran 177 o Ran 10 o Fesur 2011 yn darparu ar gyfer pŵer i wneud darpariaethau atodol, gan gynnwys y pŵer i addasu unrhyw ddeddfiadau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Mae adran 177 hefyd yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, trwy Orchymyn

'make such supplementary, incidental, consequential, transitional, transitory and saving provision as they consider appropriate in connection with this Measure'.

'wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol ac arbed y maent o'r farn eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Mesur hwn'.

The 2011 Measure, among many other things, removed two models of political structure from those available to principal councils in Wales. These were the elected mayor and council manager model, and the alternative arrangements model. Part 2 of the modifications Order clarifies various pieces of legislation that apply to Wales, while still mentioning these two options. Even though the Measure, as the most recently approved primary legislation, would take precedence, it is preferable to have consistency across the statute book. Similarly, Part 3 of this Order modifies existing legislation, particularly the Local Government Act 1972, in order to be consistent with changes made by the Measure to the organisation of community councils. The Measure made it easier to establish community councils and more difficult to dissolve them. I ask Members to support the motion.

Roedd Mesur 2011, ymhlith llawer o bethau eraill, yn cael gwared ar ddau fodel ar gyfer strwythur gwleidyddol o'r rhai sydd ar gael i brif gynghorau yng Nghymru. Y rhain oedd y model maer etholedig a rheolwr y cyngor, a'r model trefniadau amgen. Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn addasu yn egluro gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru, ac yn dal i sôn am y ddau opsiwn hyn. Er mai'r Mesur, fel y ddeddfwriaeth sylfaenol a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar, fyddai'n cael blaenoriaeth, mae'n well cael cysondeb ar draws y llyfr statud. Yn yr un modd, mae Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn yn addasu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, yn benodol Deddf Llywodraeth Leol 1972, er mwyn bod yn gyson â newidiadau y mae'r Mesur yn eu gwneud i'r dull o drefnu cynghorau cymuned. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn haws sefydlu cynghorau cymuned ac yn fwy anodd eu diddymu. Rwy'n gofyn i'r Aelodau gefnogi'r cynnig.

17:46

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would just like to make some brief comments on this Order, because it is important. It relates to the Local Government (Wales) Measure 2011, which, of course, as the Minister has pointed out, is quite some time ago. Since then, that Measure itself has been modified by the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, which came before the Chamber only this year. I am just wondering why it has taken so long for these modifications to come through as a result of that.

Hoffwn wneud rhai sylwadau byr ar y Gorchymyn hwn, oherwydd ei fod yn bwysig. Mae'n ymwneud â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, a gyflwynwyd beth amser yn ôl, wrth gwrs, fel y mae'r Gweinidog wedi nodi. Ers hynny, mae'r Mesur hwnnw ei hun wedi'i addasu gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a ddaeth gerbron y Siambr eleni. Tybed pam y mae wedi cymryd cyhyd i gyflwyno'r addasiadau o ganlyniad i hynny?

Secondly, in relation to remote attendance at meetings, which is contained in the local government Measure, this has not yet been commenced, but it was itself amended by the recent local government Act. Can the Minister give an indication of when exactly final guidance will be issued on that so that that particular measure can be commenced?

Yn ail, mae presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd wedi'i gynnwys yn y Mesur llywodraeth leol ond nid yw wedi'i gychwyn eto. Diwygiwyd hyn gan y Ddeddf llywodraeth leol yn ddiweddar. A all y Gweinidog roi syniad o bryd yn union y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi fel y gall y mesur penodol hwnnw gael ei gychwyn?

17:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. Would you like to reply to the debate, Minister?

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. A fyddech yn hoffi ymateb i'r ddadl, Weinidog?

17:47

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will have to write to Members to clarify the first point that Peter Black mentioned. In relation to the second, I hope to bring that forward early next year.

Bydd yn rhaid imi ysgrifennu at yr Aelodau i egluro'r pwynt cyntaf a grybwyllwyd gan Peter Black. O ran yr ail, rwy'n gobeithio cyflwyno hwnnw yn gynnar y flwyddyn nesaf.

17:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:48

# Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Gofal a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Gofal

# Legislative Consent Motion on the Care Bill and Supplementary Legislative Consent Motion on the Care Bill

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I propose that these two items are grouped for debate, unless any Member objects. There are no objections. I call on the Deputy Minister for Social Services to move the motion—Gwenda Thomas.

Rwy'n cynnig bod y ddwy eitem yn cael eu grwpio ar gyfer y drafodaeth, oni bai fod Aelod yn gwrthwynebu. Nid oes gwrthwynebiadau. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Gwenda Thomas.

Cynnig NDM5247 Gwenda Thomas

Motion NDM5247 Gwenda Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Gofal, sy'n ymwneud â threfniadau cyfatebol y DU ar gyfer lleoli oedolion ar draws ffiniau, trefniadau i sicrhau parhad yn y gofal i oedolion yn achos methiant gan y darparwr ac i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydweithredu â'r Awdurdod Ymchwil Iechyd, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Care Bill, relating to UK reciprocal arrangements for cross border placements of adults, arrangements to ensure continuity of care for adults in the event of provider failure and to require Welsh Ministers to co-operate with the Health Research Authority, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

Cynnig NDM5331 Gwenda Thomas

Motion NDM5331 Gwenda Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NDM5247, y darpariaethau pellach hynny yn y Bil Gofal sy'n ymwneud â threfniadau cyfatebol y DU ar gyfer lleoliadau trawsffiniol oedolion ac ôl-ofal iechyd meddwl ar gyfer pobl, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that in addition to the provisions referred to in motion NDM5247, those further provisions of the Care Bill, relating to UK reciprocal arrangements for cross border placements of adults, and mental health after-care for people in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:48 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Cynigiaf y cynigion.

I move the motions.

Diolch am y cyfle i esbonio'r cefndir i'r cynigion cydsyniad deddfwriaethol diwygiedig ac atodol hyn. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ei waith ac am ei adroddiad cydgrynhoi. Rwyf wedi rhoi eglurhad ar rai o'r materion penodol yn yr adroddiad mewn perthynas ag ôl-ofal iechyd meddwl a'r dyletswyddau yn yr Alban i amddiffyn oedolion mewn achos o fethiant gan ddarparwr. Mae'r datganiad hwn hefyd yn rhoi sicrhad i Aelodau Cynulliad ynglŷn â'r materion hyn.

Thank you for the opportunity to explain the background to these revised and supplementary legislative consent motions. I am grateful to the Health and Social Care Committee for its work and for its consolidated report. I have clarified particular issues in the report in respect of mental health after-care and duties in Scotland to protect adults in the event of provider failure. This statement will also provide Assembly Members with reassurance on these matters.

First, the Care Bill will make amendments to the provisions in the Mental Health Act 1983 in relation to mental health aftercare services. These amendments will define aftercare services, provide that Welsh local authorities are responsible for people who were ordinarily resident in their areas before they were detained in hospital, whether that was in Wales or England, provide that Welsh Ministers can arbitrate on disputes on ordinary residency in Wales, and provide for Welsh Ministers and the Secretary of State to agree and publish arrangements for disputes across the borders of England and Wales.

Yn gyntaf, bydd y Bil Gofal yn diwygio'r darpariaethau yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 o ran gwasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl. Bydd y diwygiadau hyn yn diffinio gwasanaethau ôl-ofal, yn darparu bod awdurdodau lleol Cymru yn gyfrifol am bobl a oedd yn preswylio'n arferol yn eu hardaloedd cyn iddynt gael eu cadw yn yr ysbyty, pa un a oedd hynny yng Nghymru neu yn Lloegr, yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu cyflafareddu ar anghydfodau ynglŷn â phreswylio'n arferol yng Nghymru, ac yn darparu bod Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno ar drefniadau ar gyfer anghydfodau ar draws ffiniau Cymru a Lloegr ac yn cyhoeddi'r trefniadau hynny.

The Care Bill will also make consequential amendments to the provisions that are currently in the Social Services and Well-being (Wales) Bill in relation to ordinary residence and direct payments so as to enable local authorities to provide direct payments for aftercare services. The committee sought clarification on the use of a UK Bill to amend the Social Services and Well-being (Wales) Bill while it is subject to Assembly scrutiny.

Bydd y Bil Gofal hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r darpariaethau sydd ar hyn o bryd ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) o ran preswylio'n arferol a thaliadau uniongyrchol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu taliadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal. Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynglŷn â defnyddio Bil y DU i ddiwygio Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) tra bo'r Cynulliad yn craffu arno.

The Mental Health Act 1983 extends to children and adults across England and Wales, and we are using the Care Bill as the main legislative vehicle to achieve the changes to the 1983 Act. However, matters are complicated, given the Assembly's and the UK Parliament's scrutiny of the Social Services and Well-Being (Wales) Bill and the Care Bill over the same timeframe. As a result, consequential amendments to the Social Services and Well-Being (Wales) Bill can only be made once the Care Bill becomes law, by which time the Social Services and Well-Being (Wales) Bill is expected to have become an Act, having passed through all its Stages and received Royal Assent.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn cwmpasu plant ac oedolion ledled Cymru a Lloegr, ac rydym yn defnyddio'r Bil Gofal fel y prif gyfrwng deddfwriaethol i gyflawni'r newidiadau i Ddeddf 1983. Fodd bynnag, mae pethau'n gymhleth, o ystyried bod y Cynulliad a Senedd y DU yn craffu ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Bil Gofal yn ystod yr un cyfnod. O ganlyniad, ni ellir ond gwneud diwygiadau canlyniadol i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar ôl i'r Bil Gofal ddod yn gyfraith, ac erbyn hynny disgwylir i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fod wedi dod yn Ddeddf, ar ôl pasio trwy ei holl Gyfnodau a derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Secondly, the LCMs provide for a four nations cross-border solution for adult placements in residential and extended settings, which clarifies the accountable local authority for the provision of funding of care, including where there have been breaks in care—that is, hospital stays—ways to manage any disputes, and local authorities' abilities to provide direct payments.

Yn ail, mae'r cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn darparu ar gyfer ateb traws-ffiniol i'r pedair gwlad ar gyfer lleoliadau oedolion mewn lleoliadau preswyl ac estynedig, Mae'n egluro'r pa awdurdod lleol sy'n atebol am gyllido'r gofal, gan gynnwys pan fo toriadau wedi bod mewn gofal—hynny yw, cyfnodau yn yr ysbyty—ffyrdd o reoli unrhyw anghydfod, a gallu awdurdodau lleol i ddarparu taliadau uniongyrchol.

Thirdly, the LCMs protect continuity of care for people in England, Wales and Northern Ireland in the event of provider failure, so that a local authority has a temporary duty to maintain continuity of care for their residents, and recoup the costs incurred for the care from the placing authority or the resident, if a self-funder. In respect of Scotland, there are no temporary duties to meet need in the event of business failure. However, general duties require Scottish local authorities to consider assistance to a person in need. The different approach in Scotland was a matter raised by the committee. Members will be aware of my statement on 5 June, and the subsequent amendments I tabled to the Social Services and Well-Being (Wales) Bill, in relation to complementary duties to protect adults in Wales in the event of provider failure.

Yn drydydd, mae'r cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn diogelu parhad y gofal ar gyfer pobl yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon pe byddai darparwr yn methu, fel bod gan awdurdod lleol ddyletswydd dros dro i gynnal parhad y gofal ar gyfer eu trigolion, ac adennill y costau iddynt yn sgil darparu'r gofal gan yr awdurdod lleoli neu'r unigolyn dan sylw, os yw'n hunanariannu. O ran yr Alban, nid oes unrhyw ddyletswyddau dros dro i ddiwallu angen pe byddai busnes yn methu. Fodd bynnag, mae dyletswyddau cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yr Alban ystyried cymorth i rywun mewn angen. Mae'r ymdriniaeth wahanol yn yr Alban yn fater a godwyd gan y pwyllgor. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'm datganiad ar 5 Mehefin, ac o'r gwelliannau dilynol a gyflwynais i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), o ran y dyletswyddau ategol i amddiffyn oedolion yng Nghymru pe byddai darparwr yn methu.

Finally, the LCMs support powers to enable Welsh Ministers to co-operate with the Health Research Authority to facilitate ethical research across the four nations. Collectively, these provisions within the UK Bill offer a sensible and consolidated approach through one statute. I am grateful to the Secretary of State for Health for his co-operation with regard to including practical solutions within the Care Bill that will maintain the wellbeing of people moving around the UK.

Yn olaf, mae'r cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn cefnogi pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i gydweithio â'r Awdurdod Ymchwil Iechyd i hwyluso ymchwil foesegol ar draws y pedair gwlad. Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn ym Mil y DU yn cynnig ymdriniaeth synhwyrol a chyfunol trwy un statud. Rwy'n ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd am ei gydweithrediad o ran cynnwys atebion ymarferol yn y Bil Gofal a fydd yn cynnal lles pobl sy'n symud o gwmpas y DU.

17:53

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees.

17:53

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Llywydd. As outlined, today's debate relates to two legislative consent memoranda, and, in accordance with Standing Orders, they were referred to the Health and Social Care Committee for consideration. Our work on the LCMs was undertaken during the summer and autumn terms, and has run alongside our consideration of the directly relevant Social Services and Well-Being (Wales) Bill. Our report covers both LCMs, and was laid last week to help inform today's debate.

Diolch, Lywydd. Fel yr amlinellwyd, mae'r ddadl heddiw yn ymwneud â dau femorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, fe'u cyfeiriwyd at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w hystyried. Gwnaethom ein gwaith ar y memoranda yn ystod tymhorau'r haf a'r hydref, a hynny ochr yn ochr â'n hystyriaeth o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n uniongyrchol berthnasol. Mae ein hadroddiad yn cwmpasu'r ddau femorandwm cydsyniad deddfwriaethol, a chafodd ei osod yr wythnos diwethaf i helpu i gyfrannu at y ddadl heddiw.

As the Deputy Minister has outlined the background to these LCMs during her opening remarks, I do not intend to repeat that information. Rather, I will focus on the particular points highlighted by the Health and Social Care Committee's report.

Gan fod y Dirprwy Weinidog wedi amlinellu cefndir y memoranda cydsyniad deddfwriaethol hyn yn ystod ei sylwadau agoriadol, nid wyf yn bwriadu ailadrodd yr wybodaeth honno. Yn hytrach, byddaf yn canolbwyntio ar y pwyntiau penodol a amlygwyd gan adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

The first aspect on which we comment is the provision for cross-border placements across the four nations of the United Kingdom. Consent is sought in order to ensure continuity of care for an adult who is ordinarily resident in one part of the UK, and who has care and support needs and requires residential accommodation to meet those needs, to be provided with that accommodation in another part of the UK. The Bill includes provision in relation to dispute resolution between local authorities, the recovery of payments, and the provision of regulation-making powers for cross-border placement provisions to apply to those receiving direct payments. Furthermore, amendments to the Bill mean that provision could in the future extend to settings other than traditional care homes, including, for example, supported housing.

Yr agwedd gyntaf yr ydym yn rhoi sylwadau arni yw'r ddarpariaeth ar gyfer lleoliadau traws-ffiniol ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig. Gofynnir am gydsyniad i sicrhau parhad yn y gofal, er mwyn i oedolion sy'n preswylio'n arferol mewn un rhan o'r DU, ac sydd ag anghenion gofal a chymorth ac angen llety preswyl i ddiwallu'r anghenion hynny, gael y llety hwnnw mewn rhan arall o'r DU. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â datrys anghydfodau rhwng awdurdodau lleol, adennill taliadau, a darparu pwerau i wneud rheoliadau er mwyn i ddarpariaethau lleoliad trawsffiniol fod yn berthnasol i bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Ar ben hynny, mae gwelliannau i'r Bil yn golygu y gallai'r ddarpariaeth yn y dyfodol ymestyn i leoliadau heblaw am gartrefi gofal traddodiadol, gan gynnwys, er enghraifft, tai â chymorth.

In relation to cross-border placements, the committee has no objection to the use of the LCMs in the manner proposed, and accepts that this is the most practical legislative vehicle to ensure a coherent UK-wide approach.

O ran lleoliadau ar draws y ffin, nid oes gan y pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i'r defnydd o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn y modd a gynigir, ac mae'n derbyn mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol i sicrhau ymdriniaeth gydlynol ar draws y DU.

The second issue covered by our report relates to arrangements for dealing with provider failure. The Bill seeks to strengthen local authorities' duties in relation to adult care if a provider fails within the UK—we have seen that with regard to Southern Cross Healthcare Group plc. It places temporary duties on the local authority in which a person is resident to meet a person's care and support needs if a provider cannot continue to provide accommodation because of business failure. Amendments to the Bill mean that this provision applies to adults affected by the failure of a domiciliary care provider, as well as those affected by the failure of a care home provider. In relation to provider failure, although the committee has no objection to the use of the LCM in the manner proposed, and accepts that this is the most practical legislative vehicle to ensure a coherent UK-wide approach, our report draws the Assembly's attention to one particular point. While arrangements within the Bill require local authorities in Wales, England and Northern Ireland to meet the needs that were being met by a failed provider, the same duty is not placed on local authorities in Scotland. Rather, in the Scottish case, local authorities are duty bound to provide such assistance or facilities as they consider suitable or adequate. Members may wish to be aware, therefore, that continuity of care is not necessarily ensured if a provider fails in Scotland.

Mae'r ail fater yn ein hadroddiad yn ymwneud â threfniadau ar gyfer ymdrin â methiant darparwr. Mae'r Bil yn ceisio cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol o ran gofal oedolion os yw darparwr yn methu o fewn y DU—rydym wedi gweld hynny gyda Southern Cross Healthcare Group plc. Mae'n gosod dyletswyddau dros dro ar yr awdurdod lleol lle y mae rhywun yn byw i fodloni anghenion gofal a chymorth yr unigolyn hwnnw os na all darparwr barhau i ddarparu llety oherwydd i'r busnes fethu. Mae gwelliannau i'r Mesur yn golygu bod y ddarpariaeth hon yn berthnasol i oedolion yr effeithir arnynt gan fethiant darparwr gofal cartref, yn ogystal â'r rhai yr effeithir arnynt gan fethiant darparwr cartref gofal. O ran methiant darparwr, er nad oes gan y pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r memoranda yn y modd a gynigir, ac er ei fod yn derbyn mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol i sicrhau dull cydlynol ar draws y DU, mae ein hadroddiad yn tynnu sylw'r Cynulliad at un pwynt penodol. Er bod y trefniadau yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ddiwallu'r anghenion a oedd yn arfer cael eu diwallu gan ddarparwr a fethodd, ni roddir yr un ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn yr Alban. Yn hytrach, yn achos yr Alban, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth neu gyfleusterau o'r fath sydd, yn eu barn nhw, yn addas neu'n ddigonol. Efallai yr hoffai'r Aelodau fod yn ymwybodol, felly, nad yw parhad y gofal yn cael ei sicrhau o reidrwydd os bydd darparwr yn methu yn yr Alban.

The third issue I wish to raise relates to mental health aftercare. Amendments to the Care Bill mean that the local authority in which a person is ordinarily resident is obliged to provide aftercare services to a person when he or she has been detained in hospital for treatment of a mental disorder. Amendments also make provision, under the Social Services and Well-being (Wales) Bill, for dispute resolution in the event of disputes about the ordinarily resident status of a relevant individual, and allow persons to receive direct payments to secure the provision of aftercare services.

Mae'r trydydd mater yr wyf am ei godi yn ymwneud ag ôl-ofal iechyd meddwl. Mae gwelliannau i'r Bil Gofal yn golygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod lleol lle mae rhywun yn preswylio'n arferol ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i unigolyn pan fydd ef neu hi wedi cael ei gadw yn yr ysbyty i drin anhwylder meddyliol. Mae'r gwelliannau hefyd yn darparu, o dan Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ar gyfer datrys anghydfod ynghylch statws preswylio arferol unigolyn perthnasol, ac yn caniatáu i bobl gael taliadau uniongyrchol i sicrhau gwasanaethau ôl-ofal.

The committee's report notes that, although the supplementary LCM provides the practical reasons for using the UK Government's Bill to amend the Welsh Government's Social Services and Well-being (Wales) Bill, this is unusual. To that end, we have sought clarification from the Deputy Minister about the practical reasons preventing the use of Stage 2 processes here in the Assembly to amend the Bill. We are grateful for the Minister's response, which has been provided as a supporting document for today's debate, and note that it is the unique position of the timing of both Bills that has necessitated this arrangement.

Er bod y memorandwm atodol yn rhoi'r rhesymau ymarferol dros ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddiwygio Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Llywodraeth Cymru, mae adroddiad y pwyllgor yn nodi bod hyn yn anarferol. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi gofyn am eglurhad gan y Dirprwy Weinidog am y rhesymau ymarferol dros atal y defnydd o brosesau Cyfnod 2 yma yn y Cynulliad i ddiwygio'r Bil. Rydym yn ddiolchgar am ymateb y Gweinidog, a ddarparwyd fel dogfen ategol ar gyfer y ddadl heddiw, ac rydym yn nodi mai sefyllfa unigryw amseriad y ddau Fesur sydd wedi golygu bod angen y trefniant hwn.

In conclusion, the committee would like to draw the Assembly's attention to the issues set out in our report as part of its consideration of these LCMs, and will continue to take a keen interest in the progress of both the UK Government's Care Bill and the Welsh Government's Social Services and Well-being (Wales) Bill.

I gloi, hoffai'r pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad at y materion a nodwyd yn ein hadroddiad fel rhan o'i ystyriaeth o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol hyn, a bydd yn parhau i ddangos diddordeb brwd yn natblygiad Bil Gofal Llywodraeth y DU a Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Llywodraeth Cymru.

17:57

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Conservatives welcome the LCM and are grateful to the Minister for her explanation this afternoon. We are also grateful to the Chairman for fully explaining the issues that are before us today. All Members will know that the transition to adulthood is a time when young people and their families are thinking about their aspirations for the future. If people are likely to have care and support needs when they are 18, they need information and advice so that they can make the necessary plans. These proposals give young people and carers of children a legal right to request an assessment before they turn 18 to help them to plan for their adult care and support services they may need. The LCM will ensure that no-one reaching the age of 18 who is already receiving support of some kind under the legislation that relates to children will suddenly find themselves without the care and support they need at the point of becoming an adult. The Bill requires local authorities to continue providing a person with children's services until adult care and support is in place to take over. This will mean that there will not be a gap.

Mae Ceidwadwyr Cymru yn croesawu'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol ac rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei heglurhad brynhawn heddiw. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Cadeirydd am egluro'n llawn y materion sydd ger ein bron heddiw. Bydd pob Aelod yn gwybod bod y cyfnod o ddod yn oedolyn yn adeg pan fo pobl ifanc a'u teuluoedd yn meddwl am eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Os yw pobl yn debygol o fod ag anghenion gofal a chymorth pan fyddant yn 18 oed, mae angen gwybodaeth a chyngor arnynt er mwyn iddynt allu gwneud y trefniadau angenrheidiol. Mae'r cynigion hyn yn rhoi hawl cyfreithiol i blant a gofalwyr plant ofyn am asesiad cyn iddynt fod yn 18 oed i'w helpu i gynllunio ar gyfer y gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion y bydd eu hangen o bosibl. Bydd y memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn sicrhau na fydd neb sy'n cyrraedd 18 oed ac sydd eisoes yn cael cymorth o ryw fath o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant, yn canfod eu hunain yn sydyn heb y gofal a'r cymorth sydd eu hangen wrth iddynt ddod yn oedolyn. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau plant i unigolyn hyd nes bod y gofal a chymorth i oedolion wedi eu trefnu i gymryd eu lle. Golyga hyn na fydd bwlch.

In relation to provider failure, the LCM seeks to strengthen local authorities' duties in relation to adult care if a provider fails. The proposals will place a temporary duty on a local authority in Wales to meet the care and support needs of adults placed by an English local authority in a care home in Wales under arrangements made in accordance with cross-border placements. A wider range of good quality services will give people more control and help them to make more personalised choices in relation to their care. They will, therefore, get better care that works for them.

O ran methiant darparwr, mae'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn ceisio cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol o safbwynt gofal oedolion os yw darparwr yn methu. Bydd y cynigion yn rhoi dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol yng Nghymru i fodloni anghenion gofal a chymorth oedolion y mae awdurdod lleol yn Lloegr yn eu lleoli mewn cartref gofal yng Nghymru o dan drefniadau a wneir yn unol â lleoliadau ar draws y ffin. Bydd ystod ehangach o wasanaethau o ansawdd da yn rhoi mwy o reolaeth i bobl a'u helpu i wneud dewisiadau mwy personol o ran eu gofal. Byddant, felly, yn cael gwell gofal sy'n gweithio ar eu cyfer.

17:58 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We want, of course, to ensure continuity of care across the borders, and this LCM appears to be the necessary process for that to occur. However, I do have a few questions to raise, Deputy Minister. Has the Government—I did not quite grasp what you said—ensured that the necessary Barnett consequentials have been agreed with the UK Government over this Care Bill? We are in a situation where it appears increasingly the case that Wales has to fight each time for any consequentials, and I think we need to maintain awareness that the demographics of the Welsh population are still very much different from those of England. So, getting a Barnett consequential may not be enough to provide the same level of service that people in England will receive, which, when it comes to portability, could, indeed, be a significant issue. The committee noted that the Care Bill may amend our own social services Bill. This could lead, I fear, to a lack of scrutiny. I know, Deputy Minister, that we are expecting your response to that comment, but I think that this Assembly should be playing a far greater role in scrutinising these amendments.

Wrth gwrs rydym eisiau sicrhau parhad gofal ar draws y ffin, ac ymddengys mai'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol hyn yw'r broses sy'n angenrheidiol er mwyn i hynny ddigwydd. Fodd bynnag, mae gennyf ychydig o gwestiynau i'w codi, Ddirprwy Weinidog. A yw'r Llywodraeth—wnes i ddim deall yn hollol yr hyn a ddywedwyd—wedi sicrhau bod y symiau canlyniadol angenrheidiol dan Barnett wedi eu cytuno gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Bil Gofal hwn? Rydym mewn sefyllfa lle mae'n ymddangos bod Cymru yn gynyddol yn gorfod ymladd bob tro i gael unrhyw symiau canlyniadol, ac rwy'n credu bod angen inni barhau i fod yn ymwybodol bod demograffeg poblogaeth Cymru yn dal i fod yn wahanol iawn i'r hyn a welir yn Lloegr. Felly, efallai na fydd swm canlyniadol Barnett yn ddigon i ddarparu gwasanaeth ar yr un lefel ag y bydd pobl yn Lloegr yn ei dderbyn, a gallai hyn, o ran trosglwyddo, fod yn fater o bwys. Nododd y pwyllgor y gallai'r Bil Gofal ddiwygio ein Bil gwasanaethau cymdeithasol ni. Gallai hyn arwain, rwy'n ofni, at ddiffyg craffu. Gwn, Ddirprwy Weinidog, ein bod yn disgwyl eich ymateb i'r sylw hwnnw, ond rwy'n meddwl y dylai'r Cynulliad hwn fod yn gwneud llawer mwy o ran craffu ar y diwygiadau hyn.

Finally, Deputy Minister, we need to ensure that cross-border arrangements are clear to everyone concerned, and you touched on that in your contribution. We already know that disputes between the NHS and social care have an impact on the quality of life of people who are cared for, but without clear procedures in place, I can just imagine the disputes between a newly privatised NHS hospital in England, a local authority in England and the relevant bodies in Wales. If we can clarify that, Deputy Minister, I think that we will do well.

Yn olaf, Ddirprwy Weinidog, mae angen inni sicrhau bod trefniadau traws-ffiniol yn glir i bawb dan sylw, a chyfeiriwyd at hyn yn eich cyfraniad. Rydym eisoes yn gwybod bod anghydfodau rhwng y GIG a gofal cymdeithasol yn cael effaith ar ansawdd bywyd pobl sy'n derbyn gofal, ond heb weithdrefnau clir ar waith, gallaf ddychmygu'r anghydfodau rhwng ysbyty GIG sydd newydd ei breifateiddio yn Lloegr, awdurdod lleol yn Lloegr a'r cyrff perthnasol yng Nghymru. Os gallwn sicrhau bod hynny'n eglur, Ddirprwy Weinidog, rwy'n meddwl y byddwn wedi gwneud yn dda.

18:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Deputy Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl.

18:00 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

I am grateful to the Chair of the committee. I note what you say about the issue in Scotland; these are very long-standing general duties in Scotland. I am assured that those requirements will ensure cross-border co-operation, with Scotland included in the four nations.

Rwy'n ddiolchgar i Gadeirydd y pwyllgor. Nodaf yr hyn a ddywedwch ynglŷn â'r Alban, mae'r rhain yn ddyletswyddau cyffredinol hirsefydlog iawn yn yr Alban. Rwy'n sicr y bydd y gofynion hynny yn sicrhau cydweithrediad traws-ffiniol, gyda'r Alban wedi ei chynnwys yn y pedair gwlad.

William Graham's response was positive. It is important that we ensure that these cross-border arrangements are in place so that people are no longer confined to their own countries, when they need to move to live closer to their families. We all know that that is positive for quite a few people.

Roedd ymateb William Graham yn gadarnhaol. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y trefniadau traws-ffiniol hyn ar waith fel na fydd pobl yn gaeth i'w gwledydd eu hunain bellach, pan fydd angen iddynt symud i fyw yn agosach at eu teuluoedd. Rydym i gyd yn gwybod bod hynny'n beth cadarnhaol i gryn dipyn o bobl.

Lindsay Whittle, I am advised that there are no financial implications here of any note, because local authorities do have these responsibilities in any case. Where a country or a local authority is called upon to look after or to fund the continuity of care for people in their areas, they can always recoup that cost from the placing authorities. So, I am advised that there are no fundamental issues on funding.

Lindsay Whittle, rwyf wedi cael gwybod nad oes unrhyw oblygiadau ariannol o bwys yma, oherwydd bod gan yr awdurdodau lleol y cyfrifoldebau hyn beth bynnag. Pan ofynnir i wlad neu awdurdod lleol ariannu neu ofalu am barhad gofal pobl yn eu hardaloedd, gallant bob amser adennill y gost gan yr awdurdodau sy'n lleoli. Felly, cynghorwyd fi nad oes unrhyw faterion sylfaenol o ran cyllid.

I take your point on clear procedures and I think that that is what this LCM does. Approving these provisions will provide better continuity of care and will strengthen the co-operation duties across the four nations to ensure sustainable support, as far as practical, across our borders, while of course preserving—and I think that you made this point—the distinct policies of each of the four nations. Both the Social Services and Well-being (Wales) Bill and the Care Bill have presented opportunities that, in the past, were limited to England and Wales only. I will continue to work closely with my Whitehall counterparts to ensure that there is ongoing synergy across our borders. I invite Members to approve both these motions.

Rwy'n derbyn eich pwynt ar weithdrefnau eglur ac rwy'n meddwl mai dyna y mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn yn ei wneud. Trwy gymeradwyo'r darpariaethau hyn, rhoddir gwell parhad o ran gofal ac atgyfnerthir y dyletswyddau cydweithredu rhwng y pedair gwlad i sicrhau cefnogaeth gynaliadwy, cyn belled ag y bo'n ymarferol, ar draws ein ffiniau, gan gadw—a chredaf eich bod wedi gwneud y pwynt hwn—polisïau gwahanol pob un o'r pedair gwlad. Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Bil Gofal wedi cyflwyno cyfleoedd a oedd, yn y gorffennol, yn gyfyngedig i Gymru a Lloegr yn unig. Byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda'm cymheiriaid yn Whitehall i sicrhau synergedd parhaus ar draws ein ffiniau. Rwy'n gwahodd yr Aelodau i gymeradwyo'r ddau gynnig hyn.

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion NDM5247. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn cynnig NDM5247. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion NDM5331. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn cynnig NDM5331. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Eithriad ASBO

# Supplementary Legislative Consent Motion on the Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Bill in respect of the ASBO Exception

Cynnig NDM5342 Lesley Griffiths
Motion NDM5342 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU wneud darpariaethau yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona, i ddiwygio'r eithriad ynghylch gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mharagraff 12, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provision in the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill, amending the anti-social behaviour orders exception in paragraph 12, Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, which modifies the legislative competence of the Assembly, should be made by the UK Parliament.

18:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

This is a very important legislative consent motion and I will explain why the Welsh Government is unable to support it. Before doing so, I would like to thank the Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee for its work in scrutinising the LCM. The committee shares our view that the Bill provision, which is the subject of this LCM, reduces the Assembly's competence and should not be agreed to.

Mae hwn yn gynnig cydsyniad deddfwriaethol pwysig iawn a byddaf yn egluro pam nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu ei gefnogi. Cyn gwneud hynny, hoffwn ddiolch i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad am ei waith wrth graffu ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r pwyllgor yn rhannu ein barn bod darpariaeth y Bil, sef testun y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, yn lleihau cymhwysedd y Cynulliad ac na ddylid cytuno ag ef.

The LCM relates to provision of the Anti-Social Behaviour, Crime and Policing Bill. This provision substitutes a new replacement exception for the current anti-social behaviour orders—ASBOs—exception in Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. Anti-social behaviour orders were part of the anti-social behaviour regime created by the Crime and Disorder Act 1998, which is being replaced by the new Bill.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â darpariaeth y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona. Mae'r ddarpariaeth hon yn gosod eithriad newydd ar gyfer y gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol cyfredol—ASBOs— yn lle'r eithriad cyfredol yn Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhan o'r gyfundrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol a grëwyd gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sy'n cael ei disodli gan y Bil newydd.

The replacement exception was inserted without the Welsh Government's agreement. It reads as follows:

Mewnosodwyd yr eithriad newydd heb gytundeb Llywodraeth Cymru. Mae'n darllen fel a ganlyn:

'Orders to protect people from behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress.'

'Gorchmynion i amddiffyn pobl rhag ymddygiad sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod.'

The Home Office contends that all that it has done is update the exception in recognition of the abolition of the current anti-social behaviour regime. I disagree. The replacement exception has a significant impact on the Assembly's legislative competence. The wording of the replacement exception is derived from the description of the types of behaviour for which ASBOs, under the Crime and Disorder Act, may be obtained. However, inserting this wording as an exception in Schedule 7 extends the reach of the exception; it will include all orders to protect people from this very wide category of behaviour and not just those linked to the previous ASBO regime. This is an unacceptable restriction of the Assembly's powers and could bite across a wide range of devolved policy areas. For example, in the social welfare context, what if the Assembly wanted to legislate to create orders for the protection of vulnerable people who might be suffering distress as a result of abusive behaviour from a third party? However, the replacement exception that is the subject of this LCM would throw doubt on our ability to do that.

Mae'r Swyddfa Gartref yn dadlau mae'r unig beth y mae wedi ei wneud yw diweddaru'r eithriad er mwyn cydnabod diddymu'r gyfundrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol gyfredol. Rwyf yn anghytuno. Mae'r eithriad newydd yn effeithio'n sylweddol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae geiriad yr eithriad newydd yn deillio o'r disgrifiad o'r mathau o ymddygiad y gellir cael ASBOs, o dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae mewnosod y geiriad hwn fel eithriad yn Atodlen 7 yn ymestyn cyrhaeddiad yr eithriad; bydd yn cynnwys pob gorchymyn i amddiffyn pobl rhag y categori eang iawn o ymddygiad ac nid dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn ASBO flaenorol. Mae hwn yn gyfyngiad annerbyniol ar bwerau'r Cynulliad a gallai fod yn berthnasol ar draws ystod eang o feysydd polisi datganoledig. Er enghraifft, yng nghyd-destun lles cymdeithasol, beth pe byddai'r Cynulliad yn awyddus i ddeddfu i greu gorchmynion ar gyfer amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a allai fod yn dioddef trallod o ganlyniad i ymddygiad camdriniol gan drydydd parti? Er hynny, byddai'r eithriad newydd sy'n destun y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn taflu amheuaeth ar ein gallu i wneud hynny.

We have explained in detail to the UK Government why we believe that its replacement amendment encroaches on the Assembly's competence. We have provided specific example of potential problems in relation to future Assembly Bills. Moreover, we have provided a pragmatic and sensible alternative approach that would overcome these problems. I have written to the Minister for Crime Prevention explaining our proposal for a new exception, which would cover only those orders, injunctions and notices under the Bill that correlate most closely to the current ASBOs. The UK Government has not accepted our pragmatic compromise, although we will continue to press for it. The UK Government considers that this amendment to Schedule 7 to the Government of Wales Act can be made without an LCM in the Assembly. I disagree, as an amendment that reduces this Assembly's legislative competence should not be taken forward without an opportunity for this Assembly to consider it. For the reasons that I have outlined, Presiding Officer, I ask the Assembly not to support this LCM.

Rydym wedi egluro yn fanwl i Lywodraeth y DU pam yr ydym yn credu bod ei gwelliant newydd yn tresmasu ar gymhwysedd y Cynulliad. Rydym wedi darparu enghraifft benodol o broblemau posibl o ran Biliau'r Cynulliad yn y dyfodol. Yn ogystal, rydym wedi darparu dull amgen pragmatig a synhwyrol a fyddai'n goresgyn y problemau hyn. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Heddlu a Gostwng Troseddu yn esbonio ein cynnig ar gyfer eithriad newydd, a fyddai'n cynnwys dim ond y gorchmynion, gwaharddebau a hysbysiadau hynny o dan y Bil sy'n cyfateb yn fwyaf agos at y gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol cyfredol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi derbyn ein cyfaddawd pragmatig, er y byddwn yn parhau i bwyso am hynny. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y gall y gwelliant hwn i Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru gael ei wneud heb Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad. Rwyf yn anghytuno, gan na ddylai gwelliant sy'n lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad hwn gael ei symud ymlaen heb i'r Cynulliad hwn gael cyfle i'w ystyried. Am y rhesymau yr wyf wedi'u hamlinellu, Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad beidio â chefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

18:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

18:06

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The revised legislative consent memorandum was referred to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for scrutiny on 22 October 2013, and we considered it on 11 November, reporting to the Assembly on 20 November.

Atgyfeiriwyd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol diwygiedig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer craffu ar 22 Hydref, 2013, ac fe'i hystyriwyd gennym ar 11 Tachwedd, gan adrodd i'r Cynulliad ar 20 Tachwedd.

The UK Government's Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill, in part, seeks to create new and simpler powers to tackle anti-social behaviour and, in so doing, to reduce the types of order for dealing with such behaviour from 19 to six. The legislative consent memorandum concerns a specific provision of the UK Government's Bill that was introduced by amendment and which was passed at report stage in the House of Commons on 14 October 2013. The provision amends Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, which sets out the legislative competence of the Assembly.

Mae Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona Llywodraeth y DU, yn rhannol, yn ceisio creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac, wrth wneud hynny, lleihau'r mathau o orchymyn i ymdrin ag ymddygiad o'r fath o 19 i chwech. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â darpariaeth benodol o Fil Llywodraeth y DU a gyflwynwyd drwy welliant ac a basiwyd yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Hydref 2013. Mae'r ddarpariaeth yn diwygio Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n gosod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Specifically, it replaces one of the exceptions from competence listed under heading 12, 'Local government'. Currently, that exception reads 'Anti-Social behaviour orders'. If the Bill is passed with this new provision in it, the exception will instead read

Yn benodol, mae'n cymryd lle un o'r eithriadau o'r cymhwysedd a restrir o dan bennawd 12, 'Llywodraeth leol'. Ar hyn o bryd, mae'r eithriad hwnnw'n cael ei nodi fel 'gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol'. Os caiff y Bil ei basio gyda'r ddarpariaeth newydd hon ynddo, bydd yr eithriad yn hytrach yn cael ei nodi fel

'Orders to protect people from behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress'.

Gorchmynion i amddiffyn pobl rhag ymddygiad sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod.

As the Welsh Government points out in its legislative consent memorandum, the Act provides a mechanism for Her Majesty's Government to make Orders in Council, under section 109 of that Act, that amend Schedule 7. Such Orders are subject to the affirmative procedure both in the Assembly and in the UK Parliament.

Fel y mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei femorandwm cydsyniad deddfwriaethol, mae'r Ddeddf yn darparu mecanwaith ar gyfer Llywodraeth Ei Mawrhydi i wneud Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, o dan adran 109 y Ddeddf honno, sy'n diwygio Atodlen 7. Mae Gorchmynion o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad ac yn Senedd y DU.

We accept that the repeal of the existing regime relating to anti-social behaviour orders requires a consequential amendment to the exception in Schedule 7 to the 2006 Act. However, we agree with the Welsh Government that the drafting of the current Bill provision, inserted by amendment, substantively amends Schedule 7 in a way that significantly reduces the Assembly's competence.

Rydym yn derbyn bod diddymu'r drefn bresennol sy'n ymwneud â gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn golygu bod angen gwelliant canlyniadol i'r eithriad yn Atodlen 7 o Ddeddf 2006. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod drafftio darpariaeth y Bil cyfredol, a fewnosodwyd drwy welliant, yn diwygio Atodlen 7 yn sylweddol mewn ffordd sy'n lleihau cymhwysedd y Cynulliad yn sylweddol.

We believe that the use of the mechanism provided for in section 109 of the 2006 Act would have been a more open and transparent way of seeking to amend the National Assembly's legislative competence under Schedule 7 to the 2006 Act. To that end, we concluded that the legislative consent motion for consideration this afternoon should not be agreed to.

Rydym yn credu y byddai defnyddio'r mecanwaith y darperir ar ei gyfer yn adran 109 o Ddeddf 2006 wedi bod yn ffordd fwy agored a thryloyw o geisio newid cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Atodlen 7 o Ddeddf 2006. I'r perwyl hwnnw, daethom i'r casgliad na ddylid cytuno i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol i'w ystyried y prynhawn yma.

18:09

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

While we support the policy objectives of the UK Government's Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill, we are concerned that the legislative competence motion as currently worded decreases the National Assembly for Wales's existing powers to legislate to prevent or punish

Er ein bod yn cefnogi amcanion polisi Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona Llywodraeth y DU, rydym yn pryderu bod y cynnig cymhwysedd deddfwriaethol fel y mae wedi ei eirio ar hyn o bryd yn lleihau pwerau presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu i atal neu gosbi

'behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress'—

'Ymddygiad sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod'—

provided that it relates to devolved matters. We believe that we need a different legislative consent motion or that section 109 of the Government of Wales Act should have been used. At the moment, it is not clear whether Westminster has realised the effect of this legislative consent motion and therefore what its legislative intention is. We therefore will not be supporting the motion, but if the Welsh Government is able to come forward with another legislative consent motion addressing the concerns highlighted, we will be pleased to consider supporting that.

cyn belled â'i fod yn ymwneud â materion datganoledig. Rydym yn credu ein bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol gwahanol neu y dylid bod wedi defnyddio adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a yw San Steffan wedi sylweddoli effaith y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, ac felly beth yw ei fwriad deddfwriaethol. Ni fyddwn felly'n cefnogi'r cynnig, ond os yw Llywodraeth Cymru yn gallu dod â chynnig cydsyniad deddfwriaethol arall ymlaen sy'n mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd, byddwn yn falch o ystyried cefnogi hwnnw.

18:10

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I agree with the Welsh Government's interpretation of what this supplementary legislative consent memorandum could mean for the Assembly's ability, in devolved areas, to act in a meaningful way in order to protect people from behaviour that causes, or is likely to cause, harassment, alarm or distress. I think that it is rather peculiar that the UK Government, specifically the Home Office, whose amendment to the Bill in question has resulted in this LCM, did not see the need to table an amendment with a form of words that would avoid diminishing the Assembly's powers. It seems perfectly reasonable to me that the Home Office should accommodate such a position, and it is disappointing that the Secretary of State has failed to influence the Home Office accordingly. It is also disappointing to hear today that the Minister's compromise has also been rejected.

Rwyf yn cytuno â dehongliad Llywodraeth Cymru o'r hyn y gallai'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn ei olygu i allu'r Cynulliad, mewn meysydd datganoledig, i weithredu mewn ffordd ystyrlon er mwyn amddiffyn pobl rhag ymddygiad sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, dychryn neu drallod. Mae hi braidd yn rhyfedd, yn fy marn i, na welodd Llywodraeth y DU, y Swyddfa Gartref yn benodol, y mae eu gwelliant i'r Bil dan sylw wedi arwain at y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, yr angen i gyflwyno gwelliant ar ffurf geiriad a fyddai'n osgoi lleihau pwerau'r Cynulliad. Mae'n ymddangos yn gwbl resymol i mi y dylai'r Swyddfa Gartref ystyried safbwynt o'r fath, ac mae'n siomedig fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi methu â dylanwadu ar y Swyddfa Gartref yn hynny o beth. Mae hefyd yn siom i glywed heddiw fod cyfaddawd y Gweinidog hefyd wedi ei wrthod.

As has already been outlined in the Minister's statements and in the letter from the First Minister to the UK Government, allowing this change to Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 would result in the Assembly then being unable to legislate to protect people from behaviour that causes or is likely to cause harassment, alarm or distress in our hospitals, schools, or perhaps in relation to housing. As the Silk commission is currently looking at matters such as criminal justice and policing, it would be sensible for any amendment to Schedule 7 to reflect as closely as possible the current situation, while, of course, recognising the change to the ASBO regime, which is non-devolved.

Fel yr amlinellwyd eisoes yn natganiadau'r Gweinidog ac yn y llythyr oddi wrth y Prif Weinidog i Lywodraeth y DU, byddai caniatáu'r newid hwn i Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn arwain at y Cynulliad yn methu â deddfu i ddiogelu pobl rhag ymddygiad sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod yn ein hysbytai, ein hysgolion, neu efallai ynglŷn â thai. Gan fod comisiwn Silk ar hyn o bryd yn edrych ar faterion megis cyfiawnder troseddol a phlismona, byddai'n synhwyrol i unrhyw welliant i Atodlen 7 adlewyrchu mor agos â phosibl y sefyllfa gyfredol, gan gydnabod ar yr un pryd, wrth gwrs, y newid i'r gyfundrefn ASBO, nad yw wedi ei datganoli.

I think that all Members would agree that it is not beyond the realms of possibility that should this LCM be granted, and if this Assembly in future legislates to protect health workers, for example, from harassment in hospitals, then it could perhaps end up in the Supreme Court again. I think that the UK Government has developed a bit of a taste for that already. I therefore urge Members to reject this supplementary legislative consent memorandum.

Credaf y byddai pob Aelod yn cytuno, pe byddai'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn cael ei ganiatáu, mae'n ddigon posib, pe byddai'r Cynulliad hwn yn y dyfodol yn deddfu i ddiogelu gweithwyr iechyd, er enghraifft, rhag aflonyddu arnynt mewn ysbytai, yna gallai fynd i'r Goruchaf Lys eto yn y pen draw. Rwyf yn credu bod Llywodraeth y DU wedi datblygu tipyn o flas am hynny eisoes. Felly, rwyf yn annog yr Aelodau i wrthod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn.

18:12 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats will not be supporting this LCM today, and I think that all four parties will be rejecting it. That in itself sends a message to the UK Government that we are unhappy, not only at the way that this clause has been drafted but because we do not agree that the Assembly's competence should be restricted in this way, nor do we agree with the method by which this amendment is being introduced, and we are concerned about the implications of any precedent that may be set. I think that it is common for those of us who have been here since 1999 to think that some UK Government departments are less devolution-friendly than others. The Home Office, in particular, I think, is one of those that have always struggled with the concept. I think that this is a good example of where that has happened. Clearly, if we had a different sort of devolution model, this would not happen. What concerns me most about this episode is how easy it is, through the slip of a pen or a badly drafted clause, to take away competence from this Assembly in key areas in the way that it has happened here. This issue has wider implications, which need to be discussed at a UK level and at a more senior level in terms of how this is being taken forward. I am sure that the First Minister will be raising that the next time that he meets the Prime Minister, or whatever, in terms of how this episode has arisen and the implications that this could have for future legislation. We will be opposing this LCM.

Ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw, ac rwyf o'r farn y bydd y pedair plaid yn ei wrthod. Mae hynny ynddo'i hun yn anfon neges i Lywodraeth y DU ein bod yn anhapus, nid yn unig ar y ffordd y mae'r cymal hwn wedi ei ddrafftio, ond oherwydd nad ydym yn cytuno y dylai cymhwysedd y Cynulliad gael ei gyfyngu yn y modd hwn, ac nid ydym ychwaith yn cytuno â'r dull o gyflwyno'r gwelliant hwn, ac rydym yn pryderu am oblygiadau unrhyw gynsail y gallai hyn ei osod. Credaf fod pawb ohonom sydd wedi bod yma ers 1999 o'r un farn, sef bod rhai adrannau o Lywodraeth y DU yn llai cefnogol i ddatganoli nag eraill. Mae'r Swyddfa Gartref, yn benodol, yn fy marn i, yn un o'r rhai sydd wedi cael trafferth gyda'r cysyniad erioed. Rwyf yn credu bod hyn yn enghraifft dda o hynny'n digwydd. Yn amlwg, pe byddai gennym fath gwahanol o fodel datganoli, ni fyddai hyn yn digwydd. Yr hyn sy'n fy mhryderu i fwyaf am y digwyddiad hwn yw pa mor hawdd yw hi, trwy gamgymeriad wrth ysgrifennu neu gymal wedi'i ddrafftio'n wael, i fynd â chymhwysedd oddi ar y Cynulliad hwn mewn meysydd allweddol yn y ffordd a ddigwyddodd yma. Mae oblygiadau ehangach i'r mater hwn, y mae angen eu trafod ar lefel y DU ac ar lefel uwch o ran sut y mae hyn yn cael ei ddatblygu. Rwyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog yn codi hynny tro nesaf y bydd yn cwrdd â Phrif Weinidog y DU, neu beth bynnag, o ran sut y mae'r digwyddiad hwn wedi codi a'r goblygiadau y gallai hyn ei gael ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol. Byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

18:13 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased that the Government is resisting the legislative consent motion on the agenda today. I think that it would be unthinkable that we would abdicate our responsibility for our constituents where harassment, alarm or distress arise in the subject areas that are devolved to us. The amendment that the Bill is making to Schedule 7 to the Government of Wales Act would narrow the Assembly's legislative competence in a way that would make it very difficult to bring forward legislation on areas that are of vital importance to us. We had a good debate earlier this afternoon about domestic abuse. Certainly, domestic violence is one of the areas that can encompass behaviour that causes, or is likely to cause harassment, alarm or distress. It is unthinkable that our powers in relation to domestic violence should be restricted. I also think of the area of animal welfare. It is unthinkable that we would be unable to make any legislation that would affect animal welfare. I hope that this can be sorted out. I hope that this is something that has unwittingly happened by the Westminster Government's actions, but I urge the First Minister and the Minister to do all they possibly can within their powers to sort this out, so that the powers of the Assembly are not diminished.

Rwyf yn falch bod y Llywodraeth yn gwrthsefyll y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd ar yr agenda heddiw. Rwyf o'r farn y byddai y tu hwnt i amgyffred pe byddem yn gwrthod bod yn gyfrifol am ein hetholwyr pan fo aflonyddwch, braw neu drallod yn codi yn y meysydd sydd wedi eu datganoli i ni. Byddai'r gwelliant y mae'r Bil yn ei wneud i Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn ffordd a fyddai'n ei gwneud yn anodd iawn i gyflwyno deddfwriaeth ar feysydd sydd o bwysigrwydd hanfodol i ni. Cawsom ddadl dda yn gynharach y prynhawn yma ynghylch cam-drin domestig. Yn sicr, mae trais domestig yn un o'r meysydd a all gwmpasu ymddygiad sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod. Mae y tu hwnt i amgyffred bod ein pwerau ynglŷn â thrais domestig yn cael eu cyfyngu. Rwyf hefyd yn meddwl am y maes lles anifeiliaid. Mae y tu hwnt i amgyffred na fyddem yn gallu pasio unrhyw ddeddfwriaeth a fyddai'n effeithio ar les anifeiliaid. Rwyf yn gobeithio y gellir datrys hyn. Rwyf yn gobeithio bod hyn yn rhywbeth sydd wedi digwydd yn ddiarwybod drwy weithredoedd Llywodraeth San Steffan, ond yr wyf yn annog y Prif Weinidog a'r Gweinidog i wneud popeth posibl, o fewn y pwerau sydd ganddynt, i ddatrys hyn, fel nad yw pwerau'r Cynulliad yn cael eu lleihau.

18:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

18:15 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I am very grateful to colleagues for their support, and I would like to thank all Members who have contributed to the debate. As Members have said, it is very important that legislative competence is not narrowed or compromised. I do not think that I am quite so generous as Mark Isherwood, who thinks that maybe the UK Government does not understand the implications of this matter, but it is something on which I made representations to Stephen Crabb, when I met him, and the First Minister and I have both written on several occasions, and the First Minister will now raise this matter with the Prime Minister at the next JMC.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i gydweithwyr am eu cefnogaeth, a hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl. Fel y mae Aelodau wedi dweud, mae'n bwysig iawn nad yw cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei leihau neu ei beryglu. Nid wyf yn meddwl fy mod llawn mor hael â Mark Isherwood, sy'n credu efallai nad yw Llywodraeth y DU yn deall goblygiadau'r mater hwn, ond mae'n rhywbeth yr wyf wedi cyflwyno sylwadau arno i Stephen Crabb, pan gwrddais i ag ef, ac mae'r Prif Weinidog a minnau wedi ysgrifennu sawl gwaith, a bydd y Prif Weinidog yn awr yn codi'r mater hwn gyda Phrif Weinidog y DU yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion nesaf.

18:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. I therefore defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon felly hyd y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Manteision i Gymru i'r DU Barhau i fod yn Aelod o'r Undeb Ewropeaidd

## The Benefits to Wales of the UK's Continued Membership of the European Union

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 5 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of William Graham, amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts, and amendment 5 in the name of Elin Jones.*

Cynnig NDM5367 Lesley Griffiths

Motion NDM5367 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cydnabod y manteision i Gymru pe bai'r Deyrnas Unedig yn parhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Recognises the benefits to Wales of the UK's continued membership of the EU.

18:16

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Croesawaf y ddadl hon er mwyn cydnabod y budd sylweddol sy'n dod i Gymru yn sgîl y ffaith bod y Deyrnas Unedig yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ac i fynegi pryder am yr hyn a fyddai'n digwydd pe bai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd—byddai hynny'n rhywbeth gwael i Brydain, ond byddai'n hynod wael i Gymru. Wrth gwrs, codwyd y posibilrwydd hwn, a'r ansicrwydd sy'n mynd gydag ef, gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ei ddatganiad ddechrau'r flwyddyn ynglŷn â chael refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn 2017. Y broblem yn awr yw, wrth gwrs, y bydd ansicrwydd mawr am efallai bedair blynedd. Mae hynny'n drueni mawr, achos nid wyf yn credu bod David Cameron, Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, am weld y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd; mae hyn wedi cael ei yrru gan rai o aelodau ei blaid sydd efallai yn ynysol o ran yr ynysoedd hyn.

I welcome this debate as it provides an opportunity to recognise the significant benefit that Wales accrues from the fact that the United Kingdom is a member of the European Union. It also gives me an opportunity to express concern about what would happen if the UK were to leave the European Union—that would be bad for Britain and exceptionally bad for Wales. Of course, this possibility and the uncertainty that accompanies it, was raised by the Prime Minister of the United Kingdom in his statement at the beginning of the year on a referendum on the UK's membership of the EU in 2017. The problem now, of course, is that there will be great uncertainty for some four years. This is a great shame, because I do not think that David Cameron, the Prime Minister, is someone who wants to see the UK leaving the EU; this is driven by some members of his party who are perhaps isolationists in terms of these isles.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 18:16.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 18:16.*

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will say many times over the next few months and years that the Welsh Government is unequivocally pro-European; we are firmly focused on delivering jobs and growth, and, quite simply, we would not be able to achieve our aims without our unfettered access to the EU single market—the world's largest market in GDP terms and our largest single trading partner. The single market brings enormous benefits to our businesses and is a major attraction for existing and potential inward investors. When I have gone abroad, I have been asked the question—well, now I am asked the question—as to whether the UK will continue as a member of the European Union. It is clear to me that those who look to invest in Wales do so not because of the Welsh market of 3 million people, which is very small, nor indeed because of the UK market of 60 million, particularly from an Indian, Chinese, Japanese or Indonesian perspective, as it is a small market; it is the attractiveness of access to a market of 500 million—the European market—that makes Wales an attractive place to invest.

Byddaf yn dweud sawl gwaith dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf bod Llywodraeth Cymru yn ddigamsyniol o blaid bod yn rhan o Ewrop; rydym yn canolbwyntio'n gadarn ar ddarparu swyddi a thwf, ac, yn syml iawn, ni fyddem yn gallu cyflawni ein nodau heb ein mynediad dilyffethair i farchnad sengl yr UE—y farchnad fwyaf yn y byd o ran CMC a'n partner masnachu unigol mwyaf. Mae'r farchnad sengl yn dod â manteision enfawr i'n busnesau ac mae'n atyniad pwysig i fewnfuddsoddwyr presennol a darpar fuddsoddwyr. Pan wyf wedi bod dramor, mae'r cwestiwn wedi cael ei ofyn i mi—wel, nawr gofynnir y cwestiwn i mi—sef a fydd y DU yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n amlwg i mi fod y rhai sy'n dymuno buddsoddi yng Nghymru yn gwneud hynny nid oherwydd y farchnad Gymreig o 3 miliwn o bobl, sy'n fach iawn, nac yn wir oherwydd y farchnad yn y DU o 60 miliwn, yn enwedig o safbwynt Indiaidd, Tseineaidd, Japaneaidd neu Indonesaidd, gan mai marchnad fechan yw hi; yr atyniad yw mynediad at farchnad o 500 miliwn—y farchnad Ewropeaidd—sy'n gwneud Cymru'n lle deniadol i fuddsoddi ynddo.

We know that more than 600 firms in Wales export goods worth over £5 billion annually to other EU member states and that some 150,000 jobs in Wales depend on that trade. Additionally, more than 450 firms from other member states are located in Wales, providing some 50,000 jobs. Those benefits alone would make a compelling business case for our continued membership of the EU, and anything that interferes with that access to the single market can only be bad for Wales and Britain.

Rydym yn gwybod bod mwy na 600 o gwmnïau yng Nghymru sy'n allforio gwerth dros £5 biliwn o nwyddau bob blwyddyn i aelod-wladwriaethau eraill yr UE a bod tua 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar y masnachu hwnnw. Yn ogystal, mae mwy na 450 o gwmnïau o aelod-wladwriaethau eraill wedi eu lleoli yng Nghymru, gan ddarparu rhyw 50,000 o swyddi. Byddai'r manteision hynny'n unig yn gwneud achos busnes cryf dros ein haelodaeth barhaus o'r Undeb Ewropeaidd, ac ni all unrhyw beth sy'n amharu ar y mynediad i'r farchnad sengl ond gwneud drwg i Gymru a Phrydain.

Setting out the view from the business community in the UK, we know that, earlier this month, the CBI published a report that stated that remaining in the EU is

'overwhelmingly best for business'

and that continued access to the single market is fundamental to our future prosperity. The CBI's research found that EU membership is worth between £62 billion and £78 billion each year to the UK economy, suggesting that households in the UK benefit by nearly £3,000 each.

Gan nodi safbwynt y gymuned fusnes yn y DU, rydym yn gwybod, yn gynharach y mis hwn, bod y CBI wedi cyhoeddi adroddiad a oedd yn datgan bod aros yn yr UE:

y peth gorau yn ddigamsyniol i fusnes

a bod mynediad parhaus i'r farchnad sengl yn sylfaenol i'n ffyniant yn y dyfodol. Canfu ymchwil y CBI fod aelodaeth o'r UE yn werth rhwng £62 biliwn a £78 biliwn bob blwyddyn i economi'r DU, gan awgrymu bod aelwydydd yn y DU yn elwa o bron i £3,000 yr un.

We know, of course, that Wales also benefits greatly from EU structural funds, which are helping us to develop skills and to build physical infrastructure to make our economy more competitive. I am delighted that the European Parliament last week approved the EU's long-term budget, and I look forward to the new round of structural fund programmes starting in 2014. During the current programming period, Wales is benefiting from the support of over £1.8 billion from the structural funds, and, together with match funding, that is worth over £3.8 billion-worth of investment in total. This investment has a direct impact on the lives of people across Wales, particularly in our most vulnerable communities. We also know that European funding also helps to maintain and develop prosperity in our rural areas that are vital to the Welsh economy. Where would our farmers be if it were not for the common agricultural policy? We know that universities and companies have benefited from EU support for research.

Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod Cymru hefyd yn elwa'n helaeth o gronfeydd strwythurol yr UE, sydd yn ein helpu i ddatblygu sgiliau ac i adeiladu seilwaith ffisegol i wneud ein heconomi yn fwy cystadleuol. Rwyf wrth fy modd bod Senedd Ewrop yr wythnos diwethaf wedi cymeradwyo cyllideb tymor hir yr UE, ac edrychaf ymlaen at y cylch newydd o raglenni cronfeydd strwythurol a fydd yn dechrau yn 2014. Yn ystod y cyfnod rhaglennu cyfredol, mae Cymru yn elwa o gefnogaeth o fwy nag £1.8 biliwn o'r cronfeydd strwythurol, ac, ynghyd ag arian cyfatebol, mae hynny werth cyfanswm o dros £3.8 biliwn o fuddsoddiad. Mae'r buddsoddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl ledled Cymru, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf agored i niwed. Rydym hefyd yn gwybod bod cyllid Ewropeaidd yn helpu i gynnal a datblygu ffyniant yn ein hardaloedd gwledig sy'n hanfodol i economi Cymru. Ble byddai ein ffermwyr yn ei wneud heb bolisi amaethyddol cyffredin? Rydym yn gwybod bod prifysgolion a chwmnïau wedi elwa ar gymorth yr UE ar gyfer ymchwil.

I will turn to the amendments at this stage and deal substantively with amendment 1, from the Conservatives, in the name of William Graham. The issue of renegotiation has been raised, of course, by those in the Conservative Party and some outside, but it strikes me that there is no point calling for a renegotiation if you do not know what the renegotiation is about, what the endgame is, or what the renegotiation is designed to deliver. We could not as a Government here support an amendment that suggests that there should be a renegotiation without actually defining what that renegotiation should be about.

Trof at y gwelliannau nawr ac ymdrin mewn modd sylweddol â gwelliant 1, gan y Ceidwadwyr, yn enw William Graham. Mae'r mater o aildrafod wedi cael ei godi, wrth gwrs, gan y rhai yn y Blaid Geidwadol a rhai y tu allan, ond mae'n fy nharo i nad oes pwynt galw am aildrafod os nad ydych yn gwybod â beth y mae'r aildrafod yn ymwneud, beth yw terfyn y chwarae, neu beth y disgwylir i'r aildrafod ei gyflawni. Ni allem fel Llywodraeth yma gefnogi gwelliant sy'n awgrymu y dylid cael aildrafod heb ddiffinio'r hyn, mewn gwirionedd, y dylai'r aildrafod fod yn ymwneud ag ef.

I think it is worth emphasising that the worst possible outcome for Wales or the UK would be an exit from the EU by stealth. We have to remember that, whether we are members of the EU or not, we would still be bound by EU regulations if we want to export into the European market. The difference is that as members of the European Union we are able to influence EU policy and regulations that come from the Commission; if we were not members, we would not be able to influence anything, and yet would still be bound by the regulations that came from Europe. It is what the Norwegians call fax diplomacy, where they are bound, in effect, by EU regulation and EU rules even though they have no role whatsoever in shaping those rules and regulations. An even worse outcome, of course, would be if there were not to be a free trade agreement between the UK and the European Union. There are some who say that this is inevitable, but I am not sure; in fact, I am far from sure. There will be voices, no doubt, in the EU that will say, 'Why should we have a free trade agreement with the UK?'. The reality is that we need the EU more, in many ways, than the EU needs us. The reality is that, as members of the EU, we need each other. To put ourselves in a position where we might even threaten the ability of our farmers to export into the EU freely and to threaten the ability of our manufacturers to export into the EU market seems to me to be completely senseless, and not something we should even be looking to consider.

Credaf ei bod yn werth pwysleisio mai'r canlyniad gwaethaf posibl i Gymru neu'r DU fyddai dod allan o'r UE yn llechwraidd. Mae'n rhaid i ni gofio, pa un a ydym yn aelodau o'r UE neu beidio, byddem yn dal i gael ein rhwymo gan reoliadau'r UE os ydym yn dymuno allforio i'r farchnad Ewropeaidd. Y gwahaniaeth yw fel aelodau o'r Undeb Ewropeaidd ein bod yn gallu dylanwadu ar bolisi a rheoliadau'r UE sy'n dod oddi wrth y Comisiwn; pe na byddem yn aelodau, ni fyddem yn gallu dylanwadu ar unrhyw beth, ac eto byddem yn dal i gael ein rhwymo gan y rheoliadau a fyddai'n dod o Ewrop. Dyma'r hyn y mae'r Norwyaid yn ei alw'n ddiplomyddiaeth ffacs, lle maent yn cael eu rhwymo, i bob pwrpas, gan reoliadau'r UE a rheolau'r UE er nad oes ganddynt unrhyw swyddogaeth o gwbl mewn llunio'r rheolau a'r rheoliadau hynny. Canlyniad hyd yn oed yn waeth, wrth gwrs, fyddai pe na byddai cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Mae rhai yn dweud bod hyn yn anochel, ond nid wyf yn siŵr; mewn gwirionedd, rwy'n bell o fod yn siŵr. Fe fydd lleisiau, yn ddiau, yn yr UE a fydd yn dweud, 'Pam ddylai fod gennym gytundeb masnach rydd gyda'r DU?'. Y gwir amdani yw bod arnom angen yr UE yn fwy, mewn sawl ffordd, nag y mae'r UE ein hangen ni. Y gwir amdani yw, fel aelodau o'r UE, ein bod angen ein gilydd. Mae rhoi ein hunain mewn sefyllfa lle y gallem hyd yn oed fygwth gallu ein ffermwyr i allforio'n rhydd i'r UE ac i fygwth gallu ein gweithgynhyrchwyr i allforio i farchnad yr UE yn ymddangos i mi i fod yn gwbl ddisynnwyr, ac nid yn rhywbeth y dylem hyd yn oed feddwl am ei ystyried.

The EU is not perfect. That much is true. Much could be done to reform the governance of the Commission and the Union itself, but that is not a reason for leaving the European Union, nor is it a reason for us in Wales to lose that export market upon which we depend so much. Many of our large manufacturing companies are in Wales because we are members of the EU. If that membership is threatened, they will look far more favourably on other countries that remain members of the EU in terms of their future investments.

Nid yw'r UE yn berffaith. Mae hynny'n wir. Gellid gwneud llawer i ddiwygio llywodraethu'r Comisiwn a'r Undeb ei hun, ond nid yw hynny'n rheswm dros adael yr Undeb Ewropeaidd, ac nid yw'n rheswm i ni yng Nghymru golli'r farchnad allforio honno yr ydym yn dibynnu cymaint arni. Mae llawer o'n cwmnïau gweithgynhyrchu mawr yng Nghymru oherwydd ein bod yn aelodau o'r UE. Os yw'r aelodaeth honno'n cael ei bygwth, byddant yn edrych yn llawer mwy ffafriol ar wledydd eraill sy'n parhau i fod yn aelodau o'r UE ar gyfer eu buddsoddiadau yn y dyfodol.

Turning to amendment 2, the Government will support this amendment. In many ways, the net benefit to Wales of EU membership is at least £144 million. That is a very rough-and-ready calculation, and probably an underestimate in some ways. It is a figure we have used in the past but, nevertheless, the real figure is probably somewhat higher than that.

Gan droi at welliant 2, bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant hwn. Mewn sawl ffordd, mae'r budd net i Gymru o aelodaeth yr UE yn o leiaf £144 miliwn. Mae hynny'n gyfrifiad ffwrdd –â-hi iawn, ac mae'n debyg yn amcangyfrif rhy isel mewn rhai ffyrdd. Mae'n ffigur yr ydym wedi'i ddefnyddio yn y gorffennol ond, serch hynny, mae'r gwir ffigwr yn ôl pob tebyg rywfaint yn uwch na hynny.

In terms of amendment 3, we will support this, recognising of course that climate change and pollution knows no borders, and knows no boundaries. You cannot deal with climate change nor, indeed, with pollution by imagining that somehow pollution will stop at a political border.

O ran gwelliant 3, byddwn yn cefnogi hwn, gan gydnabod, wrth gwrs, nad yw newid yn yr hinsawdd a llygredd yn cydnabod unrhyw ffiniau, nac yn cydnabod unrhyw derfynau. Ni allwch ymdrin â newid yn yr hinsawdd nac, mewn gwirionedd, â llygredd trwy ddychmygu y bydd llygredd rhywsut yn stopio ar ffin wleidyddol.

In terms of amendment 4, we will support that amendment. Again, crime knows no boundaries, and to be able to arrest, for example, those who are in other countries more easily than now, without going through what can be lengthy extradition processes, must be good in terms of administering justice. I do not understand why it is felt that there is a need somehow to make it more difficult to pursue those who are alleged of crimes rather than to follow the European arrest warrant.

O ran gwelliant 4, byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Unwaith eto, nid yw trosedd yn cydnabod unrhyw ffiniau, ac mae'n rhaid bod gallu arestio, er enghraifft, y rhai sydd mewn gwledydd eraill yn haws nag y gellir gwneud hynny ar hyn o bryd, heb fynd drwy'r hyn a all fod yn brosesau estraddodi hir, yn dda o ran gweinyddu cyfiawnder. Nid wyf yn deall pam y teimlir bod angen rhywsut ei gwneud yn fwy anodd i fynd ar drywydd y rhai yr honnir eu bod yn euog o drosedd yn hytrach na dilyn y warant arestio Ewropeaidd.

In terms of amendment 5, again, we will support that. It is, I believe, self-explanatory. We will next year see the centenary of the beginning of the first world war, and one of the benefits of course that the EU has delivered to us is the idea that war in Europe is unthinkable, certainly between different member states or sovereign states within the European Union. We are fortunate indeed to live in those times, and there have been very few times in history when that has been the case. However, we live in such a time, and that goes back, I believe, to the original plans that were put forward for the European steel and coal community and led, ultimately, to the building and development of the European Union.

O ran gwelliant 5, eto, byddwn yn cefnogi hynny. Y mae, yr wyf yn credu, yn hunan-esboniadol. Y flwyddyn nesaf byddwn yn gweld canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf, ac un o'r buddiannau wrth gwrs y mae'r UE wedi'u cyflwyno i ni yw'r syniad bod rhyfel yn Ewrop y tu hwnt i amgyffred, yn sicr rhwng gwahanol aelod-wladwriaethau neu wladwriaethau sofran o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn ffodus yn wir i fyw yn yr amseroedd hyn ac ychydig iawn o adegau sydd wedi bod mewn hanes pan oedd hynny'n wir. Fodd bynnag, rydym yn byw mewn cyfnod o'r fath, ac mae hynny'n mynd yn ôl, rwy'n credu, at y cynlluniau gwreiddiol a gyflwynwyd ar gyfer y gymuned dur a glo Ewropeaidd ac a arweiniodd, yn y pen draw, at adeiladu a datblygu'r Undeb Ewropeaidd.

In terms of amendment 6, we will support that. Clearly, separate Welsh results will be known. It will be easy enough for people to understand how Wales, and indeed different parts of Wales, have voted, and so there is no reason why there should not be an all-Wales result. It is bound to be recorded in any event, and it can be recorded separately for the purposes of our understanding what the response was in Wales.

O ran gwelliant 6, byddwn yn cefnogi hynny. Yn amlwg, bydd canlyniadau Cymru yn hysbys ar wahân. Bydd yn ddigon hawdd i bobl ddeall sut y mae Cymru, ac yn wir gwahanol rannau o Gymru, wedi pleidleisio, ac felly nid oes unrhyw reswm pam na ddylai fod canlyniad Cymru gyfan. Mae'n siŵr o gael ei gofnodi beth bynnag, a gellir ei gofnodi ar wahân i ddibenion ein dealltwriaeth o beth oedd yr ymateb yng Nghymru.

I look forward to the debate. Quite often, this debate is tarnished by what are irrelevant factors—factors of a particular reading of history, and factors of a particular reading of insularity. However, nevertheless, it is important that the people of Wales are able to see a debate that concentrates on the facts. As a Government, we take the view, very strongly, that it is very much in Wales's interest to remain a member, via the UK, of the European Union for the benefit of our people, for the benefit of our economy, and, ultimately, for the benefit of all those who live in the UK.

Edrychaf ymlaen at y drafodaeth. Yn aml iawn, mae'r drafodaeth hon yn cael ei difetha gan yr hyn sy'n ffactorau amherthnasol—ffactorau dealltwriaeth arbennig o hanes, a ffactorau dealltwriaeth arbennig o ynysigrwydd. Fodd bynnag, serch hynny, mae'n bwysig bod pobl Cymru'n gallu gweld trafodaeth sy'n canolbwyntio ar y ffeithiau. Fel Llywodraeth, rydym o'r farn, yn gryf iawn, ei bod er lles Cymru i barhau i fod yn aelod, drwy'r DU, o'r Undeb Ewropeaidd er lles ein pobl, er lles ein heconomi, ac, yn y pen draw , er lles pawb sy'n byw yn y DU.

18:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the six amendments to the motion, and I call on Byron Davies to move amendment 1, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Byron Davies i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod bod angen ailnegodi ein perthynas bresennol â'r UE fel y gall Cymru a'r DU fanteisio ar Undeb Ewropeaidd sy'n canolbwyntio'n fwy ar faterion economaidd.*

*Recognises a renegotiation of our current relationship with the EU is required so that Wales and the UK can benefit from a more economically focused European Union.*

18:26

## Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 1.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I move amendment 1.

I note with interest that, given the myriad of different challenges facing our country, the Government has decided to table a generic debate about the EU. However, that said, I will happily move our amendment, tabled in the name of William Graham. I will deal with the facts, hopefully, First Minister.

Nodaf gyda diddordeb, o ystyried y llu o wahanol heriau sy'n wynebu ein gwlad, fod y Llywodraeth wedi penderfynu cyflwyno dadl gyffredinol am yr UE. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, byddaf yn hapus i gynnig ein gwelliant, a gyflwynwyd yn enw William Graham. Byddaf yn ymdrin â'r ffeithiau, gobeithio, Brif Weinidog.

We on this side recognise that a renegotiation is needed of our current relationship with the EU, so that Wales, and the UK, can benefit from a more economically focused European Union, rather than the politically driven dogma that we have seen of late from the EU, and, sadly, which some parties in this establishment thrive upon. It will also be no surprise to reiterate the announcement by the Prime Minister, David Cameron, that, if the Conservative Party wins a majority in the 2015 general election, the UK Government would hold a referendum aimed at renegotiating the union's relationship with Europe.

Rydym ni ar yr ochr hon yn cydnabod bod angen aildrafod ein perthynas bresennol â'r UE, fel bod Cymru, a'r DU, yn gallu elwa ar Undeb Ewropeaidd sydd â mwy o bwyslais economaidd, yn hytrach na'r dogma sy'n cael ei sbarduno gan wleidyddiaeth yr ydym wedi'i weld yn ddiweddar gan yr UE, ac, yn anffodus, y mae rhai pleidiau yn y sefydliad hwn yn ffynnu arno. Ni fydd ychwaith yn syndod i ailadrodd y cyhoeddiad gan y Prif Weinidog, David Cameron, sef, os bydd y Blaid Geidwadol yn ennill mwyafrif yn etholiad cyffredinol 2015, byddai Llywodraeth y DU yn cynnal refferendwm gyda'r nod o aildrafod perthynas yr undeb ag Ewrop.

I can say that we have a free vote on this motion within our group, but I will personally be supporting all the amendments, bar amendment 6. Again, there is no surprise there—I do not embrace the separatists on the opposite side of the Chamber, because, alongside the overwhelming majority of the Welsh people, I do not believe in independence. As such, any renegotiation and referendum should be carried out at the member-state level, namely the United Kingdom.

Gallaf ddweud bod gennym bleidlais rydd ar y cynnig hwn o fewn ein grŵp, ond byddaf i'n bersonol yn cefnogi'r holl welliannau, ar wahân i welliant 6. Unwaith eto, nid oes syndod yn hynny o beth—nid wyf yn cofleidio'r ymwahanwyr ar yr ochr arall i'r Siambr, oherwydd, ochr yn ochr â'r mwyafrif llethol o bobl Cymru, nid wyf yn credu mewn annibyniaeth. Fel y cyfryw, dylai unrhyw aildrafod a refferendwm gael eu cynnal ar lefel aelod-wladwriaeth, sef y Deyrnas Unedig.

However, it is interesting to note that, recently, polling shows that the majority of Welsh people would actually vote to leave the EU. In fact, all Labour-controlled authorities, and constituencies, would see 43% voting to leave. This probably demonstrates that those in the Chamber who are inclined to support the EU in its current form should spend less time pontificating in the Chamber and in the Assembly bubble, and more time speaking to the people of Wales. You really are out of touch and are losing the argument.

Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi, bod pleidleisio, yn ddiweddar, wedi dangos y byddai'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn pleidleisio mewn gwirionedd i adael yr UE. Yn wir, byddai pob awdurdod ac etholaeth a reolir gan Lafur, yn gweld 43% yn pleidleisio i adael. Mae'n debyg bod hyn yn dangos y dylai'r rhai yn y Siambr sy'n tueddu i gefnogi'r UE yn ei ffurf bresennol dreulio llai o amser yn doethinebu yn y Siambr ac yn y swigen y Cynulliad, a mwy o amser yn siarad â phobl Cymru. Rydych yn wir wedi colli gafael ac yn colli'r ddadl.

Coming back to the benefits of the EU, I want to take the Chamber back briefly to—

Gan ddod yn ôl at fanteision yr UE, rwyf am fynd â'r Siambr yn ôl yn fyr at—

18:28

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on this point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwn?

18:28

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, not at the moment.

Na, nid ar hyn o bryd.

Coming back to the benefits of the EU, I want to take the Chamber back briefly to July 2000, and, if I may, recall the then First Secretary, Rhodri Morgan, announcing that Wales would qualify for the new European cohesion funding system. Rhodri Morgan said that it would be a once-in-a-generation opportunity. He was wrong, mainly because successive Labour-led Governments have wasted, misspent and squandered this once-in-a-generation opportunity. In fact, since the first award in 2000, Wales has received a further two rounds of funding to date, based on the European structural funds and on the European fisheries, food and technical co-operation payments. Wales has received just over £4 billion in EU funding. For the next round, between 2014 and 2020, ESF is estimated to create just over £2 billion. The evidence is that Labour is not utilising this fund to its full potential and is failing the people of Wales.

Gan ddod yn ôl at fanteision yr UE, rwyf am fynd â'r Siambr yn ôl yn fyr i fis Gorffennaf 2000, a chofio, os caf, y Prif Ysgrifennydd ar y pryd, Rhodri Morgan, yn cyhoeddi y byddai Cymru yn gymwys ar gyfer y system ariannu cydlyniant Ewropeaidd newydd. Dywedodd Rhodri Morgan y byddai'n gyfle unwaith mewn cenhedlaeth. Roedd yn anghywir, yn bennaf oherwydd bod Llywodraethau olynol dan arweiniad Llafur wedi gwastraffu, camwario ac afradu'r cyfle unwaith mewn cenhedlaeth hwn. Yn wir, ers y dyfarniad cyntaf yn 2000, mae Cymru wedi derbyn dwy rownd arall o gyllid hyd yma, yn seiliedig ar y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ac ar y taliadau cyd-weithrediad pysgodfeydd, bwyd a thechnegol Ewropeaidd. Mae Cymru wedi derbyn ychydig dros £4 biliwn o arian yr UE. Ar gyfer y rownd nesaf, rhwng 2014 a 2020, amcangyfrifir y bydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yw creu ychydig dros £2 biliwn. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw Llafur yn defnyddio'r gronfa hon i'w llawn botensial ac mae'n siomi pobl Cymru.

To add insult to injury, despite this massive support from EU coffers, the people of Wales have seen no benefit to membership. This is not a damning indictment of the European Union—and, as a sometimes critic of the EU, this might seem strange for me to say—but the crime to economic common sense rests squarely with Welsh Labour. I will give a quick example. The Genesis Cymru Wales 2 programme was recently scrapped. It received in total around £36 million in EU and match funding, and it was meant to create 20,000 jobs. When it closed, it had created some 800 jobs. To get someone into work on a 16-hour week, the contract was costing something in the region of £45,000 a time. This is staggeringly poor management. We also have the All Wales Ethnic Minority Association and the regeneration investment fund for Wales, to name a few. These are chronic examples of maladministration.

I roi halen ar y briw, er gwaethaf y cymorth enfawr hwn o goffrau'r UE, nid yw pobl Cymru wedi gweld unrhyw fudd o'n haelodaeth. Nid yw hyn yn gyhuddiad damniol o'r Undeb Ewropeaidd—ac fel rhywun sy'n beirniadu'r UE ar adegau, gallai hyn ymddangos yn rhywbeth rhyfedd i mi ei ddweud—ond mae'r drosedd i synnwyr cyffredin economaidd yn gorwedd yn gyfan gwbl gyda Llafur Cymru. Dyma ichi enghraifft sydyn. Cafodd y rhaglen Genesis Cymru Wales 2 ei ddileu'n ddiweddar. Derbyniodd gyfanswm o tua £36 miliwn o arian yr UE ac arian cyfatebol, ac roedd i fod i greu 20,000 o swyddi. Pan gaeodd, roedd wedi creu rhyw 800 o swyddi. I gael rhywun i mewn i waith am wythnos 16-awr, roedd y contract yn costio rhywle tua £45,000 yr un. Mae hyn yn rheoli syfrdanol o wael. Mae gennym hefyd Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a'r gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio, i enwi dim ond un neu ddau. Mae'r rhain yn enghreifftiau cronig o gamweinyddu.

Members, I commend the motion as amended, and I recognise that there are some redeeming qualities to the European Union—and I speak as someone who has worked enthusiastically and extensively for the Commission in pre-accession countries.

Aelodau, cymeradwyaf y cynnig fel y'i diwygiwyd, ac rwy'n cydnabod bod rhai nodweddion achubol i'r Undeb Ewropeaidd—ac rwy'n siarad fel rhywun sydd wedi gweithio'n frwdfrydig ac yn helaeth dros y Comisiwn mewn gwledydd cyn eu derbyn.

I also pay tribute to Kay Swinburne MEP, who is absolutely determined to make EU programmes work for Wales. I know from my own region that the new Swansea University project was one that Kay actively supported. She is a great ambassador for Wales. However, it is time to renegotiate. Members, we must not patronise the Welsh people because they disagree with many of the political class. They want and expect a referendum and, currently, only the Welsh Conservatives support their call.

Rwyf hefyd yn talu teyrnged i Kay Swinburne ASE, sydd yn gwbl benderfynol i wneud rhaglenni'r UE weithio i Gymru. Rwy'n gwybod o fy rhanbarth fy hun bod prosiect newydd Prifysgol Abertawe yn un yr oedd Kay yn ei gefnogi'n ymarferol. Mae hi'n llysgennad gwych dros Gymru. Fodd bynnag, mae'n amser i aildrafod. Aelodau, rhaid i ni beidio â thrin pobl Cymru yn nawddoglyd oherwydd eu bod yn anghytuno â llawer o'r dosbarth gwleidyddol. Maent nhw'n dymuno ac yn disgwyl cael refferendwm ac, ar hyn o bryd, dim ond y Ceidwadwyr Cymreig sy'n cefnogi eu galwad.

18:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Eluned Parrott to move amendments 2, 3, 4 and 5 tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 2, 3, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Insert as new point at start of motion:*

*Yn nodi bod 160,000 o swyddi Cymru yn dibynnu ar y DU yn aros yn aelod o'r UE; bod Cymru'n elwa o £144 miliwn y flwyddyn o fod yn aelod o'r UE; a bod dros 10,000 o gwmnïau yng Nghymru yn masnachu gyda gwledydd eraill yn yr UE bob blwyddyn, sy'n dangos pwysigrwydd cael mynediad i'r farchnad sengl a threfniadau masnach rydd yr UE gyda thrydydd partïon ar gyfer swyddi a'r economi yng Nghymru.*

*Notes that 160,000 Welsh jobs depend on the UK's continued membership of the EU; that Wales is a net beneficiary of EU membership of £144 million per year; and that there are over 10,000 Welsh companies which trade with other EU countries per year, demonstrating the importance of access to the single market and the EU's free trade agreements with third parties for jobs and the economy in Wales.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Insert as new point at start of motion:*

*Yn croesawu rôl yr UE yn diogelu ein hamgylchedd fel arweinydd byd wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a llygredd trawsffiniol, a phwysigrwydd y cydymrwymiadau allweddol yn nhargedau 20-20-20 i wella effeithlonrwydd ynni, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu'r gyfran o'r ynni a ddefnyddir yn yr UE sy'n cael ei chynhyrchu o adnoddau adnewyddadwy.*

*Welcomes the EU's role in protecting our environment as a world leader in combating climate change and cross-border pollution, and the importance of the key collective commitments within the 20-20-20 targets to improve energy efficiency, reduce greenhouse gas emissions and raise the share of EU energy consumption produced from renewable resources.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Insert as new point at start of motion:*

*Yn croesawu cydweithrediad Cymru ag Europol ac Eurojust, a'i gallu i ddefnyddio'r Warant Arestio Ewropeaidd fel arf, i ddiogelu dinasyddion Cymru rhag troseddau.*

*Welcomes Wales' cooperation with Europol and Eurojust, and ability to utilise the European Arrest Warrant as a tool, in order to protect Welsh citizens from crime.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert at end of the motion:*

*sy'n cynnwys gwneud Cymru yn wlad fwy llewyrchus, mwy cynaliadwy a mwy diogel.*

*which includes making Wales a more prosperous, sustainable and secure place.*

18:30

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 2, 3, 4 and 5.

Cynigiaf welliannau 2, 3, 4 a 5.

I thank the Welsh Government for bringing forward this very important debate today. There are any number of places where the public can go to hear an irrational debate on the subject of Europe, but precious few where they can go to hear a rational one. I hope that today will be the latter, because I truly believe that those of us who do believe that Wales and the UK are better off in the EU have a duty to lead that debate and to provide a counterpoint to, frankly, the shrill ravings of the far-right press and others who would make this debate one of fear and alienation rather than one of the practical and societal benefits that we have drawn from our membership of Europe.

Rwy'n diolch i Lywodraeth Cymru am gyflwyno'r ddadl bwysig iawn hon heddiw. Mae nifer o leoedd lle gall y cyhoedd fynd i glywed dadl afresymol ar bwnc Ewrop, ond ychydig iawn o leoedd lle y gallant fynd i glywed un resymol. Rwy'n gobeithio mai'r olaf fydd hi heddiw, gan fy mod wirioneddol yn credu bod gan y rhai ohonom sy'n credu bod Cymru a'r DU yn well eu byd yn yr UE ddyletswydd i arwain y ddadl honno ac i ddarparu gwrthbwynt, a dweud y gwir, i ebychiadau croch y wasg asgell dde ac eraill a fyddai'n gwneud y ddadl hon yn un o ofn a dieithrio yn hytrach nag un am y budd-daliadau ymarferol a chymdeithasol yr ydym wedi'u cael o'n haelodaeth o Ewrop.

While the UK as a whole is a net contributor to Europe, Wales is, of course, a net beneficiary. In those purely financial terms, the EU has invested £1.9 billion in Wales through structural funds since 2007. Frankly, I would say to the Member that how we have spent that money and what the impact has been is a debate for another day, but it is surely inarguably true that, without that funding, there would have been no impact of any kind.

Er bod y DU gyfan yn gyfrannwr net i Ewrop, mae Cymru, wrth gwrs, yn fuddiolwr net. Yn y termau ariannol hynny'n unig, mae'r UE wedi buddsoddi £1.9 biliwn yng Nghymru trwy gronfeydd strwythurol ers 2007. A dweud y gwir, byddwn yn dweud wrth yr Aelod bod sut yr ydym wedi gwario'r arian a beth fu effaith hynny yn ddadl ar gyfer diwrnod arall, ond mae'n sicr na ellir dadlau gwirionedd y ffaith na fyddem wedi gweld effaith o unrhyw fath heb yr arian hwnnw.

We also have, thanks to our membership of the European Union, access to one of the world's biggest pots of research funding. The UK as a whole performs extremely well through these funding streams and EU funds provide 10% of the UK's entire science budget—nearly €5 billion in the last five years alone. The potential for Horizon 2020 in the future for Wales's universities is truly exciting, but there are examples of how Wales's universities have already benefited from this form of funding. Upstairs in the Neuadd, right at this moment, is an exhibition that includes a scale model of the Herschel space telescope, which was funded by members of the European Space Agency and the European Union. That funding means that scientists in Cardiff University have been taking a central role in understanding and imaging our universe. It is truly extraordinary science right here in Wales, and it would not have been happening without the European Union. It is a wonderful example of what we can achieve through long-term meaningful partnerships, and that is what the European Union is.

Rydym hefyd, diolch i'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, yn cael mynediad at un o botiau mwyaf y byd o gyllid ymchwil. Mae'r DU yn ei chyfanrwydd yn perfformio'n eithriadol o dda trwy'r ffrydiau ariannu hyn ac mae arian yr UE yn darparu 10% o holl gyllideb gwyddoniaeth y DU—bron i €5 biliwn yn y pum mlynedd diwethaf yn unig. Mae'r potensial ar gyfer Horizon 2020 yn y dyfodol ar gyfer prifysgolion Cymru yn wirioneddol gyffrous, ond ceir enghreifftiau o sut mae prifysgolion Cymru eisoes wedi elwa o'r math hwn o gyllid. I fyny'r grisiau yn y Neuadd, ar y funud hon, mae arddangosfa sy'n cynnwys model ar raddfa o delesgop gofod Herschel, a ariannwyd gan aelodau'r Asiantaeth Ofod Ewropeaidd a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r arian hwnnw'n golygu bod gwyddonwyr ym Mhrifysgol Caerdydd wedi bod yn cymryd rhan ganolog o ran deall a delweddu ein bydysawd. Mae'n wyddoniaeth wirioneddol anhygoel yma yng Nghymru, ac ni fyddai wedi bod yn digwydd heb yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n enghraifft wych o'r hyn y gallwn ei gyflawni drwy bartneriaethau ystyrlon hir-dymor, a dyna beth yw'r Undeb Ewropeaidd.

The financial benefits are obviously not limited to funding. Access to the world's biggest single market is the fundamental reason why Wales is better off within the European Union. This market is worth nearly £12 trillion in combined GDP and gives Welsh businesses barrier-free access to 0.5 billion customers. Some 160,000 jobs in Wales are reliant on the UK's trade with the European Union, according to UK Trade and Industry research. That is one in 10 of the Welsh workforce. What alternative model will provide that level of economic impact if the UK were to leave?

Yn amlwg nid yw'r manteision ariannol yn cael eu cyfyngu i gyllid. Mynediad at farchnad sengl fwyaf y byd yw'r rheswm sylfaenol pam y mae Cymru yn well ei byd o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r farchnad yn werth bron i £12 triliwn mewn CMC cyfunol ac yn rhoi mynediad di-rwystr i fusnesau Cymru i 0.5 biliwn o gwsmeriaid. Mae tua 160,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar fasnach y DU â'r Undeb Ewropeaidd, yn ôl ymchwil Masnach a Diwydiant y DU. Mae hynny'n un o bob 10 o weithlu Cymru. Pa fodel arall a fydd yn darparu'r lefel honno o effaith economaidd pe bai'r DU yn gadael?

I am guessing that it will come as no surprise that I will not be supporting the Conservative amendment today. I recognise that, as the balance of power in Brussels shifts towards the European Parliament as a result of the Treaty of Lisbon, the structures and processes of the European machine may well require reform over a period of time, and I would be supportive of that agenda. However, I do not really understand why the move to strengthen the democratic accountability of the European Union through its Parliament should have met such resistance over the years, and it speaks volumes regarding the logic of that particular argument. I would say that we would be much better placed to shape that reform and drive that agenda if we are a positive and confident partner in the heart of the European Union. What could possibly be achieved by a renegotiation? Can you influence anything by carping on the sidelines? Absolutely not. What is achieved by constantly calling into question our future in the European Union? It undermines our political position, it creates uncertainty for potential inward investment and it fuels the poisonous rhetoric of the right-wing commentators who would tear apart the union if they could. We cannot attempt to compromise with those who would tear us out of the union. To coin a phrase that you may have heard before, we are better together, and we have a duty in a place like this to lead that debate.

Rwy'n dyfalu na fydd yn syndod na fyddaf yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr heddiw. Rwy'n cydnabod, wrth i gydbwysedd grym ym Mrwsel symud tuag at y Senedd Ewropeaidd o ganlyniad i Gytuniad Lisbon, efallai y bydd angen diwygio strwythurau a phrosesau'r peiriant Ewropeaidd dros gyfnod o amser, a byddwn yn gefnogol i'r agenda honno. Fodd bynnag, nid wyf wir yn deall pam y dylai'r symudiad i gryfhau atebolrwydd democrataidd yr Undeb Ewropeaidd drwy ei Senedd fod wedi wynebu cymaint o wrthwynebiad dros y blynyddoedd, ac mae'n siarad cyfrolau ynghylch rhesymeg y ddadl benodol honno. Byddwn yn dweud y byddem mewn llawer gwell sefyllfa i lunio'r diwygiad hwnnw ac i sbarduno'r agenda honno os ydym yn bartner cadarnhaol a hyderus wrth wraidd yr Undeb Ewropeaidd. Beth yn hollol ellid ei gyflawni drwy aildrafod? A allwch chi ddylanwadu ar unrhyw beth trwy achwyn ar yr ystlys? Dim o gwbl. Beth a gyflawnir drwy amau yn gyson ein dyfodol yn yr Undeb Ewropeaidd? Mae'n tanseilio ein sefyllfa wleidyddol, mae'n creu ansicrwydd ar gyfer mewnfuddsoddi arfaethedig ac mae'n hybu rhethreg wenwynig y sylwebyddion asgell dde a fyddai'n rhwygo'r undeb ar wahân pe gallent. Ni allwn geisio cyfaddawdu â'r rhai a fyddai'n dymuno ein rhwygo ni allan o'r undeb. Os goddefir ymadrodd y gallech fod wedi ei glywed o'r blaen, rydym yn well gyda'n gilydd, ac mae gennym ddyletswydd mewn lle fel hyn i arwain y ddadl honno.

Finally, I want to reflect on what I see as the defining achievement of the European Union and one that the First Minister referred to in his opening remarks. That achievement is 60 years of peace in a continent that has seen 2,000 years of unceasing war. If we reflect on the pain and chaos brought to Europe by wars in the last century alone, I believe that we cast that achievement aside at our peril.

Yn olaf, rwyf eisiau myfyrio ar yr hyn yr wyf yn ei weld fel llwyddiant diffiniol yr Undeb Ewropeaidd a rhywbeth y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato yn ei sylwadau agoriadol. Y llwyddiant hwnnw yw 60 mlynedd o heddwch mewn cyfandir sydd wedi gweld 2,000 o flynyddoedd o ryfel di-baid. Os byddwn yn myfyrio ar y boen a'r anhrefn a ddygwyd i Ewrop gan ryfeloedd yn ystod y ganrif ddiwethaf yn unig, gwae ni rwy'n credu os byddwn yn bwrw'r llwyddiant hwnnw o'r neilltu.

18:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Rhodri Glyn Thomas to move amendment 6 in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliant 6 yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu, os bydd refferendwm yn cael ei gynnal ynghylch a ddylai'r DU aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, y dylai canlyniad Cymru gyfan gael ei gofnodi ar wahân.*

*Believes that in the event of a referendum on the UK's continued membership of the European Union the all-Wales result should be recorded separately.*

18:35

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 6.

I move amendment 6.

Mae'n anffodus iawn eich bod chi yn y Gadair y prynhawn yma, Ddirprwy Lywydd. Byddai wedi bod yn braf iawn cael eich cyfraniad chi i'r drafodaeth hon. Rwy'n siŵr y byddai'r cyfraniad hwnnw wedi bod yn llawer iawn mwy adeiladol a chadarnhaol na rhai o'r cyfraniadau a glywn ni o feinciau eich plaid chi.

It is very unfortunate that you are in the Chair this afternoon, Deputy Presiding Officer. It would have been good to have heard your contribution to the debate. I am sure that it would have been much more constructive and positive than some of the contributions that we will hear from your party benches.

O ran Plaid Cymru, rydym yn gwrthwynebu gwelliant 1, ac mae hynny am reswm syml iawn: byddai ail-negodi ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn gwneud drwg mawr i Gymru, o ran ei heconomi ac o ran ein perthynas â'r UE. Rydym yn cofio'r modd y mae'r Blaid Geidwadol wedi ailnegodi perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn cofio cytundeb Fontainebleau, ac mae Cymru wedi dioddef, ac yn dal i ddioddef, yn uniongyrchol o ganlyniad i'r cytundeb hwnnw a'r ad-daliad sydd wedi golygu bod crebachu ar y cronfeydd Ewropeaidd sydd ar gael i Gymru ymgeisio amdanynt. Rydym yn elwa yn sylweddol o'n perthynas ag Ewrop, ac mae pob unigolyn yng Nghymru £40 ar ei elw o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r swm hwnnw hyd yn oed yn fwy heblaw am gytundeb Fontainebleau a negodwyd gan Mrs Thatcher.

Plaid Cymru opposes amendment 1, for a very simple reason: renegotiating our relationship with the European Union would be hugely detrimental to Wales, in terms of our economy and our relationship with the EU. We remember how the Conservative Party has gone about renegotiating the UK's relationship with the EU. We remember the Fontainebleau agreement; Wales has suffered, and continues to suffer, as a direct result of that agreement and the rebate that has led to a shrinking of the European funds available to Wales to bid for. We benefit significantly from our relationship with Europe, and every single citizen of Wales is £40 better off as a result of our membership of the EU. That sum would be even greater were it not for the Fontainebleau agreement negotiated by Mrs Thatcher.

18:37

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bless her.

Bendith arni.

18:37

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If you want to bless somebody who has harmed the economy of Wales, you are free to do so. However, I think that your constituents would have a very different view about the impact that the Fontainebleau agreement has had on their lives.

Os ydych am fendithio rhywun sydd wedi niweidio economi Cymru, rydych yn rhydd i wneud hynny. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y byddai gan eich etholwyr farn wahanol iawn am yr effaith y mae cytundeb Fontainebleau wedi'i gael ar eu bywydau.

18:37 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for giving way. I think that you have to accept though that it was the Conservative Party that achieved the opt-out from the single currency. Had that not been the case, where would we be now?

Rwy’n ddiolchgar ichi am ildio. Credaf fod yn rhaid i chi dderbyn serch hynny mai’r Blaid Geidwadol a gyflawnodd yr optio allan o’r arian sengl. Pe na byddai hynny wedi digwydd, ble byddem ni’n awr?

18:38 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not sure if I will take lessons on the economy from a Member who thought that austerity worked because of the situation in Greece. The fact of the matter is that, economically, we are better off within the European Union, and that is the important issue. The issue of the single currency is a different issue and is a debate for a different day. It is very much a matter of when you debate that issue and on what basis you go into a single currency. It is quite easy to argue the case against a single currency at the moment, but there have been times in the past when Welsh farmers and industry in Wales have suffered because we are not part of the single currency. That issue is not as clear cut as you would wish to make it, and we can have that debate at some point if you wish.

Nid wyf yn siŵr os byddaf yn derbyn gwersi ar yr economi gan Aelod a oedd yn credu bod darbodaeth yn gweithio oherwydd y sefyllfa yng Ngwlad Groeg. Y gwir amdani, yn economaidd, yw ein bod yn well ein byd o fewn yr Undeb Ewropeaidd, a dyna sy’n bwysig. Mae’r mater o arian sengl yn fater gwahanol ac mae’n ddadl ar gyfer diwrnod gwahanol. Mae’n sicr yn fater o bryd y byddwch yn trafod y pwnc hwnnw ac ar ba sail yr ydych yn mynd i mewn i arian sengl. Mae’n eithaf hawdd dadlau’r achos yn erbyn arian sengl ar hyn o bryd, ond mae adegau wedi bod yn y gorffennol pan fo ffermwyr Cymru a diwydiant yng Nghymru wedi dioddef oherwydd nad ydym yn rhan o’r arian sengl. Nid yw’r mater hwnnw mor eglur ag y byddech yn dymuno ei wneud, a gallwn gael y ddadl honno rhyw bryd os ydych yn dymuno.

Gadewch inni droi yn ôl at y ddadl hon ynghylch Ewrop a’r manteision o berthyn i’r Undeb Ewropeaidd y mae cytundeb yn ei gylch ymhlith y mwyafrif o bobl a phleidiau yn y lle hwn. Rwy’n croesawu’n fawr yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ac Eluned Parrott ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol; rwy’n dweud hynny yn frwdfrydig iawn. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud wrth y naill a’r llall ohonoch bod angen i chi siarad â’ch pleidiau yn San Steffan. Rydych yn rhan, Eluned Parrott, o’r glymblaid sy’n ceisio ailnegodi cytundeb y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewrop a fyddai’n effeithio’n andwyol ar Gymru, ac mae’n rhaid i’r Democratiaid Rhyddfrydol sylweddoli hynny. Rwy’n croesawu’n fawr—ac rwyf wedi gwneud hynny fwy nag unwaith—bod y Blaid Lafur wedi gwneud datganiadau, drwy’r Prif Weinidog a Gweinidogion eraill, o blaid ein perthynas ag Ewrop. Fodd bynnag, mae Llafur yn San Steffan yn dal i drafod ailnegodi, nid yn nhermau buddiannau Cymru, ond yn nhermau'r hyn y mae’n ei weld fel buddiannau'r Deyrnas Unedig.

Let us return to the debate about Europe and the advantages of our membership of the EU, which is agreed by most people and parties in this place. I warmly welcome what was said by the First Minister and by Eluned Parrott on behalf of the Liberal Democrats; I say that very enthusiastically. However, I must tell you both that you need to speak to your parties at Westminster. You, Eluned Parrott, are part of the coalition that is trying to renegotiate the UK’s agreement with the EU that would detrimentally affect Wales, and the Liberal Democrats need to understand that. I warmly welcome—as I have already done more than once—that the Labour Party has made statements, through the First Minister and other Ministers, in support of our relationship with Europe. However, Labour in Westminster is still talking about renegotiation, not in terms of the interests of Wales but in terms of what it sees at the interests of the United Kingdom.

Byddai hynny, unwaith yn rhagor, yn peryglu Cymru. Mae’n hawdd iawn dadlau’r achos o blaid Cymru; yn wir, mae’n anodd iawn dadlau’r achos yn erbyn. Mae’n hawdd iawn dadlau’r peth yn economaidd, ond mae mwy i’n perthynas gydag Ewrop na hynny. Mae’r cyfeiriad wedi ei wneud eisoes at y ddau ryfel byd yn y ganrif ddiwethaf a’r rhyfeloedd cyn hynny. Mae’n bwysig ein bod yn rhan o Ewrop er mwyn cadw’r hyn o sefydlogrwydd sydd gennym yn y byd. Mae’n ddiddorol bod hyd yn oed America ac Arlywydd Obama yn dadlau’r achos dros y Deyrnas Unedig yn aros o fewn Ewrop am fod hynny’n bwysig o ran sefydlogrwydd ac economi’r byd.

That would, once again, be detrimental to Wales. It is very easy to argue the case from Wales’s point of view; indeed, it is very difficult to make a case against it. It is very easy to argue the point economically, but there is more to our relationship with Europe than that. Reference has already been made to the two world wars of the last century and the wars that took place before then. It is important that we are a part of Europe so that we can maintain the level of stability that we have in the world. It is interesting that even America and President Obama argue in favour of the UK remaining in Europe, because that is important for global stability and the global economy.

Fel rhywun sy'n eistedd ar bwyllgor Ewropeaidd, yn aml yn ein trafodaethau rydym yn darganfod bod gwledydd bach eraill a rhanbarthau eraill o fewn Ewrop yn rhannu ein buddiannau ni a ninnau'n rhannu eu buddiannau hwy. Mae'r berthynas honno yn eithriadol o bwysig oherwydd, yn aml iawn, nid yw ein buddiannau'n cael eu diogelu gan y Deyrnas Unedig. Dywedaf wrth y Prif Weinidog fy mod yn croesawu'n fawr iawn yr hyn a ddywedodd heddiw. Gadewch inni glywed llais Cymru yn llawer iawn mwy amlwg ac effeithiol o fewn y gymuned Ewropeaidd. Gadewch inni sicrhau-

As someone who sits on a European committee, we often find in our discussions that other small nations and regions in Europe share our interests, as we share theirs. That relationship is critically important, as our interests are very often not safeguarded by the United Kingdom. I say to the First Minister that I warmly welcome what he has said today. Let us hear Wales's voice much more clearly and effectively within the European community. Let us ensure—

18:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Conclude, please.

18:41 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cofiwch, Brif Weinidog, fod y Comisiynydd Lewandowski wedi gwneud cais arbennig i mi drosglwyddo i chi, sef sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed, oherwydd ei bod yn bwysig bod llais Cymru yn cael ei glywed. Gobeithio y byddwn yn sicrhau hynny ar gyfer y dyfodol.

Bear in mind, First Minister, that Commissioner Lewandowski has, through me, made a special request of you, to ensure that Wales's voice is heard, because it is important that Wales's voice is heard. I hope that we will secure that for the future.

18:41 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I start by welcoming and applauding the Welsh Government's pro-European stance. It is far better than that of the party on my left.

Dechreuaf drwy groesawu a chymeradwyo safiad pro-Ewropeaidd Llywodraeth Cymru. Mae'n llawer gwell nag un y blaid ar fy chwith.

It is becoming increasingly important to present a positive case for Wales and the UK's continued participation in and support for the European Union. That is due in no small part to the inordinately high level of media coverage received by the negative, anti-EU voices, particularly the right wing of the Tory party, which is still trying to destabilise the status of the UK through the referendum being supported by No. 10 that it wants to push forward. From where will we encourage inward investment if they want us out in four years' time? They are not clear.

Mae'n dod yn fwyfwy pwysig i gyflwyno achos cadarnhaol dros gyfranogiad a chefnogaeth parhaus Cymru a'r DU i'r Undeb Ewropeaidd. Mae hynny o ganlyniad i raddau helaeth i lefel eithriadol o uchel o sylw a dderbyniwyd yn y cyfryngau gan y lleisiau gwrth-UE negyddol, yn enwedig asgell dde y blaid Doriaidd, sydd yn dal i geisio ansefydlogi statws y DU drwy refferendwm sy'n cael ei gefnogi gan Rif 10 y mae am ei wthio ymlaen. O ble byddwn ni'n annog mewnfuddsoddiad os ydynt am i ni fod allan ymhen pedair blynedd? Nid ydynt yn glir.

Whereas the advent of the EU and its potential for fostering peace and prosperity was once heralded by those who had seen the destruction caused by the breakdown of relationships between European countries, it is unfortunate that today's political climate requires us to shout louder than ever to ensure that our message, that the EU is highly beneficial to the people and the economy of Wales, is heard.

Er bod dyfodiad y UE a'i botensial i feithrin heddwch a ffyniant ar un adeg yn cael ei glodfori gan y rhai a oedd wedi gweld y dinistr a achoswyd gan chwalu perthnasoedd rhwng gwledydd Ewrop, mae'n anffodus bod hinsawdd wleidyddol heddiw yn gofyn i ni weiddi'n uwch nag erioed i sicrhau bod ein neges, bod yr UE yn fuddiol iawn i bobl ac economi Cymru, yn cael ei chlywed.

There is a case to be made purely on economic benefits. Many of these statistics are well known and merit re-emphasis as they offer a clear demonstration of just how much Wales receives from EU structural funds. Since 2007, we have already received, as has been pointed out by Byron Davies, over £4 billion for projects promoting business, research and innovation, both creating jobs and helping people into work and establishing new and improved transport and digital communication links to help support Wales's transition into a vibrant twenty-first century nation.

Gellir dadlau'r achos dim ond o ystyried buddiannau economaidd. Mae llawer o'r ystadegau hyn yn adnabyddus ac yn haeddu eu hail-bwysleisio gan eu bod yn dangos yn glir faint y mae Cymru yn ei dderbyn o gronfeydd strwythurol yr UE. Ers 2007, rydym eisoes wedi derbyn, fel y nodwyd gan Byron Davies, dros £4 biliwn ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo busnes, ymchwil ac arloesi, gan greu swyddi a helpu pobl i gael gwaith a sefydlu gwell cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu digidol newydd i helpu i gefnogi gweddnewid Cymru i fod yn genedl fywiog yr unfed ganrif ar hugain.

That is thanks to the hard work of our Welsh MEPs. I will take this opportunity to promote Derek Vaughan's hard work since his election in 2009 and Jill Evans's continued hard work since she was elected as a MEP. They both live in Wales and are hard working. They have provided a strong voice for Wales in Europe. As a consequence of that, we will receive another £2.1 billion in development moneys between 2014 and 2020.

Mae'r diolch am hynny i waith caled ein ASEau Cymru. Byddaf yn cymryd y cyfle hwn i hyrwyddo gwaith caled Derek Vaughan ers ei ethol yn 2009 a gwaith caled parhaus Jill Evans ers iddi gael ei hethol yn ASE. Mae'r ddau yn byw yng Nghymru ac yn gweithio'n galed. Maent wedi rhoi llais cryf i Gymru yn Ewrop. O ganlyniad i hynny, byddwn yn derbyn £2.1 biliwn arall mewn arian datblygu rhwng 2014 a 2020.

The 2007-13 funding programme helped create 7,000 new enterprises and 22,000 jobs, and helped over 150,000 people gain skills and qualifications at all levels, from level 2 up to level 7 and access to Master's funds. That was through a successful working partnership and collaboration between the Welsh European office and the Welsh Government. There have been successful schemes, such as the modern apprenticeship scheme and Jobs Growth Wales. The latter was hugely efficient in creating thousands of job opportunities for young people in Wales.

Mae rhaglen ariannu 2007-13 wedi helpu i greu 7,000 o fentrau newydd a 22,000 o swyddi, ac wedi helpu dros 150,000 o bobl i ennill sgiliau a chymwysterau ar bob lefel, o lefel 2 i lefel 7 a mynediad at gronfeydd Meistr. Roedd hynny trwy bartneriaeth waith lwyddiannus a chydweithio rhwng swyddfa Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cymru. Gwelwyd cynlluniau llwyddiannus, megis y cynllun prentisiaeth modern a Thwf Swyddi Cymru. Mae'r olaf yn hynod effeithlon o ran creu miloedd o gyfleoedd ar gyfer swyddi i bobl ifanc yng Nghymru.

As Eluned Parrott has already pointed out, our universities have benefited significantly from EU research funding, although I admit that we have not hit the figure of 5% that we should have. However, the funding has supported an improvement in academic status and encouraged a growth in student numbers. It has attracted staff and encouraged mobility, helping universities to develop and flourish in Wales.

Fel y mae Eluned Parrott eisoes wedi ei nodi, mae ein prifysgolion wedi elwa'n sylweddol ar gyllid ymchwil yr UE, er fy mod yn cyfaddef nad ydym wedi cyrraedd y ffigur o 5% y dylem fod wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r cyllid wedi cefnogi gwelliant mewn statws academaidd ac wedi annog twf i nifer y myfyrwyr. Mae wedi denu staff ac wedi annog symudedd, gan helpu prifysgolion i ddatblygu a ffynnu yng Nghymru.

I look forward to universities and business partners benefiting further from Horizon 2020. I was pleased to see the First Minister and Minister for Finance recently launch the Horizon 2020 programme in Wales, where synergy between that fund and future structural funds will be key in helping to widen participation.

Edrychaf ymlaen at weld prifysgolion a phartneriaid busnes yn elwa ymhellach o Horizon 2020. Roeddwn yn falch o weld y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid yn lansio'r rhaglen Horizon 2020 yng Nghymru yn ddiweddar, a bydd synergedd rhwng y gronfa honno a chronfeydd strwythurol yn y dyfodol yn allweddol o ran helpu i ehangu cyfranogiad.

We further have to remember that the EU is a single market—the First Minister has already stated that—and it is our biggest trading partner, sustaining over 150,000 jobs and supporting over 600 companies, which are exporting goods and services to EU partners. As an example, Tata Steel, a major global company and employer in my constituency, has invested heavily in Wales. Like other international companies, it knows that it has access to a EU market. However, let us not forget other European countries that locate in Wales and provide 50,000 jobs.

Mae'n rhaid i ni gofio hefyd mai marchnad sengl yw yr UE—mae'r Prif Weinidog eisoes wedi datgan hynny—a dyma ein partner masnachu mwyaf, sy'n cynnal dros 150,000 o swyddi ac yn cefnogi dros 600 o gwmnïau, sy'n allforio nwyddau a gwasanaethau i bartneriaid yr UE. Fel enghraifft, mae Tata Steel, cwmni byd-eang a chyflogwr mawr yn fy etholaeth i, wedi buddsoddi'n helaeth yng Nghymru. Fel cwmnïau rhyngwladol eraill, mae'n gwybod bod ganddo fynediad i farchnad yr UE. Fodd bynnag, gadewch inni beidio ag anghofio gwledydd Ewropeaidd eraill sydd wedi eu lleoli yng Nghymru ac sy'n darparu 50,000 o swyddi.

I am also pleased to highlight the benefits to our rural economies: the common agricultural policy helping to boost our agricultural sector with almost £250 million in direct payment schemes to over 16,000 farmers. Let us not forget that all areas and all sectors are benefiting.

Rwyf hefyd yn falch i dynnu sylw at y manteision i'n heconomïau gwledig: y polisi amaethyddol cyffredin sy'n helpu i roi hwb i'n sector amaethyddol gyda bron i £250 miliwn mewn cynlluniau taliadau uniongyrchol i dros 16,000 o ffermwyr. Gadewch inni beidio ag anghofio bod pob ardal a phob sector yn elwa.

I am conscious of the time. These economic arguments are well rehearsed, but we can be blinded by statistics. They can lose purchase with the Welsh population, and it is also important to remind ourselves of the underlying social, cultural and indeed moral arguments for keeping our place in the European Union. Economic benefits have been accrued for the development of the organisation; however, those social and cultural benefits of international co-operation, and the fostering of international understanding, are often overlooked and underestimated. I do not want to be a part of seeing our future generations isolating themselves from the cultural and socioeconomic enrichment that follows from becoming immersed in other cultures and learning new languages. We need to push forward a positive European agenda, promoting EU membership in order to turn the young people in Wales into European and global citizens.

Rwy'n ymwybodol o'r amser. Mae'r dadleuon economaidd hyn yn cael eu hymarfer yn dda, ond gallwn gael ein dallu gan ystadegau. Maent yn gallu colli gafael gyda phoblogaeth Cymru, ac mae hefyd yn bwysig i ni atgoffa ein hunain o'r dadleuon cymdeithasol, diwylliannol ac yn wir moesol sy'n darparu'r sail ar gyfer cadw ein lle yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae manteision economaidd wedi eu cronni ar gyfer datblygiad y sefydliad; fodd bynnag, mae buddion cymdeithasol a diwylliannol cydweithredu rhyngwladol, a meithrin dealltwriaeth ryngwladol, yn aml yn cael eu hanwybyddu a'u tanbrisio. Nid wyf eisiau bod yn rhan o weld ein cenedlaethau yn y dyfodol yn ynysu eu hunain rhag y cyfoethogi diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol sy'n dilyn o ymgolli mewn diwylliannau eraill a dysgu ieithoedd newydd. Mae angen i ni wthio agenda Ewropeaidd gadarnhaol, gan hyrwyddo aelodaeth o'r UE er mwyn troi'r bobl ifanc yng Nghymru i fod yn ddinasyddion Ewropeaidd a byd-eang.

Finally, it is important to remember that the rewards of investment may not be seen for longer periods—even several years—but the effects of long-term improvements to our communities, our infrastructure and the people that we serve will last for decades.

Yn olaf, mae'n bwysig cofio na fydd ffrwyth buddsoddiad efallai'n cael ei weld am gyfnodau hirach—nifer o flynyddoedd hyd yn oed —ond bydd effeithiau gwelliannau hirdymor ar gyfer ein cymunedau, ein seilwaith a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu yn para am ddegawdau.

18:47 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am delighted to be able to contribute to this debate. I contribute as a British citizen and as a European citizen because I have a Dutch mother. I have had the benefit all of my life of feeling that I am part of the European community. However, it is a bit like looking at the work that is done in committee here: you do not become an uncritical friend. In fact, it is important, when you look at the European Union, that you look at the way that it has changed. You have to understand that many people, including me—and I am a committed European—feel great concern that the audited accounts of the EU cannot be signed off year after year. People have legitimate concerns —

Rwy'n falch o gael cyfrannu at y ddadl hon. Rwy'n cyfrannu fel dinesydd Prydeinig ac fel dinesydd Ewropeaidd gan fod fy mam yn dod o'r Iseldiroedd. Rwyf wedi elwa drwy fy holl fywyd o deimlo fy mod yn rhan o'r gymuned Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'n debyg i edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn pwyllgorau yma: nid ydych yn dod yn gyfaill anfeirniadol. Mewn gwirionedd, mae'n bwysig, pan fyddwch yn edrych ar yr Undeb Ewropeaidd, eich bod yn edrych ar y ffordd y mae wedi newid. Mae'n rhaid i chi ddeall bod llawer o bobl, gan fy nghynnwys i—ac rwyf i'n ymroddedig i Ewrop—yn teimlo pryder mawr na ellir cymeradwyo cyfrifon archwiliedig yr UE flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gan bobl bryderon dilys—

18:47 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:47 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

No, not yet. People have legitimate concerns about the level of fraud that there is in the EU. They have legitimate concerns and scepticism about the amount of regulation that comes out of the EU. I am very grateful that people like David Cameron have been working to make changes at the EU. We saw our veto given away in the Lisbon treaty. We were told by the Government then in power that the British people would have an opportunity to have a referendum, and it was denied to them. That power was signed away. Now, thanks to a Conservative Government—or a coalition Government—[Assembly Members: 'Oh.'] It has agreed to a triple lock. The triple lock on further powers being given away is now in place in Westminster. We will not see the kind of betrayal that there was of the British people by the previous Labour Government, which signed away our rights without putting it to the British people. [Assembly Members: 'Oh.'] I am absolutely amazed that you do not feel that the British people should have a say on it. Of course Wales's voice will be heard. Every single citizen in Wales will have an opportunity to vote in an in/out referendum.

Na, ddim eto. Mae gan bobl bryderon dilys am lefel y twyll a geir yn yr UE. Mae ganddynt amheuaeth a phryderon teg am faint o reoleiddio sy'n dod allan o'r UE. Rwy'n ddiolchgar iawn bod pobl fel David Cameron wedi bod yn gweithio i wneud newidiadau yn yr UE. Gwelsom ein feto'n cael ei rhoi i ffwrdd yng nghytuniad Lisbon. Dywedwyd wrthym gan y Llywodraeth a oedd mewn grym bryd hynny y byddai pobl Prydain yn cael cyfle i gael refferendwm, a chafodd ei wadu iddynt. Cafodd y pŵer hwnnw ei roi i ffwrdd. Nawr, diolch i Lywodraeth Geidwadol—neu Lywodraeth glymblaid—[Aelodau'r Cynulliad: ' O.'] Mae wedi cytuno i glo triphlyg. Mae'r clo triphlyg ar bwerau ychwanegol yn cael eu rhoi i ffwrdd yn awr ar waith yn San Steffan. Ni fyddwn yn gweld y math o frad ar gyfer pobl Prydain a welwyd gan y Llywodraeth Lafur flaenorol, a roddodd ein hawliau i ffwrdd heb ofyn i bobl Prydain. [ Aelodau Cynulliad : 'O .'] Rwy'n synnu'n fawr nad ydych yn teimlo y dylai pobl Prydain gael dweud eu dweud ar hyn. Wrth gwrs, bydd llais Cymru yn cael ei glywed. Bydd pob un dinesydd yng Nghymru yn cael cyfle i bleidleisio mewn refferendwm i mewn / allan.

I want to see a renegotiation with Europe. I want to see a recognition of the fact that we do not have the euro, that we do to some extent have a two-speed Europe, that there are special circumstances that should apply to the UK because we are not part of the euro, and that we should not be required to take the medicine that is being imposed on the eurozone and the kind of regulation that is coming out of greater financial union, which we do not want. We want to keep the pound. However, that does not mean that we cannot be a good voice in Europe.

Rwyf eisiau gweld aildrafod ag Ewrop. Rwyf eisiau gweld cydnabyddiaeth o'r ffaith nad yw'r ewro gennym, bod gennym i ryw raddau Ewrop ddau gyflymder, bod amgylchiadau arbennig a ddylai fod yn berthnasol i'r DU oherwydd nad ydym yn rhan o'r ewro, ac na ddylai fod yn ofynnol i ni gymryd y feddyginiaeth sy'n cael ei gosod ar ardal yr ewro a'r math o reoleiddio sy'n dod allan o fwy o undeb ariannol, nad ydym dymuno ei gael. Rydym yn awyddus i gadw'r bunt. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na allwn fod yn llais da yn Ewrop.

If you look at the relationships that the British MEPs have in Europe, and the kind of work that is happening on a cross-country basis in the European Parliament, you will see how effective our Conservative MEPs are. I agree that there are massive benefits, like the Horizon 2020 funding. I know that Kay Swinburne recently hosted a day in the European Parliament with Welsh universities to look at how they can take advantage of it. Swansea has had £60 million and Glyndŵr University in north Wales has received a huge amount of funding through the European Union. There are clear benefits.

Os ydych yn edrych ar y perthnasoedd sydd gan ASEau Prydain yn Ewrop, a'r math o waith sy'n digwydd ar sail traws-gwlad yn y Senedd Ewropeaidd, byddwch yn gweld pa mor effeithiol yw ein ASEau Ceidwadol. Rwy'n cytuno bod manteision enfawr, fel yr arian Horizon 2020 . Gwn fod Kay Swinburne yn ddiweddar, wedi cynnal diwrnod yn y Senedd Ewropeaidd gyda phrifysgolion Cymru i edrych ar sut y gallant fanteisio arno. Mae Abertawe wedi cael £60 miliwn ac mae Prifysgol Glyndŵr yng ngogledd Cymru wedi cael swm enfawr o arian drwy'r Undeb Ewropeaidd. Ceir manteision amlwg.

I want to see a strengthened free trade union. I want to see a European Union agreement that also looks at what is happening in the States and opens up our markets over there so that they are available to Welsh companies, but, First Minister, only 27% of companies in the UK export to Europe. That is 27% and a mere 600 in Wales. Clearly, there are massive opportunities, and we should be looking at how we can make more of those opportunities and take more of those opportunities, but, at the same time, we should not be afraid of saying that the European Union needs reforming and changing, and that somebody needs to do it. People were very sceptical when David Cameron went over to Europe and said that he wanted a budget cut, but he achieved it. He achieved it because many other European countries supported him, as did Ed Miliband in Westminster.

Rwyf eisiau gweld undeb masnach rydd wedi'i gryfhau. Rwyf eisiau gweld cytundeb Undeb Ewropeaidd sydd hefyd yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Unol Daleithiau ac sy'n agor ein marchnadoedd yno fel eu bod ar gael i gwmnïau o Gymru, ond, Brif Weinidog, dim ond 27% o gwmnïau yn y DU sy'n allforio i Ewrop. Mae hynny'n 27% a dim ond 600 yng Nghymru. Yn amlwg, mae cyfleoedd enfawr, a dylem fod yn edrych ar sut y gallwn wneud mwy o'r cyfleoedd hynny a manteisio ar fwy o'r cyfleoedd hynny, ond, ar yr un pryd, ni ddylem ofni dweud bod angen i'r Undeb Ewropeaidd ddiwygio a newid, a bod angen i rywun wneud hynny. Roedd pobl yn amheus iawn pan aeth David Cameron draw i Ewrop a dweud ei fod am gael toriad yn y gyllideb, ond fe gyflawnodd hynny. Fe'i cyflawnodd oherwydd bod llawer o wledydd Ewropeaidd eraill yn ei gefnogi, fel y gwnaeth Ed Miliband yn San Steffan.

18:52 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to start by agreeing with Antoinette Sandbach that we have to be absolutely rigorous in combating corruption. There is no doubt that, in the past, the assessment and monitoring procedures were not in place in the European Union, which is what led to the Mafia obtaining very large sums of money as a result of its so-called programmes in Sicily. However, much has been reformed to ensure that there is much more rigour, clarity and integrated strategy around how the European programmes are spent, and I am confident that it would be much more difficult for those sorts of things to occur and they are certainly not occurring in Wales, where the Welsh Government programmes have always been passed with flying colours.

Hoffwn ddechrau drwy gytuno ag Antoinette Sandbach bod yn rhaid inni fod yn hollol drylwyr wrth fynd i'r afael â llygredd. Nid oes unrhyw amheuaeth, yn y gorffennol, nad oedd y gweithdrefnau asesu a monitro ar waith yn yr Undeb Ewropeaidd, sef yr hyn a arweiniodd at weld y Maffia'n cael symiau mawr iawn o arian yn sgil y rhaglenni yr oeddent yn dweud bod ganddynt yn Sisili. Fodd bynnag, mae llawer wedi'i ddiwygio i sicrhau bod llawer mwy o drylwyredd, eglurder a strategaeth integredig ynghylch sut y mae'r rhaglenni Ewropeaidd yn cael eu gwario, ac rwyf yn hyderus y byddai'n llawer anoddach i'r mathau hynny o bethau ddigwydd ac nid ydynt yn sicr yn digwydd yng Nghymru, lle mae rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi cael eu pasio'n llwyddiannus iawn bob amser.

However, to look at it in the wider context, if the EU did not exist, we would have to invent it, and that is because of climate change. The challenge of climate change requires concerted action by all industrialised countries if people in the most vulnerable countries, like the Philippines, like the drought-torn areas of Africa and like the flood-prone areas of Bangladesh, are not simply to be overwhelmed as a result of our inaction and irresponsibility. In order to make that happen, we have to have a structure to ensure that there is a level playing field, so that those companies and countries that take action to limit climate change know that all the other countries in Europe that we are in competition with are also having to take that action. Therefore, that is one of the huge benefits of Europe in the grand scheme of things.

Fodd bynnag, i edrych arno yn y cyd-destun ehangach, pe na byddai'r UE yn bodoli, byddai'n rhaid i ni ei ddyfeisio, ac mae hynny oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae'r her oherwydd y newid yn yr hinsawdd yn gofyn am weithredu ar y cyd gan yr holl wledydd diwydiannol fel nad yw pobl yn y gwledydd mwyaf agored i niwed, fel y Philipinau, fel yr ardaloedd sy'n cael eu rhwygo gan sychder yn Affrica ac fel yr ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd yn Bangladesh, yn cael eu llethu o ganlyniad i'n diffyg gweithredu a'n hanghyfrifoldeb. Er mwyn gwneud i hynny ddigwydd, mae'n rhaid inni gael strwythur i sicrhau bod chwarae teg i bawb, fel bod y cwmnïau a'r gwledydd hynny sy'n cymryd camau i gyfyngu ar newid yn yr hinsawdd yn gwybod bod yr holl wledydd eraill yn Ewrop yr ydym mewn cystadleuaeth â nhw hefyd yn gorfod cymryd y camau hynny. Felly, dyna un o fanteision enfawr Ewrop yn y drefn fawr.

Many other people have talked about the number-crunching, so I will not spend a lot of time on that, but I think in terms of the numbers of people whose lives have been transformed by the modern apprenticeships and by Jobs Growth Wales, which has given them hope of a bright future rather than the possible despair that might otherwise have been the case. In terms of our trade with Europe and these mere 600 firms that export from Wales to Europe, the biggest trading bloc in the world, if you compare that with places like China, which are very important—China will eventually be the most important economic power in the world, soon to overtake the United States—you see that Wales's trade with China is absolutely tiny. We trade as much with Ireland as we do with China at the moment, so clearly being part of the biggest trading bloc in the world is hugely beneficial to Wales, because otherwise we would simply be locked out of it, and foreign companies that come to Wales because they know that we are part of the European Union would simply go elsewhere.

Mae llawer o bobl eraill wedi sôn am y ffigyrau, felly ni fyddaf yn treulio llawer o amser ar hynny, ond rwy'n meddwl yn nhermau nifer y bobl y mae eu bywydau wedi eu gweddnewid drwy'r prentisiaethau modern a thrwy Twf Swyddi Cymru, sydd wedi rhoi gobaith o ddyfodol disglair iddynt yn hytrach na'r anobaith posibl a allai fel arall fod wedi bod yn wir. O ran ein masnach ag Ewrop a'r dim ond 600 o gwmnïau hyn sy'n allforio o Gymru i Ewrop, y bloc masnachu mwyaf yn y byd, os byddwch yn cymharu hynny â lleoedd fel Tsieina, sydd yn bwysig iawn—Tsieina fydd y grym economaidd mwyaf pwysig yn y byd yn y pen draw, a bydd yn mynd ar y blaen i'r Unol Daleithiau yn fuan — gallwch weld bod masnach Cymru gyda Tsieina yn fach iawn. Rydym yn masnachu cymaint gydag Iwerddon ag yr ydym gyda Tsieina ar hyn o bryd, felly mae'n amlwg ei bod yn hynod fuddiol i Gymru fod yn rhan o'r bloc masnachu mwyaf yn y byd, oherwydd fel arall byddem yn syml yn cael ein cloi allan ohono, a byddai cwmnïau tramor sy'n dod i Gymru oherwydd eu bod yn gwybod ein bod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd yn syml yn mynd i rywle arall.

The Europe 2020 strategy, which puts jobs and smart, sustainable and inclusive growth at the heart of the next seven-year programme, is fully in line with the Welsh Government programme for government. It is a fond idea that if the Tories and their allies managed to persuade people of this idea of renegotiating the contract with Europe, or indeed taking us out of Europe, that somehow the Conservatives would, in their beneficence, hand over the money that currently goes via Europe to Wales, and that they would continue the redistributive policies that operate in the EU, whereby poorer regions of Europe, and strategic industries like food and farming, are nourished because, unless we have local food and local energy generation, we are vulnerable to the unknown upheavals that might arise from climate change. So, these are absolutely strategic benefits of being in Europe.

Mae'r strategaeth Ewrop 2020, sy'n rhoi swyddi a thwf call, cynaliadwy a chynhwysol wrth wraidd y rhaglen saith mlynedd nesaf, yn cyd-fynd yn hollol â rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu. Mae'n hoff syniad pe byddai'r Torïaid a'u cynghreiriaid yn llwyddo i berswadio pobl am y syniad hwn o aildrafod y contract gydag Ewrop, neu yn wir yn mynd â ni allan o Ewrop, y byddai'r Ceidwadwyr rhywsut, yn eu cymwynasgarwch, yn rhoi'r arian i Gymru sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy Ewrop, ac y byddent yn parhau â'r polisïau ailddosbarthu sy'n gweithredu yn yr UE, lle mae rhanbarthau tlotach Ewrop, a diwydiannau strategol fel bwyd a ffermio, yn cael eu meithrin oherwydd, oni bai bod gennym fwyd lleol a chynhyrchu ynni yn lleol, rydym yn agored i chwyldroadau anhysbys a allai godi oherwydd newid yn yr hinsawdd. Felly, mae'r rhain yn fuddion cwbl strategol o fod yn Ewrop.

Unfortunately, for too many people, in too many parts of Wales, the benefits of Europe are overshadowed by the daily drip, drip, drip of misinformation conducted by a newspaper known as 'heulog'; I cannot even bear to give it free publicity. It makes people think that the debate about Europe is about the toxic issue of us somehow being overwhelmed by other people coming from other countries. Having had the displeasure to read that newspaper today, I agree with Byron Davies on this: we need to spend a great deal more time with our constituents to explain to them the benefits that they enjoy from Europe in their daily lives—benefits that are at risk if we do something stupid.

Yn anffodus, i ormod o bobl, mewn gormod o rannau o Gymru, mae manteision Ewrop yn cael eu bwrw i'r cysgod gan y drip, drip, drip bob dydd o wybodaeth anghywir a gynhelir gan bapur newydd a elwir yn 'heulog'; ni allaf hyd yn oed oddef rhoi cyhoeddusrwydd am ddim iddo. Mae'n gwneud i bobl feddwl bod y ddadl am Ewrop yn ymwneud â'r mater gwenwynig o'n gweld rhywsut yn cael ein llethu gan bobl arall sy'n dod o wledydd eraill. Ar ôl cael yr anfodlonrwydd o ddarllen y papur newydd hwnnw heddiw, rwy'n cytuno â Byron Davies ar hyn: mae angen i ni dreulio llawer mwy o amser gyda'n hetholwyr i egluro iddynt y manteision y maent yn eu mwynhau o Ewrop yn eu bywydau bob dydd—manteision sydd mewn perygl os ydym yn gwneud rhywbeth twp.

18:57

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would like to focus more on the importance of Wales being part of the European family, rather than focusing on the financial aspects. In starting, I will say to Antoinette Sandbach that her arguments might have some credibility if her party had not joined forces with a bunch of neo-fascists in Europe.

Hoffwn ganolbwyntio mwy ar bwysigrwydd y ffaith fod Cymru yn rhan o'r teulu Ewropeaidd, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr agweddau ariannol. Wrth gychwyn, rwyf am ddweud wrth Antoinette Sandbach y gallai ei dadleuon gael rhywfaint o hygrededd pe na byddai ei phlaid wedi ymuno â chriw o neo-ffasgwyr yn Ewrop.

For Labour Members, membership and participation in the European agenda is as much about the common interests that we share in trade, the social agenda and the contribution that we can make to preserving and improving the world in which we live. It is also about recognition that, in this global world, we are stronger together and can contribute far more collectively than individually. Nowhere is this more important than in the fields of energy and environment. It is important when discussing the relationship of the European Union with Wales and the UK that we step outside the box of grants, subsidies and who gets most—do we get more than we put in?—and look at the issues away from the unpleasantness of a right-wing, British nationalistic debate about removing social protections and regulations, and the attacks on one of the great European achievements, the European convention on human rights, and the targeting of Europeans, or certainly those from certain countries, as nasty immigrants—you only have to read the 'Daily Mail' day by day to see that. Walter Schwimmer, the former secretary general of the Council of Europe, and one of the world's most famous diplomats and politicians, in his aspirational book, 'The European Dream', describes a process leading to the establishment of the EU. He says that:

Ar gyfer Aelodau Llafur, mae aelodaeth a chyfranogiad yn yr agenda Ewropeaidd yn ymwneud cymaint â'r buddiannau cyffredin yr ydym yn eu rhannu mewn masnach, yr agenda gymdeithasol a'r cyfraniad y gallwn ei wneud i ddiogelu a gwella'r byd yr ydym yn byw ynddo. Mae hefyd yn ymwneud â chydnabod, yn y byd byd-eang hwn, ein bod yn gryfach gyda'n gilydd ac y gallwn gyfrannu llawer mwy gyda'n gilydd nag yn unigol. Mae hyn yn bwysicach yn y meysydd ynni a'r amgylchedd nag yn unman arall. Mae'n bwysig wrth drafod perthynas yr Undeb Ewropeaidd â Chymru a'r DU ein bod yn camu y tu allan i'r bocs grantiau, cymorthdaliadau a phwy sy'n cael y mwyaf—a ydym ni'n cael mwy nag yr ydym yn ei roi i mewn?—ac yn edrych ar y materion eraill heblaw am ddadl asgell-dde, genedlaetholgar Brydeinig annymunol ynghylch cael gwared ar amddiffyniadau a rheoliadau cymdeithasol, a'r ymosodiadau ar un o lwyddiannau mawr Ewrop, y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, a thargedu Ewropeaid, neu yn sicr y rhai o wledydd penodol, fel mewnfudwyr cas—nid oes ond rhaid darllen y 'Daily Mail' ddydd ar ôl dydd i weld hynny. Mae Walter Schwimmer, cyn ysgrifennydd cyffredinol Cyngor Ewrop, ac un o ddiplomyddion a gwleidyddion enwocaf y byd, yn ei lyfr uchelgeisiol, 'The European Dream' yn disgrifio proses yn arwain at sefydlu'r UE. Mae'n dweud:

'after a prolonged period of conflict unleashed by various totalitarian regimes, the peoples at the centre of Europe can again look to a new vision—a vision rooted in shared values and consolidated by ever-closer co-operation.'

ar ôl cyfnod hir o wrthdaro a gychwynwyd gan wahanol gyfundrefnau totalitaraidd, gall y bobl yng nghanol Ewrop unwaith eto ddisgwyl gweledigaeth newydd—gweledigaeth wedi'i gwreiddio mewn gwerthoedd a rennir a'i chyfnerthu gan gyd-weithio sydd wastadol yn tyfu'n agosach.

For us in Wales—a new democracy, part of the UK, but with our own clear values—it is difficult to imagine a future outside the EU: the largest trading bloc in the world, with a population of over 500 million in 28 countries, with 25% of the world's gross domestic product, compared with 22% in the USA and 10% in China. Fourteen of the world's 20 largest banks are European. EU countries lead the world in chemicals, engineering, construction, aerospace and insurance, and 61 of the world's largest companies are European, compared with 50 in the USA.

I ni yng Nghymru—democratiaeth newydd, rhan o'r DU, ond gyda'n gwerthoedd clir ein hunain—mae'n anodd dychmygu dyfodol y tu allan i'r UE: y bloc masnachu mwyaf yn y byd, gyda phoblogaeth o dros 500 miliwn mewn 28 o wledydd, gyda 25% o gynnyrch mewnwladol crynswth y byd, o'i gymharu â 22% yn yr Unol Daleithiau a 10% yn Tsieina. Mae pedwar ar ddeg o'r 20 o fanciau mwyaf y byd yn Ewropeaidd. Mae gwledydd yr UE yn arwain y byd mewn cemegau, peirianneg, adeiladu, awyrofod ac yswiriant, ac mae 61 o gwmnïau mwyaf y byd yn Ewropaidd, o'i gymharu â 50 yn yr Unol Daleithiau.

However, important as the economic arguments are, there is much more to it than this. For us in Wales, it is also about what we can learn and what we can exchange in terms of ideas, values and culture. It is about us having an opportunity to forge our own relationships and develop our own identity, not at the expense of the UK, but to the betterment of it and to the betterment of Wales. Already, through Horizon 2020, our educational institutions are forging links and partnerships with European institutions. The roll of citizens from Wales and the UK, and into Wales and the UK, is a good thing; it is good for the economy and it is good for society. The focus of European funding on research and innovation is to be welcomed, because this is the only way to develop learning and to create the new high-technology industries and the businesses of tomorrow.

Fodd bynnag, er mor bwysig yw'r dadleuon economaidd, mae llawer mwy iddi na hyn. I ni yng Nghymru, mae hefyd yn ymwneud â'r hyn y gallwn ei ddysgu a'r hyn y gallwn ei gyfnewid o ran syniadau, gwerthoedd a diwylliant. Mae'n ymwneud â ni'n cael cyfle i feithrin ein perthnasoedd ein hunain a datblygu ein hunaniaeth ein hunain, nid ar draul y DU, ond er ei gwella a gwella Cymru. Eisoes, drwy Horizon 2020, mae ein sefydliadau addysgol yn creu cysylltiadau a phartneriaethau gyda sefydliadau Ewropeaidd. Mae'r ffaith fod dinasyddion yn symud o Gymru a'r DU, ac i mewn i Gymru a'r DU, yn beth da; mae'n dda i'r economi ac mae'n dda i gymdeithas. Mae pwyslais y cyllid Ewropeaidd ar ymchwil ac arloesedd i'w groesawu, oherwydd dyma'r unig ffordd i ddatblygu dysgu ac i greu diwydiannau uwch-dechnoleg newydd a busnesau'r dyfodol.

Wales needs to develop its own focus on Europe, and it has already started. I have the honour, along with Rhodri Glyn, of representing the Assembly on the Committee of the Regions. Our Ministers regularly visit and engage with EU diplomats and politicians, our educational institutions have bases there, and we need to develop a far more strategic and co-operative approach to our input into Europe. The warm welcome that Welsh politicians receive in Europe is only to be contrasted with the gloom and despair that is the product of meeting with UK Government politicians, and this is because our approach is so different and positive. I believe that our approach is the correct one. As the EU develops, it is important that we continue to establish our own identity and status within the structure of the EU. This requires a more democratic and open approach by the UK Government, in contrast with the negative and divisive approach currently adopted. Yes, there are many challenging problems that the EU needs to resolve, but these cannot be resolved by walking away, as some would propose. Václav Havel, the former Czech President—someone who lived through a political and economic union of another type—summed up the vision of many:

Mae angen i Gymru ddatblygu ei phwyslais ei hun ar Ewrop, ac mae eisoes wedi dechrau. Rwyf wedi cael y fraint, ynghyd â Rhodri Glyn, o gynrychioli'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Mae ein Gweinidogion yn ymweld yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â diplomyddion a gwleidyddion yr UE, mae gan ein sefydliadau addysgol ganolfannau yno, ac mae angen i ni ddatblygu dull llawer mwy strategol a chydweithredol ar gyfer ein mewnbwn i Ewrop. Mae'r croeso cynnes y mae gwleidyddion Cymru yn ei dderbyn yn Ewrop yn wahanol iawn i'r digalondid a'r anobaith a geir wrth gwrdd â gwleidyddion Llywodraeth y DU, ac mae hyn oherwydd bod ein hymagwedd mor wahanol a chadarnhaol. Rwy'n credu mai ein hymagwedd ni sy'n gywir. Wrth i'r UE ddatblygu, mae'n bwysig ein bod yn parhau i sefydlu ein hunaniaeth a'n statws ein hunain o fewn strwythur yr UE. Mae hyn yn gofyn am ymagwedd fwy democrataidd ac agored gan Lywodraeth y DU, yn hytrach na'r ymagwedd negyddol ac ymrannol a fabwysiedir ar hyn o bryd. Oes, mae llawer o broblemau heriol y mae angen i'r UE i'w datrys, ond ni ellir eu datrys trwy gerdded i ffwrdd, fel y byddai rhai yn ei argymell. Mae Václav Havel, y cyn Lywydd Tsiec—rhywun sydd wedi byw drwy undeb gwleidyddol ac economaidd o fath arall—wedi crynhoi gweledigaeth llawer o bobl:

'Without dreaming of a better Europe, we shall never build a better Europe'.

Heb freuddwydio am well Ewrop, ni fyddwn byth yn adeiladu gwell Ewrop.

I would add that, unless we are part of Europe, we can never actually change Europe.

Byddwn yn ychwanegu, oni bai ein bod yn rhan o Ewrop, ni allwn ni byth mewn gwirionedd â newid Ewrop.

19:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Mark Isherwood.

Galwaf ar Mark Isherwood.

19:02 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I did not expect that. The Conservative-led UK Government has ended UK participation in the EU bailout fund, so we will never have to bail out—[Interruption.]

Diolch yn fawr. Nid oeddwn yn disgwyl hynna. Mae Llywodraeth y DU a arweinir gan y Ceidwadwyr wedi diweddu cyfranogiad y DU yng nghronfa achub gwledydd yr UE, felly ni fyddwn byth yn gorfod achub—Torri ar draws.]

19:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mark, stop. I called a Member to speak, and I could not hear the first word he said, because he was shouted down. It is unacceptable.

Mark, stopiwch. Galwais ar Aelod i siarad, ac nid oeddwn yn gallu clywed y gair cyntaf a ddywedodd, oherwydd bod gweiddi ar ei draws. Mae'n annerbyniol

19:02 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that. This Conservative-led UK Government has ended UK participation in the EU bailout fund, so we will never have to bail out other EU member states. It has vetoed a new EU treaty, because it did not safeguard our interests—the first time that a British Prime Minister has ever done so. It has secured the first ever cut in the EU's long-term budget. It has protected the British rebate, and it has introduced a referendum lock to make sure that no powers can pass from Britain to Brussels without the consent of the British and Welsh people in a referendum. The draft European Union referendum Bill goes further, seeking to legislate for an in/out referendum before the end of 2017. Conservative MPs rallied behind this in the face of Labour attempts to derail it and Liberal Democrat carping.

Diolch yn fawr iawn am hynna. Mae Llywodraeth y DU a arweinir gan y Ceidwadwyr wedi diweddu cyfranogiad y DU yng nghronfa mechnïaeth yr UE i ben, felly ni fyddwn byth yn gorfod achub aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Mae wedi rhoi feto ar gytuniad newydd yr UE, am nad oedd yn diogelu ein buddiannau—y tro cyntaf erioed i Brif Weinidog Prydain wneud hynny. Mae wedi sicrhau toriad cyntaf erioed yng nghyllideb tymor hir yr UE. Mae wedi gwarchod ad-daliad Prydain, ac mae wedi cyflwyno clo refferendwm i wneud yn siŵr na all unrhyw bwerau basio o Brydain i Frwsel heb ganiatâd pobl Prydain a Chymru mewn refferendwm. Mae Bil drafft refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yn mynd ymhellach, gan geisio deddfu ar gyfer refferendwm mewn / allan cyn diwedd 2017. Tyrrodd Aelodau Seneddol Ceidwadol y tu ôl i hyn yn wyneb ceisiadau Llafur i'w atal a chwyno'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Public disillusionment with the EU is at an all-time high. People do feel that it is heading in a direction they never signed up to. The result is that democratic consent for the EU in Britain is now wafer thin. This question mark is already there, and ignoring it will not make it go away. That is why we need a fresh settlement with the European Union.

Mae dadrithiad y cyhoedd gyda'r UE yn uwch nag erioed. Mae pobl yn teimlo ei fod yn mynd i gyfeiriad nad oeddent erioed wedi ymrwymo iddo. Y canlyniad yw bod caniatâd democrataidd i'r UE ym Mhrydain yn awr yn denau iawn. Mae'r marc cwestiwn eisoes yno, ac ni fydd ei anwybyddu ei gwneud iddo ddiflannu. Dyna pam y mae arnom angen setliad newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd.

Let us look at some of the facts. The UK has had a trade deficit with the EU every year since it joined, except in 1975. After last year, Britain is now exporting more goods to countries outside the EU than to countries inside it for the first time since joining the Common Market in the 1970s. Therefore, does anybody really, honestly believe that other member states would cease to trade with British and Welsh companies if we left or renegotiated terms with the EU, when the balance of trade between us hugely favours the EU?

Gadewch inni edrych ar rai o'r ffeithiau. Mae'r DU wedi cael diffyg masnach gyda'r UE bob blwyddyn ers iddi ymuno, ac eithrio ym 1975. Ar ôl y llynedd, mae Prydain erbyn hyn yn allforio mwy o nwyddau i wledydd y tu allan i'r UE nag i wledydd y tu mewn iddo am y tro cyntaf ers ymuno â'r Farchnad Gyffredin yn y 1970au. Felly, a oes unrhyw un mewn gwirionedd, yn onest yn credu y byddai aelod-wladwriaethau eraill yn rhoi'r gorau i fasnachu gyda chwmnïau Prydain a Chymru pe byddem yn gadael neu'n aildrafod telerau gyda'r UE, pan fo'r cydbwysedd masnach rhyngom ni'n fwy ffafriol o lawer i'r UE?

19:04 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you believe that, if we negotiated and left the EU, companies such as Tata would remain inside this country, where they have access to the European market now?

A ydych chi'n credu, pe byddem yn trafod ac yn gadael yr UE, y byddai cwmnïau fel Tata yn parhau i aros yn ein gwlad, lle maent yn cael mynediad i'r farchnad Ewropeaidd ar hyn o bryd?

19:04 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Access to the European market is absolutely key; we must protect access to the European market. I am not advocating either; I am saying that the public need to hear all the facts before it votes in a referendum. Let us hope and pray that we can have that referendum to put all of this behind us.

Mae mynediad i'r farchnad Ewropeaidd yn gwbl allweddol; mae'n rhaid i ni ddiogelu mynediad i'r farchnad Ewropeaidd. Nid siarad o blaid hynny ydwyf i ychwaith; dweud yr wyf fi bod angen i'r cyhoedd glywed yr holl ffeithiau cyn pleidleisio mewn refferendwm. Gadewch i ni obeithio a gweddïo y gallwn gael y refferendwm hwnnw er mwyn i ni roi hyn i gyd y tu ôl i ni.

We need to look at the agreement on the European economic area, which came into force in 1994 and is now between 27 EU states and the three non-EU/EEA states in the single internal market. If people vote to leave the EU—if—there are several options for an exit settlement. One of these would be for the UK to apply to join the European Free Trade Association, and, through that, to continue its membership of the European Economic Area, sometimes called the 'Norway option'.

Mae angen inni edrych ar y cytundeb ar yr ardal economaidd Ewropeaidd, a ddaeth i rym ym 1994 ac sydd bellach rhwng 27 o wladwriaethau'r UE a'r tair gwladwriaeth nad ydynt yn rhai EU/AEE yn y farchnad fewnol sengl. Os bydd pobl yn pleidleisio i adael yr UE—os—mae nifer o opsiynau ar gyfer setliad ymadael. Un o'r rhain fyddai i'r DU wneud cais i ymuno â Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop, a, thrwy hynny, parhau i fod yn aelod o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, a elwir weithiau'n 'opsiwn Norwy'.

Contrary to the assertions of diverse politicians and others, it is by no means the case that Norway has no say over EU law, nor would Britain be disadvantaged by adopting similar arrangements to Norway within the EEA/European Free Trade Association framework. Therefore, it is not true to say that Norway is without influence—

Yn groes i honiadau gwleidyddion amrywiol ac eraill, nid yw'n wir nad oes gan Norwy unrhyw lais dros gyfraith yr UE, ac ni fyddai Prydain dan anfantais drwy fabwysiadu trefniadau tebyg i Norwy o fewn y fframwaith AEE / Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop. Felly, nid yw'n wir dweud nad oes gan Norwy ddylanwad—

19:05 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

19:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. Are you giving way, Mark?

Trefn. A ydych chi'n ildio, Mark?

19:05 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I cannot see any Members who want to intervene. We are short on time, are we not?

Ni allaf weld unrhyw Aelodau sydd am ymyrryd. Rydym yn brin o amser, onid ydym?

19:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

It is up to you. Are you giving way?

Chi sydd i benderfynu. A ydych chi'n ildio ?

19:05 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I had better not, because I will be short on time. It is not true to say that Norway is without influence over the making of its own trading rules. Rather than reflecting reality, there is a strong element of political propaganda when these points are made. In fact, Norway's State Secretary for the Ministry of Local Government and Regional Development has disagreed with the claim that Norway had no influence over EU law, saying:

Byddai'n well imi beidio, oherwydd bod amser yn brin. Nid yw'n wir i ddweud nad oes gan Norwy ddylanwad dros wneud ei rheolau masnachu ei hun. Yn hytrach nag adlewyrchu'r gwirionedd, ceir elfen gref o bropaganda gwleidyddol pan wneir y pwyntiau hyn. Mewn gwirionedd, mae Ysgrifennydd Gwladol Norwy dros y Weinyddiaeth Llywodraeth Leol a Datblygu Rhanbarthol wedi anghytuno â'r honiad nad oedd gan Norwy unrhyw ddylanwad dros gyfraith yr UE, gan ddweud:

'It is true that we are not there when they vote...but we do get to influence the position'.

Mae'n wir nad ydym yno pan fyddant yn pleidleisio ... ond rydym yn gallu dylanwadu ar y sefyllfa.

Explaining the facts of international relations, she said that most of the politics is done long before a new law gets to the voting stage. In fact, Norway has considerable influence, far greater than that exerted by individual EU member states, which more than compensates for the notional lack of influence within EU institutions. That came from a member of the Norwegian Government—[Interruption.] You think that the Norwegian Government's self-governance is funny, do you? I am very fond of Norway; I think that it is a wonderful country. [Laughter.]

Gan esbonio ffeithiau cysylltiadau rhyngwladol, dywedodd fod y rhan fwyaf o'r gwaith gwleidyddol yn cael ei wneud ymhell cyn i gyfraith newydd gyrraedd y cyfnod pleidleisio. Mewn gwirionedd, mae gan Norwy gryn ddylanwad, llawer mwy na'r hyn sydd gan aelod-wladwriaethau unigol yr UE, sydd yn fwy na gwneud iawn am y diffyg tybiannol o ddylanwad o fewn sefydliadau'r UE. Daeth hynny oddi wrth aelod o Lywodraeth Norwy—[Torri ar draws.] Rydych chi'n meddwl bod hunan-lywodraethu Llywodraeth Norwy yn ddoniol, ydych chi? Rwyf i'n hoff iawn o Norwy; rwy'n meddwl ei bod yn wlad wych. [ Chwerthin.]

19:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order, order. I cannot hear the Member again and I want to hear his concluding remarks in his last minute.

Trefn, trefn. Ni allaf glywed yr Aelod eto ac rwy'n awyddus i glywed ei sylwadau i gloi yn ei funud olaf.

19:06

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Bear in mind that the majority of people in Wales said that, if there were a referendum now, they would vote to come out. I would not laugh at them. If you have a case to make, put it to them objectively and factually. Do not laugh at them.

Cofiwch fod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn dweud, pe byddai refferendwm yn awr, y byddent yn pleidleisio i ddod allan. Ni fyddwn yn chwerthin ar eu pennau. Os oes gennych achos i'w wneud, cyflwynwch ef iddynt yn wrthrychol ac yn ffeithiol. Peidiwch â chwerthin ar eu pennau.

In terms of agricultural subsidies, we had them before the EU and we should have them if we ever left. I am not advocating that we leave; I am advocating facts. Oh, and by the way, the European Court of Human Rights is not an EU institution, and fascism is a socialist ideology. [Laughter.]

O ran cymorthdaliadau amaethyddol, roeddem yn eu cael cyn yr UE a dylem eu cael eto os byddwn yn gadael ar unrhyw bryd. Nid wyf yn argymell ein bod yn gadael; rwy'n argymell ffeithiau. O, a gyda llaw, nid yw Llys Hawliau Dynol Ewrop yn sefydliad yr UE, ac mae ffasgiaeth yn ideoleg sosialaidd. [ Chwerthin.]

19:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order, order. This is an important debate and it risks being reduced to parody. [Laughter.] That was not meant to be funny. I call on the First Minister to reply to the debate.

Tref, trefn. Mae hon yn ddadl bwysig ac mae perygl iddi fynd yn barodi. [ Chwerthin. Nid oedd hynna i fod yn ddoniol. Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

19:07

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am surprised to hear fascism described as a socialist ideology. 'The Daily Mail'—that well known socialist newspaper—was very supportive of the blackshirts in the 1930s, and somehow to suggest that those who fought hard to create the welfare state in Britain after the war years are, in some way, associated with Hitler, which is what the conclusion of what Mark Isherwood has just said is, is extremely offensive, and redolent of what Churchill said, that somehow Clement Attlee—that well-known demagogue—was going to create a Gestapo in Britain.

Rwy'n synnu i glywed ffasgiaeth yn cael ei ddisgrifio fel ideoleg sosialaidd. Roedd 'The Daily Mail'—y papur newydd sosialaidd adnabyddus hwnnw—yn gefnogol iawn i'r crysau duon yn y 1930au, a rhywsut mae awgrymu bod y rhai a frwydrodd yn galed i greu'r wladwriaeth les ym Mhrydain ar ôl y rhyfel, mewn rhyw ffordd, yn gysylltiedig â Hitler, sef casgliad yr hyn y mae Mark Isherwood newydd ei ddweud, yn hynod o sarhaus, ac yn ein hatgoffa o'r hyn a ddywedodd Churchill, bod Clement Attlee—y demagog adnabyddus hwnnw— rhywsut yn mynd i greu Gestapo ym Mhrydain.

I had hoped that the debate would be a sensible debate. Mark Isherwood made some sensible points, but, nevertheless, he spoilt it a little at the end. He does say that Norway has influence over the EU. Is that in the same way as the Republic of Ireland has influence over the UK? It has no influence at all over the way that the UK determines its policy. Norway is governed by what it has itself called 'fax diplomacy'. In other words: these are the rules and regulations that you want to export to us; these are the rules that you have to follow. That is exactly where the UK would be. Those who argue that the EU is over burdensome in terms of regulation have to remember that, if the UK was not a Member of the EU, those regulations would still be there, but the UK would have no role at all in determining those regulations.

Roeddwn wedi gobeithio y byddai'r ddadl yn ddadl synhwyrol. Gwnaeth Mark Isherwood rai pwyntiau synhwyrol, ond, serch hynny, fe aeth ar gyfeiliorn braidd ar y diwedd. Mae e'n dweud bod gan Norwy ddylanwad dros yr UE. A yw hynny yn yr un ffordd ag y mae gan Weriniaeth Iwerddon ddylanwad dros y DU? Nid oes ganddi unrhyw ddylanwad o gwbl dros y ffordd y mae'r DU yn penderfynu ar ei pholisi. Mae Norwy yn cael ei llywodraethu gan yr hyn y mae hi ei hun wedi'i alw'n 'ddiplomyddiaeth ffacs'. Mewn geiriau eraill: dyma'r rheolau a'r rheoliadau yr ydych yn dymuno eu hallforio i ni; dyma'r rheolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn. Dyna'n union lle y byddai'r DU. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n dadlau bod yr UE yn or-feichus o ran rheoliadau gofio, pe na byddai'r DU yn Aelod o'r UE, byddai'r rheoliadau hynny yn dal i fod yno, ond ni fyddai gan y DU unrhyw swyddogaeth o gwbl mewn penderfynu ar y rheoliadau hynny.

I listened to what three Conservative speakers had to say, and forgive me if I focus a bit heavily on them. Not one of them gave us an idea of what they would seek to renegotiate. Unless we can understand what they say should be no longer within the purview of the EU, it is very difficult to understand what their position actually is. It has been suggested somehow that farmers are in a position where they would benefit from not being members of the EU. I just cannot see that. Farming in Wales has between £200 million and £300 million, according to how you count it, of European money. I can guarantee this Chamber that the UK Government would not make that money up if that money was not made available through the European Union, nor would our farmers be able to automatically export their produce to the European Union.

Gwrandewais ar yr hyn oedd gan dri siaradwr Ceidwadol i'w ddweud, a maddeuwch i mi os byddaf yn canolbwyntio braidd yn drwm arnynt. Nid oes yr un ohonynt yn rhoi syniad i ni o'r hyn y byddent yn ceisio ei aildrafod. Oni allwn ni ddeall yr hyn y maent yn ei ddweud na ddylai fod o fewn cymalau'r UE, mae'n anodd iawn deall beth yw eu safbwynt mewn gwirionedd. Mae wedi cael ei awgrymu bod ffermwyr rywsut mewn sefyllfa lle y byddent yn elwa ar beidio â bod yn aelodau o'r UE. Ni allaf yn fy myw weld hynny. Mae ffermio yng Nghymru yn cael rhwng £200 miliwn a £300 miliwn, yn dibynnu ar sut yr ydych yn ei gyfrif, o arian Ewropeaidd. Gallaf sicrhau'r Siambr hon na fyddai Llywodraeth y DU yn rhoi'r arian hwnnw i ni pe na byddai'r arian ar gael drwy'r Undeb Ewropeaidd, ac ni fyddai ein ffermwyr yn gallu allforio eu cynnyrch yn awtomatig i'r Undeb Ewropeaidd ychwaith.

Antoinette Sandbach was fond of using British statistics; let me use Welsh statistics: more than 40% of our companies export to the EU. That is a stark reminder of how important the EU is to the Welsh economy, and, after all, this is the Chamber of the National Assembly for Wales.

Roedd Antoinette Sandbach yn hoff o ddefnyddio ystadegau Prydain; gadewch i mi ddefnyddio ystadegau Cymru: mae mwy na 40% o'n cwmnïau yn allforio i'r UE. Mae hynny'n ein hatgoffa o ba mor bwysig yw'r UE i economi Cymru, ac, wedi'r cyfan, Siambr Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hon.

It is also important to emphasise that we have in Wales a number of large manufacturers who I believe—and I put it this starkly—would leave in time if we were not members of the EU: Tata Steel, Ford, in my own constituency, and Airbus. Why on earth would they stay in the UK when they could go to Hungary, eastern Europe, France or Germany? Why on earth would they come to the UK? What is the advantage to them if they cannot export freely to the rest of the European Union?

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod gennym yng Nghymru nifer o weithgynhyrchwyr mawr yr wyf yn credu—ac rwy'n ei roi'n ddi-flewyn ar dafod—a fyddai'n gadael mewn amser os na fyddem yn aelodau o'r UE: Tata Steel, Ford, yn fy etholaeth fy hun, ac Airbus. Pam ar y ddaear y byddent yn aros yn y DU pan allent fynd i Hwngari, dwyrain Ewrop, Ffrainc neu'r Almaen? Pam ar y ddaear y byddent yn dod i'r DU? Beth yw'r fantais iddynt os na allant allforio yn rhydd i weddill yr Undeb Ewropeaidd?

Antoinette Sandbach complained about the criticism of a referendum. One of the greatest acts in terms of relinquishing of sovereignty that the UK ever did was the Single European Act after the Treaty of Maastricht. That was something that was taken through by Margaret Thatcher. There was no referendum then—I do not recall there being any talk of a referendum at that point; the Conservatives were allergic to referendums at that moment in time.

Cwynodd Antoinette Sandbach am feirniadu cynnal refferendwm. Un o'r prif weithredoedd o ran ildio sofraniaeth a wnaeth y DU erioed oedd y Ddeddf Ewropeaidd Sengl ar ôl Cytuniad Maastricht. Dyna rywbeth a weithredwyd gan Margaret Thatcher. Nid oedd unrhyw refferendwm bryd hynny—nid wyf yn cofio unrhyw sôn am refferendwm ar yr adeg honno; roedd gan y Ceidwadwyr alergedd i refferenda ar yr amser penodol hwnnw.

19:10

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Labour promised a referendum to the British people in its election manifesto, and never gave one.

Addawodd y blaid Lafur refferendwm i bobl Prydain yn ei maniffesto etholiad, ac ni chafwyd hynny.

19:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That was over a treaty that no longer has any force. The point is that your party never allowed a referendum in the early 1990s on the Maastricht treaty, which is something far more fundamental. Now, all of a sudden, the party opposite is all in favour of referendums.

Roedd hynny yn ymwneud â chytuniad nad oes ganddo unrhyw rym bellach. Y pwynt yw na wnaeth eich plaid chi ganiatáu refferendwm yn gynnar yn y 1990au ar gytuniad Maastricht, ac mae hynny'n rhywbeth llawer mwy sylfaenol. Nawr, yn sydyn, mae'r blaid gyferbyn yn gefnogol iawn i refferenda.

Turning to Byron Davies, the irrelevance was surpassed by the illogicality of what he said. He said that this is not an important debate, and that it is irrelevant—this coming from a member of a party that is completely, rabidly, intensely and insanely obsessed with Europe at the expense of dealing with other issues. We have seen the Conservative party almost torn apart by its own internal tensions over Europe. For it to deny that is to deny the reality that we have seen. The party cannot deny that there are tensions within its party over Europe, and I find it very hard to believe when you say that this is an irrelevant issue.

Gan droi at Byron Davies, rhagorwyd ar ba mor amherthnasol oedd yr hyn a ddywedodd gan ba mor afresymegol yr oedd. Dywedodd nad oedd hon yn ddadl bwysig, a'i bod yn amherthnasol—a hyn gan aelod o blaid sydd ag obsesiwn llwyr, rhonc, dwys a gwallgof ag Ewrop ar draul ymdrin â materion eraill. Rydym wedi gweld y blaid Geidwadol bron wedi'i rhwygo gan ei thensiynau mewnol ei hun dros Ewrop. Os yw'n gwadu hynny mae'n gwadu'r gwirionedd yr ydym wedi ei weld. Ni all y blaid wadu bod tensiynau oddi mewn iddi ynglŷn ag Ewrop, ac rwy'n ei chael hi'n anodd iawn credu'r hyn yr ydych yn ei ddweud pan eich bod yn dweud bod hwn yn fater amherthnasol.

Byron Davies then goes on to say that what is needed is to change the EU. Fair point—but you do not change something by leaving it. The point is that you stay in and work hard to change an institution from within; you do not try to renegotiate your own terms of membership. I believe in changing the UK—I do not believe in leaving it. Here we come back to what I call the 'Melding paradox', with respect to you, Dirprwy Lywydd, because you raised it in this Chamber. That is: how can you be in favour of leaving one union and staying in the other? That applies to the benches on both sides of this Chamber. I believe in both of the unions that Wales is a member of, and their benefit to Wales economically, socially and culturally. Byron Davies said—and this was an astonishing thing to say—that the people of Wales have had 'no benefit' from membership of the EU. Say that to our farmers, who would be destitute, frankly, if they did not have European money. Say that to Tata Steel and Ford in the area that he represents, which are here because of the access to European markets. Say it to Swansea University, which is building a new engineering campus with European money. Say it to the people of Port Talbot. The Harbour Way project in Port Talbot is being built partially through European money. Those are a handful of projects. To say that the people of Wales have not benefited at all from membership of the European Union is one of the most preposterous things that I have heard. You can debate how much the benefit has been, but to say that there has been none I find absolutely incredible. I am sure that the farmers of Wales are sitting staring open-mouthed at their televisions, if they can actually see this, after the comments that he made. [Interruption.] If he wants to intervene, he is very much welcome to; I invite him.

Mae Byron Davies wedyn yn mynd ymlaen i ddweud mai'r hyn sydd ei angen yw newid yr UE. Pwynt teg—ond nid ydych yn newid rhywbeth drwy ei adael. Y pwynt yw eich bod yn aros i mewn ac yn gweithio'n galed i newid sefydliad o'r tu mewn; nid ydych yn ceisio ail-drafod eich telerau aelodaeth eich hunain. Rwy'n credu mewn newid y DU—nid wyf yn credu mewn ei gadael. Rydym yn dod yn ôl yn y fan yma at yr hyn a alwaf y 'paradocs Melding', gyda pharch atoch chi, Ddirprwy Lywydd, oherwydd eich bod wedi ei godi yn y Siambr hon. Hynny yw: sut y gallwch chi fod o blaid gadael un undeb ac aros yn y llall? Mae hynny'n berthnasol i'r meinciau ar y ddwy ochr i'r Siambr hon. Rwy'n credu yn y ddau undeb y mae Cymru yn aelod ohonynt, ac yn eu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i Gymru. Dywedodd Byron Davies—ac roedd hwn yn beth syfrdanol i'w ddweud—nad yw pobl Cymru wedi cael 'unrhyw fudd' o'n haelodaeth o'r UE. Dywedwch hynny wrth ein ffermwyr, a fyddai ar y clwt, a dweud y gwir, pe na byddai'r arian Ewropeaidd ganddynt. Dywedwch hynny wrth Tata Steel a Ford yn yr ardal y mae'n ei chynrychioli, sydd yma oherwydd y mynediad i farchnadoedd Ewropeaidd. Dywedwch hynny wrth Brifysgol Abertawe, sy'n adeiladu campws peirianneg newydd gydag arian Ewropeaidd. Dywedwch hynny wrth bobl Port Talbot. Mae'r prosiect Ffordd yr Harbwr ym Mhort Talbot yn cael ei adeiladu'n rhannol drwy arian Ewropeaidd. Dyrnaid o brosiectau yw'r rhain. Mae dweud nad yw pobl Cymru wedi elwa o gwbl o'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn un o'r pethau mwyaf hurt yr wyf wedi ei glywed. Gallwch drafod maint y budd, ond mae dweud na fu unrhyw fudd o gwbl yn hollol anhygoel i mi. Rwy'n siŵr bod ffermwyr Cymru yn eistedd yn syllu'n gegrwth ar eu setiau teledu, os allant mewn gwirionedd weld hyn, ar ôl y sylwadau a wnaeth. [ Torri ar draws.] Os yw'n dymuno ymyrryd, mae croeso iddo wneud hynny; rwy'n estyn gwahodd iddo.

19:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You need to wind up now.

Mae'n rhaid i chi derfynu yn awr

19:13

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thought that he would not do that. I thought that he would not decide to intervene to try to defend his own weak arguments. An argument that is often used, although it was not raised particularly in the Chamber this afternoon, is that leaving the EU would mean that Britain would be able to police its borders better. Britain has a large land border that is unpoliceable, and that is the border between the UK and the Republic of Ireland. We are not an island, at the end of the day. That border could not be policed at the height of the security situation in the early 1970s, so to somehow suggest that the borders could be sealed—which no-one did in this Chamber today, but I have heard it said outside—is preposterous.

Roeddwn i'n amau na fyddai'n gwneud hynny. Roeddwn i'n amau na fyddai'n penderfynu ymyrryd i geisio amddiffyn ei ddadleuon gwan ei hun. Dadl a ddefnyddir yn aml, er na chafodd ei chodi yn benodol yn y Siambr y prynhawn yma, yw y byddai gadael yr UE yn golygu y byddai Prydain yn gallu plismona ei ffiniau yn well. Mae gan Brydain ffin fawr ar y tir na ellir ei phlismona, a honno yw'r ffin rhwng y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Nid ynys ydym ni, yn y pen draw. Ni ellid plismona'r ffin honno ar anterth y sefyllfa ddiogelwch yn y 1970au cynnar, felly mae awgrymu rhywsut y gallai'r ffiniau gael eu selio—na wnaed gan unrhyw un yn y Siambr hon heddiw, ond yr wyf wedi ei glywed yn cael ei ddweud y tu allan—yn chwerthinllyd.

I will finish, because I see the time, Dirprwy Lywydd. Perhaps the most astounding thing that I heard in the Chamber today—among important points, some of which I did not agree with, but they had force—was the suggestion from Byron Davies that, in the referendum in 2017, the Welsh result should be concealed from public view, and that, somehow, the people of Wales should not know what the result is in Wales. It seemed to me that he was saying that every attempt should be made that the result in Wales should not be known to the people of Wales. Of course, we are part of the United Kingdom—it is a UK result—but he seemed to be saying that the people of Wales should have no idea how their own constituencies, counties and Wales itself had voted. That is what said. I thought that the suggestion that the result should be concealed was absolutely astounding.

Rwyf am orffen, gan fy mod yn gweld yr amser, Ddirprwy Lywydd. Efallai mai'r peth mwyaf syfrdanol i mi ei glywed yn y Siambr heddiw—ymhlith pwyntiau pwysig, rhai ohonynt nad oeddwn yn cytuno â hwy, ond roedd grym iddynt—oedd yr awgrym gan Byron Davies y dylai canlyniad Cymru, yn y refferendwm yn 2017, gael ei guddio o olwg y cyhoedd, a, rhywsut, na ddylai pobl Cymru gael gwybod beth oedd y canlyniad yng Nghymru. Roedd yn ymddangos i mi ei fod yn dweud y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau na fyddai'r canlyniad yng Nghymru yn hysbys i bobl Cymru. Wrth gwrs, rydym yn rhan o'r Deyrnas Unedig—canlyniad y DU ydyw—ond roedd yn ymddangos ei fod yn dweud na ddylai pobl Cymru gael unrhyw syniad am sut yr oedd eu hetholaethau a'u siroedd eu hunain a Chymru ei hun wedi pleidleisio. Dyna a ddywedodd. Roeddwn i'n meddwl bod yr awgrym y dylai'r canlyniad gael ei guddio yn gwbl syfrdanol.

Wales benefits mightily from its membership of the European Union. That is accepted by most parties in the Chamber. It is a shame that the debate from some quarters was not of as high a quality as it might have been.

Mae Cymru'n elwa'n fawr o'i haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhan fwyaf o bleidiau yn y Siambr yn derbyn hynny. Mae'n drueni nad oedd y ddadl o rai rhannau o ansawdd mor uchel ag y gallai fod.

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

19:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

May I say to all Members that you are at your best when you are at your most generous? It is not generous to loosely use terms like neo-fascist and fascist. If those terms are ever used to describe a Member or a party in the Chamber, I can assure you that the response from the chair would be severe.

A gaf fi ddweud wrth bob Aelod eich bod ar eich gorau pan ydych ar eich mwyaf haelfrydig? Nid yw'n haelfrydig i ddefnyddio termau fel neo-ffasgaidd a ffasgaidd yn ddifeddwl. Os bydd y termau hynny byth yn cael eu defnyddio i ddisgrifio Aelod neu barti yn y Siambr, gallaf eich sicrhau y byddai'r ymateb gan y cadeirydd yn ddifrifol.

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidleisio ar yr eitem hon hyd y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Before I take the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gymryd y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5364.]

[Result of the vote on motion NDM5364.]

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Motion agreed: For 46, Against 0, Abstain 10.*

| | |
|---|---|
| Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5342. | Result of the vote on motion NDM5342. |
| *Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 1, Yn erbyn 55, Ymatal 0.* | *Motion not agreed: For 1, Against 55, Abstain 0.* |
| Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5367. | Result of the vote on motion amendment 1 to motion NDM5367. |
| *Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 43, Ymatal 0.* | *Amendment not agreed: For 13, Against 43, Abstain 0.* |
| Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5367. | Result of the vote on motion amendment 2 to motion NDM5367. |
| *Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 1.* | *Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 1.* |
| Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5367. | Result of the vote on motion amendment 3 to motion NDM5367. |
| *Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 2.* | *Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 2.* |
| Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5367. | Result of the vote on motion amendment 4 to motion NDM5367. |
| *Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 3.* | *Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 3.* |
| Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5367. | Result of the vote on motion amendment 5 to motion NDM5367. |
| *Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 1.* | *Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 1.* |
| Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5367. | Result of the vote on motion amendment 6 to motion NDM5367. |
| *Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 7, Ymatal 0.* | *Amendment agreed: For 45, Against 7, Abstain 0.* |
| Cynnig NDM5367 fel y'i diwygiwyd: | Motion NDM5367 as amended: |
| Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru: | To propose that the National Assembly for Wales: |
| *Yn croesawu cydweithrediad Cymru ag Europol ac Eurojust, a'i gallu i ddefnyddio'r Warant Arestio Ewropeaidd fel arf, i ddiogelu dinasyddion Cymru rhag troseddau.* | *Welcomes Wales' cooperation with Europol and Eurojust, and ability to utilise the European Arrest Warrant as a tool, in order to protect Welsh citizens from crime.* |
| *Yn croesawu rôl yr UE yn diogelu ein hamgylchedd fel arweinydd byd wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a llygredd trawsffiniol, a phwysigrwydd y cydymrwymiadau allweddol yn nhargedau 20-20-20 i wella effeithlonrwydd ynni, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu'r gyfran o'r ynni a ddefnyddir yn yr UE sy'n cael ei chynhyrchu o adnoddau adnewyddadwy.* | *Welcomes the EU's role in protecting our environment as a world leader in combating climate change and cross-border pollution, and the importance of the key collective commitments within the 20-20-20 targets to improve energy efficiency, reduce greenhouse gas emissions and raise the share of EU energy consumption produced from renewable resources.* |

*Yn nodi bod 160,000 o swyddi Cymru yn dibynnu ar y DU yn aros yn aelod o'r UE; bod Cymru'n elwa o £144 miliwn y flwyddyn o fod yn aelod o'r UE; a bod dros 10,000 o gwmnïau yng Nghymru yn masnachu gyda gwledydd eraill yn yr UE bob blwyddyn, sy'n dangos pwysigrwydd cael mynediad i'r farchnad sengl a threfniadau masnach rydd yr UE gyda thrydydd partïon ar gyfer swyddi a'r economi yng Nghymru.*

*Notes that 160,000 Welsh jobs depend on the UK's continued membership of the EU; that Wales is a net beneficiary of EU membership of £144 million per year; and that there are over 10,000 Welsh companies which trade with other EU countries per year, demonstrating the importance of access to the single market and the EU's free trade agreements with third parties for jobs and the economy in Wales.*

Yn cydnabod y manteision i Gymru pe bai'r Deyrnas Unedig yn parhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd sy'n cynnwys gwneud Cymru yn wlad fwy llewyrchus, mwy cynaliadwy a mwy diogel.

Recognises the benefits to Wales of the UK's continued membership of the EU which includes making Wales a more prosperous, sustainable and secure place.

*Yn credu, os bydd refferendwm yn cael ei gynnal ynghylch a ddylai'r DU aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, y dylai canlyniad Cymru gyfan gael ei gofnodi ar wahân.*

*Believes that in the event of a referendum on the UK's continued membership of the European Union the all-Wales result should be recorded separately.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5367 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5367 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5367 fel y'i diwygiwyd: O blaid 44, Yn erbyn 3, Ymatal 5.*

*Motion NDM5367 as amended agreed: For 44, Against 3, Abstain 5.*

19:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.